Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru

2025-26













llyw.cymru

Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Paratoir cyfrifon Llywodraeth Cymru yn unol ag Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026, ynghyd â Thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru arnynt.

Fe'u gosodir gerbron Senedd Cymru yn unol ag Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026, o dan Lywodraeth Cymru a ffurfiwyd yn dilyn etholiad y Senedd yn 2021. Fe'i cyhoeddir ar ôl cynnal etholiad y Senedd ym mis Mai 2026 a ffurfio Llywodraeth newydd yng Nghymru.

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54775, ISBN digidol 978-1-80853-803-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Trosolwg gan yr Ysgrifennydd Parhaol



Dr Andrew Goodall CBE
Yr Ysgrifennydd Parhaol

Pleser yw cyflwyno fy mhumed set o gyfrifon cyfunol ar ran Llywodraeth Cymru. Maent yn cwmpasu blwyddyn ariannol 2025-26, a oedd yn perthyn yn ei chyfanrwydd i gyfnod y Llywodraeth a ffurfiwyd ar ôl etholiad y Senedd yn 2021. Daeth Llywodraeth Cymru newydd i rym yn dilyn etholiad y Senedd ym mis Mai 2026, cyn i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi. Felly, mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu ein sefyllfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26. Mae'n bosibl na fydd yn adlewyrchu cyfeiriad polisi'r llywodraeth nesaf. Dylid ei ddarllen yn y cyd-destun hwnnw.

Roedd y cyfnod hwn yn flwyddyn arwyddocaol o gyflawni i'r Gwasanaeth Sifil yn sefydliadol, ac rwy'n falch o allu dweud ein bod wedi parhau i reoli ein sefyllfa ariannol o fewn y gyllideb y pleidleisiwyd arni yn y Senedd gyda disgyblaeth broffesiynol barhaus ar draws adrannau.

Cafodd y llwyddiant sefydliadol hwn ei adlewyrchu hefyd yng nghanlyniadau ein Harolwg Staff. Rydym wedi gweld cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn ein sgôr ymgysylltu, sy'n dangos bod ein staff yn parhau i deimlo'n ymrwymedig ac yn gysylltiedig â'r sefydliad, gydag ymdeimlad cryf o bwrpas, balchder yn eu gwaith a chysondeb clir â blaenoriaethau ein sefydliad. Mae meincnodi yn erbyn yr 20 prif adran yn Whitehall a'r gweinyddiaethau datganoledig yn dangos ein bod yn gyntaf mewn wyth o'r naw thema, ac yn ail yn y thema arall. Un o'r darnau pwysicaf o adborth y gallwn ei gael yw'r adborth gan ein staff ein hunain, ac mae canlyniadau 2025 yn rhoi darlun cadarnhaol iawn.

Rwy'n hynod falch o'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni y flwyddyn hon, gan gyflawni'n gyson yn erbyn ein swyddogaethau craidd a'n cyfrifoldebau statudol. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb am y gwaith caled, yr ymroddiad a'r proffesiynoldeb a ddangoswyd wrth wneud gwahaniaeth go iawn. Gwyddom fod newid o'n blaenau, ond rwyf yn obeithiol ac yn hyderus ynghylch dyfodol ein sefydliad – dyfodol sy'n cael ei lywio gan god y Gwasanaeth Sifil a'n gwerthoedd craidd sef Proffesiynoldeb, Tegwch, Uniondeb a Chreadigrwydd.

Dr Andrew Goodall CBE
Ysgrifennydd Parhaol

Llun: © John Wellings

Cyflwyniad gan Gadeirydd Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru (ARAC) yn rhoi cymorth a chyngor i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar faterion sy'n ymwneud â rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethiant, a chyfarfu bum gwaith yn ystod 2025-26. Roeddwn hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â'r Prif Swyddog Cyfrifyddu, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Pennaeth Archwilio Mewnol, uwch-swyddogion a chadeiryddion annibynnol Byrddau Sicrwydd y Grwpiau ar nifer o faterion er mwyn helpu i lywio rhaglen waith yr ARAC.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â phortffolio heriol ac amrywiol o gyfrifoldebau, gan gynnwys rhoi cymorth i Weinidogion, datblygu cyngor polisi cadarn, drafftio deddfwriaeth Cymru, goruchwylio a chefnogi amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus datganoledig, bodloni gofynion statudol a darparu rhai gwasanaethau cyhoeddus yn uniongyrchol. Mae'n gweithredu mewn amgylchedd gwleidyddol cymhleth, ac yng nghyd-destun pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus y DU a Chymru. Mae llywodraethiant da yn ganolog i allu Llywodraeth Cymru i weithredu'n gyflym ac yn ddiogel, a chan roi sylw dyladwy i briodoldeb, rheoleidd-dra a'r angen i sicrhau gwerth da am arian.

Felly, testun pryder i mi yw nodi eto, am yr ail flwyddyn yn olynol, fod y Pennaeth Archwilio Mewnol o'r farn bod angen rhoi barn sicrwydd flynyddol 'hollt'. Fel yr esbonnir yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar dudalen 95, rhoddwyd barn sicrwydd 'resymol' (fel mewn blynyddoedd blaenorol) ar y trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar lefel y grwpiau. Fodd bynnag, ar lefel y sefydliad, mae dibyniaeth Llywodraeth Cymru ar 'hen' systemau TG corfforaethol sydd â gallu cyfyngedig i ryngweithredu yn effeithio ar ddigonolrwydd a dibynadwyedd gwybodaeth reoli. Felly, dim ond barn sicrwydd 'gyfyngedig' y gellid ei rhoi unwaith eto ar y trefniadau ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrosesau a systemau corfforaethol.

Mae'r ARAC wedi nodi'r gwaith y mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi'i wneud hyd yma a bydd yn parhau i gadw golwg ar y rhaglen 'Trawsnewid Systemau Corfforaethol' y bwriedir iddi liniaru'r risgiau a nodwyd i systemau Adnoddau Dynol, Cyllid a Grantiau, gan gynnwys cefnogi prosesau busnes. Mae'n amlwg inni y bydd angen buddsoddiad sylweddol yng nghyd-destun amgylchedd ariannol heriol dros y blynyddoedd sydd i ddod er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn wrth i'r amrywiol 'hen' systemau corfforaethol nesáu at ddiwedd eu hoes weithredol.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Ysgrifennydd Parhaol, fy nghyd-Gyfarwyddwyr Anweithredol ac aelodau'r ARAC, holl swyddogion Llywodraeth Cymru, yr archwilwyr a'r ysgrifenyddiaeth am eu cymorth â gwaith yr ARAC a Byrddau Sicrwydd y Grwpiau.

Mike Usher CPFA
Aelod Anweithredol o Fwrdd Llywodraeth Cymru a Chadeirydd ARAC

Cynnwys

Beth sydd yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon: Cipolwg 6
Trosolwg o Adroddiadau Llywodraeth Cymru 7

Adroddiad ar Berfformiad

Pwy ydym ni

Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru 8
Y Cabinet 10
Y Gwasanaeth Sifil 11

Beth rydym yn ei wneud

Y Rhaglen Lywodraethu 12
Cyflawni ein Hymrwymiad i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 13
Rheoli ein Rhaglen Ddeddfwriaethol 17
Gweinyddu Cyllid Grant 22
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru 27
Y Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau 28
Grŵp yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth 32
Y Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg 36
Y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar 40
Y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig 42
Uned Strategaeth Llywodraeth Cymru 45

Sut rydym yn cael ein cyllido a sut rydym yn gwario'r cyllid

Llifoedd Cyllido Llywodraeth Cymru 47
Polisi Trethi Llywodraeth Cymru a Rhagolygon Cyllidol 48
Benthyca Gweinidogion Cymru 48
Cyd-destun Ariannol Llywodraeth Cymru 48
Prif Feysydd Gwariant Llywodraeth Cymru 49
Datganiad Llywodraeth Cymru o'r Sefyllfa Ariannol 52
Ffin Gyfrifyddu Llywodraeth Cymru 53
Perthynas Cyfrifon Llywodraeth Cymru ag adrodd ariannol y sector cyhoeddus ehangach 57

Sut rydym yn perfformio

Adroddiadau Perfformiad Llywodraeth Cymru 59
Mewnwelediad Staff 70

Sut rydym yn trefnu ein hunain i gyflawni

Llywodraeth Cymru 2025 (gan gynnwys Diwygio'r Senedd a Deallusrwydd Artiffisial) 75
Newid Hinsawdd – Ystad Llywodraeth Cymru ac adroddiadau ar gynaliadwyedd 80
Ein hymrwymiad i degwch a chynhwysiant 83
Gweithio'n ddwyieithog 88
Gohebiaeth a chwynion 89

Adroddiad Atebolrwydd

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 93
Datganiad Llywodraethiant 95
Colledion, Taliadau Arbennig a Rhoddion 132
Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff 2025-26 135
Crynodeb o'r Alldro Adnoddau 157
Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd 166

Datganiadau Ariannol

Datganiad Cyfunol o Wariant Net Cynhwysfawr 173
Datganiad Cyfunol o'r Sefyllfa Ariannol 174
Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian Parod 176
Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 178
Nodiadau i'r Cyfrifon 180
Atodiad A – Polisïau Cyfrifyddu 227

Beth sydd yn yr adroddiad a'r cyfrifon: Cipolwg

Dyma Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26. Mae'n ymdrin â chyfnod y Llywodraeth Cymru flaenorol, cyn etholiad y Senedd ym mis Mai 2026. Mae'n rhoi darlun manwl o sut y gwnaethom reoli ein cyllid a chyflawni ein rhwymedigaethau statudol ac mae'n rhoi cipolwg ar Lywodraeth Cymru fel sefydliad drwy gydol y flwyddyn. Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru[1] yw'r cyfrwng ar gyfer y Rhaglen Lywodraethu, sydd i'w gweld ar wefan yr Archifau Gwladol.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae tair rhan benodol i'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

Yr Adroddiad Perfformiad

Mae'r Adroddiad Perfformiad yn ymdrin â Llywodraeth Cymru fel sefydliad. Er hwylustod, mae wedi'i rannu ymhellach fel a ganlyn:

Pwy ydym ni sy'n rhoi trosolwg o'n cyfrifoldebau, gwybodaeth am y ddeddfwriaeth ategol a gwybodaeth am aelodau'r Cabinet ac uwch-arweinwyr y Gwasanaeth Sifil.

Beth rydym yn ei wneud sef sut y cefnogir y Gweinidogion i gyflawni amcanion polisi, a gweithgareddau i ymgorffori themâu trawsbynciol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r adran hon yn manylu ar ein gweithgarwch deddfwriaethol drwy gydol y flwyddyn, a'n gweithgarwch rheoli grantiau, ac yn rhoi diweddariad terfynol ar Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae hefyd yn cynnwys sylwebaeth y Grwpiau, lle mae pob Grŵp yn tynnu sylw at ei brif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn.

Sut rydym yn cael ein cyllid a sut rydym yn ei wario sef amlinelliad o'n polisi treth, benthyca a phrif feysydd gwario. Mae'r adran hon hefyd yn ymdrin â ffiniau cyfrifyddu ac yn cynnwys naratif sy'n esbonio'r cyd-destun ariannol rydym yn gweithredu ynddo.

Sut rydym yn perfformio, adran sy'n ymdrin â'r ffordd rydym yn bwrw ymlaen â Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru ac sy'n rhoi mewnwelediadau am y gweithlu, gan gynnwys sut rydym yn rheoli ein pobl.

Sut rydym yn trefnu ein hunain i gyflawni sef cyfres eang o ddiweddariadau, o Lywodraeth Cymru 2025 ac adroddiadau ar gynaliadwyedd, hyd at ein hymrwymiad i degwch a chynhwysiant a gweithio'n ddwyieithog. Ceir hefyd ddiweddariad ar ein proses gwynion.

Yr Adroddiad Atebolrwydd

Mae'r rhan hon o'r Adroddiad a'r Cyfrifon yn rhoi gwybodaeth am dâl Gweinidogion ac uwch-aelodau o'r staff ac yn rhoi trosolwg o alldro ariannol Llywodraeth Cymru yn erbyn y gyllideb y pleidleisiwyd arni. Mae hefyd yn cynnwys y Datganiad Llywodraethiant blynyddol gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn ei rôl fel Prif Swyddog Cyfrifyddu.

Mae'r Datganiad Llywodraethiant yn amlinellu'r prosesau rheolaeth, llywodraethiant a rheoli risg sydd ar waith i alluogi'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a'r Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol i gyflawni eu cyfrifoldebau rheoli a rheolaeth dros adnoddau'r sefydliad.

Datganiadau Ariannol

Caiff y Datganiadau Ariannol eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol[2] y Llywodraeth ac maent yn rhoi datganiad cynhwysfawr o'r costau yr aeth Llywodraeth Cymru iddynt ac yn manylu ar ei holl asedau ac atebolrwyddau. Mae'r Datganiadau Ariannol yn cynnwys y Prif Ddatganiadau, Nodiadau i'r Cyfrifon a manylion am Bolisïau Cyfrifyddu arwyddocaol.

1 www.webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20260407193639/https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-llywodraeth-cymru-2025
2 Canllawiau ar adroddiadau blynyddol a chyfrifon – GOV.UK

Trosolwg o Adroddiadau Llywodraeth Cymru

Dim ond un o'r adroddiadau allweddol sy'n ymdrin â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Sifil yn cyflawni eu gweithgareddau a'u swyddogaethau yw'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Mae'r lleill yn cynnwys:

Adroddiadau allweddol						
	Gweinidogol			Sefydliad	Data Ystadegol	
	Proses y gyllideb[3]	**Adroddiad Alldro**[4]	**Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru**[5]	**Adroddiad blynyddol a Chyfrifon**	**Adroddiad**[6] **Llesiant Cymru**	**Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol**[7]
Deddfwriaeth	Adrannau 125 a 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Rheolau Sefydlog 20.7 – 20.24 20.25 – 20.37	Amherthnasol	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Deddf Llywodraeth Cymru 2006 – a131-136	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Arwain	Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg	Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg	Y Prif Weinidog	Yr Ysgrifennydd Parhaol	Y Prif Ystadegydd	Ysgrifennydd Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Trefnydd a Phrif Chwip
Diben	Cynnig y cynlluniau cyllid a chytuno arnynt, a symiau'r adnoddau a'r arian parod y mae'r llywodraeth yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol (gyda symiau dros dro ar gyfer y ddwy flwyddyn ddilynol neu'r cyfryw gyfnod arall ag yr ystyria'r Gweinidog yn briodol) a diwygiadau i'r gyllideb honno yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol	Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio mewn modd agored a thryloyw, cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid ar yr alldro terfynol. Mae'r adroddiad yn cynnwys cymhariaeth â'r cynlluniau gwario a nodwyd yng Nghyllideb Atodol olaf y flwyddyn ac esboniad o'r amrywiadau sylweddol	Cynnydd tuag at gyflawni 10 amcan llesiant Llywodraeth Cymru	Manylion ynglŷn â sut y caiff Llywodraeth Cymru ei rhedeg, gan gynnwys sut mae'n rheoli ei chyllid ac yn cyflawni ei rhwymedigaethau statudol	Mae'n monitro cynnydd a wnaed drwy gyfraniad cyfunol pob corff cyhoeddus, sefydliad ac unigolyn tuag at y saith nod llesiant drwy ddefnyddio'r dangosyddion llesiant cenedlaethol	Mae'n amlinellu tueddiadau tebygol yn y dyfodol o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac unrhyw wybodaeth ddadansoddol arall sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru

3 Cyllidebau Llywodraeth Cymru
4 Cyllid y Llywodraeth – Is-bwnc
5 www.webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20260407193639/https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-llywodraeth-cymru-2025
6 Llesiant Cymru: 2025 – LLYW.CYMRU
7 Tueddiadau'r Dyfodol: 2021

Adroddiadau allweddol						
	Gweinidogol			**Sefydliad**	**Data Ystadegol**	
	Proses y gyllideb[3]	**Adroddiad Alldro[4]**	**Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru[5]**	**Adroddiad blynyddol a Chyfrifon**	**Adroddiad[6] Llesiant Cymru**	**Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol[7]**
Amseriadau 	Amhenodol, ond cyn toriad yr haf mae'n ofynnol i'r Gweinidog Cyllid ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i gytuno ar amserlen y gyllideb	O fewn tair wythnos i gymeradwyo'r cyfrifon blynyddol	Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol	Fe'i cyflwynir i Archwilydd Cyffredinol Cymru i'w archwilio erbyn 30 Tachwedd bob blwyddyn	Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol	O fewn 12 mis i etholiad – sleidiau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd
Amseriadau'r flwyddyn hon	Gosod y Gyllideb Ddrafft 10 Rhagfyr 2024 Cyllideb Derfynol 20 Chwefror 2025 Cyllideb Atodol Gyntaf 17 Mehefin 2025 Ail Gyllideb Atodol 24 Chwefror 2026	O fewn tair wythnos i gymeradwyo'r cyfrifon blynyddol	Gorffennaf 2025	27 Tachwedd 2026	7 Hydref 2025	Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2021 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021
Craffu 	Pwyllgor Cyllid a Phwyllgorau Pwnc	Y Pwyllgor Cyllid	Dadl yn y Cyfarfod Llawn Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog	Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus	Amherthnasol	Amherthnasol

Pwy ydym ni

Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru



Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig ein gwlad. Mae'n gweithio er mwyn helpu i wella bywydau pobl yng Nghymru a gwneud ein gwlad yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

- Y Prif Weinidog
- Ysgrifenyddion y Cabinet a'r Gweinidogion
- Y Cwnsler Cyffredinol.

Cânt eu cefnogi gan weision sifil sy'n gweithio mewn meysydd datganoledig sy'n cynnwys meysydd allweddol bywyd cyhoeddus, gan gynnwys:

- Addysg
- Iechyd
- Llywodraeth leol
- Trafnidiaeth
- Cynllunio
- Datblygu economaidd
- Gwasanaethau cymdeithasol
- Diwylliant
- Y Gymraeg
- Yr amgylchedd
- Amaethyddiaeth a materion gwledig.

Mae Bwrdd Llywodraeth Cymru yn rhoi arweinyddiaeth ar y cyd i'r sefydliad cyfan.

Crëwyd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol yn 2007 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a rannodd swyddogaethau rhwng y ddeddfwrfa i Gymru a'r Llywodraeth weithredol. O dan Ddeddf Cymru 2014 newidiwyd enw'r ddeddfwrfa i Senedd Cymru (y Senedd fel arfer) a'r weithrediaeth i Lywodraeth Cymru. Mae setliad datganoli Cymru wedi datblygu'n ddramatig ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999. O dan arweiniad y Prif Weinidog, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau ac mae'n gyfrifol am gyflawni yn y meysydd sydd wedi'u datganoli iddi, fel y'u nodwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddfau Cymru 2014 a 2017.

Mae hyn yn cynnwys datblygu a gweithredu polisïau; sefydlu a chyfarwyddo gwaith cyflawni a llywodraethiant; cynnig cyfreithiau Cymreig (Biliau'r Senedd); a gwneud is-ddeddfwriaeth, megis rheoliadau. Mae hefyd yn cyllido Cyrff Hyd Braich yng Nghymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru ar ei gwefan.[8]

8 www.llyw.cymru

Y Cabinet

Y Cabinet yw prif gorff gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys y Prif Weinidog, holl Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion a'r Ysgrifennydd Parhaol. Mae'r Prif Weinidog yn penodi Ysgrifennydd Cabinet dros bob un o'r portffolios craidd a ddisgrifir isod, yn ogystal â gweinidogion ychwanegol i gefnogi gwaith Cabinet Cymru, ynghyd â Swyddog y Gyfraith (Cwnsler Cyffredinol Cymru).

Mae'r wybodaeth yn yr adran hon yn ymdrin â'r trefniadau o ran y Prif Weinidog a'r Cabinet a oedd ar waith rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.

Llywodraeth Cymru

Y Gwir Anrhydeddus Eluned Morgan AS  Prif Weinidog Cymru



Jeremy Miles AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol



Jayne Bryant AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai



Ken Skates AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru



Huw Irranca Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig



Y Gwir Anrh Mark Drakeford AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg



Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg



Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio



Jane Hutt AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip



Dawn Bowden AS
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol



Vikki Howells AS
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch



Jack Sargeant AS
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol



Julie James AS
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni



Sarah Murphy AS
Y Gweinidog lechyd Meddwl a Llesiant

Y Gwasanaeth Sifil

Y Prif Weinidog sy'n arwain Llywodraeth Cymru, gyda chymorth y Cabinet.
Y Gwasanaeth Sifil yw'r weinyddiaeth anwleidyddol sy'n cynorthwyo Prif Weinidog a Chabinet Llywodraeth Cymru i ddatblygu ei bolisïau a'u rhoi ar waith yn ogystal â darparu gwasanaethau cyhoeddus.
Mae gweision sifil yn atebol i'r Gweinidogion, sydd, yn eu tro, yn atebol i'r Senedd.

Yr Ysgrifennydd Parhaol yw pennaeth y sefydliad, a gwas sifil lefel uchaf Cymru. Mae'n arwain y Gwasanaeth Sifil yn Llywodraeth Cymru ac yn cynorthwyo'r llywodraeth i ddatblygu ei pholisïau, eu rhoi ar waith a'u cyfleu, ac ef yw prif gynghorydd polisi'r Prif Weinidog. Yr Ysgrifennydd Parhaol yw'r Prif Swyddog Cyfrifyddu hefyd, ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod arian ac adnoddau'r llywodraeth yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn briodol. Mae cryfderau craidd y Gwasanaeth Sifil – niwtraliaeth wleidyddol; gweinyddu effeithlon; llywodraethiant da a rheoli arian cyhoeddus yn gadarn, yn rhoi sylfaen gref i gefnogi Llywodraeth Cymru.

Mae'r llywodraeth wedi'i strwythuro'n nifer o Grwpiau sy'n cael eu rheoli gan Gyfarwyddwyr Cyffredinol. Ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2025 i fis Mawrth 2026, roedd pob aelod o'r staff yn gweithio o dan y Strwythur Grwpiau canlynol:



Penodwyd Emma Williams yn Gyfarwyddwr Cyffredinol dros dro y Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg ar 12 Mai 2025.

Penodwyd Judith Paget yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Strategaeth ar 30 Medi 2025. Sefydlwyd Uned Strategaeth Llywodraeth Cymru ar 1 Hydref 2025. Dechreuodd

Jacqueline Totterdell yn rôl Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar a Phrif Weithredwr GIG Cymru ar 1 Hydref 2025.

Yr hyn rydym yn ei wneud

Y Rhaglen Lywodraethu



Roedd y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer cyfnod yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro ar sail deg amcan llesiant o greu Cymru gryfach, decach, wyrddach a mwy tosturiol.

Fe wnaeth gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru gefnogi Gweinidogion Cymru i gyflawni'r amcanion yn y Rhaglen Lywodraethu drwy weithgareddau a oedd yn cynnwys datblygu polisïau, cyflwyno deddfwriaeth, rheoli ariannol a chyflawni uniongyrchol.

Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer tymor blaenorol y Senedd ym mis Gorffennaf 2025[9] ac roedd yn nodi'r cynnydd a wnaed yn 2024-25. Parhawyd i fonitro cynnydd tuag at gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu yn fisol hyd at fis Mawrth 2026, o dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Gweithredol a Bwrdd Llywodraeth Cymru.

9 www.webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20260407193639/https://www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-llywodraeth-cymru-2025

Cyflawni ein hymrwymiad i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn galluogi pawb yng Nghymru i wneud pethau'n wahanol. Mae'n sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol y llywodraeth a chyrff cyhoeddus. Bydd rhoi datblygu cynaliadwy ar waith yn gwella'r ffordd yr ydym yn sicrhau ein llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, gan roi canlyniadau gwell i bobl Cymru yn y pen draw.

Dros y degawd diwethaf, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi newid y ffordd mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn blaenoriaethu llesiant pobl a'r blaned. Yn ystod yr un cyfnod, mae'r Ddeddf wedi esblygu o ran ei geiriad, ei chwmpas, y dehongliad ohoni a sut y caiff ei gweithredu. Dangoswyd hyn gan effaith ac arloesedd parhaus polisïau a deddfwriaeth olynol a gyflwynwyd drwy safbwynt y Ddeddf. Mae'n hanfodol bellach, wrth inni symud i ddegawd nesaf y Ddeddf, ein bod yn edrych tua'r dyfodol i gyflawni datblygu cynaliadwy i Gymru.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn diffinio datblygu cynaliadwy fel: "Y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau gweithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, er mwyn cyflawni'r nodau llesiant." Mae'n rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith, sy'n golygu bod yn rhaid i gyrff weithredu mewn ffordd sy'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Dylai trefniadau gweithredu, llywodraethiant a mecanweithiau'r llywodraeth, a'r cyngor a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth sifil yng Nghymru, barhau i wella ac ymateb i'r gofyniad hwn.

Y Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus a thymor newydd yn y Senedd

Roedd trefniadau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn cael eu cyflawni drwy LlC2025, y rhaglen tair blynedd ar gyfer datblygu sefydliadol (mae rhagor o wybodaeth am LlC2025 yn dechrau ar dudalen 75). Er mwyn sicrhau bod datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio wrth wraidd popeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud, cyhoeddwyd Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2023-25 ym mis Chwefror 2023. Daeth y Cynllun hwn â thros 51 o gamau gweithredu ynghyd i ddyfnhau ein dealltwriaeth a'n defnydd o'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Llywodraeth Cymru.

Ym mis Mai 2024, cyhoeddwyd adroddiad cynnydd ar y Cynllun, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd yn erbyn pob cam gweithredu ac yn adrodd ein hanes o ddysgu. Wrth i'r Cynllun ddod i ben yn 2025, canfu dadansoddiad mewnol fod 20 o'r 51 o gamau gweithredu naill ai heb eu cwblhau neu'n rhai parhaus, a byddant yn parhau gyda'r bwriad o ddangos gwelliant parhaus. Bydd angen diwygio rhai o'r camau gweithredu hyn neu bydd angen eu hadolygu ymhellach o ran eu perthnasedd a'u natur hirdymor.

Wrth inni bennu amcanion llesiant newydd ar gyfer tymor nesaf y Senedd, byddwn hefyd yn adolygu'r ffordd rydym yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a'i wneud yn gyson â strategaethau sefydliadol ehangach. Credwn y bydd ein ffordd o weithredu yn anfon neges bwysig i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, sef bod agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn am welliant parhaus a myfyrio.

Ymhlith y camau gweithredu nodedig a gwblhawyd dros y 12 mis diwethaf mae'r canlynol:

- Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i barhau i ddatblygu'r iteriad nesaf o Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, sef system sefydliadol bwysig yng Nghymru i helpu'r rhai sy'n llunio polisi i ddeall dyfodol Cymru ac ymateb yn unol â hynny. Bydd hyn yn eu helpu i ystyried ffyrdd hirdymor ac ataliol o weithio.

- Cyflwyno sesiynau pwrpasol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i holl Uwch Weision Sifil Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyflwyniadau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Roedd yn cynnwys sesiwn fewnol, ryngweithiol mewn grwpiau ar y pum ffordd o weithio.
- Cyhoeddi a hyrwyddo 'Adeiladu diwylliant ar gyfer y dyfodol: Llawlyfr Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol'.[10] Mae'r llawlyfr hwn yn dwyn ynghyd mewn un ddogfen yr elfennau mwyaf poblogaidd o'n dysgu ar y pum ffordd o weithio, y nodau datblygu mewnol a newid diwylliant.
- Datblygu Adolygiad Gwariant Cymru, sef dull strategol, trawslywodraethol o lunio gwaith cynllunio cyllidebol hirdymor Cymru, gan archwilio'r ffordd y gellir mynd i'r afael â heriau allweddol drwy safbwynt cyllidol mwy ataliol.
- Hyrwyddo dysgu parhaus am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy e-ddysgu fel Ti, Fi a Dyfodol Cymru[11] modiwl e-ddysgu mewnol i Lywodraeth Cymru, a gwaith ar fodiwl hyfforddi ar gyfer y dyfodol gydag Academi Wales.
- Sefydlu Grŵp Cynnydd Cryfhau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n dod â phartneriaid cenedlaethol allweddol sy'n gweithio ar y ffordd y mae'r Byrddau'n cyflawni at ei gilydd i ymateb i heriau ac i weithredu ar sail uchelgais ar y cyd i wella'r ffordd y mae'r Byrddau'n gweithredu, yn cydweithio ac yn sicrhau effaith.
- Gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ddarparu hyfforddiant ar gyfranogiad a meddwl am y dyfodol drwy Hwb Dyfodol.[12] Mae Hwb Dyfodol yn parhau i feithrin arbenigedd a chapasiti ym maes rhagargoeli a meddwl am y dyfodol ac yn codi ymwybyddiaeth o Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ar hyd a lled Cymru.
- Cynnal digwyddiad Byw'r Dyfodol yn Aberystwyth mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol. Daeth y digwyddiad hwn â'r rhai sy'n gwneud newidiadau o'r canolbarth ynghyd i drawsddysgu am ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy ddychmygu dyfodol gwahanol ar gyfer y rhanbarth.

Adroddiadau ehangach

Y llynedd, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ei asesiad o'r gwelliannau sydd eu hangen ar gyrff cyhoeddus er mwyn cyflawni'r nodau llesiant. Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025[13] yn cynnwys asesiad o'r cynnydd a wnaed hyd yma, ynghyd â chyngor ac argymhellion wedi'u targedu ar gyfer Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill. Mae'n cynnwys enghreifftiau o'r newid cadarnhaol sydd eisoes ar waith ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus. Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru[14] ym mis Mawrth 2026.

Ar yr un pryd, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru 'Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'.[15] Roedd yr adroddiad hwn yn asesu i ba raddau roedd Llywodraeth Cymru yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Roedd yn canolbwyntio ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn meddwl ac yn gweithredu ar gyfer yr hirdymor ac yn cyflawni'r dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad ysgrifenedig[16] ym mis Gorffennaf 2025.

10 Adeiladu diwylliant ar gyfer y dyfodol: Llawlyfr y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
11 Ti, fi a dyfodol Cymru
12 Hwb Dyfodol – Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
13 Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 – Cenedlaethau Dyfodol Cymru
14 www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ymateb-llywodraeth-cymru-i-argymhellion-adroddiad-cenedlaethaur-dyfodol-2025
15 Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
16 www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ymateb-llywodraeth-cymru-i-adroddiad-cenedlaethaur-dyfodol-comisiynydd

Drwy gydol 2025, cynhaliodd Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y chweched Senedd eu gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.[17] Ym mis Mawrth 2026 cyhoeddodd y Pwyllgor eu canfyddiadau yn 'Addas at y Dyfodol? Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddegawd yn ddiweddarach'.[18] Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys wyth argymhelliad i Lywodraeth Cymru, ac fe gyhoeddwyd ein hymateb cychwynnol[19] ym mis Mawrth 2026.

Mae'r adroddiadau hyn yn rhan hanfodol o'r trefniadau atebolrwydd, sy'n ein cymell i gyflawni'r nodau llesiant a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r adroddiadau'n tynnu sylw at y cynnydd sylweddol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud drwy'r Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus a gweithgareddau eraill. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y gwaith sydd eto i'w wneud er mwyn cyflawni ein nodau llesiant, ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy a hyrwyddo datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol sector cyhoeddus Cymru.

17 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Gwaith craffu ar ôl deddfu
18 Addas at y Dyfodol? Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddegawd yn ddiweddarach
19 www.busnes.senedd.cymru/documents/s173016/Ymateb%20Llywodraeth%20Cymru.pdf

Astudiaeth Achos: **Cymhwyso'r Pum Ffordd o Weithio – Dosbarth Meistr ar Hawliau Plant ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru**



Cydweithiodd Llywodraeth Cymru â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) a Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru i ddatblygu ffilm fer sy'n cyflwyno hawliau plant a'r cymorth sydd ar gael i ymgorffori cyfranogiad ystyrlon mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. I hyrwyddo'r gwaith hwn, defnyddiwyd cyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflwyno Dosbarth Meistr ar Hawliau Plant ar gyfer partneriaid BGCau yn y Gogledd.

Cafodd y sesiwn ei datblygu a'i hwyluso mewn partneriaeth â Chomisiynydd Plant Cymru, gan ddefnyddio fframwaith 'Y Ffordd Gywir' ac roedd yn gwreiddio'r pum ffordd o weithio er mwyn helpu i gymhwyso hawliau plant yn ymarferol yn ymarfer BGCau. Nod y sesiwn oedd meithrin gallu hirdymor drwy gefnogi newid diwylliannol parhaus a gwreiddio dull sy'n seiliedig ar hawliau ar draws partneriaethau BGC. Drwy hunanasesu strwythuredig a chynllunio camau gweithredu, roedd yn integreiddio hawliau plant â phrosesau gwneud penderfyniadau strategol a darparu gwasanaethau.

Drwy gryfhau dealltwriaeth o ddyletswyddau statudol a goblygiadau ymarferol hawliau plant, roedd y sesiwn yn un ataliol a oedd yn helpu i ystyried anghenion plant yn gynharach ac yn fwy cyson, gan leihau'r risg o anghydraddoldebau ac ymatebion adweithiol gan wasanaethau. Roedd y sesiwn yn integreiddio bwriad polisi cenedlaethol â'r hyn a oedd yn cael ei gyflawni'n lleol drwy sicrhau bod dyletswyddau hawliau plant yn cyd-fynd â gwaith cynllunio llesiant BGCau. Roedd defnyddio matrics hunanasesu cyffredin yn helpu partneriaid i ystyried hawliau plant mewn ffordd gyson a chydweithredol ar draws sawl maes gwasanaeth.

Fe'i cyflwynwyd mewn modd cydweithredol, gan ddod â phartneriaid at ei gilydd mewn amgylchedd dysgu ar y cyd. Roedd ymarferion mapio mewn grwpiau yn galluogi partneriaid i asesu arferion cyfredol a nodi blaenoriaethau ar y cyd ar gyfer gwella. Atgyfnerthodd y ffocws ar egwyddorion 'Y Ffordd Gywir' bwysigrwydd cynnwys a chyfranogi, yn enwedig y ffordd mae partneriaid yn casglu ac yn gweithredu ar safbwyntiau plant a phobl ifanc.

Rheoli ein rhaglen ddeddfwriaethol

Mae rheoli gwaith ar weithgareddau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn brif ffocws i'r sefydliad. Pasiodd y Senedd 27 o Filiau Llywodraeth yn y Chweched Senedd, sef y nifer mwyaf mewn unrhyw dymor. Roedd hyn yn cynnwys y pedwar Bil Blwyddyn 5 yn Natganiad Deddfwriaethol 2025, yn ogystal â Bil brys Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth). Mae llawer iawn o is-ddeddfwriaeth hefyd wedi cael ei gwneud yn ystod y cyfnod hwn ac mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i ymateb i raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU.

Deddfwriaeth Sylfaenol

Yn ystod y cyfnod y mae'r cyfrifon hyn yn ymwneud ag ef, cafodd y Biliau canlynol eu hystyried gan y Senedd:

- **Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

  Cyflwynwyd Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ar 15 Gorffennaf 2024 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 7 Gorffennaf 2025. Prif amcan y Ddeddf yw anelu at sicrhau y gall pob disgybl gyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol yn ddefnyddiwr Cymraeg annibynnol. Bydd hyn yn helpu i gyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Y nod yw bod pob disgybl yn datblygu sgiliau llafar sy'n cyfateb i lefel B2 y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer leithoedd.

- **Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)**
  - Cyflwynwyd y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) ar 21 Hydref 2024 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 10 Gorffennaf 2025. Mae'r Ddeddf yn:
    - Dwyn ynghyd ac yn ffurfioli'r trefniadau gweithdrefnol ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth i Gymru a'r gofynion ar gyfer cyhoeddi Deddfau gan Senedd Cymru ac offerynnau statudol Cymru, ac is-ddeddfwriaeth arall nas gwneir drwy offeryn statudol.
    - Gwella hygyrchedd cyfraith Cymru drwy ddiddymu, diwygio a datgymhwyso fel arall mewn perthynas â darpariaethau a deddfiadau i Gymru nad ydynt yn ddefnyddiol nac yn fuddiol mwyach.
    - Gwneud mân ddiwygiadau i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

- **Deddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)**

  Cyflwynwyd y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) ar 9 Rhagfyr 2024 a chafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 11 Medi 2025. Nod y Ddeddf yw lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau ar domenni glo a thomenni nad ydynt yn domenni glo nas defnyddir drwy sefydlu corff cyhoeddus newydd a fydd yn cyflawni swyddogaethau mewn perthynas ag asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir.

- **Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025**

  Cyflwynwyd y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) ar 25 Tachwedd 2024 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 18 Medi 2025. Mae'r Ddeddf yn:
  - Ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru fod wedi'u cofrestru ar gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr.
  - Rhoi pŵer disgresiynol i awdurdodau lleol godi ardoll ar ymwelwyr sy'n aros dros nos mewn llety ymwelwyr ('yr ardoll').
  - Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori cyn cyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll.

- Gwneud darparwyr llety ymwelwyr yn atebol am dalu'r ardoll i Awdurdod Cyllid Cymru.
- Rhoi sail ar gyfer cyfrifo'r ardoll a'i chasglu.
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddefnyddio'r enillion net at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau yn eu hardaloedd a rhoi adroddiad ar y ffordd y caiff yr enillion eu defnyddio.
- Rhoi pŵer i Weinidogion Cymru estyn yr ardoll i ddocfeydd ac angorfeydd drwy reoliadau.

- **Deddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth)**

  Cyflwynwyd Bil Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) 2026 ar 13 Ionawr 2026 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 21 Ionawr 2026. Newidiodd y Ddeddf y maen prawf ar gyfer aelodaeth feddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Mae'n darparu bod yn rhaid i aelodau meddygol o'r tribiwnlys hwnnw fod yn ymarferwyr meddygol cofrestredig o fewn ystyr Deddf Meddygaeth 1983, ond nid yw'n ofynnol bod ganddynt drwydded i ymarfer a roddir o dan y Ddeddf honno. Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud darpariaeth gysylltiedig ynghylch dilysrwydd penodiadau blaenorol i'r Tribiwnlys, a'i aelodaeth.

- **Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru)**

  Cyflwynwyd y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) ar 31 Mawrth 2025 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 2 Chwefror 2026. Nod y Ddeddf yw darparu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus cydgysylltiedig sy'n ddiogel, yn integredig, yn gynaliadwy yn amgylcheddol, yn effeithlon, yn ddarbodus ac sy'n ymateb i ddiwallu anghenion trafnidiaeth y cyhoedd.

Cyflwynwyd y Biliau canlynol i'r Senedd yn ystod y Cyfnod Adrodd; cawsant i gyd y Cydsyniad Brenhinol wedyn:

- **Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)**

  Roedd y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) yn cynnwys darpariaeth ar gyfer:

  - Ehangu mynediad at wasanaethau digartrefedd a rhoi cymorth ychwanegol i'r rhai sydd ei hangen fwyaf.
  - Estyn cyfrifoldeb i rai awdurdodau cyhoeddus penodedig i nodi unigolion sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref ac ymateb yn effeithiol.
  - Blaenoriaethu dyrannu tai cymdeithasol i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.

- **Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)**

  Cyflwynwyd Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) ar 2 Mehefin 2025. Roedd y Bil yn cynnwys darpariaethau ynghylch egwyddorion amgylcheddol i sefydlu fframwaith cadarn ar gyfer llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru. Nod y fframwaith hwn yw ymdrin â thair her graidd: mynd i'r afael ag effaith gyfunol argyfyngau hinsawdd a natur, diogelu'r amgylchedd rhag niwed, ac ymateb i newidiadau mewn strwythurau llywodraethiant amgylcheddol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Bydd y Bil yn:

  - Pennu egwyddorion amgylcheddol penodol ac amcan amgylcheddol. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, wrth lunio polisi, ac awdurdodau cyhoeddus penodol eraill, wrth gynnal asesiad amgylcheddol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol sy'n disodli'r Rheoliadau hynny), gymhwyso'r egwyddorion, ac integreiddio gweithgarwch i ddiogelu'r amgylchedd.

- Sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol annibynnol, sef Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru, i oruchwylio'n strategol y gofynion ar awdurdodau cyhoeddus i wneud y canlynol: cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol; gwneud cyfraith amgylcheddol effeithiol; gweithredu/cymhwyso cyfraith amgylcheddol yn effeithiol; a dwyn yr awdurdodau cyhoeddus hynny i gyfrif, mewn ffordd debyg i Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a sefydlwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021.
- Diwygio Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i sefydlu fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth gyda'r nod o atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru, yn ogystal â gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i godi ymwybyddiaeth yng Nghymru o bwysigrwydd bioamrywiaeth a'r bygythiadau iddi.

- **Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru)**

  Cyflwynwyd y Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) ar 7 Gorffennaf 2025. Bydd y Bil yn:

  - Nodi'r rhai y gosodir dyletswyddau statudol o dan y Bil arnynt.
  - Ei gwneud yn ofynnol i rai adeiladau rheoleiddiedig h.y. y rhai sydd o leiaf 11 metr o uchder neu sydd ag o leiaf pump llawr gael eu cofrestru ag awdurdod diogelwch adeiladau.
  - Rhoi swyddogaethau newydd i'r 'awdurdod diogelwch adeiladau', sef pob un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru.
  - Rhoi swyddogaethau newydd i'r 'awdurdod diogelwch tân' yng Nghymru, sef pob awdurdod tân ac achub ar gyfer ardal yng Nghymru neu arolygydd tân (o ran rheoleiddio adeiladau'r Goron).
  - Creu dyletswyddau i asesu a rheoli risgiau diogelwch tân ym mhob adeilad o fewn y cwmpas.
  - Creu dyletswyddau i asesu a rheoli risgiau diogelwch strwythurol mewn adeiladau o fewn y cwmpas sydd o leiaf 11 metr o uchder, neu sydd ag o leiaf bump llawr.
  - Rhoi hawliau newydd ar waith i breswylwyr a gosod dyletswyddau arnynt mewn perthynas â phob adeilad o fewn y cwmpas.
  - Sefydlu cyfundrefn orfodi newydd i'w gwneud yn bosibl i gamau gorfodi gael eu cymryd os na chyflawnir y dyletswyddau newydd.

- **Bil Cynllunio (Cymru)**

  Cyflwynwyd Bil Cynllunio (Cymru) ar 15 Medi 2025. Bydd y Bil yn dwyn ynghyd y prif ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref yng Nghymru ar ffurf gydlynol a hygyrch. Ei ddiben oedd moderneiddio strwythur ac iaith cyfraith gynllunio, gan ei gwneud yn gliriach ac yn fwy cyson, ond cadw ei heffaith gyfreithiol. Nid oedd y Bil yn ceisio diwygio'r system gynllunio ond y bwriad oedd sicrhau mwy o eglurder cyfreithiol a defnyddioldeb.

- **Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru)**

  Cyflwynwyd y Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) ar 15 Medi 2025. Bydd y Bil yn diwygio ac yn diddymu deddfiadau, ac yn gwneud darpariaethau trosiannol ac arbed, mewn cysylltiad â'r Bil Cynllunio (Cymru).

- **Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)**

  Cyflwynwyd Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru) ar 29 Medi 2025. Mae'r Bil yn ei gwneud yn drosedd i wneud y canlynol:

  - Gweithredu stadiwm neu leoliad tebyg yng Nghymru a'i ddefnyddio, neu ganiatáu'n fwriadol iddo gael ei ddefnyddio, ar gyfer rasio milgwn; a
  - Bod yn rhan o drefnu rasys milgwn yng Nghymru.

- **Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)**

  Cyflwynwyd Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) ar 3 Tachwedd 2025. Bydd y Bil yn gwneud y canlynol:

  – Ailddatgan a moderneiddio swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried effaith gymdeithasol bosibl twristiaeth a'i heffaith bosibl ar yr amgylchedd a'r Gymraeg;

  – Rheoleiddio darpariaeth llety i ymwelwyr a ddarperir yng Nghymru drwy'r canlynol:

    – Cyflwyno cyfundrefn drwyddedu i sicrhau ymwelwyr bod llety yn cyrraedd y safonau y byddent yn eu disgwyl a bod y safonau hynny, yn achos llety hunanarlwyo, yn cyd-fynd yn agosach â safonau cyfatebol sydd eisoes yn gymwys i'r sector rhentu preifat yng Nghymru,

    – Gwneud safon mewn perthynas ag addasrwydd llety ymwelwyr yn ofyniad cytundebol, ac

    – Adeiladu ar y gofrestr a grëwyd gan Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 i sefydlu cyfeiriadur llety ymwelwyr er mwyn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am lety ymwelwyr yng Nghymru.

- **Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)**

  Cyflwynwyd Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) ar 3 Tachwedd 2025. Roedd y Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y canlynol:

  – Gwella atebolrwydd Aelodau'r Senedd i'r etholwyr, rhoi ffordd o adalw Aelod etholedig, a'i ddiswyddo yn ystod ei gyfnod mewn swydd ar sail ewyllys ddatganedig pleidleiswyr yn yr etholaeth berthnasol.

  – Cryfhau proses safonau'r Senedd fel y'i hystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, gan gynnwys:

    – Sefydlu Pwyllgor Safonau Ymddygiad gorfodol;

    – Cyflwyno elfen o annibyniaeth ac arbenigedd i'r pwyllgor hwnnw drwy benodi aelodau lleyg; a

    – Rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Comisiynydd Safonau ystyried yn rhagweithiol bryderon ynghylch ymddygiad Aelodau o'r Senedd.

    – Gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy'n gwahardd gwneud neu gyhoeddi datganiadau ffeithiol anwir. Mae hyn mewn ymateb i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i dwyll bwriadol.

Ceir rhagor o wybodaeth fanwl am y Deddfau a'r Biliau unigol ar dudalennau Deddfwriaeth y Senedd ar y we.[20]

20 Deddfwriaeth

Is-ddeddfwriaeth

Mae cryn dipyn o is-ddeddfwriaeth i Gymru wedi cael ei pharatoi a'i gwneud yn ystod y cyfnod hwn. Mae lefel yr adnoddau polisi, cyfreithiol a chyfieithu sydd eu hangen ar gyfer pob offeryn yn amrywio'n sylweddol ond gall fod yn sylweddol. Yn ystod tymor y Chweched Senedd, gwnaed dros 1,000 o ddarnau o is-ddeddfwriaeth, sy'n rhoi syniad o'r raddfa a'r adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni'r rhaglen is-ddeddfwriaeth gyfan yn llwyddiannus. Roedd hyn yn cynnwys is-ddeddfwriaeth i gyflawni blaenoriaethau allweddol, gan gynnwys rhoi Deddfau Senedd Cymru ar waith, yn ogystal ag is-ddeddfwriaeth yr oedd ei hangen i roi Deddfau Llywodraeth y DU ar waith.

Deddfwriaeth y DU

Roedd y cyfnod adrodd hwn yn cwmpasu gweithgarwch sylweddol mewn ymateb i raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU. Yn ystod y cyfnod hwn, gosododd Llywodraeth Cymru femoranda cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â 24 o Filiau sydd wedi'u pasio'n Ddeddfau ers hynny ac a oedd yn gwneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig. Roedd maint y gweithgarwch hwn wedi gosod gofynion sylweddol ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru, a oedd yn gofyn am ymgysylltu parhaus â Llywodraeth y DU a'r Senedd er mwyn sicrhau bod y broses o roi cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei rheoli'n effeithiol. Roedd llawer o'r Biliau yn cynnwys darpariaethau cymhleth a thechnegol heriol a oedd yn effeithio ar gyfrifoldebau datganoledig, gan ei gwneud yn ofynnol i'w goblygiadau i Gymru gael eu dadansoddi'n fanwl, yn aml o fewn amserlenni seneddol heriol y DU. Roedd hyn yn cynnwys darpariaethau a oedd yn amrywio o ddŵr, iechyd yr amgylchedd a thrafnidiaeth ymhlith eraill, gyda goblygiadau gweithredol a chyfansoddiadol arwyddocaol i Gymru.

Gweinyddu cyllid grant

Mae'r cyllid grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi amrywiaeth eang o sefydliadau, busnesau a phrosiectau ledled Cymru. Caiff cyllid grant ei ddyfarnu i'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat ar gyfer amrywiaeth eang o ddibenion sy'n cyd-fynd â pholisïau gweinidogol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid craidd/prosiect, grantiau cyfalaf/refeniw yn ogystal â chyllido costau rhedeg i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a'i his-gwmnïau.

Mae gan Lywodraeth Cymru tua 360 o gynlluniau grant gweithredol ar waith ar PayGrants (sef y brif system gorfforaethol) ac mae'n cyhoeddi tua 10,000 o lythyrau dyfarnu bob blwyddyn.

Rhennir y grantiau yn ddau gategori penodol:

1. Mae grantiau heb eu neilltuo yn cynnwys y taliadau hynny a ddarperir i gyrff iechyd a llywodraeth leol ac maent yn cyfrif am £18,812m o'r cyfanswm o £24,579m a dalwyd mewn grantiau ar gyfer 2025-26.
2. Mae grantiau wedi'u neilltuo yn ffordd o wneud taliadau pan fo pethau penodol i'w cyflawni a meini prawf ynghylch diben y grantiau ac maent yn cyfrif am weddill y cyllid, sef £5,767m.

Cyllid Grant gan Lywodraeth Cymru

Mae'r dadansoddiad isod o ddata cyllid grant ar gyfer 2025-26 yn seiliedig ar y system o "allweddau diwydiant" er mwyn rhoi darlun o gyllid yn ôl sector.

Dadansoddiad ar gyfer 2025-26

Grantiau heb eu Neilltuo
£18,812m



Cyfanswm
£24,579m

Grantiau wedi'i Neilltuo
£5,767m



Dadansoddiad ar gyfer 2024-25



Bu cynnydd o 8% yng ngwariant grant Llywodraeth Cymru o un flwyddyn i'r llall o 2024-25 i 2025-26 oherwydd ehangu ymrwymiadau cyllido. Mae dosbarthiad y gwariant grant yn flynyddol yn adlewyrchu blaenoriaethau polisi ac, ar gyfer rhai cynlluniau, galw'r sector ar gyfer y flwyddyn ariannol benodol honno.

Mae gwariant grant heb ei neilltuo wedi cynyddu 8%. O ran y GIG, mae'r cyllid heb ei neilltuo wedi cynyddu 5%, a hynny'n bennaf oherwydd cynnydd yn nyraniadau refeniw y GIG i fynd i'r afael â'r pwysau chwyddiant anochel a'r twf anochel yn y galw am ofal iechyd, yn ogystal â chost Dyfarniad Cyflog GIG Cymru 2025-26 a buddsoddiad ychwanegol i fynd i'r afael â rhestrau aros. Yn yr un modd, mae'r sector Awdurdodau Lleol wedi gweld symudiad i fyny o 9% mewn cyllid heb ei neilltuo oherwydd y grantiau cymorth refeniw uwch a ddyfarnwyd i Awdurdodau Lleol i helpu i ariannu eu gwasanaethau craidd cyffredinol.

Yn y sector Addysg bu lleihad o 42% mewn cyllid wedi'i neilltuo a 12% mewn cyllid heb ei neilltuo. Y prif reswm dros y gostyngiad hwn yw trosglwyddo'r cyfrifoldeb am ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 i Medr. Mae'r cyllid yr adroddid amdano'n flaenorol yn y sector Addysg yn cael ei adlewyrchu bellach yn sector y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (CNLC), gan arwain at gynnydd cyfatebol yng nghyllid CNLC.

Mae'r Trydydd Sector wedi gweld tuedd i fyny o 39% mewn cyllid wedi'i neilltuo, a hynny'n bennaf mewn perthynas â'r codiad o £81m yn y Grant Tai Cymdeithasol yn 2025-26 i adeiladu a gwella cartrefi fforddiadwy carbon isel.

Mae amrywiannau nodedig eraill yn cynnwys cynnydd o 8% mewn cyllid wedi'i neilltuo i'r sector Awdurdodau Lleol, sy'n cael ei yrru'n bennaf gan fuddsoddiad uwch yn y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a'r Grant Plant a Chymunedau. Mae'r sector Llywodraeth Ganolog a Chorfforaethau Cyhoeddus wedi gweld cynnydd o 6% mewn cyllid wedi'i neilltuo flwyddyn ar ôl blwyddyn oherwydd £20m a dalwyd ym mis Ebrill 2025 o dan becyn cymhorthdal Gweinidogion Cymru o hyd at £205.2m dros 10 mlynedd.

Grantiau heb eu Neilltuo – dulliau cyllido

Dyraniad Cyllidebol	Cyllid bloc a ddyrennir (fel arfer) i Awdurdodau Lleol/cyrff y GIG i benderfynu sut y maent yn darparu'r gwahanol wasanaethau a ddarperir ganddynt.

Grantiau wedi'u Neilltuo – dulliau cyllido

Yn seiliedig ar geisiadau	Caiff y rhain eu dyfarnu mewn ymateb i alwad agored am geisiadau neu gylch o gynigion cystadleuol. Galwad Agored: Mae sefydliadau yn gwneud cais i gynllun grant a chaiff cyllid ei ddyfarnu'n seiliedig ar allu sefydliadau i fodloni meini prawf cymhwystra a bennir ymlaen llaw. Cystadleuol: Defnyddir cystadleuaeth yn bennaf pan fo cyllideb gyfyngedig a phan fo nifer o sefydliadau a all gyflawni'r amcan polisi. Mae'r broses gystadleuol yn ei gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cymru gefnogi'r prosiectau gorau ac mae'n agored, yn dryloyw, yn wrthrychol, yn deg ac yn sicrhau'r gwerth gorau am arian.
Dyraniad cyllid	Cyllid a ddyrennir i gyrff allanol at ddiben penodol; mae lefel y cyllid yn seiliedig ar fodel neu fformiwla ystadegol. Caiff ei ddefnyddio fel arfer ar gyfer Awdurdodau Lleol, lle mae swm y dyraniad sydd ar gael yn seiliedig ar fformiwla megis model ystadegol o'r boblogaeth. Yna, byddai Awdurdodau Lleol yn cyflwyno cynigion yn erbyn gwerth y dyraniad.
Cais am gyllid	Cynnig untro neu flynyddol gan gorff allanol sy'n ceisio cyllid ar gyfer gweithgarwch penodol neu ar gyfer dyfarniad un ffynhonnell sy'n seiliedig ar un partner cyflawni. Caiff ei ddefnyddio hefyd pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at adrannau eraill y Llywodraeth.
Iawndal	Swm sy'n cael ei ddyrannu i ddigolledu neu wneud iawn am golledion o ganlyniad i weithred y Llywodraeth.

Y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau – Cefndir

Tîm canolog bach yw'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, sy'n rhoi cyngor, arweiniad a chymorth i swyddogion ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae'r tîm yn cynnal cyfres gynhwysfawr o ganllawiau a thempledi sy'n cwmpasu pob agwedd ar brosesau rheoli grantiau. Hefyd, gall y tîm roi hyfforddiant pwrpasol ar gais ac mae'n trefnu sesiynau ymwybyddiaeth ar bynciau allweddol yn ystod y flwyddyn.

Mae'r tîm yn parhau i ateb ymholiadau yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â rhoi cymorth wyneb yn wyneb a rhithwir i reolwyr grantiau ar gyfer ymholiadau penodol ynglŷn ag unrhyw ran o'r broses grantiau o'r dechrau i'r diwedd. Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau hefyd yn cynnig cyngor wedi'i deilwra mewn ymateb i ymholiadau penodol, gan gydweithio â chydweithwyr drwy'r sefydliad cyfan er mwyn sicrhau cymorth cydgysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoli Cymorthdaliadau, ac Archwilio Mewnol yn ôl yr angen. Hefyd, mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn ymgymryd â gwaith i godi ymwybyddiaeth o faterion a nodwyd gan Archwilio Cymru drwy ei archwiliad o'r cyfrifon, gan gefnogi gwelliant parhaus a chryfhau arferion rheoli grantiau drwy'r sefydliad cyfan.

Y Panel Sicrwydd Grantiau

Sefydlodd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau y Panel Sicrwydd Grantiau yn 2018. Mae'n rhoi cyngor ymarferol, her a sicrwydd i reolwyr grantiau ar gam datblygu cynnar yn ystod cynllun grant. Ei nod yw ychwanegu gwerth drwy helpu rheolwyr grantiau i liniaru risgiau posibl, gan sicrhau tryloywder, cydymffurfedd, a chysondeb â blaenoriaethau sefydliadol. Mae'r panel yn cynnwys grŵp trawsadrannol amrywiol o bob rhan o Lywodraeth Cymru, ac mae pob un yn cynnig arbenigedd i'r bwrdd. Mae'r aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Cyfreithiol ac o feysydd Economeg, Digidol, GDPR, Gwrth-dwyll, Rheoli Cymorthdaliadau, y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, Llywodraethiant Corfforaethol, Caffael, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a Safonau'r Gymraeg. Mae'r dull cydweithredol hwn yn galluogi'r panel i roi argymhellion ymarferol sy'n helpu rheolwyr grantiau i lunio cynlluniau effeithiol.

Mae'r panel yn cyfarfod bob mis neu'n amlach yn ôl yr angen. Mae staff y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn cael eu cynrychioli ar y panel yn ogystal â darparu cymorth ysgrifenyddiaeth. Maent hefyd ar gael i gefnogi rheolwyr grantiau unigol cyn ac ar ôl y cyfarfodydd a chysylltu â'r rheolwr grantiau wedyn er mwyn cadarnhau a yw'r argymhellion wedi'u gweithredu ac, os felly, pryd y cawsant eu gweithredu.

Fel rhan o'i hymrwymiad i welliant parhaus a thryloywder, mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi parhau i gynnal arolwg blynyddol i gasglu adborth gan aelodau'r panel a rheolwyr grantiau. Mae'r adborth cyfunol yn dangos boddhad mawr gyda phrosesau a dogfennaeth y panel. Mae awgrymiadau ar gyfer gwelliannau wedi cael eu hystyried a'u rhoi ar waith lle bo hynny'n briodol. Bydd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn parhau i hyrwyddo'r panel a chodi ymwybyddiaeth ohono yn ogystal â rhannu themâu sy'n dod i'r amlwg ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

Y Tîm Diwydrwydd Dyladwy Canolog

Cyflwynwyd y Tîm Diwydrwydd Dyladwy Canolog ym mis Ebrill 2019 ac mae wedi datblygu systemau a phrosesau i'w alluogi i gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy a llywodraethiant corfforaethol ynglŷn â sefydliadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hariannu neu'n ystyried eu hariannu ar ran rheolwyr grantiau. Y nod yw gwella cysondeb, lleihau dyblygu a rhoi mwy o gymorth i reolwyr grantiau ar gam arfarnu'r broses grantiau. Cyfrifoldeb y rheolwyr grantiau a'r timau polisi o hyd yw diwydrwydd dyladwy ar brosiectau, canlyniadau, gallu sefydliad i gyflawni'r prosiect a gwerth am arian.

Mae'r tîm yn paratoi "Prawf Iechyd Ariannol Corfforaethol" ar gyfer pob sefydliad, sy'n cynnwys dadansoddiad o gyfrifon archwiliedig, gwirio gwybodaeth a ddelir gan Dŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau, defnyddio adnoddau atal twyll a gwybodaeth gan y Ganolfan Diwydrwydd Dyladwy. Fel arfer, mae'r materion a nodir yn cynnwys sefydliadau sydd mewn trafferthion ariannol neu'n ansolfent, dyfarniadau Llys Sirol, pryderon ynghylch llywodraethiant, neu wybodaeth anffafriol am y sefydliad neu'r unigolion sy'n ei reoli. Pan gaiff risgiau eu canfod, bydd y tîm yn rhoi argymhellion i'r rheolwr grant ynghylch camau lliniaru, er enghraifft, argymell gwarantau trawsgwmni, taliadau'n ôl-weithredol, trefniadau monitro tynnach neu gael rhagor o wybodaeth, rhagolygon neu eglurder ynglŷn â meysydd sy'n achos pryder.

Yn ystod 2025-26, cwblhaodd y Tîm Diwydrwydd Dyladwy Canolog fwy na 530 o asesiadau, sy'n gwneud cyfanswm o fwy na 3,600 ers ei sefydlu. Mae'r rhain yn cael eu lanlwytho i'r Hwb Diwydrwydd Dyladwy, gan sicrhau eu bod yn hygyrch, nid yn unig i reolwyr grantiau, ond hefyd i dimau ac adrannau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Yn ogystal â darparu'r asesiadau corfforaethol, mae'r tîm hefyd wedi rhoi cyngor ac arweiniad pwrpasol i reolwyr grantiau ar ddyfarniadau a chynlluniau unigol, wedi mynd i gyfarfodydd tîm i gynnig sylwadau penodol ar ddiwydrwydd dyladwy, ac wedi cyfrannu at yr adolygiad o delerau ac amodau grantiau o safbwynt diwydrwydd dyladwy.

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) sy'n gyfrifol am reoli rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) yng Nghymru ar gyfer cylch cyllido 2014–2020, ac am y rhaglen drawsffiniol rhwng Cymru ac Iwerddon.

O dan delerau Cytundeb Ymadael yr UE/DU, roedd rhaglenni a ariannwyd gan yr UE i'w dirwyn i ben o dan reoliadau arferol yr UE sy'n llywodraethu eu gweinyddiaeth, er y byddai llawer o'r gweithgarwch hwn yn digwydd ar ôl i'r DU ymadael yn ffurfiol â'r UE. Mae cylchoedd ariannu'r UE, sydd fel arfer yn para am gyfnodau o saith mlynedd, yn gorgyffwrdd yn sylweddol mewn gwirionedd, ac roedd gweithgarwch ar brosiectau a gymeradwywyd o dan raglenni 2014–2020 yn gymwys i gael cymorth gan yr UE hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2023. Yna cafodd buddiolwyr y cronfeydd amser i lunio a chyflwyno eu hawliadau terfynol ar bob gweithrediad i WEFO, ynghyd â'u hadroddiadau ar yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn y targedau perfformiad y cytunwyd arnynt a gwerthusiad annibynnol o effaith pob gweithrediad. Yna cynhaliodd WEFO ei gwiriadau arferol a gwneud ei thaliadau terfynol.

Gwneir hawliadau i'r UE yn ôl-weithredol, yn seiliedig ar dystiolaeth o daliadau cymwys ym mhob gweithrediad. Cyfunodd WEFO y dystiolaeth a'r wybodaeth a gyflwynwyd gan fuddiolwyr drwy'r rhaglen gyfan i ddrafftio ei hawliadau terfynol a'i hadroddiadau perfformiad ar lefel rhaglen i'r Comisiwn Ewropeaidd, a gafodd eu harchwilio'n annibynnol wedyn gan Dîm Archwilio'r Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT). Mae EFAT yn atebol i'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn rhoi sicrwydd nad yw hawliadau gan WEFO yn cynnwys eitemau nad ydynt yn daliadau priodol i gyllidebau'r UE.

Gan fod angen tywys mwy na 350 o brosiectau unigol drwy'r broses hon, roedd cau'r rhaglen yn llawer mwy o broses na digwyddiad, a chafodd yr holl weithgarwch hwn ei gyflawni o 2023 hyd at ddiwedd 2025. Cyflwynwyd y pecyn terfynol o gyfrifon, Adroddiadau Gweithredu Terfynol ac Adroddiadau Archwilio EFAT i'r Comisiwn Ewropeaidd ym mis Rhagfyr 2025, sawl wythnos cyn eu dyddiad cau. Cadarnhaodd y pecyn terfynol hwn fod y gwariant cymwys a wnaed o dan y rhaglenni yn ddigon i gefnogi hawlio 100% o'r cyllid a neilltuwyd i Gymru o dan Raglenni Gweithredol 2014–2020. Roedd hwn yn gyflawniad eithriadol yng nghyd-destun yr heriau sylweddol a wynebwyd yn ystod cyfnod y rhaglenni, gan gynnwys Covid, y rhyfel yn Wcráin ac effeithiau eraill ar gyfraddau cyfnewid, costau a gallu gweithredol holl bartneriaid y rhaglenni.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr ystod o weithrediadau a gefnogwyd ledled Cymru ac mewn ystod eang o weithgareddau economaidd ar wefan Llywodraeth Cymru.[21]

Yr her unigol fwyaf i gyflawni rhaglenni oedd ymadael â'r UE, ac mae hynny'n dal yn wir mewn rhai ffyrdd. Yn ogystal ag ansicrwydd cyffredinol a newidiadau dramatig mewn cyfraddau cyfnewid, fe wnaeth absenoldeb rhaglenni dilynol beri i lawer o dimau prosiect wasgaru, a hynny weithiau'n gynt nag yr oedd ei angen ar gyfer y gwaith cwblhau rhaglenni. Rheolwyd hyn yn fanwl gan y timau rhaglenni yn WEFO a Thîm Archwilio Cronfeydd yr UE, gan sicrhau bod rolau hanfodol yn cael eu cynnal gydag adleoli hyblyg o'r staff a oedd yn weddill wrth i'r rhaglenni ddirwyn i ben. Rhoddwyd lefelau digynsail o gymorth a thriniaeth gydymdeimladol i fuddiolwyr unigol a oedd yn ei chael hi'n anodd cwblhau eu gweithrediadau, ond cymerwyd gofal i beidio â pheryglu annibyniaeth WEFO fel yr Awdurdod Rheoli ar gyfer y cronfeydd.

Mae hwn yn fater sy'n mynd yn ei flaen. Mae gan holl fuddiolwyr cyllid yr UE rwymedigaethau i gadw dogfennau a allai godi problemau ar lefel rhaglen os bydd archwilwyr yr UE yn gwneud ceisiadau am drywyddau archwilio, gwybodaeth ac esboniadau na all buddiolwyr eu bodloni. Mae pob buddiolwr wedi cael ei atgoffa dro ar ôl tro o'i rwymedigaethau i gadw rhywfaint o adnodd y gellir galw arno os bydd angen,

21 www.llyw.cymru/cronfeydd-strwythurol-yr-ue-yng-nghymru-2000-2023

fel y gwna Llywodraeth Cymru ei hun. Mae WEFO wedi mynd ati drwy gadw cell fach o staff o fewn swyddogaeth gyllid y Grŵp i gyflawni rhwymedigaethau monitro rheoleiddiol ar ôl rhaglenni. Mae nifer o staff allweddol eraill wrth law i ymateb i ymholiadau eraill. Mae Prif Weithredwr WEFO hefyd wedi cael ei adleoli ond mae'n cadw'r dirprwyaethau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaeth honno yn ffurfiol, pe bai angen. Mae'r rhan fwyaf o'r staff allweddol y cyfeirir atynt uchod yn ei gyfarwyddiaeth a gallent fod ar gael eto i ymgymryd â gwaith yn gyflym. Mae trefniadau tebyg ar waith mewn perthynas ag EFAT.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd bellach yn ystyried y pecyn terfynol o ddogfennaeth cyn anfon llythyrau cau ffurfiol ar gyfer y rhaglenni. Nid oes unrhyw ymholiadau arwyddocaol wedi cael eu codi hyd yn hyn. Gan fod disgwyl i'r gwaith sy'n weddill ar y rhaglenni fod yn waith gweinyddol ei natur ar ran WEFO a'r Comisiwn Ewropeaidd, nid ydym yn disgwyl y bydd adroddiad ar y rhaglenni hyn mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.

Y Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau

Mae'r Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau yn sail i weithrediad effeithiol Llywodraeth Cymru, gan ddarparu gwasanaethau corfforaethol, llywodraethiant ac arbenigol hanfodol ochr yn ochr â swyddogaethau cynllunio ac arolygu allweddol. Mae'n chwarae rhan ganolog yn cefnogi'r Ysgrifennydd Parhaol a gweinidogion er mwyn sicrhau gweithrediadau corfforaethol effeithiol, stiwardiaeth ariannol gryf, a chyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth. Mae'n dwyn ynghyd alluoedd ym maes cyllid, gweithlu, digidol, masnachol, cyfreithiol, dadansoddol a gwydnwch i'w gwneud yn bosibl i benderfyniadau gael eu gwneud ar sail gwybodaeth, rheoli risg a chefnogi'r broses gyflawni drwy'r sefydliad cyfan.

Dyma rai o brif gyflawniadau'r Grŵp Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau ar gyfer 2025-26:

- **Rheolaeth Ariannol, Llywodraethiant, Caffael Masnachol a Gwasanaethau Corfforaethol Modern**

  Un ffocws canolog yn ystod y flwyddyn oedd cryfhau'r sylfeini sy'n sail i berfformiad sefydliadol. Cynhaliodd y Grŵp reolaeth ariannol graidd, sicrwydd, llywodraethiant a chydwasanaethau, gan sicrhau rheolaeth gadarn dros gyllid cyhoeddus a chymorth effeithiol i weinidogion. Ochr yn ochr â hyn, gwnaeth fwrw ymlaen â'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol, gan fapio prosesau presennol ym maes adnoddau dynol, y gyflogres, cyllid a grantiau er mwyn pennu llinell sylfaen glir ar gyfer diwygiadau. Drwy hyn bydd modd datblygu model gweithredu yn y dyfodol sy'n fwy cyson, yn effeithlon ac yn seiliedig ar ddata, gyda gwell mynediad at wybodaeth ddibynadwy ac amserol i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau.

  Ochr yn ochr â hynny, cymerwyd camau i wella trefniadau llywodraethiant masnachol a rheoli contractau, wedi'u hategu gan well defnydd o ddata caffael. Mae symleiddio prosesau caffael, gan gynnwys codi trothwyon o £25,000 i £75,000, wedi lleihau'r baich gweinyddol ond wedi cynnal goruchwyliaeth briodol ar yr un pryd.

- **Digidol, Data a Thechnoleg**

  Yn ystod 2025-26, aeth y Gyfarwyddiaeth ati i gyflawni blaenoriaethau allweddol digidol, data, technoleg a dadansoddol, gan gryfhau gallu ym mhob rhan o'r llywodraeth. Roedd hyn yn cynnwys cynnydd parhaus o ran darparu gallu AI ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru

i gefnogi staff yn eu gwaith, a chyflawni ymgyrch Un Peth Mawr, lle cafodd mwy nag 80% o'r Gwasanaeth Sifil hyfforddiant ar sylfeini AI mewn llywodraeth.

Yn ystod y flwyddyn, sefydlodd y Gyfarwyddiaeth y Swyddfa AI a Chynllun AI Cymru, sy'n cynorthwyo'r gwaith o arloesi ac o fabwysiadu technolegau sy'n dod i'r amlwg mewn ffordd gyfrifol. Gwnaeth hefyd arwain prosiect llwyddiannus i symud y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i fod yn rhan o Lywodraeth Cymru o 1 Ebrill 2026. Ar gyfer 2026-27 bydd y timau hyn yn cael eu dwyn ynghyd mewn Cyfarwyddiaeth newydd ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cymru, ochr yn ochr â pholisi digidol, gweithlu a newid, i roi arweinyddiaeth gryfach i agenda ddigidol ac AI y gwasanaeth cyhoeddus.

- **Ystadegau ac Ymchwil**

  Cyflwynwyd rhaglen eang o allbynnau ystadegol ac ymchwil, gan gynnwys cyhoeddi Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, lansio gwasanaeth newydd StatsCymru, ac ail-lunio Arolwg Cenedlaethol Cymru.

- **Gwasanaethau Cyfreithiol**

  Cafodd y Gwasanaethau Cyfreithiol flwyddyn hynod brysur yn cefnogi blaenoriaethau gweinidogol a'r Rhaglen Lywodraethu, yn enwedig y gwaith ar 16 o Filiau Senedd yn ystod y cyfnod hwn, yn ogystal â channoedd o Offerynnau Statudol. Roedd y ddeddfwriaeth yn cynnwys deddfwriaeth frys – Deddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) 2026.

  Parhaodd y Gwasanaethau Cyfreithiol hefyd i gynrychioli Gweinidogion Cymru wrth amddiffyn ac erlyn materion ar eu rhan drwy'r Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd, gan gynghori a gweithredu mewn perthynas â chontractau masnachol a materion eiddo, cefnogi'r tîm Caffael a chynghori Llywodraeth Cymru fel cyflogwr ar faterion sy'n ymwneud â chyfraith cyflogaeth. Cefnogodd aelodau'r Gyfarwyddiaeth ddigwyddiadau symudedd cymdeithasol hefyd, yn benodol i annog unigolion nad oes ganddynt gysylltiadau yn y sector i ystyried gyrfa yn y gyfraith, a buont yn aelodau pwyllgor ar gyfer Cyfraith Gyhoeddus Cymru, sef sefydliad sy'n hyrwyddo trafodaeth, addysg ac ymchwil ym maes cyfraith gyhoeddus a hawliau dynol yng Nghymru.

- **Diogelwch Gwladol a Gwydnwch**

  Yn ystod 2025-26, bu'r Is-adran Diogelwch Gwladol a Gwydnwch wrthi'n cryfhau gwydnwch a seiberddiogelwch Cymru a'i chyfraniad at yr agenda diogelwch gwladol. Roedd y rhaglen o waith cyflawni strategol a gweithredol yn cynnwys Fframwaith a Chynllun Cyflawni Gwydnwch Cymru, adolygu trefniadau goruchwylio, a sefydlu prosesau rheoli risg newydd. Mewn partneriaeth â thimau iechyd, arweiniodd yr Is-adran Diogelwch Gwladol a Gwydnwch gyfraniad Llywodraeth Cymru at Ymarfer PEGASUS, sef ymarfer gwydnwch mwyaf y DU. Gwnaeth hwn brofi cynlluniau presennol, treialu cysyniad gwell o weithrediadau rheoli argyfwng, ac ymgorffori gwersi o Ymchwiliad COVID-19.

  Cydlynodd yr Is-adran Diogelwch Gwladol a Gwydnwch yr ymateb strategol i 31 o ddigwyddiadau brys, gan gefnogi gweithredu amlasiantaeth effeithiol gan barhau i gyflawni polisïau ehangach ar yr un pryd. Cyfrannodd hefyd at ymchwiliadau cyhoeddus mawr, gan gynnwys Covid-19, Grenfell ac ymosodiad Arena Manceinion, gan sicrhau bod polisïau a gwaith cynllunio yn cael eu llywio gan wersi a ddysgwyd.

  Cryfhawyd seiberwydnwch ymhellach drwy ehangu CymruSOC, sydd bellach yn amddiffyn mwy na 650,000 o ddefnyddwyr, ochr yn ochr â chyflwyno rhaglen ymarfer seiber genedlaethol a chynhadledd genedlaethol gyntaf Cymru ar seiberwydnwch. Bu'r is-adran hefyd yn cefnogi agenda diogelwch gwladol a gwrthderfysgaeth y DU, gan sicrhau bod blaenoriaethau Llywodraeth

Cymru a buddiannau gweinidogol yn cael eu hadlewyrchu wrth wneud penderfyniadau ar gyfer y DU gyfan. Gyda'i gilydd, cryfhaodd y gwaith hwn barodrwydd Cymru a'i gallu i ymateb a chyfraniad Cymru at ganlyniadau diogelwch gwladol.

- **Pobl a Lleoedd**

  Yn ystod 2025-26, aeth y Gyfarwyddiaeth ati i gyflwyno diwygiadau i'r gweithlu a'r sefydliad er mwyn cryfhau gallu, gwella prosesau cyflawni a chefnogi cynaliadwyedd yn yr hirdymor.

  Parhaodd diwylliant a chynhwysiant sefydliadol i wella, gyda chanlyniadau cadarnhaol yn yr Arolwg Pobl, gan gynnwys ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a chyflawnwyd cydraddoldeb rhywedd ar lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil. Cyfrannodd dyfarniad cyflog 2025 at ymgysylltu cryfach gan y gweithlu, gyda boddhad cyflog ar ei lefel uchaf o'i gymharu â chymharwyr Llywodraeth y DU. Atgyfnerthwyd gwaith rheoli perfformiad drwy gydymffurfio'n llawn wrth bennu amcanion yr Uwch Wasanaeth Sifil, ochr yn ochr â chryfhau gallu arweinwyr drwy raglenni datblygu gweithredol a thalent estynedig.

  Cafodd amserlenni recriwtio ar gyfer Llywodraeth Cymru a Phenodiadau Cyhoeddus eu lleihau drwy brosesau symlach, gan ei gwneud yn bosibl i gael talent yn gyflymach. Cafodd arlwy Academi Wales ei adnewyddu, gan gynnwys ysgolion haf a gaeaf llwyddiannus a Symposiwm Arweinyddiaeth Blynyddol cyntaf i gefnogi arweinyddiaeth ar y cyd ac uchelgeisiau gwrth-hiliol.

  Cafodd y trefniadau ar gyfer gweinyddu'r ystad ac iechyd a diogelwch eu hadolygu i sicrhau bod y gwasanaethau'n parhau i fod yn effeithlon ac yn gweddu i anghenion y sefydliad.

- **Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW)**

  Llwyddodd Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i wella perfformiad o ran gwaith achos cynllunio yn ystod 2025–26. Dyroddwyd 13 o benderfyniadau ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, gan leihau amseroedd penderfynu cyfartalog i 30 wythnos. Yn dilyn rheoliadau newydd, roedd penderfyniadau dirprwyedig yn cael eu cyhoeddi cyn yr amserlenni statudol.

  Cynyddodd nifer y penderfyniadau ynghylch Apeliadau Gorfodi 40% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac fe wnaeth hyfforddi arolygwyr newydd gyflymu at hynny. Hefyd, aeth Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru ati i archwilio pedwar Cynllun Datblygu Lleol ar yr un pryd.

  Yn ystod y flwyddyn, cafodd pob her gyfreithiol yn erbyn penderfyniadau ei hamddiffyn yn llwyddiannus.

- **Uned Tribiwnlysoedd Cymru**

  Mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn gyfrifol am weinyddu'r chwe thribiwnlys datganoledig. Mae'r Uned yn atebol yn uniongyrchol i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Y flwyddyn diwethaf gwrandawodd Tribiwnlysoedd Cymru ar 2,263 o geisiadau ar faterion a oedd yn cwmpasu amrywiaeth o faterion gan gynnwys iechyd meddwl, darparu cymorth addysgol i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol a chymhwyso safonau'r Gymraeg.

- **Trysorlys Cymru**

  Parhaodd Trysorlys Cymru i gefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, gan gynnwys rhaglen deuoli'r A465 gwerth £2bn, cynnydd ar Ganolfan Ganser Felindre, ysgol pob oed newydd yn Sir y Fflint, a dechrau'r gwaith adeiladu ar brosiect Coleg Caerdydd a'r Fro. O ran polisi treth, cafodd deddfwriaeth i gyflwyno Ardoll Ymwelwyr Gydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2025, gan roi'r opsiwn i awdurdodau lleol godi refeniw i'w fuddsoddi mewn twristiaeth.

  Ochr yn ochr â chyflawni'r Gyllideb flynyddol, datblygodd Trysorlys Cymru Adolygiad Gwariant Cymru i gryfhau'r broses o wneud penderfyniadau cyllidol yn y tymor canolig i'r hirdymor. Mae'r cam cychwynnol wedi'i gwblhau. Mae gwersi wedi'u cofnodi ac mae cynlluniau wedi'u datblygu i gefnogi'r broses o bontio i'r weinyddiaeth nesaf.

Astudiaeth Achos: **Rhaglen Desktop 2.0**



Andrew Goodall (yr Ysgrifennydd Parhaol) gydag aelod o dîm Rhaglen Desktop 2.0 yn ystod y gwaith cyflwyno ym Mharc Cathays.

Desktop 2.0 yw ymarfer uwchraddio cyfrifiadurol mwyaf arwyddocaol Llywodraeth Cymru i ddefnyddwyr terfynol ers 2018-19, sy'n cynnig amgylchedd gwaith digidol modern a diogel sydd â gwell ffocws ar y defnyddiwr i gydweithwyr. Dros gyfnod o naw mis, llwyddodd y rhaglen i uwchraddio mwy na 7,000 o liniaduron yn yr holl swyddfeydd yn y DU, ochr yn ochr â rhoi arweiniad a chefnogaeth i gydweithwyr tramor a oedd yn trosglwyddo i Windows 11. Sicrhaodd yr ymarfer mawr hwn fod technoleg gyfoes ar gael i'r staff, gan gynnwys disodli dyfeisiau X380 ac X390 hŷn fel rhan o'r ymarfer uwchraddio.

Cyflwynodd y rhaglen nifer o welliannau gyda'r nod o wella profiad a chynhyrchiant defnyddwyr. Mae cydweithwyr bellach yn cael budd o nodweddion mwy pwrpasol, gan gynnwys gwe-lywio mwy greddfol, gosodiadau bwrdd gwaith hyblyg, ystod o gefndiroedd corfforaethol a Microsoft cymeradwy, a nodweddion hygyrchedd gwell.

Roedd diogelwch yn ffocws allweddol wrth uwchraddio. Gweithredodd Desktop 2.0 Windows Hello for Business, a oedd yn galluogi dilysu mwy diogel a chyfleus drwy brosesau adnabod rhif adnabod, olion bysedd neu wyneb, gan gadw mynediad cyfrinair lle bo angen. Mae'r newidiadau hefyd wedi lleihau pa mor aml y mae negeseuon dilysu yn codi, sy'n cyfrannu at brofiad mwy di-dor i ddefnyddwyr.

Roedd ymgysylltu â defnyddwyr a mabwysiadu yn gadarn drwy gydol y rhaglen. Cwblhaodd 98% o'r sefydliad y broses uwchraddio o fewn yr amserlen ofynnol. Bu'r adborth yn gadarnhaol, gyda mwy na 90% o ddefnyddwyr yn nodi profiad ffafriol o'r newid.

Mae cyflwyno Desktop 2.0 yn llwyddiannus yn dangos gallu'r sefydliad i weithredu newid digidol ar raddfa fawr, gan wella diogelwch a defnyddioldeb gwasanaethau technoleg craidd a hefyd sicrhau parhad gweithrediadau ar yr un pryd.

Grŵp yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth

Yn ystod 2025-26, pedair blaenoriaeth genedlaethol yn sail i waith y Grŵp:

- Pontio teg a ffyniant gwyrdd
- Creu platfform i bobl ifanc ar gyfer gwaith teg, sgiliau a llwyddiant
- Creu partneriaethau cryfach ar gyfer rhanbarthau cryfach a chefnogi ein heconomi bob dydd; a
- Buddsoddi ar gyfer twf.

Roedd ein dull o sicrhau mwy o swyddi a swyddi gwell yn seiliedig ar bartneriaeth â llywodraeth leol drwy Fframweithiau Datblygu Rhanbarthol a chyflawni blaenoriaethau economaidd drwy wahanol Gydbwyllgorau Corfforaethol. Bu Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, llywodraeth leol a phartneriaid i gyflawni rhaglenni fel Porthladdoedd Rhydd, Parthau Buddsoddi, Parthau Twf AI, Bargen Twf Amddiffyn Cymru, a Bargeinion Dinesig a Thwf. Roedd hyn yn cynnwys cysondeb agosach drwy'r genhadaeth economaidd gyfan, gyda ffocws ar gyflawni Strategaeth Ddiwydiannol sy'n blaenoriaethu sectorau twf allweddol, gan gynnwys diwydiannau ynni glân, gweithgynhyrchu uwch (gan gynnwys amddiffyn), technolegau digidol a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg, diwydiannau creadigol, gwyddorau bywyd a gwasanaethau ariannol.

Ymhlith cyflawniadau allweddol Grŵp yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth ar gyfer 2025-26 mae:

- **Yr Economi**

  Aeth Llywodraeth Cymru ati i sicrhau manteision Deallusrwydd Artiffisial (AI) er mwyn tyfu'r economi ac adeiladu ecosystem AI gryf drwy fanteisio ar ei chryfderau mewn lled-ddargludyddion cyfansawdd, seiberddiogelwch, ynni gwyrdd ac ymchwil. Sicrhaodd Cymru ddau o'r Parthau Twf Deallusrwydd Artiffisial dynodedig yn y DU.

  Menter gan Lywodraeth y DU o dan Gynllun Gweithredu Cyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial y DU yw'r parthau hyn.[22] Eu nod yw cefnogi galluoedd AI sofran yn y tymor hwy ar gyfer y DU a chyflymu'r defnydd cyfrifol o seilwaith AI a digidol ar raddfa fawr drwy gydlynu cynllunio, ynni, sgiliau a dulliau buddsoddi mewn lleoedd sydd â photensial economaidd cryf, yn enwedig o ran adnoddau canolfannau data, cyfrifiadura uwch, a diwydiannau sy'n cael eu galluogi gan AI.

- **Entrepreneuriaeth a Busnes Cymru**

  Darparodd Syniadau Mawr Cymru wasanaeth pwrpasol i gefnogi'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid ifanc yng Nghymru ac mae'n helpu'r rhai sydd â diddordeb mewn sefydlu busnes i fwrw ymlaen â'u syniad. Yn 2025-26 cefnogodd Syniadau Mawr Cymru 805 o bobl ifanc, gyda 219 yn mynd yn eu blaen i ddechrau masnachu. Yn 2025-26, ymgysylltodd modelau rôl ym myd busnes â 78,415 o bobl ifanc mewn lleoliadau addysg a chymunedol i godi ymwybyddiaeth entrepreneuraidd, cyflwyno gweithdai ysbrydoledig a chynghori entrepreneuriaid y dyfodol. Mae Busnes Cymru yn cefnogi entrepreneuriaid newydd, micro-fusnesau a busnesau bach a chanolig i feithrin gwydnwch, gwella cynhyrchiant a sbarduno twf cynhwysol a chynaliadwy. Yn 2025-26 rhoddodd Busnes Cymru gyngor i 9,006 o unigolion a busnesau i gefnogi 3,745 o swyddi.

  Cyflawnodd Banc Datblygu Cymru ei dargedau allweddol ar gyfer creu swyddi a chyflawni economaidd. Buddsoddodd £140m yn 2025-26 gan helpu i greu a diogelu 5,153 o swyddi drwy 533 o fuddsoddiadau ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys £37m ar draws 116 o fuddsoddiadau, gan greu a diogelu 1,268 o swyddi yn y Gogledd; £39m ar draws 147 o fuddsoddiadau, gan gefnogi 1,315 o swyddi yn y Canolbarth a'r Gorllewin; a £64m ar draws 270 o fuddsoddiadau, gan helpu i greu a diogelu 2,570 o swyddi yn y De-ddwyrain.

22 www.gov.uk/government/publications/ai-opportunities-action-plan/ai-opportunities-action-plan

- **Rhaglen Porthladdoedd Rhydd Cymru**

  Bwriad rhaglen Porthladdoedd Rhydd Cymru yw cyfrannu at gynyddu cynhyrchiant ac at ddatblygu economaidd hirdymor. Mae'r rhaglen hefyd yn darparu llwyfan ar gyfer adfywio ac ar gyfer datblygu clystyrau diwydiannol strategol.

  Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, a phartneriaethau'r Porthladdoedd Rhydd perthnasol wedi cytuno ar Femoranda Cyd-ddealltwriaeth ar wahân ar gyfer y Porthladd Rhydd Celtaidd a Phorthladd Rhydd Ynys Môn ac wedi'u llofnodi. Mae'r cytundebau yn rhoi'r fframwaith ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chyflawni rhaglenni, gan nodi rolau, cyfrifoldebau ac ymrwymiadau pob parti i sicrhau manteision disgwyliedig statws Porthladd Rhydd a fydd yn golygu £25m o gyllid cyfalaf.

- **Y Gronfa Twf Lleol**

  Daeth Llywodraeth Cymru i gytundeb â Llywodraeth y DU ynglŷn â Chynllun Buddsoddi tair blynedd ar gyfer Cronfa Twf Lleol yng Nghymru. Cytunodd Llywodraeth Cymru i fuddsoddi £547m o gyllid oddi wrth Lywodraeth y DU i gefnogi swyddi a thwf yn economi Cymru rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2029.

  Cytunwyd y byddai'r buddsoddiad yn canolbwyntio ar ardaloedd sydd â'r angen mwyaf er mwyn sbarduno twf cynhyrchiant a lleihau anghydraddoldebau yng Nghymru. Cytunwyd ar yr ardaloedd hyn ar y cyd â phartneriaid drwy'r system gyfan, a darparwyd cyllid drwy gydweithio parhaus.

- **Ynni**

  Mae ynni yn sylfaenol i lwyddiant ein heconomi. Buom yn gweithio gyda'r diwydiant i ddatblygu polisïau newydd i gynorthwyo'r broses o ddal a storio carbon a hydrogen carbon isel yng Nghymru.

  Cytunodd Llywodraeth Cymru ar gamau gweithredu â'r diwydiant ynni adnewyddadwy i gyflymu'r defnydd o ynni glân yng Nghymru mewn ffordd a oedd yn cefnogi ein heconomi, yn creu cyfoeth yn ein cymunedau ac yn rhoi cyfleoedd swyddi a sgiliau newydd i genedlaethau sydd i ddod. Cymerwyd camau i fuddsoddi yn y gadwyn gyflenwi drwy roi benthyciad o £8m i Marine Power Systems i ddatblygu ei allu ym maes ynni gwynt alltraeth dŵr dwfn.

  Arweiniodd Llywodraeth Cymru waith cyflawni uniongyrchol drwy Trydan Gwyrdd Cymru ac Ynni Cymru. Mae Trydan wedi lansio ei bedwar safle datblygu cyntaf yng Nghymru gyda'r potensial i gynhyrchu dros 400 megawat o ynni glân, a fydd yn cyfrannu at eu targed o 1 gigawat erbyn 2040. Cefnogodd rhaglen Ynni Cymru 78 o brosiectau ynni cymunedol ledled Cymru, gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad i £23m.

- **Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol**

  Yn ystod 2025-26, canolbwyntiodd y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol ar gefnogi gwelliannau i gymwysiadau digidol ar gyfer budd-daliadau, gwasanaethau cynllunio digidol a llwybrau niwroamrywiaeth plant, gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau iechyd. Hefyd, cryfhaodd y ganolfan allu digidol yn y sector cyhoeddus drwy ddarparu rhaglenni arweinyddiaeth, hyfforddiant a chymunedau ymarfer. Cynullodd Grŵp Arweinyddiaeth AI Cymru a Bwrdd Safonau Digidol a Data Cymru i gefnogi cydweithio a defnydd diogel a moesegol o ddigidol a data. Roedd hyn yn cynnwys helpu Llywodraeth Cymru i ddeall y dirwedd AI yn well ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus digidol yng Nghymru.

  Ochr yn ochr â hyn, rhoddodd y ganolfan gymorth i sefydliadau gyrraedd Safon Gwasanaethau Digidol Cymru drwy ddarparu canllawiau, adnoddau a dulliau a rennir, gan gynnwys patrymau ac elfennau cyffredin mewn gwasanaethau er mwyn helpu timau i lunio gwasanaethau mwy cyson, ailddefnyddiadwy sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr. Ar ôl creu'r Swyddfa AI, bydd y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol yn dod yn rhan o Lywodraeth Cymru o 1 Ebrill 2026.

- **Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth Cymru**

  Arweiniodd Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru weithgarwch ymgysylltu Llywodraeth Cymru ar wyddoniaeth yn ymarfer parodrwydd am argyfwng PEGASUS Llywodraeth y DU. Ymarfer parodrwydd am bandemig oedd PEGASUS a gynhaliwyd yn ystod Hydref 2025 i brofi parodrwydd y DU i wynebu pandemig arall o glefyd tebyg i feirws gyda'r nod o brofi'r gwersi a ddysgwyd o bandemig COVID-19 ac argymhellion yr ymchwiliad cyhoeddus.

  Roedd Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru yn arsylwr ar SAGE (Grŵp Cynghori ar Wyddoniaeth mewn Argyfyngau) Llywodraeth y DU, gan roi her wyddonol a thechnegol annibynnol i brofi rhagdybiaethau, ymchwilio i ansawdd tystiolaeth ac annog pobl i beidio â meddwl fel grŵp. Y Prif Gynghorydd Gwyddonol hefyd oedd y prif gyfrwng i sicrhau cyswllt rhwng y strwythurau cyngor gwyddoniaeth brys yn Llywodraeth Cymru a SAGE, Prif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth y DU a Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth y DU. Mae Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru hefyd wedi arwain y mewnbwn gwyddonol i ymatebion Llywodraeth Cymru i adroddiadau Modiwl Ymchwiliad Covid. Mae wedi cydweithio ag Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) ar wella canlyniadau ariannu ymchwil yn y DU ac wedi arwain y gwaith o ddatblygu Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil Llywodraeth Cymru ar gyfer llunwyr polisi.

- **Trafnidiaeth**

  Yn 2025-26, gan weithio mewn partneriaeth â Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol a diwydiant, aethom ati i ddatblygu Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru, gan bennu'r glasbrint ar gyfer system newydd mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol. Roedd y gwaith hwn yn cefnogi'r uchelgais 'un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn', gan hwyluso defnydd a galluogi teithiau di-dor rhwng dulliau teithio.

  Fe wnaethom hefyd fwrw ymlaen â'r gwaith paratoi ar gyfer cyflwyno gwasanaethau masnachfraint yn raddol. Roedd hyn yn cynnwys creu partneriaethau cyflawni, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i gydgynllunio gwasanaethau.

  Cafwyd cynnydd o 9.9% yn nifer y teithwyr ar drenau Trafnidiaeth Cymru. Agorwyd depo newydd Metro De Cymru yn Ffynnon Taf fel rhan o'r gwaith o drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd. Lansiwyd gwasanaethau trên newydd yn y Gogledd, gan gynnwys cynnydd mewn gwasanaethau sy'n cysylltu Wrecsam a Chaer.

- **Cysylltiadau rhyngwladol a masnach**

  Cafodd rhaglen Cymru a Japan 2025 effaith economaidd a diwylliannol sylweddol, gan gynnwys taith fasnach fwyaf Cymru i Japan – y cymerodd 29 o gwmnïau o Gymru ran ynddi. Yn ogystal, llofnodwyd Memoranda Cyd-ddealltwriaeth newydd gyda llywodraethau Gwlad y Basg a Chatalwnia, a bu ymgysylltu amlochrog ag UNESCO, gyda chymorth secondiad o Lywodraeth Cymru i Baris, a gyfrannodd at lwyddiant Aberystwyth yn sicrhau dynodiad Dinas Llên UNESCO.

  Fe wnaeth y Cynllun Gweithredu Allforio a'n rhaglenni cymorth allforio helpu tua 900 o gwmnïau i ddatblygu eu hallforion, a rhoi help uniongyrchol i fusnesau Cymreig i sicrhau gwerth mwy na £120m o gytundebau allforio newydd. Er mwyn denu mewnfuddsoddiad, gwnaethom gynhyrchu dros 200 o ymholiadau am fuddsoddi a mynd i fwy na 40 o ddigwyddiadau cenedlaethol/rhyngwladol i ymgysylltu â darpar fuddsoddwyr.

  Fe wnaeth Uwchgynhadledd Fuddsoddi Cymru gryfhau proffil byd-eang Cymru a hyder buddsoddwyr, gyda mwy na 350 o gynrychiolwyr (uwch-swyddogion gweithredol yn bennaf) o 29 o wledydd. Roedd 43% o'r cynrychiolwyr o sefydliadau nad oedd ganddynt bresenoldeb yng Nghymru. Yn y cyfnod cyn yr uwchgynhadledd, cadarnhawyd buddsoddiadau gwerth tua £16bn i Gymru.

  Parhaodd y tîm i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar bolisi masnach.

- **Twristiaeth, marchnata, digwyddiadau a'r maes creadigol**

  Chwaraeodd Cymru Greadigol rôl allweddol pan gynhaliodd Cymru 44fed Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ym mis Rhagfyr, a oedd yn canolbwyntio ar y diwydiannau creadigol. 'Dyfodol Creadigol: Daeth 'Datgloi Potensial y Diwydiannau Creadigol ar draws yr Ynysoedd Hyn' ag arweinwyr o bob aelod-weinyddiaeth ac o'r diwydiant ynghyd i ddangos cryfder y sector creadigol yng Nghymru a'i gyfraniad diwylliannol ac economaidd.

  Cynhaliwyd Pencampwriaeth Agored Menywod AIG yng Nghlwb Golff Brenhinol Porthcawl yn ystod haf 2025, sef y tro cyntaf i'r bencampwriaeth fawr hon gael ei chynnal yng Nghymru. Denodd y digwyddiad fwy na 47,000 o fynychwyr a chymerodd 144 o chwaraewyr elît o 32 o wledydd ran ynddo, gan sicrhau sylw helaeth gan ddarlledwyr ledled y byd. Mae dadansoddiad annibynnol yn amcangyfrif bod yr effaith economaidd uniongyrchol i Gymru yn £8.44m.

  Yn sgil y rhaglen farchnata ar gyfer Uwchgynhadledd Fuddsoddi Cymru, a gyflwynwyd o dan frand Cymru Wales, dywedodd 98% o'r cynrychiolwyr fod ganddynt well dealltwriaeth o gryfderau Cymru ac roedd 100% yn deall yn glir sut i ymgysylltu o ran cyfleoedd buddsoddi.

  Yn 2025-26, rhoddwyd dros £4m o gyllid cyfalaf i fwy na 300 o fusnesau twristiaeth a lletygarwch drwy'r Gronfa Addasu i'r Tywydd.

- **Arloesi**

  Sicrhaodd y gyllideb o £10m ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn 2025-26 fuddsoddiadau ymchwil, datblygu ac arloesi gan fusnesau a'r byd academaidd yng Nghymru a oedd yn werth cyfanswm o £29.3m rhwng 101 o brosiectau. Yn ystod 2025-26 dangoswyd gwerth buddsoddi cynnar mewn ymchwil a datblygu pan sicrhaodd Draig Therapeutics yng Nghaerdydd £107m gan fuddsoddwyr cyfalaf menter rhyngwladol. Arweiniodd cydweithio agosach ag Innovate UK yn ystod 2025-26 at fuddsoddiad o £65m mewn prosiectau yng Nghymru, ynghyd â £50m a ddyfarnwyd i ddau gynnig yng Nghymru o'r Gronfa Partneriaeth Arloesi Leol.

- **Cyflogadwyedd**

  Roedd cyflogadwyedd yn canolbwyntio ar helpu pobl tuag at waith ac i gael gwaith. Yn 2025-26, cafodd mwy na 17,000[23] o unigolion eu cefnogi drwy gynlluniau Cymunedau dros Waith, Twf Swyddi Cymru a ReAct Llywodraeth Cymru.

23 Yn seiliedig ar ddata rheoli dros dro gyda data diwedd blwyddyn wedi ei ddiweddaru ym Mehefin 2026.

Y Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg

Mae'r Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg yn arwain ar addysg ar draws yr holl gamau dysgu, yn ogystal â diwylliant, y Gymraeg, cyfiawnder cymdeithasol, a diogelwch cymunedol. Ein nod yw gwella deilliannau addysg, creu cymunedau tecach a mwy cyfartal, hybu bywyd diwylliannol ac ieithyddol bywiog, a gweithio gyda phartneriaid i helpu i gadw pobl yn ddiogel ac yn wydn.

Ymhlith cyflawniadau allweddol y Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg ar gyfer 2025-26 mae'r canlynol:

- **Mae'r broses o roi diwygiadau i Anghenion Dysgu Ychwanegol ar waith wedi'i chwblhau**

  Ym mis Medi 2025, dechreuodd y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn llawn ledled Cymru. Mae'r system ADY yn rhoi fframwaith statudol unedig i gefnogi dysgwyr o 0 i 25 oed, gan ddefnyddio ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i nodi ac ymateb i'w hanghenion dysgu ychwanegol. Mae ei amcanion craidd yn cynnwys ymyriadau cynharach, llai o brosesau gwrthwynebol, hawliau apelio cliriach, cyfranogiad cryfach gan ddysgwyr a theuluoedd, a gwell cydweithio rhwng addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.

  Mae gan fwy na 43,000 o ddysgwyr o oedran ysgol orfodol mewn ysgolion a gynhelir Gynllun Datblygu Unigol statudol bellach, gyda hawliau y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu buddsoddiad i helpu i roi'r system ADY ar waith a chyflawni uchelgeisiau'r cynllun diwygio, gan gynnwys dros £190m o gyllid cyfalaf a £196m o gyllid refeniw ers 2020. Mae rolau statudol newydd o fewn ysgolion, sefydliadau addysg bellach, cyrff iechyd ac awdurdodau lleol i arwain y gwaith o ddarparu'r system ADY yn strategol.

  Yn 2025-26 cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r ddeddfwriaeth er mwyn canfod sut y gellid gwella'r ffordd y mae'n gweithredu. Datblygwyd pum cam â blaenoriaeth, gyda chamau i egluro'r fframwaith deddfwriaethol, gwelliannau i gysondeb a goruchwyliaeth genedlaethol, mwy o wybodaeth i deuluoedd, gwaith amlasiantaethol cryfach, ac ystyried gweledigaeth ar gyfer system addysg gynhwysol.

- **Gwydnwch digidol a chadw'n ddiogel ar-lein**

  Mae'r byd digidol yn parhau i ddatblygu ar gyflymder aruthrol, ac mae Llywodraeth Cymru yn helpu ein plant a'n pobl ifanc i ymdrin â'r manteision a'r heriau sy'n deillio o hynny drwy ein hardal 'Cadw'n ddiogel ar-lein' ar Hwb. Mae 'Cadw'n ddiogel ar-lein' yn rhoi mynediad i ddysgwyr, teuluoedd, ymarferwyr addysg, gweithwyr proffesiynol a llywodraethwyr at adnoddau, canllawiau, gwybodaeth a hyfforddiant cyfredol er mwyn cefnogi diogelwch ar-lein a chryfhau gwydnwch digidol. Er eu bod yn cydnabod y manteision niferus y mae technoleg yn eu cynnig, mae'r adnoddau hyn yn cydnabod y gall heriau godi ac maent yn rhoi cymorth a chyngor dwyieithog a dibynadwy ar gymryd rhan yn y byd ar-lein yn ddiogel ac yn gyfrifol.

  Yn 2025-26, gwnaethom ddatblygu rhagor o gyngor, canllawiau ac adnoddau i fynd i'r afael â phryderon newydd ynglŷn â diogelwch ar-lein. Gwnaethom gymryd rhan yn Niwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel, gan ymgysylltu â dysgwyr ac ymarferwyr i ystyried heriau a chyfleoedd sy'n deillio o AI. Roedd ein gweithgareddau yn cynnwys darparu canllawiau i deuluoedd ar yr apiau diweddaraf sy'n boblogaidd ymhlith plant a phobl ifanc; darparu gweminarau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth i ysgolion ar feysydd megis seiberwydnwch, technolegau sy'n dod i'r amlwg a diogelwch ar-lein; cydweithio ag arbenigwyr yn y diwydiant i ddatblygu cyngor ac arweiniad i ymateb i'r materion diogelwch ar-lein diweddaraf; a pharhau i annog a gwrando ar farn plant a phobl ifanc drwy ein Grŵp Ieuenctid Cadw'n Ddiogel Ar-lein.

- **Cynllun peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru**

  Ym mis Tachwedd 2025, gwnaed y taliad olaf i dderbynnydd terfynol y cynllun peilot Incwm Sylfaenol i Bobl sy'n Gadael Gofal yng Nghymru, gan nodi diwedd y cam cyflawni. Lansiwyd y cynllun peilot ym mis Gorffennaf 2022, a rhoddodd £1,600 y mis (cyn treth) i fwy na 600 o bobl a oedd yn gadael gofal am hyd at ddwy flynedd i'w cefnogi wrth iddynt bontio o ofal a thuag at fyw'n annibynnol.

  Er bod cam cyflawni'r cynllun peilot wedi dod i ben, bydd y gwerthusiad annibynnol, dan arweiniad y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) ym Mhrifysgol Caerdydd ochr yn ochr â chydweithwyr yng Ngholeg y Brenin Llundain, Prifysgol Rhydychen, Prifysgol Caerefrog a Phrifysgol Northumbria, yn parhau tan 2027.

- **Buddsoddiad yng Nghastell Caerffili**

  Roedd ailagor Neuadd Fawr Castell Caerffili ym mis Gorffennaf 2025 yn garreg filltir bwysig yn y broses o adnewyddu un o asedau treftadaeth pwysicaf Cymru. Gyda chymorth buddsoddiad o fwy nag £8m gan Lywodraeth Cymru, mae'r prosiect wedi cyfuno cadwraeth ofalus â dehongliad modern, gan wella hygyrchedd a chreu profiad deniadol i ymwelwyr sy'n dod â hanes y castell o'r 13eg ganrif yn fyw. Mae'r prosiect yn cyfrannu'n uniongyrchol at lesiant drwy gynnig cyfleoedd cynhwysol ar gyfer dysgu, hamdden a chysylltiadau diwylliannol. Drwy fynediad gwell, llwybrau newydd ac adnodd adrodd straeon trochol bydd modd i amrywiaeth ehangach o ymwelwyr ymddiddori yn nhreftadaeth Cymru a rennir gan bawb, gan gryfhau hunaniaeth gymunedol a balchder yn eu lle. Mae adfywio Castell Caerffili yn rhan o weledigaeth ehangach Caerffili 2035, a fydd yn cefnogi adfywiad economaidd, buddsoddiad diwylliannol a thwristiaeth gynaliadwy.

  Yn yr ailagoriad, lansiodd Cadw docyn newydd gwerth £1 i alluogi pobl sydd ar gredyd cynhwysol a budd-daliadau eraill i ymweld â safleoedd Cadw. Ym mlwyddyn gyntaf y cynllun, cofnodwyd 11,740 o ymweliadau ac roedd 97% o'r ymwelwyr yn ymweld am y tro cyntaf.

- **Cymraeg 2050 a Deddf y Gymraeg ac Addysg 2025**

  Mae Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 yn canolbwyntio ar sicrhau bod pob dysgwr yn gadael addysg orfodol yn siaradwyr Cymraeg annibynnol. Mae'r Ddeddf yn mabwysiadu dull 'deuol', gan gefnogi ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a hefyd gryfhau canlyniadau o ran y Gymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth, sefydlwyd rhaglen weithredu yn 2025-26 i'w rhoi ar waith. Mae hyn yn dwyn ynghyd weithgareddau megis gosod targedau, cynllunio'r gweithlu, dysgu proffesiynol ac atebolrwydd er mwyn cynnal parodrwydd y system.

- **Fframwaith statudol ar gyfer gwaith ieuenctid**

  Cyhoeddwyd fframwaith statudol newydd ar gyfer gwaith ieuenctid ym mis Mawrth 2026. Mae'r fframwaith yn cyflwyno dyletswydd statudol glir ar awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth gwaith ieuenctid. Mae'n sefydlu trefniadau cynllunio ac atebolrwydd cadarn drwy gyflwyno gofyniad ar awdurdodau lleol i baratoi cynlluniau strategol 5 mlynedd. Mae cydweithio yn un o egwyddorion craidd y fframwaith.

  Mae'r fframwaith yn cydnabod na all awdurdodau lleol ar eu pen eu hunain wneud gwaith ieuenctid effeithiol a bod angen partneriaeth agos â sefydliadau gwirfoddol a rhanddeiliaid ehangach.

  Mae safonau cenedlaethol yn sail i'r fframwaith, gan hyrwyddo mwy o gysondeb, a chadw hyblygrwydd i adlewyrchu anghenion lleol ar yr un pryd.

- **Cyfeiriad Strategol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol yng Nghymru**

  Roedd y Cyfeiriad Strategol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol yng Nghymru yn nodi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i gryfhau Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol ar draws tirwedd eang a chymhleth, sy'n cwmpasu addysg cyn-16, Addysg Bellach, Addysg Uwch, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion. Sefydlwyd Bwrdd Gweinidogol i ddatblygu'r gwaith hwn. Cefnogwyd hyn gan grŵp cyfeirio o randdeiliaid mewnol ac allanol lefel uwch ac ymgysylltu helaeth â'r sector.

Nododd y gweithgarwch ymgysylltu hwn bum blaenoriaeth genedlaethol gydgysylltiedig:

- Tyfu'r economi
- Gwella gweledigaeth
- Cefnogi cyfranogiad a chynnydd
- Cryfhau partneriaethau
- Cefnogi addysgwyr a darparwyr hyfforddiant.

Astudiaeth Achos: **Cadw Cymru Minecraft**



Mae Cadw Cymru Minecraft, sef enillydd categori Arloeswyr Gwobrau 2025 Llywodraeth Cymru, yn dangos arweinyddiaeth yng Nghymru ym maes addysg ddigidol. Mae'r adnodd addysgol arloesol hwn, sydd ar gael am ddim i ysgolion a disgyblion drwy Hwb, ynghyd â phecyn adnoddau iaith Gymraeg Cadw Cymru Minecraft, yn cynnig adnodd cyffrous i ennyn diddordeb dysgwyr yn hanes Cymru/y Gymraeg mewn byd rhithwir hwyliog a throchol.

Mae Minecraft World, a lansiwyd i ddechrau gyda Chastell Conwy yn unig, heddiw yn cynnwys nifer o safleoedd hanesyddol ac mae pecynnau a heriau wedi cael eu lawrlwytho dros 15,000 o weithiau. Mae'n cynnwys Taliesin, bardd y Mabinogion, ynghyd â chymeriadau eraill, ac yn dod â'r gorffennol yn fyw gyda thechnoleg y presennol.

Nid yw Minecraft yn beth newydd, ond mae creu byd ar raddfa genedlaethol, gan ddod â chasgliad o henebion manwl iawn ynghyd mewn tirwedd go iawn, gydag adnoddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm a nodweddion gemau yn y Gymraeg yn sicr yn beth newydd. Mae'r defnyddwyr yn cynnwys dysgwyr yma yng Nghymru ac yn y gymuned alltud ehangach sy'n hyrwyddo ein diwylliant a'n hiaith. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Cadw.[24] Mae Minecraft yn parhau i dyfu – cadwch lygad am fwy o safleoedd yn 2026-27.

24 www.cadw.llyw.cymru/dysgu/gweithgareddau-hwyliog/cadw-cymru-minecraft

Y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar

Mae'r Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gyflawni blaenoriaethau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Grŵp yn rhoi arweinyddiaeth strategol a goruchwyliaeth i'r GIG a system y gwasanaethau cymdeithasol, gan gefnogi'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau, gwella canlyniadau a chyflwyno modelau gofal cynaliadwy. Mae gan y Grŵp rôl ddeuol o fewn y llywodraeth, gan gyfuno cyfrifoldeb am ddatblygu polisïau cenedlaethol â goruchwylio prosesau rheoli strategol ac ariannol GIG Cymru. Mae'n gweithio drwy saith Bwrdd Iechyd Lleol, tair Ymddiriedolaeth GIG, a dau Awdurdod Iechyd Arbennig, sy'n atebol i weinidogion drwy Brif Weithredwr GIG Cymru.

Mae cyflawniadau allweddol y Grŵp Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer 2025-26 yn cynnwys y canlynol:

- **Ehangu gofal plant Dechrau'n Deg ym Merthyr Tudful**

  Yn ystod 2025-26, drwy fuddsoddiad Llywodraeth Cymru i ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar cefnogwyd y broses o gyflwyno gofal plant Dechrau'n Deg i bob plentyn dwy oed ym Merthyr Tudful. Drwy hyn cyflawnodd yr awdurdod lleol ddarpariaeth lawn, sef yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i wneud hynny. Gall teuluoedd ym Merthyr Tudful gael mynediad at ofal plant wedi'i ariannu'n llawn am ddwy awr a hanner y dydd, bum diwrnod yr wythnos, gan gefnogi dysgu a datblygiad cynnar plant. Mae pob un o'r 24 darparwr gofal plant ar draws yr awdurdod lleol wedi cael eu cymeradwyo i gyflwyno darpariaeth Dechrau'n Deg.

  Mae hyn yn rhan o fuddsoddiad ehangach Llywodraeth Cymru o £25m yn 2025-26 i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg, a'r disgwyl yw y bydd mwy na 4,000 o blant dwy oed ychwanegol ledled Cymru yn cael budd ohono yn y flwyddyn gyntaf.

- **Gweledigaeth genedlaethol i wella cymorth iechyd meddwl ac atal hunanladdiad yng Nghymru**

  Yn 2025-26, nododd Llywodraeth Cymru weledigaeth genedlaethol newydd ar gyfer cymorth iechyd meddwl drwy gyhoeddi dwy strategaeth hirdymor ategol sy'n canolbwyntio ar atal, ymyrryd yn gynnar a mynediad amserol at ofal. Nod y strategaethau hyn yw gwella llesiant meddyliol a chryfhau cymorth i bobl sy'n profi gofid hunanladdol neu hunan-niwed. Lansiwyd Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio 10 mlynedd i fynd i'r afael â ffactorau sy'n cyfrannu at hunanladdiad, lleihau stigma, a gwella ymatebion i bobl sydd mewn perygl. Mae'r strategaeth wedi'i llywio gan brofiad bywyd, ac mae'n pennu blaenoriaethau clir i wella dealltwriaeth, cryfhau gweithgarwch atal a sicrhau cymorth tosturiol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, i'r rhai yr effeithir arnynt.

  Ochr yn ochr â hyn, mae Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant newydd yn amlinellu cynlluniau i drawsnewid mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys ehangu cymorth ar yr un diwrnod heb fod angen atgyfeiriad. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy wasanaeth iechyd meddwl brys 'pwyso 2' GIG 111 ledled Cymru sydd wedi cael mwy na 200,000 o alwadau ers ei lansio, ochr yn ochr â gwaith ychwanegol i ddatblygu modelau mynediad agored a gofal fesul cam i sicrhau bod pobl yn cael cymorth priodol cyn gynted â phosibl.

- **Sefydlu Hybiau Iechyd Menywod ledled Cymru**

  Yn ystod 2025-26, cyflwynwyd Hybiau Iechyd Menywod ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru, yn unol â Chynllun Iechyd Menywod 10 mlynedd GIG Cymru. Sefydlwyd yr hybiau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hirsefydlog ym maes iechyd menywod drwy wella mynediad at gyngor, asesiadau a gofal drwy wasanaethau lleol cydgysylltiedig.

  Mae hybiau yn cynnig pwynt mynediad cyson i fenywod sy'n chwilio am gymorth ar gyfer problemau iechyd, gan gynnwys iechyd mislif, y menopos ac atal cenhedlu.

Drwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng gofal sylfaenol, gwasanaethau cymunedol a llwybrau arbenigol, mae'r hybiau wedi'u cynllunio i'w gwneud yn haws i ddefnyddio gwasanaethau a gwella profiadau menywod o ofal. Roedd cyflwyno'r hybiau ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol yn garreg filltir arwyddocaol ym mlwyddyn gyflawni gyntaf y Cynllun, gan osod y sylfeini ar gyfer newid system yn y tymor hwy.

Mae'r hybiau yn cyd-fynd â'r cyflawniadau ehangach yn ystod y flwyddyn gyntaf o dan y Cynllun Iechyd Menywod, gan gynnwys adnoddau digidol newydd, deunyddiau addysg, hyfforddiant i'r gweithlu a lansio Ymchwil Iechyd Menywod Cymru.

- **Hyrwyddo ymchwil ac arloesedd ym maes canser yng Nghymru**

  Cefnogodd Llywodraeth Cymru ymchwil, diagnosteg a thriniaeth canser o'r radd flaenaf yng Nghymru drwy fentrau a gydnabyddir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol dan arweiniad Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru mewn partneriaeth â GIG Cymru a sefydliadau academaidd. Sicrhaodd hyn fynediad at driniaethau arloesol a threialon clinigol.

  Roedd y buddsoddiad yn cefnogi proses gyflymach o ganfod canser, gan gynnwys y rhaglen QuicDNA Max, sy'n adeiladu ar arweinyddiaeth Cymru mewn profion biopsi hylif (ctDNA) gan ehangu'r defnydd ohono mewn sawl math o ganser. Mae hyn yn cael ei ategu gan gymorth i ddatblygu a gwerthuso llwybr strwythuredig i nodi, gwerthuso a blaenoriaethu datblygiadau arloesol ym maes trin canser a thechnolegau newydd i'w mabwysiadu yn GIG Cymru, i gefnogi mynediad teg a gwella canlyniadau i gleifion. Recriwtiodd Cymru ei chlaf cyntaf i FAKTion, sef rhaglen ymchwil canser arloesol sydd â'r nod o baru cleifion ag opsiynau triniaeth mwy personol yn seiliedig ar nodweddion moleciwlaidd eu canser.

  Mae Cymru wedi chwarae rhan flaenllaw mewn ymchwil canser yn fyd-eang, gan gynnwys cymryd rhan mewn astudiaeth o frechlyn canser newydd ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl â chanser yr ofari, a amlygwyd yn ystod Diwrnod Canser y Byd. Arweiniodd Cymru yr astudiaeth ymchwil fwyaf o lawfeddygaeth ar gyfer canser y prostad yn y DU, gan atgyfnerthu ei safle fel canolfan ragoriaeth ar gyfer ymchwil glinigol o ansawdd uchel.

- **Lleihau amseroedd aros GIG Cymru**

  Dengys ffigurau swyddogol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru[25] fod y rhestr aros wedi gostwng am ddeng mis yn olynol, gan gyrraedd ei lefel isaf ers Awst 2021 erbyn mis Mawrth 2026, gan leihau i ychydig o dan 667,000 o lwybrau gofal. Lleihaodd nifer y bobl a oedd yn aros am fwy na dwy flynedd am driniaeth yn sylweddol, gan ostwng o 8,389 ym mis Mawrth 2025 i 2,589 ar ddiwedd mis Mawrth 2026, tra bod y rhai a oedd wedi aros dros dair blynedd wedi gostwng o 715 i saith llwybr yn unig. Gwelwyd gwelliannau hefyd yn gynharach yn y llwybr, gyda chleifion allanol a oedd yn aros dros 104 wythnos yn gostwng 95% a thros 52 wythnos yn gostwng 82%.

  Darparwyd mwy na 182,000 o apwyntiadau ychwanegol i gleifion allanol yn ystod y flwyddyn, a gyfrannodd at ostyngiad o 36% yn y rhestr aros ar gyfer cleifion allanol, gan helpu mwy o gleifion i gael eu hasesu a'u trin yn gynt. Cefnogwyd y cynnydd hwn gan fuddsoddiad o £120 miliwn i helpu'r GIG i adeiladu ar welliannau a pharhau i leihau amseroedd aros.

25 www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-mawrth-ebrill-2026

- **Buddsoddiad o £30m yn lleihau oedi mewn ysbytai drwy gymorth gofal cymdeithasol cryfach**

  Mae buddsoddiad o £30m mewn gofal cymdeithasol wedi galluogi awdurdodau lleol i gryfhau capasiti, ehangu gwasanaethau cymunedol a gwella llif cleifion a rhyddhau cleifion o'r ysbyty ledled Cymru.

  Ym mis Mawrth 2025, roedd 528 o achosion o oedi oherwydd gofal cymdeithasol yn benodol, a chyfanswm o 20,011 o ddiwrnodau oedi. Erbyn mis Mawrth 2026, roedd hyn wedi gostwng i 344 o achosion a 9,107 o ddiwrnodau oedi, sef gostyngiad o 34.8% a 54.5% yn y drefn honno. Gostyngodd hyd cyfartalog yr oedi o 38 diwrnod i 27 diwrnod. Mae cleifion bellach yn aros, ar gyfartaledd, 11 diwrnod yn llai am y cymorth gofal cymdeithasol sydd ei angen i adael yr ysbyty.

Y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Mae'r Grŵp yn cefnogi'r Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd a'r Gweinidog Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio. Mae hyn yn cwmpasu nifer o feysydd polisi, gan gynnwys tai ac adfywio, cynllunio llywodraeth leol, newid hinsawdd a materion gwledig.

Mae cyflawniadau allweddol y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar gyfer 2025-26 yn cynnwys y canlynol:

- **Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

  Drwy gydweithio a chydgynllunio helaeth â rhanddeiliaid a dull llywodraeth gyfan, cynlluniodd a chyflwynodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, y cynllun cymorth mawr i'r byd amaeth ar ôl ymadael â'r UE, o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru).

- **Cyllid Llywodraeth Leol**

  Dosbarthodd Llywodraeth Cymru dros £6.1bn o refeniw a darparu £250m o gyllid cyfalaf heb ei neilltuo i awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus lleol hanfodol. Rhoddwyd £31m yn rhagor o gyfalaf i gynghorau er mwyn parhau i leihau allyriadau carbon fel rhan o'n huchelgais ar y cyd i sicrhau sector cyhoeddus sero net.

- **Rhaglen i Ddileu TB**

  Cafodd y Rhaglen Dileu TB ei llywio gan waith partneriaeth a chydweithio cryf ar draws y sector. Mae'r newidiadau polisi a lywiwyd gan y Grŵp Cynghori Technegol a'r Bwrdd Rhaglen wedi rhoi mwy o hyblygrwydd i ffermwyr, gan gynnwys opsiynau i ohirio lladd rhai gwartheg a chyflwyno cyfyngiadau symud gydol oes ar adweithyddion amhendant a gliriwyd er mwyn lleihau lledaeniad y clefyd. Mae prosiectau dan arweiniad y diwydiant yn Sir Benfro ac yn y Gogledd yn dangos gwerth dulliau cydweithredol, lleol gan rymuso ffermwyr a milfeddygon i gymryd camau ar sail gwybodaeth. Gyda llywodraethiant cryfach drwy Fwrdd y Rhaglen a chyngor arbenigol parhaus, mae'r rhaglen mewn sefyllfa dda i adeiladu ar y cynnydd tuag at y nod hirdymor o Gymru heb TB.

- **Ymatebion i Glefydau Anifeiliaid**

  Mae gwaith ar baratoi ac ymateb i achosion o glefydau anifeiliaid wedi parhau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys rheoli achosion o'r Tafod Glas a'r Ffliw Adar. Bydd cydweithio parhaus â phartneriaid cyflawni yn cefnogi rhaglen o welliant parhaus, gan gynnwys adolygu a dysgu o ymarferion ymateb fel Aspen a Pegasus. Hefyd, yn 2025-26, darparwyd £119,000 o gyllid er mwyn helpu i sefydlu canolfan profi diagnostig clefydau anifeiliaid Cymru ym Mhrifysgol

Aberystwyth. Bydd y buddsoddiad hwn yn cryfhau'r gallu diagnostig cenedlaethol yng Nghymru.

- **Tai**

  Gwnaethom basio Deddf Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) 2026 sy'n anelu at drawsnewid ein gwasanaethau digartrefedd gyda ffocws ar nodi ac atal yn gynnar. Gwnaethom hefyd basio Deddf Diogelwch Adeiladau (Cymru) 2026 sy'n sefydlu fframwaith statudol ar gyfer diogelwch adeiladau yng Nghymru. Cyhoeddwyd Safon Rhent a Thaliadau Gwasanaeth 2026–2036 Llywodraeth Cymru sy'n rhoi setliad rhent 10 mlynedd i landlordiaid cymdeithasol.

  Fe wnaethom reoli gwerth dros hanner biliwn o bunnoedd o gyllid sy'n gysylltiedig â thai cymdeithasol yn 2025-26. Mae hyn yn darparu to diogel uwchben unigolion a theuluoedd sydd â'r angen mwyaf, gan wella eu cyfleoedd bywyd yn fawr. Mae ein gwaith ar safonau ansawdd, datgarboneiddio a chartrefi clyd yn gwella ansawdd tai ledled Cymru, gan gynnwys eu gwneud yn gynhesach ac yn fwy effeithlon o ran ynni, gan leihau biliau i unigolion a helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

- **Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru**

  Parhaodd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i fod yn brif ddull cyflawni ar gyfer datgarboneiddio'r sector cyhoeddus yn 2025-26, gan gyflymu'r gwaith cyflawni mewn prosiectau effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy, gwres carbon isel a thrafnidiaeth heb allyriadau (gan gefnogi 799 o brosiectau mewn 73 o gyrff yn y sector cyhoeddus a 21 o fentrau cymunedol ledled Cymru, 2018–2026). Yn ystod 2025-26, cyrhaeddodd y defnydd o gyfalaf £145m wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau ynni, ac roedd llif o brosiectau yn symud ymlaen tuag at gwblhau eu trefniadau ariannol (cyfanswm o £340m wedi'i fuddsoddi, 2018–2026).

  Fe wnaeth y buddsoddiad a gefnogwyd yn 2025-26 gyfrannu at £560m mewn incwm ac arbedion lleol amcanestynedig dros oes y prosiect (2018–2026). Llwyddodd y ddarpariaeth yn 2025-26 i ehangu'r seilwaith adnewyddadwy a charbon isel ymhellach, gan gyfrannu at 61.8 MW o gynhyrchu ynni adnewyddadwy a 19.7 MW o wres carbon isel a osodwyd hyd yn hyn. Roedd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r newid i drafnidiaeth ddi-allyriadau yn 2025-26, gan gyfrannu at 1,991 o gerbydau di-allyriadau a ddefnyddiwyd yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gweithgarwch a gefnogwyd yn parhau i leihau carbon yn yr hirdymor, a'r disgwyl yw y bydd y prosiectau a gyflawnwyd hyd yma yn arbed hyd at 1.5m tunnell o CO_2e dros eu hoes.

- **Cynllunio**

  O fis Medi 2025 i fis Mawrth 2026, cyflwynwyd Deddf Cynllunio (Cymru) 2026 ('y Ddeddf Cynllunio') a Deddf Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) 2026 a buont yn destun craffu manwl gan y Senedd. Maent yn dwyn ynghyd yr holl ddeddfwriaeth allweddol sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref yng Nghymru. O ganlyniad, mae'r fframwaith cyfan ar gyfer system gynllunio Cymru bellach wedi'i gyfuno mewn un Ddeddf Gynllunio ddwyieithog.

  Drwy wneud y gyfraith yn gliriach ac yn fwy hygyrch drwy'r Deddfau hyn, bydd eu gweithredu yn esgor ar fanteision ymarferol gwirioneddol i holl randdeiliaid y system gynllunio. Mae hyn yn cynnwys y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithredu ynddi, unigolion a sefydliadau sy'n defnyddio ei phrosesau, ynghyd â'r rhai sydd am ddefnyddio a deall y gyfraith i gymryd rhan effeithiol yn y system gynllunio.

Astudiaeth Achos: **Trwyddedu Anifeiliaid Cymru**



Yn 2025-26, dyfarnwyd £700,000 o gyllid i Trwyddedu Anifeiliaid Cymru er mwyn helpu awdurdodau lleol i orfodi deddfwriaeth lles anifeiliaid, gyda ffocws penodol ar fridio cŵn. Mae'r cyllid hwn yn galluogi parhad tîm cenedlaethol arbenigol sy'n rhoi cymorth arbenigol i awdurdodau lleol o ran rheoleiddio gweithgareddau anifeiliaid trwyddedig, mynd i'r afael ag arferion bridio anghyfreithlon, a chymryd camau gorfodi lle bo angen.

Un enghraifft yw gweithgarwch gweithredol mewn porthladdoedd yng Nghymru, lle mae swyddogion wedi arwain ymarferion cydymffurfio i fynd i'r afael â symud a mewnforio anifeiliaid yn anghyfreithlon o dan reolau teithio anifeiliaid anwes a chludo masnachol. Mae'r rhaglen wedi gwella gallu proffesiynol drwy hyfforddiant a dull gweithredu cydgysylltiedig i Gymru gyfan, gan arwain at ganlyniadau gwell o ran iechyd a lles anifeiliaid.

Er mwyn cydnabod ei effaith, cafodd Trwyddedu Anifeiliaid Cymru Wobr Cydnabyddiaeth Arbennig PawPrints RSPCA yn 2024 am ei gyfraniad rhagorol at orfodi lles anifeiliaid.

Uned Strategaeth Llywodraeth Cymru

Sefydlwyd Uned Strategaeth Llywodraeth Cymru ar 1 Hydref 2025 i ddarparu arweinyddiaeth strategol, cydgysylltu, a gallu polisi ar draws y llywodraeth.

Mae prif gyflawniadau Uned Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 yn cynnwys y canlynol:

- **Paratoi ar gyfer etholiadau'r Senedd a Diwygio'r Senedd**

  Sefydlwyd yr Is-bwyllgor Paratoi ar gyfer yr Etholiad, o dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Cyffredinol Strategaeth Llywodraeth Cymru, i oruchwylio ein parodrwydd, yn strategol ac yn weithredol, ar gyfer etholiad y Senedd. Cyfarfu'r pwyllgor yn aml (bob pythefnos ac yna bob wythnos o fis Ebrill 2026) a datblygodd gynllun cyflawni cynhwysfawr i nodi'r holl weithgareddau hanfodol a monitro cynnydd.

  Cynhaliwyd gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu helaeth drwy'r sefydliad cyfan drwy gylchlythyrau rheolaidd, pecynnau trafod tîm a digwyddiadau ymgysylltu. Sicrhaodd yr is-bwyllgor fod trefniadau cymorth ar gyfer y llywodraeth newydd wedi'u cryfhau, gan weithio gyda chydweithwyr mewn grwpiau yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu deunyddiau briffio a sefydlu clir a pharatoi ar gyfer ymgysylltu cynnar effeithiol â gweinidogion newydd.

- **Meithrin gallu ar draws y proffesiwn polisi**

  Rydym wedi sefydlu Grŵp Polisi a Strategaeth Trawslywodraethol i fabwysiadu safbwynt system gyfan, trawslywodraethol ar yr heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mawr sy'n wynebu Cymru, ac i lunio blaenoriaethau strategol mawr eu heffaith sy'n torri ar draws ffiniau polisi traddodiadol.

- **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

  Cyflwynodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ddull newydd o ymgysylltu â'r GIG yn ystod 2025-26 a gryfhaodd ansawdd ac effaith ei gwaith sicrwydd ledled Cymru. Drwy ddull mwy strwythuredig, sy'n cael ei arwain gan wybodaeth, gwnaeth AGIC ddyfnhau ei gweithgarwch ymgysylltu â gwasanaethau'r GIG, gan sicrhau bod y ddeialog yn bwrpasol, yn gymesur ac yn canolbwyntio ar ddiogelwch cleifion a gwelliant. Cynhaliodd 86 o arolygiadau o'r GIG, wedi'u llywio gan wybodaeth wedi'u triongli a bu modd nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg yn gynharach a chymryd camau wedi'u targedu'n well.

  Mae datblygu llwybrau risg ac uwchgyfeirio mewnol cliriach wedi gwella'r ffordd y mae pryderon, hysbysiadau statudol a gwybodaeth yn cael eu hasesu a'u huwchgyfeirio'n drefniadau ymyrryd â'r GIG lle bo angen. Mae ymgysylltu ar lefel system hefyd wedi'i wella drwy fforymau partneriaeth rheolaidd a gweithio ar y cyd. Cynhaliodd AGIC 130 o arolygiadau i gefnogi ei rôl fel rheoleiddiwr gofal iechyd annibynnol a'i dyletswyddau statudol eraill. Cynigiodd yr Uwchgynadleddau Gofal Iechyd, a gynhaliwyd gan AGIC, lwyfan gwerthfawr i rannu gwybodaeth a dysgu gyda chyrff y GIG a phartneriaid goruchwylio, gan wella dealltwriaeth ar y cyd o'r pwysau ar y system a'r risgiau.

  Mae sesiynau myfyrio ar ôl arolygiad, aelodaeth newydd o grwpiau cynghori, a chyfleu themâu a chanlyniadau'n gliriach wedi helpu gwasanaethau'r GIG i ddeall disgwyliadau a rhoi gwelliannau ar waith yn effeithiol. Yn ystod y cyfnod, datblygodd AGIC strategaeth pedair blynedd newydd a lansiwyd ym mis Ebrill 2026.

- **Arolygiaeth Gofal Cymru**

  Yn ystod 2025-26, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) raglen o reoleiddio a gwella gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Cwblhaodd 2,191 o arolygiadau – 1,178 ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant a 1,013 ar gyfer darparwyr gofal plant a chwarae a chofrestrodd 381 o wasanaethau newydd. Llwyddodd AGC hefyd i brosesu 44,832 o hysbysiadau statudol ac ymatebodd i 2,487 o bryderon a godwyd.

  Arolygodd AGC yr holl Fentrau Cydweithredol Mabwysiadu Rhanbarthol yng Nghymru, gan baratoi adroddiadau unigol a gwybodaeth genedlaethol. Yn sgil cyhoeddi'r Adolygiad Ymarfer Plant o droseddau Neil Foden, cynhaliodd AGC arolygiad ar y cyd ag Estyn o wasanaethau plant Gwynedd[26] i asesu ymarfer diogelu a sbarduno gwelliant.

  Cyflwynodd AGC raddau arolygu cyhoeddedig ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau gofal cartref o fis Ebrill 2025 a chyhoeddodd adolygiad o saith mis cyntaf y system raddio[27], gan ddangos safon gofal gyson uchel ledled Cymru.

  Fel rhan o ffocws AGC ar gefnogi gwelliant, cyhoeddodd adroddiad ar Ymarfer Gwerth ei Rannu[28] i rannu gwersi a ddysgwyd a dathlu ymarfer rhagorol mewn gwasanaethau gofal plant a chwarae. Hefyd, gweithiodd AGC gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu a dechrau ymgorffori'r canllaw Cefnogi Diwylliannau Cadarnhaol[29] i hyrwyddo ymarfer agored, cynhwysol sy'n canolbwyntio ar ddysgu mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

26 www.arolygiaethgofal.cymru/arolygiad-ar-y-cyd-gyda-ffocws-ar-ddiogelu-cyngor-gwynedd
27 www.arolygiaethgofal.cymru/graddau-ar-gyfer-cartrefi-gofal-gwasanaethau-cymorth-cartref-saith-mis-yn-ddiweddarach-1
28 www.arolygiaethgofal.cymru/gwersi-o-ymarfer-gwerth-ei-rannu-adroddiad-newydd-yn-dathlu-ymarfer-rhagorol-mewn-gofal-plant
29 www.grwpgwybodaeth.gofalcymdeithasol.cymru/canllaw-cefnogi-diwylliannau-cadarnhaol

Sut rydym yn cael ein cyllido a sut rydym yn gwario'r cyllid

Llifoedd Cyllido Llywodraeth Cymru

Mae Cyllideb Llywodraeth Cymru yn awdurdodi'r symiau a'r dibenion y darperir cyllid i Weinidogion Cymru ar eu cyfer er mwyn ymgymryd â gweithgarwch Llywodraeth Cymru. Mae'r ffeithlun canlynol yn defnyddio ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 ac yn amcanestyn trethi eraill a gwariant o ystadegau Cyllid Sector Cyhoeddus Gwledydd a Rhanbarthau 2024-25 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) sy'n defnyddio Rhagolwg Economaidd a Chyllidol Mawrth 2026 y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a chyfraddau Treth Incwm Cymru yw'r trethi datganoledig. Y Dreth Gyngor ac Ardrethi Annomestig yw'r trethi lleol.



Polisi trethi Llywodraeth Cymru a rhagolygon cyllidol

Mae Cyllideb Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion am gyllid a threthiant y llywodraeth a'i dyraniadau ar lefel Prif Grŵp Gwariant (MEG), ac yn amlinellu cynlluniau gwario refeniw a chyfalaf y llywodraeth, gan gynnwys cynlluniau gwario manwl fesul portffolio. Mae manylion am Gyllidebau Llywodraeth Cymru[30] ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Caiff y Gyllideb ei hategu gan:

- Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru.[31]
- Yr Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru.[32]
- Y Rhagolwg Trethi Cymreig.[33]

Caiff y Rhagolwg Trethi Cymreig ei baratoi gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ac mae'n rhoi'r asesiad ar gyfer y fframwaith cyllidol ehangach y pennir y Gyllideb oddi mewn iddo. Ceir rhagor o wybodaeth am ein Fframwaith Cyllidol a Threthi Datganoledig ar wefan Llywodraeth Cymru.[34]

Ymhlith y meysydd allweddol o ddatblygu polisi treth yn ystod 2025-26 roedd pasio Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025, a ddaeth yn gyfraith gwlad ym mis Medi 2025, a chomisiynu ymchwil annibynnol i lywio opsiynau posibl yn y dyfodol ar gyfer datganoli treth incwm yng Nghymru.[35]

Benthyca Gweinidogion Cymru

O dan Adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017) rhoddwyd pwerau benthyca ychwanegol i Weinidogion Cymru yn weithredol o fis Ebrill 2018. Caiff unrhyw symiau sy'n cael eu benthyca a'u had-dalu o dan y darpariaethau hyn eu gwneud drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac felly cânt eu hadlewyrchu yn y cyfrifon hynny sy'n cael eu gosod gerbron y Senedd bob blwyddyn.

Bydd unrhyw symiau sy'n cael eu benthyca o'r Gronfa Benthyciadau Gwladol yn ad-daladwy dros 25 mlynedd. Bydd gan bob cyfran fenthyca gyfradd llog sefydlog sef cyfradd llog y Gronfa Benthyciadau Gwladol ar y pryd ar gyfer Benthyciadau Newydd ag Ad-daliadau Cyfartal ar y diwrnod y tynnir y benthyciad.

Cafodd y pwerau benthyca eu harfer am y tro cyntaf yn 2018-19, pan dalwyd £65m i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru o'r Gronfa Benthyciadau Gwladol. Dilynwyd hyn gan £150m yn 2022-23, £125m yn 2023-24 ac £80m yn 2024-25. Yn 2025-26, talwyd benthyciad pellach o £125m i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru. Ar 31 Mawrth 2026, y balans sy'n weddill yw £822m (31 Mawrth 2025: £619m).

Ceir rhagor o wybodaeth am y benthyciadau o'r Gronfa Benthyciadau Gwladol yng Nghyfrifon Cronfa Gyfunol Cymru.

Cyd-destun Ariannol Llywodraeth Cymru

Ar gyfer 2025-26, datblygwyd 'Cyllideb ar gyfer dyfodol mwy disglair' a oedd yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau, diogelu a buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, a rhoi Cymru ar y llwybr tuag at dwf. Yn dilyn cyfnod estynedig o setliadau ariannol heriol, dyrannwyd £1.5bn ychwanegol o'i gymharu â Chyllideb 2024-25 oherwydd cynnydd yn y dyraniadau cyllido gan Lywodraeth newydd y DU ar ôl Etholiad Cyffredinol 2024. Roedd y cyd-destun economaidd yn parhau i fod yn heriol, gyda galw cynyddol am wasanaethau cyhoeddus ac ansefydlogrwydd byd-eang yn parhau i erydu'r adnoddau sydd ar gael a chreu pwysau ariannol sylweddol.

30 Cyllidebau Llywodraeth Cymru – LLYW.CYMRU
31 www.llyw.cymru/adroddiad-economaidd-a-chyllidol-cymru-2025
32 www.llyw.cymru/adroddiad-ar-bolisi-trethi-hydref-2025
33 www.obr.uk/wto/rhagolwg-trethi-cymreig-ionawr-2026/
34 www.llyw.cymru/trethi-cymru
35 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2026-03/opsiynau-am-ddyfodol-datganoli-treth-incwm-yng-nghymru.pdf

Cadarnhaodd y Gyllideb Atodol Gyntaf a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025 fod pecyn gwerth £220m o adnoddau wedi cael ei ddyrannu er mwyn helpu gwasanaethau cyhoeddus gyda Chostau Yswiriant Gwladol uwch. Gwnaed dyraniad adnoddau o £100m hefyd i'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gefnogi blaenoriaeth y llywodraeth i leihau rhestrau aros.

Dyrannodd yr Ail Gyllideb Atodol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2026 adnodd ychwanegol o £126m er mwyn helpu'r sector cyhoeddus datganoledig i ymdopi â chynnydd mewn costau staff oherwydd dyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus.

Gwnaed y dyraniadau ychwanegol canlynol hefyd:

- £200m o gyllid refeniw i'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gynorthwyo gwasanaethau rheng flaen y GIG â phwysau yn ystod y flwyddyn ac i barhau i helpu'r GIG i gynnal cynnydd yn erbyn ei flaenoriaeth o leihau amseroedd aros.
- £73m o gyllid cyfalaf i'r MEG Trafnidiaeth i dalu costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â cherbydau rheilffyrdd ar y rhwydwaith rheilffyrdd; a
- £61m o gyllid cyfalaf i'r MEG Addysg i gefnogi rhaglenni cyfalaf mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch.

Roedd Costau Rhedeg Adrannol yn dal i fod dan bwysau gyda chostau sy'n gysylltiedig â chyflogau yn gofyn am reoli cyllidebol tynn. Drwy reoli ariannol trwyadl, gan gynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn a benthyca, cadwodd Llywodraeth Cymru at y gyllideb a gymeradwywyd gan y Senedd drwy bleidlais. Dangosodd blwyddyn ariannol 2025-26 ymrwymiad o hyd i reoli adnoddau'n gyfrifol.

Ceir rhagor o fanylion am Alldro MEG yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau ar dudalen 157.

Dangosir y 10 prif faes gwariant Refeniw a Chyfalaf ar dudalennau 50 a 51.

Ceir crynodeb o'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar dudalen 52.

Cyhoeddir Adroddiad ar Alldro yn flynyddol, sy'n rhoi esboniadau am amrywiannau yn erbyn cyfansymiau rheoli Trysorlys EF.[36]

Prif Feysydd Gwariant Llywodraeth Cymru

Mae'r ffeithluniau canlynol yn dangos 10 prif faes gwariant Llywodraeth Cymru yn 2025-26. Mae'r dadansoddiad wedi'i wneud yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb, fel y'i defnyddir yn y tablau Prif Grwpiau Gwariant sy'n cyd-fynd â Chynnig y Gyllideb. Mae 10 prif faes gwariant cyllideb refeniw a chyfalaf Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

36 www.llyw.cymru/adroddiadau-ar-alldro

Mae'r canlynol yn eitemau newydd yn y 10 maes gwariant refeniw uchaf y flwyddyn hon:

Dim ond un newid sydd yn y 10 maes gwariant refeniw uchaf ar gyfer 2025-26 wrth i'r Grant Plant a Chymunedau symud i'r 10 uchaf. Mae hon yn Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) sy'n darparu cyllid i Awdurdodau Lleol i gefnogi gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed. Mae'n ariannu ystod o raglenni gan gynnwys Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, gwasanaethau gofal plant a chwarae, a chymorth i bobl ifanc y mae risg y byddant yn troseddu. Mae pob Awdurdod Lleol yn cadw'r disgresiwn i bennu faint y bydd yn ei wario ar bob un o'r wyth rhaglen sy'n rhan o'r Grant Plant a Chymunedau ar hyn o bryd, gan gadw at dargedau ac amcanion polisi Llywodraeth Cymru.

Mae'r BEL ar gyfer Trafnidiaeth Cymru yn 2024-25 wedi'i hailenwi'n Cymorth Gwasanaethau Rheilffyrdd ar gyfer 2025-26.

Mae cyfrannau canrannol pob BEL yn sefydlog i raddau helaeth. Ar y cyfan, mae'r 10 BEL refeniw uchaf yn cyfrif am bron yr un gyfran ganrannol o gyfanswm gwariant refeniw Llywodraeth Cymru am y flwyddyn, sef 85% yn 2025-26 o'i gymharu ag 84% yn 2024-25.

10 maes gwariant uchaf y gyllideb refeniw yn 2025-26:



Alldro Refeniw Llywodraeth Cymru:
£22,157m
Cyfanswm y 10 uchaf:
£18,806m
85% o'r gyllideb refeniw

Dyraniadau Craidd y GIG	£10,767m	49%
Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol	£5,120m	23%
Darpariaeth Addysg Ôl-16 – MEDR	£829m	4%
Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd	£397m	2%
Addysg a Gwella Iechyd Cymru	£370m	2%
Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr	£273m	1%
Costau Staff nad ydynt yn Staff Rhaglenni	£300m	1%
Taliadau Uniongyrchol y Polisi Amaeth Cyffredin	£234m	1%
Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG	£297m	1%
Y Grant Plant a Chymunedau	£219m	1%

10 maes gwariant uchaf y gyllideb gyfalaf yn 2025-26:



Alldro Cyfalaf Llywodraeth Cymru:
£3,466m
Cyfanswm y 10 uchaf:
£2,584m
74% o'r gyllideb gyfalaf

Dyraniadau Craidd y GIG	£467m	13%
Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd	£280m	8%
Grantiau Tai Cymdeithasol	£486m	14%
Seilwaith Addysg	£414m	12%
Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol	£281m	8%
Gweithrediadau'r Rhwydwaith (Ffyrdd)	£184m	5%
Lwfans Atgyweiriadau Mawr (Tai)	£124m	4%
Bargeinion Dinesig a Thwf	£100m	3%
Eiddo Preswyl: Datgarboneiddio ac Ansawdd	£127m	4%
Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol	£121m	3%

Mae'r canlynol yn eitemau newydd yn y 10 maes gwariant cyfalaf uchaf y flwyddyn hon:

Dim ond un newid sydd yn y 10 maes gwariant cyfalaf uchaf ar gyfer 2025-26 wrth i Drafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol symud i'r 10 uchaf. Mae'r BEL hwn yn helpu i ddarparu a datblygu dulliau trafnidiaeth gynaliadwy a mentrau trafnidiaeth leol: gwasanaethau bws am ddim i'r henoed a'r anabl, a theithio rhatach ar fysiau i deithwyr ifanc.

Mae'r BEL ar gyfer Trafnidiaeth Cymru yn 2024-25 wedi'i hailenwi'n Cymorth Gwasanaethau Rheilffyrdd ar gyfer 2025-26. Mae'r BEL ar gyfer Gweithrediadau'r Rhwydwaith (Ffyrdd) yn 2024-25 wedi'i hailenwi'n Gweithrediadau ac Adnewyddu'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn 2025-26.

Mae cyfrannau canrannol pob BEL yn sefydlog i raddau helaeth; fodd bynnag, bu lleihad o £149m mewn gwariant cyfalaf yn erbyn y BEL Cymorth Gwasanaethau Rheilffyrdd flwyddyn ar ôl blwyddyn, a hynny'n bennaf oherwydd yr eitemau canlynol sy'n ymwneud â Thrafnidiaeth Cymru: lleihad mewn gwariant cyfalaf ar lesoedd a lleihad mewn gwariant cyfalaf ar raglen drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd.

Yn gyffredinol, mae'r 10 BEL cyfalaf uchaf yn cyfrif am yr un gyfran ganrannol o gyfanswm gwariant cyfalaf Llywodraeth Cymru am y flwyddyn, gan aros ar 74%.

At ddibenion cymharu, 10 maes gwariant uchaf y gyllideb refeniw yn 2024-25 oedd:



Alldro Refeniw Llywodraeth Cymru:
£20,767m
Cyfanswm y 10 uchaf:
£17,413m
84% o'r gyllideb refeniw

Dyraniadau Craidd y GIG	£10,147m	49%
Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol	£4,751m	23%
Darpariaeth Addysg Ôl-16	£551m	3%
Trafnidiaeth Cymru	£407m	2%
Addysg a Gwella Iechyd Cymru	£329m	2%
Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr	£282m	1%
Costau Staff nad ydynt yn Staff Rhaglenni	£272m	1%
Taliadau Uniongyrchol y Polisi Amaeth Cyffredin	£234m	1%
Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG	£227m	1%
Digartrefedd	£213m	1%

10 maes gwariant uchaf y gyllideb gyfalaf yn 2025-26:



Alldro Cyfalaf Llywodraeth Cymru:
£3,466m
Cyfanswm y 10 uchaf:
£2,584m
74% o'r gyllideb gyfalaf

Dyraniadau Craidd y GIG	£467m	13%
Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd	£280m	8%
Grantiau Tai Cymdeithasol	£486m	14%
Seilwaith Addysg	£414m	12%
Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol	£281m	8%
Gweithrediadau'r Rhwydwaith (Ffyrdd)	£184m	5%
Lwfans Atgyweiriadau Mawr (Tai)	£124m	4%
Bargeinion Dinesig a Thwf	£100m	3%
Eiddo Preswyl: Datgarboneiddio ac Ansawdd	£127m	4%
Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol	£121m	3%

Gwariant a Reolir yn Flynyddol

Mae Trysorlys EF yn cydnabod natur ansefydlog rhai rhaglenni a'r graddau y maent yn seiliedig ar alw, yn ogystal â pha mor anodd yw amcangyfrif costau dros gyfnod o amser.

O ganlyniad, rheolir cyllidebau'r rhaglenni hyn yn flynyddol, a Thrysorlys EF sy'n darparu'r cyllid hwn fel arfer. Gelwir y cyllidebau yn Wariant a Reolir yn Flynyddol (AME).

O'r cyllidebau hyn o fewn y Datganiad o Alldro Adnoddau roedd £1,039m neu 75% (2024-25: £1,278 miliwn 81%) yn ymwneud â benthyciadau myfyrwyr a roddwyd gan gynnwys llog a disgowntio, llai ad-daliadau yn ystod y flwyddyn.

Datganiad Llywodraeth Cymru o'r Sefyllfa Ariannol

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o Ddatganiad Cyfunol Llywodraeth Cymru o'r Sefyllfa Ariannol.

Asedau Cyfunol Llywodraeth Cymru	2025-26 £bn	2024-25 £bn
Asedau Ffisegol		
Y rhwydwaith ffyrdd (cefnffyrdd gan gynnwys traffyrdd)	21.4	20.6
Y rhwydwaith rheilffyrdd (Llinellau Craidd y Cymoedd)	3.4	2.7
Tir ac adeiladau (gan gynnwys Ystad y GIG)	4.4	4.1
Asedau sy'n cael eu hadeiladu (ffyrdd a rheilffyrdd yn bennaf)	1.9	2.4
Asedau Ariannol		
Portffolio benthyciadau i fyfyrwyr	7.1	8.8
Portffolio Cymorth i Brynu – Cymru	0.3	0.4
Benthyciadau Banc Datblygu Cymru	0.4	0.4
Benthyciadau a buddsoddiadau eraill	1.1	1.0
Arian parod	1.5	1.4
Asedau Eraill	**2.7**	**2.6**
Cyfanswm yr Asedau	**44.2**	**44.4**
Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill	2.5	2.4
Croniadau ac incwm gohiriedig	0.5	0.5
Darpariaeth Cronfa Risg Cymru ar gyfer hawliadau esgeuluster clinigol	2.0	1.8
Darpariaethau eraill	0.1	0.1
Atebolrwyddau eraill	1.9	1.9
Cyfanswm yr Atebolrwyddau	**7.0**	**6.7**
Asedau Net	**37.2**	**37.7**

O ran y gostyngiad cyffredinol o £0.5bn yn 2025-26, yr effeithiau mwyaf arwyddocaol yw'r lleihad o £1.7bn yng ngwerth y portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr a'r gostyngiad o £0.5bn mewn Asedau sy'n cael eu Hadeiladu. Caiff y rhain eu gwrthbwyso'n bennaf gan gynnydd o £0.8bn yng ngwerth y Rhwydwaith Ffyrdd a chynnydd o £0.7bn yng ngwerth y Rhwydwaith Rheilffyrdd.

Mae'r gostyngiad o £1.7bn yn y portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr yn cynnwys y golled gwerth teg o £2.5bn oherwydd y trosglwyddiad i'r model Benthyciadau i Fyfyrwyr newydd fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Adran Addysg. Mae'r model StEP blaenorol wedi'i ddisodli gan Biblinell Modelu Cyllid Myfyrwyr newydd, sy'n cynnwys gwelliannau methodolegol. Mae'r golled gwerth teg yn cael ei gwrthbwyso gan fenthyciadau newydd a roddwyd, sef £1bn llai ad-daliadau o £0.25bn. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn, gan gynnwys dadansoddiad sensitifrwydd, yn Nodyn 6.

Mae'r gostyngiad o £0.5bn yng ngwerth y Grŵp Asedau sy'n cael eu Hadeiladu yn adlewyrchu'n bennaf y cam o ailddosbarthu £0.5bn o Asedau sy'n cael eu Hadeiladu o fewn Trafnidiaeth Cymru i'r Rhwydwaith Rheilffyrdd wrth i welliannau sylweddol i'r Rhwydwaith Rheilffyrdd gael eu cwblhau a dechrau cael eu defnyddio, yn enwedig ar gyfer Metro De Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Nodyn 4.1 ac yng nghyfrifon Trafnidiaeth Cymru.

Mae'r cynnydd o £0.7bn yng ngwerth y Rhwydwaith Rheilffyrdd i'w briodoli'n bennaf i ailddosbarthu o Asedau sy'n cael eu Hadeiladu a nodwyd uchod, yn ogystal â chynnydd o £0.2bn ar ailbrisio o'r ymarfer prisio blynyddol yn seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael o arolygon cyflwr asedau a chostau adeiladu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Nodyn 4.1 ac yng nghyfrifon Trafnidiaeth Cymru.

Mae'r cynnydd o £0.8bn yng ngwerth y Rhwydwaith Ffyrdd i'w briodoli'n bennaf i effaith yr ymarfer prisio blynyddol gan ddefnyddio System Prisio Asedau'r Awdurdodau Ffyrdd gyda chynnydd ailbrisio o £0.6bn, ynghyd â chynnydd o £0.5bn oherwydd ailddosbarthu Asedau sy'n cael eu Hadeiladu, wedi'i wrthbwyso gan symudiadau llai eraill. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn Nodyn 4.1.

Mae'r cynnydd o £0.3bn mewn atebolrwyddau yn ymwneud yn bennaf â chynnydd o £0.2bn yn narpariaeth Cronfa Risg Cymru, y mae nifer a gwerth posibl hawliadau a wneir yn erbyn cyrff GIG Cymru yn effeithio ar ei gwerth, yn ogystal â newidiadau yn y cyfraddau disgownt a gymhwysir i gofnodi'r atebolrwyddau ar werth teg. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn Nodyn 11.

Ffin Gyfrifyddu Llywodraeth Cymru

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrifon yn unol ag adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yr Ysgrifennydd Parhaol fel Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am baratoi a llofnodi'r cyfrifon.

Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu'r asedau a'r atebolrwyddau cyfun a chanlyniadau endidau sydd o fewn ffin gyfrifyddu gyfunol Llywodraeth Cymru. Mae'r ffin gyfrifyddu yn debyg i'r cysyniad o grŵp ar gyfer cyfrifyddu corfforaethol ond mae'n seiliedig ar feini prawf rheoli ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth am y ffin gyfrifyddu ar gael yn y Datganiadau Ariannol ac yn Nodyn 1.2 i'r cyfrifon.

Mae'r sefydliadau cyfunol yn paratoi ac yn cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol a'u cyfrifon eu hunain. Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys Craidd Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru ei hun) ac endidau Grŵp Llywodraeth Cymru.

Y rhain yw:

Grŵp Llywodraeth Cymru

- Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Grŵp Banc Datblygu Cymru
- Grŵp Trafnidiaeth Cymru
- Career Choices Dewis Gyrfa Cyf
- Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP
- WGC Holdco Limited.

Buddsoddiad craidd Llywodraeth Cymru mewn is-gwmnïau cyfunedig yn Nodyn 6 i'r Datganiadau Ariannol yw:

		31 Mawrth 2026 £m	31 Mawrth 2025 £m
Grŵp Banc Datblygu Cymru	Benthyciadau	1,618	1,553
	Ecwiti	117	117
Ymddiriedolaethau'r GIG	Cyfalaf Difidend Cyhoeddus	276	264
Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP	Gwerth y buddsoddiad	56	55
Grŵp Trafnidiaeth Cymru	Cyfraniad ar ffurf benthyciadau a chyfalaf	20	26
WGC Holdco Limited	Ecwiti	-	22

Cyrff Llywodraeth Ganolog newydd yn ystod y flwyddyn

Ni sefydlwyd yr un is-gwmni na chorff statudol newydd yn ystod 2025-26. Ni wnaed Gorchymyn Dynodi mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2025-26, felly nid oes newidiadau i'r rhestr o gyrff Dynodedig o 2024-25.

Cafodd Medr ei ddosbarthu'n gorff Llywodraeth Ganolog gan y SYG ym mis Chwefror 2025. Ni chafodd Medr ei ddynodi yn 2025-26. Felly, nid yw Medr wedi'i gyfuno yng nghyfrif y Grŵp ar gyfer 2025-26.

O 1 Medi 2025, cafodd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ei hailenwi'n Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysg Cymru, a elwir yn Dysgu.

Peidiodd Cwmni Egino (Cwmni Egino Cyf) a Diwydiant Cymru (Sector Development Wales Partnership Limited) â gweithredu ar 31 Mawrth 2026. Ar 1 Ebrill 2026, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (Centre for Digital Public Services Limited) i Lywodraeth Cymru.



- Byrddau Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaethau'r GIG
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Career Choices Dewis Gyrfa Cyf [a]
- Grŵp Banc Datblygu Cymru [a]
- Grŵp Trafnidiaeth Cymru [a]
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- WGC Holdco Ltd [a]
- Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP

- Adnodd Cyfyngedig [a]
- Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Llais)
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cwmni Egino Cyf [a,b]
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- GCRE Ltd [a,c]
- Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn)
- Hybu Cig Cymru Cyf – Meat Promotion Wales Ltd [a]
- Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cyf [a,d]
- Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf [a]
- Dysgu – Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysg Cymru [a,e]
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Cymwysterau Cymru
- Diwydiant Cymru (Sector Development Wales Partnership Limited) [a,f]
- Awdurdod Cyllid Cymru

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr)
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Trydan Gwyrdd Cymru Cyf [a]
- Elusennau GIG Cymru

Ffin Gyfrifyddu Llywodraeth Cymru

a Mae endidau yn is-gwmnïau i Weinidogion Cymru

b Rhoddodd Cwmni Egino y gorau i weithredu ar 31 Mawrth 2026.

c Mae gweithgareddau GCRE yn fwy na'r lefel berthnasedd ar gyfer cyfuno, ond nid ydynt yn berthnasol i Grŵp Llywodraeth Cymru yn ei gyfanrwydd. Er ei fod wedi'i ddynodi ar gyfer ei gyfuno a'i ddosbarthu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel endid y Llywodraeth Ganolog ym mis Medi 2024, nid yw GCRE wedi'i gyfuno yng Ngrŵp Llywodraeth Cymru gan fod rhagor o wybodaeth am ei gynlluniau buddsoddi hirdymor yn ddisgwyliedig, a disgwylir i hynny effeithio ar ddosbarthiad yn y dyfodol.

d Ar 1 Ebrill 2026, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i Lywodraeth Cymru.

e Roedd Dysgu yn cael ei adnabod gynt fel yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol.

f Rhoddodd Diwydiant Cymru y gorau i weithredu ar 31 Mawrth 2026.

Er mwyn cynorthwyo â'r diagramau uchod, mae'r canlynol yn esbonio prosesau dosbarthu a dynodi Llywodraeth Ganolog:

Dosbarthiad

Dosberthir endidau at ddibenion Cyfrifon Cenedlaethol, sef fframwaith ystadegol a ddefnyddir gan y SYG i ddisgrifio beth sy'n digwydd mewn economïau cenedlaethol. Caiff pob uned sefydliadol sy'n gweithredu mewn economi ei dosbarthu i sector sefydliadol (er enghraifft, fel corfforaethau anariannol, unedau llywodraeth cyffredinol neu aelwydydd).[37] Yn fras, caiff endidau eu dosbarthu'n rhai llywodraeth ganolog os ydynt yn cael eu perchenogi neu eu rheoli (h.y. y gallu i bennu eu polisi neu eu rhaglen gyffredinol) gan endidau llywodraeth ganolog eraill ac nad ydynt yn Gorfforaeth Gyhoeddus (sy'n ddosbarthiad ar wahân).

Mae Trysorlys EF yn defnyddio'r dosbarthiad hwn i nodi'r driniaeth gyllidebol sy'n briodol i'r endidau hyn, er mwyn sicrhau bod prosesau adrodd cyllidebol yn gyson ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus. Ar gyfer endidau sydd wedi'u dosbarthu'n rhai llywodraeth ganolog yng Nghymru, mae hyn yn golygu eu hincwm a'u gwariant yn ôl sgôr seiliedig ar groniadau yn rheolaethau cyllidebol Llywodraeth Cymru a bennir gan Drysorlys EF. Mae'r un egwyddorion yn gymwys i unrhyw is-gwmnïau neu gyd-fentrau.

Dynodiad

Dim ond endidau sydd wedi'u dosbarthu'n rhai llywodraeth ganolog a gaiff eu dynodi. Dynodi o dan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig)[38] yw'r broses gyfreithiol sy'n rhoi'r awdurdod cyfreithiol i Lywodraeth Cymru wario. Mae'r broses ddynodi yn dod ag incwm a gwariant ar sail croniadau endidau llywodraeth ganolog Llywodraeth Cymru o fewn Cwmpas y Cynnig Cyllidebol, h.y. o fewn Cyllideb Llywodraeth Cymru y pleidleisiwyd arni gan y Senedd a'r ffin cyfuno Cyfrifon, am fod Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth yn pennu ffiniau cyfunol yn seiliedig ar gyrff dynodedig.

Cyn iddynt gael eu dynodi, dim ond yr arian parod a dalwyd i'r endidau gan Lywodraeth Cymru a gaiff ei gynnwys o fewn Cwmpas y Cynnig Cyllidebol, ac mae'r endidau y tu allan i Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru. Nid yw p'un a yw endid wedi cael ei dynodi ai peidio yn effeithio ar y driniaeth gyllidebol gyffredinol, dim ond pa elfennau sydd wedi'u cynnwys o fewn Cwmpas y Cynnig Cyllidebol a pha rai sydd y tu allan iddo.

37 Canllaw dosbarthu'r sector cyhoeddus a blaengynllun gwaith – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
38 Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2024

Y berthynas rhwng Cyfrifon Llywodraeth Cymru ac adroddiadau ariannol y sector cyhoeddus ehangach

Disgrifir gweithgarwch cyllidol Cymru mewn cyfres o wybodaeth am gyfrifon statudol:



Cyfrif Cronfa Gyfunol Cymru

Mae'r cyfrif hwn yn cael derbyniadau a gymeradwywyd drwy bleidlais gan Senedd y DU, derbyniadau Yswiriant Gwladol, trawsdaliad Cyfraddau Treth Incwm Cymru a derbyniadau Trethi Datganoledig. Telir benthyciadau gan Weinidogion Cymru i mewn i'r cyfrif hwn hefyd. Gwneir taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru i gyrff a gwmpesir gan Gynnig yng Nghyllideb Cymru neu fel Taliadau Uniongyrchol.

Datganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru

Mae'r cyfrif hwn yn rhoi adroddiad ar dderbyniadau Trethi Datganoledig ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.[39]

Cyfrifon y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gyllideb Cymru

- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru[40]
- Comisiwn y Senedd[41]
- Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru
- Swyddfa Archwilio Cymru[42].

39 Adroddiadau a chyfrifon blynyddol Awdurdod Cyllid Cymru – LLYW. CYMRU
40 www.ombwdsmon.cymru/adroddiad-cyfrifon-blynyddol
41 www.laiddocuments.senedd.wales/gen-ld18131-cy.pdf
42 www.audit.wales/cy/cyhoeddiad/adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2025-26

Sut rydym yn perfformio

Adroddiadau Perfformiad Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu perfformiad yn rheolaidd ar draws ystod o feysydd er mwyn ysgogi gwelliannau yn effeithiolrwydd sefydliadol ei Gwasanaeth Sifil. Mae'r ffocws ar berfformiad gweithredol a chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Parhaol mewn perthynas â rhedeg y sefydliad. Mae'n gwneud hyn drwy gerdyn sgorio cytbwys chwarterol ochr yn ochr â chrynodeb blynyddol o berfformiad. Mae adrodd o'r fath, drwy'r Is-bwyllgor Effeithiolrwydd Gweithredol (a elwid gynt yn Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol) a'r Pwyllgor Gweithredol, wedi dod yn ased sefydledig a gwerthfawr i wella perfformiad corfforaethol drwy'r sefydliad cyfan.

Sut mae Llywodraeth Cymru yn adrodd ar berfformiad

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio dull cerdyn sgorio cytbwys chwarterol i fonitro perfformiad yn amlach, gan ddefnyddio set fach o ddangosyddion perfformiad allweddol. Law yn llaw â'r cerdyn sgorio cytbwys, mae'r adroddiad blynyddol yn caniatáu i berfformiad gael ei adolygu yn erbyn metrigau nad ydynt yn addas ar gyfer adrodd chwarterol (e.e. Arolwg Pobl Blynyddol y Gwasanaeth Sifil). Mae'n rhoi cyfle i fyfyrio ar berfformiad ym meysydd y cerdyn sgorio cytbwys dros y flwyddyn flaenorol, gan sicrhau cysondeb rhwng adroddiadau chwarterol a blynyddol. Mae hefyd yn rhoi cyfle i adolygu adroddiadau chwarterol i adlewyrchu blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae'r dull a ddefnyddir ar gyfer yr adroddiad blynyddol yn galluogi Llywodraeth Cymru i adeiladu ar y ddealltwriaeth ddiweddaraf o arferion gorau o ran perfformiad y gwasanaeth sifil, a lywir gan Fynegai Blavatnik. Mae hyn yn sicrhau yr eir i'r afael â meysydd allweddol yn gyson mewn adroddiadau chwarterol a blynyddol, gan ddefnyddio arferion gorau rhyngwladol o ran mesur perfformiad y gwasanaeth sifil.

Mae'r tabl isod yn dangos y meysydd yr adroddwyd arnynt yn y cerdyn sgorio cytbwys chwarterol a'r adroddiad blynyddol.

Cerdyn Sgorio Cytbwys Chwarterol	Adroddiad Blynyddol
Pobl a Lleoedd Yn cynnwys adrodd ar gyfrif pennau ac absenoldeb oherwydd salwch	**Gallu Strategol ac Arweinyddiaeth** Yn cynnwys adrodd ar hyder staff yn y penderfyniadau a wneir gan uwch-reolwyr
Cyllid a Chaffael Yn cynnwys adrodd ar wariant caffael yng Nghymru, perfformiad o ran taliadau, a rhagolygon diwedd blwyddyn	**Gwerthoedd Llywodraeth Cymru a'i Ffyrdd o Weithio** Yn cynnwys adrodd ar werthoedd Llywodraeth Cymru, sef Tegwch, Proffesiynoldeb, Creadigrwydd a Phartneriaeth, a gwreiddio Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y 5 Ffordd o Weithio)
Cyflawni Mewnol ac Allanol Yn cynnwys adrodd ar gyflawni deddfwriaeth	**Y Gymraeg** Yn cynnwys adrodd ar sgiliau Cymraeg ymhlith staff Llywodraeth Cymru
Prosesau Mewnol a Llywodraethiant Yn cynnwys adrodd ar ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth	**Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** Yn cynnwys adrodd ar gynrychiolaeth grwpiau cydraddoldeb yng ngweithlu Llywodraeth Cymru (staff ethnig leiafrifol, staff anabl a staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol)

Defnyddio a Llywodraethu'r Adroddiadau Perfformiad

Mae'r adroddiadau perfformiad yn cael eu rheoli gan ddadansoddwyr Llywodraeth Cymru, sy'n coladu'r adroddiadau gan ddefnyddio safonau proffesiynol priodol ac arferion gorau. Maent yn cael eu hystyried gan yr Is-bwyllgor Effeithiolrwydd Gweithredol at ddibenion ystyriaeth fanwl a chynllunio camau gweithredu. Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cyflawni rôl allweddol drwy graffu ar yr adroddiadau perfformiad a'r camau gweithredu a bennir gan yr Is-bwyllgor, gan gytuno ar gamau gweithredu, cyflwyno meysydd gweithredu ychwanegol fel y bo angen, a chynnig trosolwg strategol o berfformiad ym mhob rhan o'r sefydliad. Creffir ar yr adroddiadau perfformiad hefyd gan Fwrdd Llywodraeth Cymru, sy'n cynnig trosolwg a sicrwydd ychwanegol.

Crynodeb o'r Adroddiadau Perfformiad

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o berfformiad mewn ystod o feysydd o'r cerdyn sgorio cytbwys a'r adroddiadau perfformiad blynyddol. Gwelwyd perfformiad da neu well mewn nifer o feysydd:

- O ran **Deddfwriaeth**, cafodd pob un o'r pedwar Bil a gyhoeddwyd yn Natganiad Deddfwriaethol 2025 i'w cyflwyno yn ystod y flwyddyn ddeddfwriaethol eu cyflwyno. Mae hyn yn cynnwys newidiadau pwysig i atebolrwydd aelodau Senedd Cymru, rheoliadau ynghylch llety ymwelwyr, sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol newydd a mynediad at wasanaethau digartrefedd.
- Mae cyfran y ceisiadau **Rhyddid Gwybodaeth** yr ymatebwyd iddynt o fewn y terfyn amser statudol wedi cynyddu'n gyson ac, yn 2025-26, cyrhaeddodd 91%, sydd ychydig yn uwch na tharged Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef 90%.
- O ran **Arweinyddiaeth**, mae staff yn credu bod gan uwch-arweinwyr y sefydliad weledigaeth glir ar gyfer dyfodol y sefydliad ac mae hyn wedi bod yn gyson uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil, gyda chynnydd bach ers y flwyddyn diwethaf.
- O ran **Gwerthoedd Llywodraeth Cymru**, mae metrigau'r Arolwg Pobl sy'n ymwneud â Thegwch, Proffesiynoldeb a Chreadigrwydd wedi perfformio'n gyson uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil, a chafodd y sgoriau uchel eu cynnal yn 2025.

- Bu cynnydd cyson dros amser yng nghyfran staff Llywodraeth Cymru sydd â sgiliau **Cymraeg**, a bu lleihad cyfatebol yng nghyfran y staff heb ddim sgiliau Cymraeg.
- O ran **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**, mae cynrychiolaeth y staff sydd â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol wedi cynyddu ers 2020-21, ac mae'n uwch na meincnod poblogaeth Cymru drwy gydol y cyfnod hwn.
- O ran **Llesiant Staff**, bu gostyngiad mewn lefelau absenoldeb oherwydd salwch, sef cyfartaledd o 7.7 diwrnod gwaith wedi'u colli dros 2025-26, o'i gymharu ag 8.3 dros 2024-25.

Roedd rhai meysydd lle dirywiodd perfformiad neu lle na chyrhaeddwyd y targedau a osodwyd:

- O ran **Caffael**, gostyngodd cyfran gweithgareddau caffael Llywodraeth Cymru a enillwyd yn uniongyrchol gan fusnesau yng Nghymru am yr ail flwyddyn, i lawr i 44% ar ôl bod yn sefydlog ar 51% rhwng 2021-22 a 2023-24.
- O ran **Perfformiad o ran Taliadau**, bu cynnydd yng nghyfran yr anfonebau a dalwyd o fewn 5 diwrnod, sef 62.7%, sy'n welliant o'i gymharu â 61.0% yn 2024-25, ond roedd yn is na'r targed o 80%.
- O ran **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**, mae cynrychiolaeth pobl ethnig leiafrifol ac anabl yn dal yn is na meincnod poblogaeth Cymru ac, ar gyfer ethnigrwydd, yn is na tharged Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, sef 6%.

Maes	Metrigau 2025-26	Targedau / meincnodau	Newid dros amser	Ffynhonnell/ dyddiad
Metrigau Cerdyn Sgorio Cytbwys				
Pobl a Lleoedd				
Proffil staff Cyfrif pennau'r staff. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar staff parhaol a dros dro ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Ni chaiff contractwyr na staff asiantaeth eu cynnwys.	6,124 staff	**Dim targed/ meincnod presennol**		Data AD Mawrth 2022 – Mawrth 2026
Llesiant staff Absenoldeb oherwydd salwch.	7.7 Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd	**8.2** **Meincnod y Gwasanaeth Sifil Mawrth 2025**		Data AD Mawrth 2022 – Mawrth 2026

Maes	Metrigau 2025-26	Targedau / meincnodau	Newid dros amser	Ffynhonnell/ dyddiad
Cyllid a Chaffael				
Caffael Cyfran y gwariant dylanwadwy a enillwyd yn uniongyrchol gan fusnesau yng Nghymru. Mae ffigurau 2025-26 yn seiliedig ar wariant dylanwadwy o £659.6m.	44%	**Dim targed/ meincnod presennol**		Data caffael Ebrill 2021 – Mawrth 2026
Perfformiad o ran Taliadau Canran yr anfonebau a gyflwynwyd yn gywir a dalwyd o fewn 5 diwrnod.	62.7%	**80%**		Data cyllid Ebrill 2021 – Mawrth 2026

Maes	Metrigau 2025-26	Targedau / meincnodau	Newid dros amser	Ffynhonnell/ dyddiad
Cyflawni Mewnol ac Allanol				
Deddfwriaeth Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys un Bil a gyhoeddwyd yn 2024 i'w gyflwyno tua diwedd tymor y Senedd hon, gan nad oedd bwriad i'w gyflwyno ym Mlwyddyn 4 o'r Rhaglen Ddeddfwriaethol.	4 wedi'u cyhoeddi 4 wedi'u cyflwyno ym Mlwyddyn 5	**Dim targed/ meincnod presennol**		Data ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol Gorffennaf 2021 – Gorffennaf 2026
Prosesau Mewnol a Llywodraethiant				
Rhyddid Gwybodaeth Cyfran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn y terfyn amser statudol.	91%	**Targed ICO 90%**		Ffigurau gan yr Uned Hawl i Wybodaeth 2020-2025

Maes	Metrigau 2025-26	Targedau / meincnodau	Newid dros amser	Ffynhonnell/ dyddiad
Metrigau Blynyddol				
Gallu Strategol ac Arweinyddiaeth				
Arweinyddiaeth Staff sy'n credu bod gan uwch-arweinwyr y sefydliad weledigaeth glir ar gyfer dyfodol y sefydliad.	59% yn gadarnhaol	**Meincnod y Gwasanaeth Sifil 50%**		Yr Arolwg Pobl Hydref 2021 – Hydref 2025
Gwerthoedd Llywodraeth Cymru a'i Ffyrdd o Weithio				
Gwerthoedd – Tegwch Sgôr Cynhwysiant a Thriniaeth Deg.	86% yn gadarnhaol	**Meincnod y Gwasanaeth Sifil 80%**		Yr Arolwg Pobl Hydref 2021 – Hydref 2025

Maes	Metrigau 2025-26	Targedau / meincnodau	Newid dros amser	Ffynhonnell/ dyddiad
Gwerthoedd – Proffesiynoldeb Deall Cod y Gwasanaeth Sifil.	94% yn gadarnhaol	**Meincnod y Gwasanaeth Sifil 93%**		Yr Arolwg Pobl Hydref 2021 – Hydref 2025
Gwerthoedd – Creadigrwydd Timau'n cael eu hannog i ddod o hyd i ffyrdd newydd a gwell o wneud pethau.	82% yn gadarnhaol	**Meincnod y Gwasanaeth Sifil 77%**		Yr Arolwg Pobl Hydref 2021 – Hydref 2025
Gwerthoedd – Partneriaeth Cydweithio â rhanddeiliaid allanol.	73% yn gadarnhaol	**Dim targed/ meincnod presennol**		LlC Mawrth 2020 – Gorffennaf 2023 Nid oes diweddariad pellach i'r cwestiwn hwn am ei fod yn dibynnu ar ddata sydd heb eu casglu yn 2025-26

Maes	Metrigau 2025-26	Targedau / meincnodau	Newid dros amser	Ffynhonnell/ dyddiad
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Mynegai'r egwyddor datblygu cynaliadwy Ymatebion cadarnhaol cyfartalog i gwestiynau ar y pum ffordd o weithio.	76% yn gadarnhaol	**Dim targed/ meincnod presennol**		Arolygon Gwerthoedd Llywodraeth Cymru Mawrth 2020 – Gorffennaf 2023 Ers y Gwerthoedd – Partneriaeth Nid yw'n bosibl rhoi cyfartaledd wedi'i ddiweddaru am nad oes diweddariad ar gael ar y metrig Partneriaeth uchod
Y Gymraeg				
Sgiliau yn y Gymraeg Ymatebion i gwestiwn yr arolwg ar sgiliau Cymraeg.	27% uwch 57% sylfaenol 18% dim	**Dim targed/ meincnod presennol**		Yr Arolwg Pobl Hydref 2021 – Hydref 2025

Maes	Metrigau 2025-26	Targedau / meincnodau	Newid dros amser	Ffynhonnell/ dyddiad
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant				
Ethnigrwydd Cynrychiolaeth staff ethnig leiafrifol yn Llywodraeth Cymru.	3.2%	**6.0%** **Targed Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol** **6.2%** **Meincnod Poblogaeth**		Data'r gweithlu Mawrth 2022 – Mawrth 2026 Cyfrifiad 2021
Anabledd Cynrychiolaeth staff anabl yn Llywodraeth Cymru.	6.4%	**21.1%** **Meincnod Poblogaeth**		Data'r gweithlu Mawrth 2022 – Mawrth 2026 Cyfrifiad 2021
Cyfeiriadedd Rhywiol Cynrychiolaeth staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol yn Llywodraeth Cymru.	4.7%	**3.0%** **Meincnod Poblogaeth**		Data'r gweithlu Mawrth 2022 – Mawrth 2026 Cyfrifiad 2021

Trafodaeth ar Berfformiad gan y Pwyllgor Gweithredol, y Bwrdd a'r Is-bwyllgor Effeithiolrwydd Sefydliadol

Ystyriodd y Pwyllgor Gweithredol, y Bwrdd a'r Is-bwyllgor Effeithiolrwydd Sefydliadol berfformiad y sefydliad drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys meysydd gweithredu â ffocws yn ogystal â meysydd eraill sy'n adlewyrchu blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.

- **Perfformiad o ran taliadau**, lle y tanlinellodd y trafodaethau fantais gweithredu â ffocws bob chwarter. Yn dilyn gwelliannau graddol yn y sefyllfa yn 2024-25, bu ffocws parhaus drwy'r sefydliad cyfan ar berfformiad o ran taliadau, ac mae'r dull cydweithredol yn dwyn ffrwyth gan fod y sefyllfa a nodwyd yn gwella'n sylweddol wrth i arfer gorau gael ei ymgorffori drwy'r sefydliad cyfan. Mae camau gweithredu allweddol wedi canolbwyntio ar gryfhau capasiti, hyfforddi staff newydd, blaenoriaethu gweithgarwch cyllid allweddol a dysgu o feysydd arfer gorau. Drwy brosesau cyfathrebu a chydweithio mewnol gwell rhwng grwpiau daeth prosesu taliadau yn fwy gweladwy, lleihawyd nifer yr ymholiadau y gellid eu hosgoi, a chefnogwyd ymgysylltu mwy cyson â chyflenwyr. Gyda'i gilydd, cyfrannodd y camau gweithredu hyn at gynnydd mewn perfformiad o 51.85% yn Chwarter 1 i 69.95% yn Chwarter 4 2025-26.
- **Caffael**, lle y canolbwyntiodd trafodaethau ar sut i sbarduno camau gweithredu dros y flwyddyn nesaf, gan gynnwys ffocws amlach ar y metrig a'r angen i ddeall yr hyn a fyddai'n galluogi perfformiad gwell.
- **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**, lle y tynnodd y trafodaethau sylw at yr angen i fynd i'r afael â chynrychiolaeth staff ethnig leiafrifol ac anabl yn y sefydliad, a phwysigrwydd dysgu o ddulliau llwyddiannus i gefnogi gwelliannau ar gyfer pob grŵp o staff. Trafodir y cynnydd o ran camau gweithredu Llywodraeth Cymru i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle ar dudalen 83.

Mewnwelediad Staff

Cryfderau yn yr Arolwg Pobl

At ei gilydd, roedd canlyniadau Arolwg Pobl 2025 yn tynnu sylw at ddarlun cadarnhaol cryf o brofiad pobl o'u rolau a'u hamgylchedd gwaith uniongyrchol. 'Sgoriodd 'Fy ngwaith', 'Fy nhîm', ac 'Amcanion a diben sefydliadol' i gyd yn uchel, gan ddangos bod y staff yn gyffredinol yn teimlo bod eu gwaith yn ystyrlon, eu bod yn deall sut mae'n cyfrannu at nodau ehangach, a'u bod yn teimlo'n rhan o dimau cefnogol ac effeithiol.

Rydym wedi gweld cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn ein sgôr ymgysylltu sy'n dangos bod ein staff yn parhau i deimlo'n ymrwymedig ac yn gysylltiedig â'r sefydliad. Roedd mewnwelediadau 2025 yn awgrymu ymdeimlad cryf o bwrpas a chydweddiad ar draws y sefydliad, gyda staff yn dangos balchder yn eu gwaith a chysylltiad clir â blaenoriaethau sefydliadol.

Roedd cryfderau amlwg hefyd o ran rheolwyr linell a diwylliant cynhwysol. Roedd sgoriau uchel ar gyfer 'Fy rheolwr' yn dangos bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u rheoli'n dda yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Yn yr un modd, roedd 'Cynhwysiant a thriniaeth deg' yn parhau i fod yn faes cryf, sy'n awgrymu bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, gan atgyfnerthu diwylliant sefydliadol cadarnhaol a chynhwysol. Gyda'i gilydd, roedd y canlyniadau hyn yn tynnu sylw at werth sefydliadol cadarn, a nodweddir gan waith ystyrlon, timau cefnogol, rheoli llinell effeithiol ac amgylchedd cynhwysol – sy'n rhoi llwyfan cadarnhaol ar gyfer gwelliant pellach.



Mae'r ffigurau yn y tabl wedi'u talgrynnu ac mae gwahaniaethau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio ffigurau crai.

Arweinyddiaeth a rheoli newid



Dangosodd y thema Arweinyddiaeth a Rheoli Newid welliant graddol dros amser, wrth i sgoriau 2025 godi i 63% a pharhau'n uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil. Roedd hyn yn adlewyrchu ffocws sefydliadol parhaus ar weledegdd arweinwyr, cyfathrebu a meithrin gallu. Roedd mentrau megis sesiynau ymgysylltu â gweithwyr 'Dewch i Drafod yn Fyw', adborth 360 gradd, a rhaglenni datblygu arweinyddiaeth wedi'u targedu yn cefnogi mwy o ymgysylltu a hyder yn yr arweinyddiaeth.

Tynnodd ymchwil i feysydd arweinyddiaeth sy'n perfformio'n dda sylw at ymddygiadau cyson megis grymuso staff, hyrwyddo hyblygrwydd, annog dysgu ac arbrofi, a meithrin amgylcheddau gwaith agored, heb hierarchaeth. Fodd bynnag, roedd y canlyniadau hefyd yn dangos amrywiad rhwng gwahanol grwpiau staff. Er bod cynnydd yn amlwg, yn enwedig mewn rhai agweddau ar arweinyddiaeth a newid, erys rheoli newid yn faes sy'n perfformio'n gymharol is. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod angen camau gweithredu pellach wedi'u targedu i ysgogi mwy o gysondeb yn y ffordd y mae arweinyddiaeth a newid yn cael eu profi drwy'r sefydliad cyfan a byddant yn llywio'r broses o ddatblygu'r rhaglen wella newydd.

Dysgu a Datblygu

Roedd dysgu a datblygu yn faes cryf, a dangosodd y canlyniadau fod y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i feithrin sgiliau a thyfu yn eu rolau. Dangosodd y sgoriau welliant cyson, sy'n awgrymu bod buddsoddi mewn cyfleoedd datblygu wedi cael effaith gadarnhaol. Canlyniadau 2025 yw'r sgôr uchaf erioed ac mae'n rhagori ar feincnod y Gwasanaeth Sifil. Yn gyffredinol, roedd gan staff fynediad at ddysgu a oedd yn eu helpu i berfformio'n effeithiol, ochr yn ochr â chyfleoedd i ddatblygu ar gyfer y dyfodol. Roedd hyn yn adlewyrchu ffocws sefydliadol parhaus ar feithrin gallu a sicrhau bod sgiliau yn cyd-fynd â blaenoriaethau. Er yn gadarnhaol, bydd cynnal y momentwm hwn yn gofyn am ymdrech o hyd er mwyn sicrhau mynediad teg at ddatblygu a chysylltiadau clir rhwng dysgu, perfformiad a chamu ymlaen mewn gyrfa.

Rheoli Perfformiad

Dangosodd ymarfer 2025 i ddeall y staff gynnydd yn nifer y staff a ddywedodd fod eu perfformiad yn cael ei werthuso'n deg, dywedodd y mwyafrif fod eu hadborth yn eu helpu i wella eu perfformiad a gwelsom gynnydd yng nghanran y staff a oedd yn trafod llesiant, amcanion a datblygiad â'u rheolwr. Roedd hyn yn adlewyrchu ffocws sefydliadol parhaus ar gryfhau arferion perfformiad a sicrhau cysondeb. Rhoddodd y dull rheoli perfformiad 'Dewch i Drafod' ar ei newydd wedd fwy o bwyslais ar adborth rheolaidd, pennu amcanion cliriach a sgyrsiau mwy ystyrlon am berfformiad. Ochr yn ochr â hyn, mae arlwy dysgu corfforaethol estynedig a mwy o gyfleoedd datblygu pwrpasol ar lefel tîm wedi helpu i ymateb i heriau sy'n dod i'r amlwg a meithrin gallu.

Er bod y cynnydd yn amlwg, roedd amrywiadau rhwng rhai grwpiau staff yn tynnu sylw at yr angen i barhau i wella cysondeb o ran sut y caiff perfformiad ei reoli. At ei gilydd, roedd y canlyniadau yn awgrymu hyder cynyddol yn y dull gweithredu, lle roedd rheoli perfformiad yn helpu datblygiad unigol a chyflawni sefydliadol yn fwyfwy.

Adborth Cefnogol

Rydym yn gweld barn fwy cadarnhaol ynghylch y cymorth a gaiff staff gan eu rheolwr o ran eu perfformiad.

Rwy'n credu bod fy mherfformiad yn cael ei werthuso'n deg



- Roedd y mwyafrif (81%) o'r staff yn cytuno bod eu perfformiad yn cael ei werthuso'n deg, sef cynnydd o 6 phwynt canran ers 2024, a dyma lle gwelwyd y gwelliant mwyaf yng nghwestiynau craidd Llywodraeth Cymru yn yr arolwg.
- Gwelwn hefyd gynnydd mewn sgoriau cadarnhaol ar draws pob Grŵp ac mewn tua 75% o Gyfarwyddiaethau ac Adrannau.
- Roedd y sgoriau cadarnhaol yn amrywio rhywfaint ar draws Grwpiau (78% i 84%), ond roedd amrywiad mwy nodedig ar draws Cyfarwyddiaethau ac Adrannau (50% i 100%).

Mae'r adborth rwy'n ei gael gan fy rheolwr yn fy helpu i wella fy mherfformiad (newidiwyd yn 2025)



- Roedd dros dri chwarter y staff (78%) yn cytuno bod yr adborth y maent yn ei gael yn helpu i wella eu perfformiad.
- Tynnwyd y cwestiwn o'r holiadur craidd a'i gynnwys fel cwestiwn lleol Llywodraeth Cymru yn 2025, gyda newid bach yn y geiriad.
- Gwelwn amrywiadau tebyg mewn sgoriau ar draws y sefydliad, gyda sgoriau cadarnhaol Grwpiau yn amrywio o 73% i 81% a sgoriau cadarnhaol Cyfarwyddiaethau ac Adrannau yn amrywio o 48% i 100%.

Mae'n ddefnyddiol nodi bod Llywodraeth Cymru 8 pwynt yn is na meincnod y Gwasanaeth Sifil ar gyfer '*Rwy'n teimlo'n hyderus o ran mynd i'r afael â pherfformiad gwael yn fy nhîm*' (sgôr cadarnhaol o 70%). Adroddodd staff ar raddau HEO i Radd 7 eu bod yn llai hyderus na'r cyfartaledd, yn enwedig gradd SEO (4 pwynt islaw), ac adleisiwyd hefyd yn yr Arolwg Pwls Rheoli Perfformiad lle roedd rheolwyr llinell yn teimlo'n fwy hyderus wrth fynd i'r afael â dirywiad mewn perfformiad (73%) na pherfformiad gwael yn fwy cyffredinol (65%).

Hyder i Herio

Dangosodd y thema Hyder i Herio welliant clir ac estynedig dros amser, sy'n adlewyrchu effaith ymyriadau sefydliadol wedi'u targedu. Cynyddodd y sgoriau'n gyson, gan ddangos bod mwy o staff yn teimlo eu bod yn gallu herio ymddygiad amhriodol a chodi materion ynglŷn â sut mae gwaith yn cael ei wneud. Mae'r cynnydd hwn wedi cael ei gefnogi gan fentrau megis ymgyrchoedd Parch, gweithdai Diogel i Herio, a sgyrsiau dan arweiniad yr arweinyddiaeth, sydd wedi cryfhau ymwybyddiaeth ac wedi annog deialog agored. Mae ymgysylltu parhaus â grwpiau staff penodol hefyd wedi helpu i ddeall rhwystrau a theilwra cymorth. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod nad yw pawb yn teimlo'r cynnydd hwn yn gyson. Nododd adborth o weithdai nad yw rhai cydweithwyr eto'n profi hyn fel newid cadarnhaol. At ei gilydd, mae'r duedd ar i fyny yn awgrymu hyder a diogelwch seicolegol cynyddol, er y bydd angen ffocws o hyd er mwyn sicrhau bod y gwelliannau hyn yn cael eu profi'n gyson drwy'r sefydliad cyfan.

Arolwg Pobl 2025: Tabl Perfformiad Sgoriau Themâu'r Arolwg – Prif Adrannau

Thema	Safle Llywodraeth Cymru ymhlith y prif adrannau, 2025	Safle Llywodraeth Cymru ymhlith y prif adrannau, 2024	Safle Llywodraeth Cymru ymhlith y prif adrannau, 2023
Mynegai Ymgysylltu	3ydd	4ydd ar y cyd	3ydd ar y cyd
Fy Ngwaith	1af	1af	1af
Amcanion a Diben Sefydliadol	2il ar y cyd	Cydradd 4ydd	2il
Fy Rheolwr	1af	1af ar y cyd	Cydradd 2il
Fy Nhîm	1af ar y cyd	Cydradd 2il	Cydradd 2il
Dysgu a Datblygu	1af ar y cyd	3ydd	7fed ar y cyd
Cynhwysiant a Thriniaeth Deg	1af	1af	1af ar y cyd
Adnoddau a Llwyth Gwaith	1af	1af	1af
Tâl a Buddion	1af	2il	2il
Arweinyddiaeth a Rheoli Newid	1af	3ydd	Cydradd 3ydd

Cynhyrchir yr wybodaeth hon gan Swyddfa'r Cabinet. Mae 'Prif Adrannau' yn cyfeirio at yr 20 o brif adrannau Whitehall yn ogystal â'r gweinyddiaethau datganoledig (Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban) a Swyddfa Gogledd Iwerddon. O ganlyniad i fân wahaniaethau o ran methodoleg, gall fod gwahaniaeth weithiau rhwng ffigurau a gynhyrchir gan Swyddfa'r Cabinet a'r rhai a gynhyrchir yn y dangosfwrdd canlyniadau a ddarperir gan y cyflenwr allanol (Qualtrics). Mae hyn oherwydd y ffordd y mae diffyg ymateb yn cael ei gyfrif mewn sgoriau themâu. Ni ddylai unrhyw wahaniaeth, fodd bynnag, fod yn fwy na ±1 pwynt canran.

Mae safleoedd cyffredinol yn seiliedig ar sgoriau wedi'u talgrynnu. Mae 'ar y cyd' yn cyfeirio at ddwy Adran sydd wedi cael yr un sgôr ac mae 'cydradd' yn cyfeirio at dair Adran neu fwy sydd wedi cael yr un sgôr. Ceir tabl cymharu llawn yn Uchafbwyntiau Canlyniadau Arolwg Pobl 2024 y Gwasanaeth Sifil. Oherwydd newid yn swyddfa'r Cabinet, mae sgoriau'r themâu o flynyddoedd blaenorol wedi cael eu hailgyfrifo er mwyn sicrhau cymhariaeth uniongyrchol â chanlyniadau 2025.

Sut rydym yn trefnu ein hunain i gyflawni

Llywodraeth Cymru 2025

Llywodraeth Cymru 2025 (LlC2025), a lansiwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol ym mis Ebrill 2022, yw'r rhaglen newid i'r sefydliad cyfan a sefydlwyd i foderneiddio'r ffordd rydym yn gweithio drwy gryfhau ein pobl, ein systemau a'n diwylliant, gan eu galluogi i gyflawni'n fwy effeithiol dros weinidogion a phobl Cymru yn y cyd-destun sydd ohoni ar ôl y pandemig ac ar ôl gadael yr UE. Mae wedi bod yn rhaglen sy'n esblygu, gan ymaddasu wrth i gyd-destun a blaenoriaethau'r sefydliad ddatblygu. I ddechrau, canolbwyntiodd ar gryfhau sylfeini'r sefydliad, gan gynnwys gallu'r gweithlu, gweithleoedd, gallu digidol, gwelliant parhaus a chydweithio.

Wrth i'r amgylchedd ariannol fynd yn fwy heriol, ailganolbwyntiodd y rhaglen ar gynaliadwyedd sefydliadol, gyda phwyslais ar fforddiadwyedd y gweithlu, effeithlonrwydd ystadau a sicrhau bod staffio yn cyd-fynd yn agosach â blaenoriaethau gweinidogol. Wrth i bwysau a blaenoriaethau ddod yn gliriach, ymaddasodd y rhaglen i gefnogi parodrwydd sefydliadol, gan gynnwys paratoi i ddiwygio'r Senedd, gwella systemau a phrosesau cyflawni, a buddsoddi mewn arweinyddiaeth a gallu. Mae ei gyfnod diweddaraf wedi parhau â'r ffocws hwn ar barodrwydd, gyda phwyslais penodol ar ddiwygio, arloesi a sicrhau bod y sefydliad yn barod i fodloni gofynion y cyfnod sydd i ddod.

Canlyniadau cyffredinol a chyflawniadau

Nododd LlC2025 raglen o welliant sefydliadol a oedd yn fwriadol uchelgeisiol. Er bod cynnydd ysturlon wedi'i wneud mewn amrywiaeth eang o feysydd, nid yw pob elfen wedi'i gwireddu'n llawn yn ystod oes y rhaglen. Yn benodol, mae'r newidiadau mwyaf cymhleth a thrawsbynciol, megis cryfhau cynllunio busnes drwy'r sefydliad cyfan a disgyblaethau rheoli portffolio a rhaglenni, a safoni prosesau craidd, yn gofyn am ymdrech barhaus y tu hwnt i amserlen un rhaglen.

Mae ffactorau allanol wedi dylanwadu ar y cynnydd, gan gynnwys newidiadau yn y dirwedd wleidyddol a oedd yn gofyn am gysoni'n gyflym â blaenoriaethau gweinidogol a oedd yn newid, a sefyllfa ariannol gyfyng iawn a oedd yn gofyn am gyfeirio gallu sefydliadol at fesurau fforddiadwyedd brys. Mae uchelgais gyffredinol LlC2025 wedi aros yn gyson, ond datblygodd ffocws y rhaglen i adlewyrchu'r realiti hyn. Rhoddwyd pwyslais cynyddol ar gynaliadwyedd sefydliadol, parodrwydd ar gyfer Diwygio'r Senedd, gwella systemau a phrosesau, a chryfhau arweinyddiaeth a gallu, ochr yn ochr â pharodrwydd ar gyfer arloesi a defnyddio technolegau newydd yn effeithiol, gan gynnwys AI.

Cafodd nifer o bethau i'w cyflawni eu diffinio'n glir, gan gynnwys terfyn amser ac maent wedi cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus, gan gynnwys y Cynllun Ymadael Gwirfoddol, y Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau, diwygiadau i brosesau dyrchafu a chamau ymlaen, a chyflwyno Desktop 2.0 i 98% o'r sefydliad. Mae'r newidiadau hyn wedi'u hymgorffori ac maent yn welliannau gweladwy yn y ffordd y mae'r sefydliad yn gweithredu.

Mae elfennau eraill o'r rhaglen wedi cael eu datblygu'n raddol ac maent yn parhau i gael eu datblygu fel rhan o flaenoriaethau sefydliadol parhaus, gan gynnwys gwaith i sbarduno effeithlonrwydd, optimeiddio'r ystad, ymgorffori ffyrdd newydd o weithio, a gwella prosesau, systemau a data. Felly nid yw pob newid yn cael ei ystyried yn gwbl gyflawn, sy'n adlewyrchu natur barhaus gwelliant sefydliadol. Mae LlC2025 hefyd wedi creu gwersi i'w dysgu,

yn enwedig mewn perthynas â mesurau cliriach o lwyddiant, olrhain manteision yn fwy systematig, a llywodraethiant cadarn. Mae'r gwersi hyn yn llywio'r gwaith o lunio a chyflawni gweithgaredd newid dilynol.

Cam 3: cyd-destun a phwrpas strategol

Cam 3 yw cam olaf a mwyaf strategol LlC2025. Er bod Cam 2 wedi mynd i'r afael â phwysau ariannol llym a fforddiadwyedd, roedd Cam 3 yn cydnabod y byddai maint a chymhlethdod yr heriau sy'n wynebu Llywodraeth Cymru yn parhau. Felly symudodd y pwyslais tuag at barodrwydd sefydliadol, rhagoriaeth mewn cyflawni a pharatoi ar gyfer newid sylweddol yn y dyfodol.

Wrth i Gam 3 ddechrau, roedd Llywodraeth Cymru yn dechrau pedwar mis ar ddeg olaf y Chweched Senedd, gydag agenda gyflawni glir y cytunwyd arni gan y Prif Weinidog a'r Cabinet, ochr yn ochr â pharatoadau ar gyfer diwygio'r Senedd a phontio i'r Seithfed Senedd. Er mwyn cael cyfeiriad eglur ar y pwynt hollbwysig hwn, cyflwynodd yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Pwyllgor Gweithredol weledigaeth strategol newydd: Adeiladu Cymru Well drwy Gyflawni'n Rhagorol yn y Llywodraeth.

Mae'r weledigaeth hon yn mynd ati'n benodol i gysylltu'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau gweinidogol â rhagoriaeth yn y ffordd y mae'r llywodraeth yn gweithredu, gan sicrhau cysondeb rhwng yr hyn y mae'n rhaid i'r sefydliad ei gyflawni a sut y mae'n ei gyflawni. Felly, lluniwyd Cam 3 i gynnal momentwm o ran cyflawni, a chryfhau gallu, systemau a llywodraethiant sefydliadol ar yr un pryd. Y ffocws yw sicrhau y gall Llywodraeth Cymru reoli risg yn effeithiol, cefnogi diwygiadau a pharhau i weithredu'n effeithlon ac yn hyderus yn y tymor hwy.

Cam 3: ffrydiau gwaith a chyflawniadau allweddol

Mae Diwygio'r Senedd yn rhan ganolog o Gam 3 ac mae'r gweithgarwch wedi'i strwythuro ar sail cymorth uniongyrchol i weinidogion, gwella busnes craidd y llywodraeth a phrosesau deddfwriaethol, a siapio'r ffordd y bydd y Senedd yn gweithredu yn y dyfodol. Er mwyn cydlynu'r gwaith cymhleth a rhyngddibynnol hwn, sefydlwyd Is-bwyllgor Paratoi ar gyfer yr Etholiad ym mis Hydref 2025, a oedd yn cyfarfod bob pythefnos i oruchwylio parodrwydd trawslywodraethol yn y cyfnod cyn yr etholiad, yn ystod yr etholiad ac ar ôl yr etholiad.

Mae'r prif bethau i'w cyflawni yn cynnwys recriwtio llwyddiannus i Swyddfeydd Preifat, addasiadau i'r ystad yn Nhŷ Hywel i ddarparu ar gyfer nifer cynyddol o weinidogion, datblygu rhaglen sefydlu gynhwysfawr i weinidogion a Chynghorwyr Arbennig, ac integreiddio datrysiadau technolegol i gefnogi busnes y llywodraeth yn y dyfodol. Gyda'i gilydd, mae'r camau gweithredu hyn yn cryfhau parodrwydd ar gyfer newid etholiadol ac yn cefnogi diwygiadau yn y tymor hwy.

Mae'r ffrwd waith Gwella Prosesau, Systemau a Data yn canolbwyntio ar symleiddio, gwydnwch ac effeithlonrwydd mewn systemau corfforaethol a gweithredol. Mae prosesau recriwtio a datblygu wedi cael eu hail-lunio i fod yn gyflymach, yn decach a chael eu harwain gan werthoedd, yn unol â'n hymrwymiadau gwrth-hiliol. Mae prosesau penodiadau cyhoeddus hefyd wedi cael eu moderneiddio, gan arwain at welliannau o ran amrywiaeth, tryloywder ac ansawdd data a chael cydnabyddiaeth allanol am berfformiad.

Ochr yn ochr ag ail-lunio prosesau, mae rhaglen trawsnewid systemau hefyd yn mynd rhagddi. Mae hyn yn cynnwys symud systemau Rheoli Cysylltiadau â Chwsmeriaid i Microsoft Dynamics 365 a rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol i gwmpasu ein gwasanaethau adnoddau dynol, cyllid, grantiau a'r gyflogres. Mae heriau cyllido a thechnegol wedi effeithio ar yr amserlen gyflawni ond mae'n dal i fynd rhagddi gan fod y systemau hyn yn hanfodol i barhad ein busnes, diogelwch data ac effeithiolrwydd sefydliadol yn yr hirdymor.

Mae Creu Lle Gwell i Weithio yn cyfuno newid diwylliannol ac ymddygiadol drwy'r sefydliad cyfan. Mae'r prif bethau i'w cyflawni yn cynnwys lansio Fframwaith Rhwydwaith Staff newydd, sy'n egluro trefniadau llywodraethiant, disgwyliadau a chymorth

sefydliadol i rwydweithiau, ac y cytunwyd arno ag undebau llafur a rhanddeiliaid amrywiaeth. Mae rheoli perfformiad wedi'i gryfhau drwy ffocws o'r newydd ar bennu amcanion a sgyrsiau ystyrlon rhwng rheolwyr a staff.

Mae canlyniadau'r Arolwg Pobl yn dangos gwelliannau estynedig ym maes arweinyddiaeth, ymgysylltu a rheoli linell, sydd bellach yn rhagori ar feincnodau'r DU, sy'n rhoi tystiolaeth glir bod newid diwylliannol yn cael ei ymgorffori. Mae atebolrwydd y gweithlu hefyd wedi'i wella drwy ddatganoli awdurdod adnoddau i Gyfarwyddwyr Cyffredinol, gyda gwaith pellach wedi'i gynllunio i gryfhau gwaith cynllunio'r gweithlu yn strategol yn unol â'r blaenoriaethau sefydliadol.

Mae'r ffrwd waith Gwelliant Parhaus a Newid yn ymgorffori gwelliant parhaus fel gallu craidd sefydliadol. Mae cynlluniau dysgu a gwella parhaus bellach wedi'u hintegreiddio â threfniadau llywodraethiant, gyda chymorth gweithio mewn partneriaeth â Nesta i gymhwyso dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o arloesi, profi a chyflwyno newid ar raddfa addas.

Mae rhaglenni fel Dyfodol Tanio Cyflawni yn darparu iaith arweinyddiaeth a rennir ac adnoddau ymarferol i arwain newid, ac mae mentrau fel Rhwydwaith Draig yn cefnogi cynhwysiant, hyder a gallu ymhlith cydweithwyr Cymorth Tîm a Swyddogion Gweithredol. Mae buddsoddi mewn gallu AI, gan gynnwys drwy fentrau fel Un Peth Mawr, wedi cryfhau parodrwydd y sefydliad ymhellach ar gyfer ffyrdd o weithio yn y dyfodol.

Yn olaf, mae Sbarduno Effeithlonrwydd, Llywodraethiant a Grymuso yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd ariannol, rheolaethau effeithiol ac atebolrwydd. Cyflawnir gwelliannau effeithlonrwydd drwy'r strategaeth fforddiadwyedd ehangach yn hytrach nag fel ymarfer annibynnol. Mae cryfhau'r trefniadau llywodraethiant ynglŷn â dirprwyo cyllidebau i Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol Grwpiau wedi gwella perchnogaeth ac atebolrwydd, ac mae safonau wedi'u diweddaru ar gyfer prosiectau, achosion busnes a sicrwydd, hyfforddiant estynedig i Uwch-swyddogion Cyfrifol a mwy o allu i gyflawni prosiectau, gyda'i gilydd, yn gwella hyder mewn prosesau cyflawni a rheoli risg.

O'r cychwyn cyntaf, canolbwyntiodd LlC2025 ar welliannau cyflym a newidiadau i ddiwylliant a sgiliau yn y tymor hwy. Roedd disgwyl bob amser y byddai rhai manteision yn cymryd mwy o amser nag oes y rhaglen. Wrth i flaenoriaethau newid, newidiodd y rhaglen hefyd. Newidiodd rhai manteision, gohiriwyd rhai, ac ail-luniodd rhai i gyd-fynd â'r hyn roedd ei angen ar y sefydliad ar y pryd. Llwyddodd LlC2025 i gyflawni newid a helpu'r sefydliad i barhau i wella. Mae llawer o'r enillion mwyaf, yn enwedig o ran diwylliant, sgiliau a ffyrdd o weithio, yn gonglfeini, yn hytrach na chanlyniadau gorffenedig a fydd yn helpu i lywio ac ategu rhaglen nesaf Llywodraeth Cymru.

Diwygio'r Senedd

Parhaodd y gwaith gweithredu mewn perthynas â Diwygio'r Senedd drwy gydol 2025-26. Cyfrannodd Llywodraeth Cymru at adolygiad gweithdrefnol y Senedd, drwy waith Pwyllgor Senedd y Dyfodol a'r Pwyllgor Busnes. Cyhoeddodd Pwyllgor Senedd y Dyfodol ei adroddiad terfynol ar 9 Mai 2025, a chyhoeddodd y Pwyllgor Busnes ei adroddiad etifeddol ar 31 Mawrth 2026, gan wneud nifer o argymhellion ynghylch busnes Seneddol yn y Seithfed Senedd.

Yn sgil gwaith y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar Atebolrwydd Aelodau Unigol, aeth Llywodraeth Cymru ati i ddatblygu a chyflwyno deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer system adalw a chryfhau system safonau'r Senedd. Cytunwyd ar Ddeddf Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) gan y Senedd ym mis Mawrth 2026.

Yn ogystal â gweithio gyda'n partneriaid cyflawni i sicrhau bod yr holl newidiadau ar waith cyn etholiad Mai 2026, daeth Rheoliadau Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda (Eithriadau ac Amrywio Terfynau Gwariant Ymgyrchu) (Cymru) 2025 a Rheoliadau Etholaethau Senedd Cymru 2025 i rym ym mis Gorffennaf 2025. Fel rhan o LlC2025, parhaodd gwaith mewnol i sicrhau bod prosesau, adnoddau a ffyrdd o weithio Llywodraeth Cymru yn barod ar gyfer y newidiadau sy'n deillio o Ddiwygio'r Senedd. Cafodd y gwaith hwn ei integreiddio â pharatoadau arferol y sefydliad ar gyfer yr etholiad ar 7 Mai.

Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Ym mis Mehefin 2025, sefydlwyd y Swyddfa AI i gryfhau gallu Llywodraeth Cymru ei hun i ddatblygu a defnyddio technolegau newydd. Roedd yn arwain ac yn cydgysylltu polisi AI ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ac yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni Cynllun AI Cymru. Cefnogodd y Swyddfa AI waith y Grŵp Cynghori Strategol ar AI a oedd yn cynnwys arbenigwyr o'r diwydiant, y byd academaidd a'r sector cyhoeddus. Rhoddodd y Grŵp arweiniad strategol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru, nododd gyfleoedd â blaenoriaeth, hyrwyddodd lythrennedd AI, hyrwyddodd arloesedd cyfrifol a helpodd i gryfhau ecosystem AI Cymru.

Gan adeiladu ar yr arweiniad a'r trosolwg hwn, mae'r Swyddfa wedi cefnogi arloesedd, cynhyrchiant ac effeithlonrwydd drwy gryfhau gallu Llywodraeth Cymru i gymhwyso AI yn ddiogel ac yn gyfrifol mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd. Yn ganolog i'r ymgais i fabwysiadu adnoddau AI yn fwy cyffredinol yn y sefydliad roedd ymrwymiad i bartneriaeth gymdeithasol. Bu'r Swyddfa AI yn ymgysylltu'n agos â'r gweithlu ac undebau llafur i lywio'r ffordd y cafodd yr adnoddau AI eu cyflwyno, eu profi a'u rhoi ar waith drwy'r sefydliad cyfan.

Datblygiadau mewnol o ran AI

Er bod Microsoft 365 Copilot wedi bod yn ffordd bwysig o alluogi newid sefydliadol, gan helpu i feithrin gallu, gwella cynhyrchiant a chefnogi ffyrdd newydd o weithio, mae rhai heriau wedi gofyn am ymatebion wedi'u teilwra'n well. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi datblygu adnoddau AI pwrpasol i fynd i'r afael ag anghenion penodol ym maes polisi, gweithredu a darparu gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adnodd llunio cynnwys – datblygwyd cynorthwyydd ysgrifennu a bwerir ag AI gyda'r nod o gynorthwyo defnyddwyr heb brofiad o lunio cynnwys i baratoi cynnwys hygyrch a hawdd ei ddeall ar gyfer ein gwefan LLYW.CYMRU.
- Mae modelau gweledigaeth cyfrifiadurol yn cael eu defnyddio i leoli coetiroedd hanesyddol ledled Cymru, gyda set ddata sydd ar gael yn gyhoeddus ar MapDataCymru. Ar ôl bod yn llwyddiannus, mae Comisiwn Coedwigaeth Lloegr wedi comisiynu Uned Gwyddor Data Llywodraeth Cymru yn swyddogol i greu set ddata benodol i Loegr.
- Chwilotwr Ymrwymiadau AI Maniffestos Etholiad Senedd 2026 – adnodd dadansoddi ffeithiol sy'n ei gwneud yn bosibl i chwilio a chymharu ymrwymiadau o faniffestos cyhoeddedig pleidiau gwleidyddol. Mae'r adnodd wedi galluogi timau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru i chwilio, hidlo a chymharu ymrwymiadau rhwng pleidiau a meysydd polisi, gan gefnogi dadansoddiad cyson, sy'n seiliedig ar dystiolaeth cyn tymor newydd y Senedd.

Cronfa AI

Mae'r Swyddfa AI hefyd wedi cyflawni prosiectau sector cyhoeddus drwy Gronfa AI. Sefydlodd y prosiectau sylfaen gadarn ar gyfer gweithgarwch AI yn y dyfodol, gan ddangos y manteision ymarferol y mae AI yn eu cynnig o ran gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Yn sgil y prosiectau, cafwyd dealltwriaeth sylfaenol o'r ffordd y mae AI yn cael ei fabwysiadu a'i ddefnyddio ar draws gwasanaethau cyhoeddus – gan nodi manteision, bylchau sgiliau a chyfleoedd. Fe wnaethant hefyd helpu i werthuso effeithiolrwydd a chywirdeb offer cofnodi a thrawsgrifio AI a ddefnyddir yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru, a chynhyrchu canllawiau ymarferol cynhwysfawr i helpu awdurdodau lleol i fabwysiadu AI mewn ffordd gyfrifol.

Astudiaeth Achos: **AI mewn Partneriaeth Gymdeithasol**



Ar ôl treialu Microsoft 365 Copilot, aeth Llywodraeth Cymru ati i gyflwyno'r dechnoleg drwy fodel partneriaeth gymdeithasol, gyda chydweithio, tryloywder a chynhwysiant yn llywio'r ffordd y cafodd ei chyflwyno a'i defnyddio. Roedd hyn yn adlewyrchu ymrwymiad i ymgysylltu â'r gweithlu ac undebau llafur, yn hytrach na thrin AI fel newid technegol neu weithredol yn unig.

Bu ymgysylltu â chynrychiolwyr undebau llafur o'r cychwyn cyntaf a chawsant gyfle i weld sut roedd yn cael ei rhoi ar waith wrth i'r broses ddatblygu. Roedd hyn yn cynnwys mynediad at sianeli a rennir ar gyfer adborth, arweiniad, cwestiynau cyffredin a diweddariadau technegol, gan ei gwneud yn bosibl i broblemau gael eu nodi'n gynnar a'u hystyried drwy ddeialog barhaus.

Lluniwyd y model hefyd i gefnogi cyfranogiad cynhwysol. Roedd trefniadau mynediad yn ystyried cydweithwyr ag anghenion gwahanol, gan gynnwys defnyddwyr niwroamrywiol a'r rhai y mae angen addasiadau arnynt yn y gweithle, a pharhaodd cynrychiolwyr undebau llafur i fod yn rhan o drafodaethau ynglŷn â sut roedd cyfranogiad yn cael ei estyn drwy'r sefydliad cyfan. Atgyfnerthodd hyn broses deg a thryloyw.

Drwy adborth rheolaidd, canfyddiadau arolygon ac ymgysylltu ag uwch-arweinwyr crëwyd proses ddysgu a rennir wrth i'r broses weithredu fynd rhagddi. Drwy drafod tystiolaeth, pryderon a'r camau nesaf yn agored â chynrychiolwyr undebau llafur, cryfhaodd Llywodraeth Cymru atebolrwydd a chefnogodd brosesau gwneud penderfyniadau yn unol ag egwyddorion partneriaeth gymdeithasol.

Mae hyn wedi galluogi defnydd ehangach o Microsoft 365 Copilot ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae mwy na 2,000 o gydweithwyr yn dal trwyddedau Copilot a gall y sefydliad yn ehangach gael mynediad at alluoedd Copilot Chat. Drwy hyn bu modd defnyddio AI mewn meysydd fel drafftio, crynhoi, adfer gwybodaeth a gweithgaredd gweinyddol arferol, gyda phob allbwn yn destun goruchwyliaeth ddynol. Mae'r pwyslais o hyd ar ymgysylltu â'r gweithlu, tryloywder a chynhwysiant wedi helpu i sicrhau bod y broses weithredu wedi parhau i fod yn gyson ag egwyddorion partneriaeth gymdeithasol.

Newid Hinsawdd – adroddiadau Llywodraeth Cymru ar yr ystad a chynaliadwyedd

Mae Llywodraeth Cymru wedi croesawu'r uchelgais i gyrraedd sero net erbyn 2030 ar gyfer ein hallyriadau corfforaethol ein hunain ac rydym yn bwrw ati i wireddu'r weledigaeth hon drwy ein Cynllun Strategol Sero Net, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022.[43] Mae gennym rôl ganolog wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yng Nghymru a'n nod yw arwain drwy esiampl. Fel cyflogwr pwysig yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, mae gennym ddylanwad dros adnoddau ariannol mawr ac asedau sylweddol. Rydym yn ymrwymedig o hyd i'r targed statudol o gyrraedd sero net erbyn 2050.

Rydym wedi gwella gallu ac ymwybyddiaeth ymhellach drwy sesiwn 'Dewch i Ddysgu' sefydliadol ym mis Ionawr 2026 yn ogystal â chefnogi uwch-gydweithwyr i gymryd rhan mewn hyfforddiant llythrennedd hinsawdd a natur.

Rydym yn ymgymryd â'n hadroddiadau carbon blynyddol fel rhan o broses adrodd y sector cyhoeddus a'r ymgais i fod yn sero net. Ers y mesuriadau cyntaf yn 2019-20 rydym wedi cyflawni newid mesuradwy gwirioneddol o ran lleihau ein hallyriadau carbon gweithredol 50%. Mae hyn yn cynnwys cynnydd sylweddol o ran mesurau effeithlonrwydd ynni yn ein swyddfeydd megis rheoli adeiladau, goleuadau LED a systemau sy'n defnyddio llai o ddŵr.

Mae ein cadwyn gyflenwi yn cynhyrchu 87% o'n hallyriadau cyffredinol, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae uwch-dîm caffael masnachol ar waith i nodi a gweithio gyda chyflenwyr a chontractau allweddol i ddatgarboneiddio contractau yn y dyfodol yn ogystal â gwella'r ffordd y mesurir allyriadau carbon sy'n deillio o gontractau cyfredol. Byddwn yn cryfhau ein gallu ac yn canolbwyntio ar allyriadau ein cadwyn gyflenwi, gan symud i Haen 2 a gwneud ymyriadau wedi'u targedu gyda chyflenwyr allweddol.

Cyflwr yr Ystad

Mae camau gweithredu i fynd i'r afael â newid hinsawdd yn dal i fod yn rhan annatod o strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer y gweithle a'i gwaith cynllunio i reoli asedau. Mae'r ffordd rydym wedi gwella perfformiad amgylcheddol yr ystad weinyddol wedi arwain at leihad sylweddol mewn allyriadau carbon, y defnydd o ynni a dŵr a faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. Rydym hefyd wedi gweld gwelliant yn y fioamrywiaeth yn yr ystad. Mae hyn wedi'i ategu gan system gadarn o gasglu a dadansoddi data.

Hyd at 31 Mawrth 2026, llwyddwyd i leihau allyriadau carbon 87%, sy'n rhoi cyfanswm ôl troed carbon diwygiedig o 1,700 tCO_2 ar gyfer yr ystad.[44] Mae hyn yn cyfateb i leihad cyffredinol o 10,862 tunnell o CO_2 yng nghyfanswm allyriadau ystad dros y 14 mlynedd diwethaf, sy'n lleihad sylweddol. Rydym wedi lleihau allyriadau 20% yn 2025-26 o'i gymharu â 2024-25 (2,132 tCO_2).[45] Mae'r defnydd o nwy wedi lleihau 15% ers y flwyddyn flaenorol, o 4.6 GWh i 3.9 GWh. Mae'r defnydd o drydan wedi lleihau 11% ers y flwyddyn flaenorol, o 6.2 GWh i 5.5 GWh.

Rydym wedi parhau i ddefnyddio mesurau arbed ynni a roddwyd ar waith ar 31 Hydref 2022, megis diffodd y gwres mewn swyddfeydd am 3:00pm. Ym mis Chwefror 2024 daethpwyd â'r gofyniad am awyr iach llawn a dim ailgylchdroi, a oedd yn ofynnol oherwydd Covid, i ben. Y mesurau hyn, ynghyd â rhaglen optimeiddio ynni gadarn, sydd i'w cyfrif am y gostyngiad yn y defnydd o nwy, a disgwylir lleihad pellach yn y defnydd o nwy y flwyddyn nesaf. O ganlyniad i hynny, mae lleihad cyffredinol o 13% yn y defnydd o ynni wedi cael ei gyflawni yn ystod 2025-26. Yn ystod 2025-26, roedd cynhyrchu trydan adnewyddadwy ar y safle yn cyfrif am 275MWh drwy'r ystad gyfan.[46]

43 Cynllun Strategol Sero Net Llywodraeth Cymru
44 Nwy Cwmpas 1 a thrydan Cwmpas 2
45 Nid ydym wedi cyfrif am yr allyriadau ynni a briodolwyd i'n tenantiaid yn 2025-26.
46 Ni chyfrifir am drydan adnewyddadwy yng nghyfanswm cyffredinol carbon, gan ei fod wedi'i ddosbarthu'n garbon niwtral, ond mae wedi ei gwneud yn bosibl i 5% o gyfanswm y trydan a ddefnyddir gennym fod yn ddi-gost ac yn ddigarbon.

Lleihaodd cyfanswm y gwastraff 27% o 94 tunnell i 69 tunnell o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.[47] Arhosodd gwastraff i safleoedd tirlenwi yn sefydlog ar 0.3 tunnell ac roedd yn cynnwys 0.4% o gyfanswm y gwastraff. Mae'r gyfradd ailgylchu (gan gynnwys treulio anaerobig) yn dal yn uchel, sef 81% o gyfanswm y gwastraff.[48]

Gostyngodd y defnydd o ddŵr 14% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 16,126m^3 i 13,790m^3 er gwaethaf niferoedd tebyg o staff yn gweithio mewn swyddfeydd ac roedd hynny o ganlyniad i reoli dŵr yn well.

Mae'r momentwm hwn yn parhau a bydd adroddiadau ar allyriadau yn y dyfodol yn cyd-fynd â Chynllun Adrodd Carbon Sero Net newydd y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Rydym wedi datblygu llwybr o brosiectau i'n galluogi i gyflawni carbon sero net ar ystad weinyddol Llywodraeth Cymru erbyn 2030. Mae'r prosiectau hyn yn amrywio o bympiau gwres o'r awyr a goleuadau LED i solar ffotofoltäig. Mae mesuryddion solar ffotofoltäig wedi'u cysylltu â systemau rheoli adeiladau er mwyn gallu monitro trydan adnewyddadwy oddi ar y safle.

Hefyd, ar gyfer 2026-27 rydym wedi cael £2.3m gan Great British Energy drwy raglen cyllid grant Ymestyn i fwrw ymlaen â phum prosiect ffotofoltäig solar a phum prosiect batri wrth gefn, a fydd yn ein cyflymu ar hyd ein llwybr sero net ac yn lleihau ymhellach ein heffaith amgylcheddol a'n costau gweithredu.

47 Nid ydym wedi cyfrif am allyriadau gwastraff a briodolwyd i'n tenantiaid yn 2025-26.
48 Yr 18% sy'n weddill o gyfanswm y gwastraff, sy'n cynnwys gwastraff wedi'i losgi a ddefnyddiwyd i gynhyrchu ynni.

Diweddariad ar Gynaliadwyedd

Nwyon Tŷ Gwydr	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26
Cyfanswm yr Allyriadau Gros (Cilotunelli CO_2e)	3.0	2.8	2.2	2.1	1.7
Nwy Cwmpas 1 (Cilotunelli CO_2e)	1.4	1.3	1.0	0.8	0.7
Cyfanswm Allyriadau Gros Trydan Cwmpas 2 (Cilotunelli CO_2e)	1.5	1.5	1.2	1.2	1.0
Trydan GWh	7.3	7.9	5.8	6.2	5.5
Nwy GWh	7.9	7.3	5.8	4.6	3.9
Trydan Adnewyddadwy GWh	_	_	_	0.4	0.2
Gwariant ar Ynni (£m)	2.1	1.9	3.9	2.7	2.2
Lwfansau'r Ymrwymiad Lleihau Carbon	-	-	-	-	-
Gwastraff (tunelli)	**2021-22**	**2022-23**	**2023-24**	**2024-25**	**2025-26**
Cyfanswm y gwastraff	72	74	215	94	69
Tirlenwi	1.4	0.5	1	0.3	0.3
Troi Gwastraff yn Ynni	10	13	29	14	13
Ailddefnyddiwyd/Ailgylchwyd	47	43	145	55	34
Treulio Anaerobig Bwyd	13	17	40	24	22
Gwastraff %	**2021-22**	**2022-23**	**2023-24**	**2024-25**	**2025-26**
Tirlenwi	2%	0.5%	0.4%	0.3%	0.4%
Troi Gwastraff yn Ynni	14%	18%	13.6%	14.7%	18.6%
Ailddefnyddiwyd/Ailgylchwyd	66%	58%	68%	59%	49%
Treulio Anaerobig Bwyd	18%	23%	18%	26%	32%
Dŵr	**2021-22**	**2022-23**	**2023-24**	**2024-25**	**2025-26**
m^3 y pen/y flwyddyn	2.5	2.9	2.1	3.1	2.6

Ein hymrwymiad i degwch a chynhwysiant

Yn Llywodraeth Cymru, rydym wedi ymrwymo i weithle lle mae pob aelod o'r staff yn cael eu trin yn deg, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a lle gallant ffynnu. Mae Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021 i 2026 yn nodi ein huchelgais i ddod yn sefydliad gwirioneddol gynhwysol, gyda gweithlu sy'n adlewyrchu'n well y bobl a'r cymunedau a wasanaethwn. Mae wedi parhau i lunio polisïau, cymorth i'r staff, gwella systemau ac atebolrwydd.

Symud o uchelgais i gyflawni

Dros y flwyddyn diwethaf, rydym wedi mabwysiadu dull mwy strwythuredig a bwriadol o hyrwyddo tegwch a chynhwysiant drwy'r sefydliad cyfan. Mae hyn wedi cynnwys cryfhau trefniadau llywodraethiant ac atebolrwydd, ymgysylltu'n agosach â'n llais, ac ymgorffori cymorth ymarferol mewn systemau a phrosesau bob dydd. Gyda'i gilydd, mae'r camau hyn wedi helpu i symud ein strategaeth o ymrwymiad i gyflawni mwy cyson.

Gwreiddio gwrth-hiliaeth mewn systemau ac ymarfer

Fel cyflogwr, rydym wedi parhau i gryfhau'r ffordd rydym yn dod yn sefydliad gwrth-hiliol drwy ganolbwyntio'n fwy penodol ar y systemau, y polisïau a'r arferion sy'n ffurfio profiad staff. Nododd adolygiad annibynnol o bolisïau ac arferion adnoddau dynol rwystrau strwythurol a rhoddodd sail glir ar gyfer newid. Mewn ymateb, rydym wedi bwrw ymlaen â rhaglen waith sylweddol i fynd i'r afael â'r canfyddiadau hynny ac ymgorffori ymarfer gwrth-hiliol yn fwy systematig drwy'r sefydliad cyfan. Mae'r dull gweithredu hwn wedi'i lywio gan arbenigedd yn y pwnc, mewnwelediad a phrofiadau staff, dysgu a rennir drwy'r sector cyhoeddus cyfan a meincnodi yn erbyn sefydliadau blaenllaw. Rydym hefyd wedi datblygu 'matrics aeddfedrwydd sefydliad gwrth-hiliol' i gefnogi ffordd fwy cyson o fesur cynnydd drwy'r sefydliad cyfan a, thros amser, y sector cyhoeddus yn fwy cyffredinol. Roedd yn ofynnol i bob uwch-was sifil bennu amcan perfformiad yn ymwneud â gwrth-hiliaeth, a chyflawnwyd cydymffurfedd o 100%.

Mynd i'r afael â rhwystrau drwy'r Model Cymdeithasol o Anabledd

Rydym wedi parhau i ymgorffori'r model cymdeithasol o anabledd yn fwy cyson mewn ymarfer mewnol, gan gydnabod y gall rhwystrau yn y gweithle gyfyngu ar gyfranogiad llawn a chyfartal pobl anabl. Mae hyn wedi golygu rhoi mwy o bwyslais ar hygyrchedd a chynhwysiant drwy ddylunio o ran recriwtio, addasiadau i'r gweithle a ffyrdd o weithio, ochr yn ochr â chymorth ymarferol i helpu staff ac ymgeiswyr i gael gafael ar y cyfarpar, y gwasanaethau a'r addasiadau sydd eu hangen arnynt.

Ein huchelgais yw sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel yn chwarae rhan weithredol i greu'r amodau i bawb ffynnu, gan gynnwys drwy gael gwared ar rwystrau, herio rhagdybiaethau a modelu ymarfer cynhwysol. Mae hyn yn helpu i newid ymateb y sefydliad i ffwrdd o ddisgwyl i unigolion ymaddasu a thuag at gael gwared ar rwystrau yn fwy systematig.

Gwella mynediad teg a chamu ymlaen

Mae gwella cynrychiolaeth yn y gweithlu yn dechrau drwy sicrhau bod prosesau recriwtio yn deg, yn hygyrch ac yn gynhwysol. Dros y flwyddyn diwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar wneud y broses recriwtio'n fwy cyson a haws i'w dilyn drwy symleiddio prosesau, lleihau rhwystrau diangen a gwella sicrwydd. Gwnaethom hefyd barhau i roi cymorth ymarferol i ymgeiswyr a allai wynebu rhwystrau anghymesur, gan gynnwys drwy'r Gwasanaeth Addasiadau Recriwtio ar gyfer ymgeiswyr anabl a niwroamrywiol. Ochr yn ochr â hyn, mae canllawiau diwygiedig i baneli, hyfforddiant a gweithgaredd allgymorth wedi helpu i ehangu mynediad at gyfleoedd a chefnogi cronfa ehangach o dalent.

Nid yw cynrychiolaeth yn ymwneud â phwy sy'n ymuno â'r sefydliad yn unig, mae hefyd yn ymwneud â phwy sy'n gallu camu ymlaen a llwyddo ynddo. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cadw ffocws clir ar dueddiadau o ran camu ymlaen ac arweinyddiaeth, gyda'r nod o wella cynrychiolaeth staff ethnig leiafrifol, staff anabl a menywod mewn uwch-rolau. Mae hyn wedi cynnwys gweithgaredd datblygu wedi'i deilwra, mwy o sylw i ddisgwyliadau cynhwysol mewn prosesau arweinyddiaeth a dyrchafu a ffocws o hyd ar lwybrau cynhwysol i gamu ymlaen mewn gyrfa i grwpiau sy'n parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol ar lefelau uwch.

Cynrychiolaeth y gweithlu: ble rydyn ni nawr

At ei gilydd, mae cynrychiolaeth wedi gwella ond erys islaw'r meincnodau poblogaeth ar gyfer staff anabl ac ethnig leiafrifol. Mae staff anabl yn cyfrif am **6.4%** o'r gweithlu, o'i gymharu â **21.1%** o boblogaeth Cymru, tra bod cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu i **3.2%** (y lefel uchaf i'w chofnodi ers inni ddechrau adrodd ar hyn 2020) ond mae'n parhau i fod islaw'r meincnod poblogaeth, sef **6.2%** a tharged Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru, sef **6%**.[49] Ar y llaw arall, mae menywod wedi'u cynrychioli'n dda yn y gweithlu ar y cyfan, sef **61.3%** o'r gweithlu a **50.0%** o'r Uwch Wasanaeth Sifil, y lefel uchaf a gofnodwyd hyd yma.

Cynrychiolaeth staff anabl – cyfres amser



Cynrychiolaeth staff ethnig leiafrifol – cyfres amser



Cynrychiolaeth staff yr Uwch Wasanaeth Sifil sy'n fenywod – cyfres amser



Wrth edrych ymlaen, er mwyn parhau i wneud cynnydd bydd hynny'n dibynnu ar gryfhau prosesau camu ymlaen ac amrywiaeth y staff sy'n cael eu recriwtio i'r sefydliad. Er bod canlyniadau dyrchafu mewnol yn rhoi sylfaen gadarn, nid yw recriwtio allanol wedi cyrraedd y lefelau o gynrychiolaeth y mae'r sefydliad yn eu ceisio eto, yn enwedig o ran grwpiau anabl a lleiafrifoedd ethnig. Bydd gwelliant pellach mewn canlyniadau recriwtio, ochr yn ochr â chamu ymlaen, yn bwysig i gefnogi newid parhaus yng nghynrychiolaeth y gweithlu, ac i sicrhau bod cynnydd yn cael ei adlewyrchu'n llawnach ar lefelau uwch dros amser.

49 Mae'r cyfraddau cynrychiolaeth y gweithlu a nodir yn seiliedig ar ddata datganedig yn unig. Gan nad yw 14.4% o'r staff wedi datgan statws anabledd ac nad yw 15.3% wedi datgan ethnigrwydd, mae'n bosibl bod y gynrychiolaeth wirioneddol yn uwch nag a ddangosir.

Llais, cymuned a chysylltiad y staff

Mae tegwch a chynhwysiant yn cael eu llunio nid yn unig gan systemau a pholisïau, ond p'un a yw staff yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u cynrychioli ac yn teimlo cysylltiad. Rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol â'n hundebau llafur cydnabyddedig, y mae eu rôl yn helpu i lunio'r amgylchedd sefydliadol ehangach lle gall tegwch a chynhwysiant ffynnu. Drwy ymgysylltu ffurfiol, herio adeiladol a deialog ar y cyd, maent yn chwarae rhan strategol bwysig i ddylanwadu ar bolisi, craffu ar gynigion, a sicrhau bod materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithlu yn parhau i fod yn weladwy mewn newid sefydliadol ac wrth wneud penderfyniadau. Mae hyn yn helpu i gryfhau atebolrwydd, gwella ansawdd newid, a sicrhau bod safbwyntiau staff yn cael eu hadlewyrchu yn y ffordd y mae'r sefydliad yn datblygu ac yn ymateb.

Mae ein Rhwydweithiau a Grwpiau Staff yn parhau i chwarae rhan bwysig i gryfhau cynhwysiant a pherthyn drwy'r sefydliad cyfan. Maent yn cynnig lleoedd ar gyfer cysylltu, cymorth gan gymheiriaid a phrofiad a rennir, ac maent hefyd yn helpu i amlygu materion na fyddent fel arall yn weladwy drwy lwybrau ffurfiol. Mae eu mewnwelediad yn helpu i lywio'r broses o ddatblygu polisïau, herio rhagdybiaethau a sicrhau bod newidiadau yn y gweithle yn cael eu llunio gan brofiad bywyd staff. Ceir rhagor o wybodaeth am ein rhwydweithiau yn yr adran ar Rwydweithiau Staff.

Rydym hefyd yn cryfhau cyfranogiad a llais y staff drwy drefniadau fel y Bwrdd Cysgodol, sy'n helpu i sicrhau bod safbwyntiau staff yn llywio trafodaethau a phrosesau gwneud penderfyniadau ar lefel uchaf y sefydliad.

Helpu i greu amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhwysol

Mae iechyd, diogelwch a llesiant ein staff yn flaenoriaeth greiddiol ac yn rhan hanfodol o greu amgylchedd gwaith cadarnhaol. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi canolbwyntio ar wella'r cymorth sydd ar gael i staff mewn meysydd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu profiad yn y gwaith, gan gynnwys iechyd galwedigaethol, adnoddau iechyd meddwl, addasiadau i'r gweithle a gwybodaeth a chyfeirio ehangach o ran llesiant. Mae hyn yn rhan o ddull ehangach o ymdrin â phrofiad y gweithiwr ac â chynhwysiant a chadw – dull sy'n cydnabod bod staff yn fwy tebygol o ffynnu pan fo cymorth yn hygyrch, yn ymarferol ac yn ymatebol i anghenion.

Bydd datblygiad y Swyddogaeth Cynghori ar Ddiogelwch newydd yn cryfhau'r gwaith hwn ymhellach drwy roi ffocws sefydliadol cliriach ar iechyd a diogelwch, a hefyd atgyfnerthu ei gysylltiad â blaenoriaethau llesiant a chynhwysiant ehangach.

Mae ein dull gweithredu hefyd yn cydnabod pwysigrwydd diogelwch seicolegol a llesiant ariannol, a bod angen i bobl deimlo eu bod yn gallu siarad, ceisio cymorth a rheoli'r pwysau ehangach sy'n effeithio ar fywyd gwaith. Gyda'i gilydd, mae'r camau gweithredu hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i greu amgylchedd gwaith lle gall staff aros yn ddiogel ac yn iach, cael mynediad at gymorth pan fydd ei angen arnynt, a theimlo eu bod yn cael eu parchu a'u cynnwys a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith gorau.

Defnyddio tystiolaeth i dargedu camau gweithredu ac olrhain cynnydd

Mae gwella ansawdd data cydraddoldeb y gweithlu a'r defnydd a wneir o'r data hynny yn hanfodol er mwyn deall lle mae cynnydd yn cael ei wneud, lle mae rhwystrau o hyd a lle mae angen gweithredu ymhellach. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cryfhau'r ffordd y caiff data ar amrywiaeth eu casglu a'u cymhwyso mewn gweithgarwch recriwtio a chynrychiolaeth, ac rydym hefyd yn defnyddio data cydraddoldeb Arolwg Pobl i ddeall yn well y materion sy'n effeithio ar wahanol grwpiau o staff a nodi lle mae angen camau gweithredu wedi'u targedu'n well i wella profiad a chanlyniadau. Mae hyn yn cynnig sylfaen gliriach ar gyfer blaenoriaethu, gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd.

Adrodd ar gyflog cyfartal a bylchau cyflog

Mae adrodd ar gyflog cyfartal a bylchau cyflog yn rhoi darlun pwysig o degwch o fewn y sefydliad. Rydym yn parhau i fonitro bylchau cyflog o ran rhywedd, anabledd, ethnigrwydd a chyfeiriadedd rhywiol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddeall lle mae anghydraddoldebau o hyd a lle y gall fod angen gweithredu. Er nad yw data ar fylchau cyflog ynddynt eu hunain yn egluro'r hyn sy'n achosi anghydraddoldeb, maent yn helpu i nodi patrymau, asesu risg a mesur newid dros amser.

Yn 2025-26, mae **bylchau cyflog wedi parhau i fynd yn llai**, er bod gwahaniaethau rhwng grwpiau o hyd.

- Mae'r **bwlch cyflog cymedrig o ran anabledd** yn **3.64%**, yr **isaf ers dechrau adrodd**, sy'n dangos gwelliant graddol mewn cydraddoldeb cyflog.
- Mae'r **bwlch cyflog cymedrig o ran ethnigrwydd** yn **3.94%**, sy'n is na'i frig diweddar ond mae'n dangos rhywfaint o amrywio o flwyddyn i flwyddyn, sy'n adlewyrchu niferoedd bach ac effaith dosbarthiad graddau.
- Mae'r **bwlch cyflog cymedrig o ran rhywedd** yn **4.21%**, sef unwaith eto **y lefel isaf a gofnodwyd**, gyda chynnydd parhaus yn gysylltiedig â gwelliannau yn y cydbwysedd rhywedd mewn graddau uwch.
- Ar gyfer **cyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol cymedrig**, ceir **bwlch cyflog gwrthdro (-2.84%)**, gan fod staff â chyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol yn ennill mwy ar gyfartaledd, sy'n debygol o adlewyrchu cynrychiolaeth uwch mewn graddau uwch.

Ar draws pob grŵp, mae **bylchau cyflog yn cael eu llywio i raddau helaeth gan wahaniaethau yn nosbarthiad graddau**, ac mae'r bylchau fel arfer yn ehangach ar lefelau uwch lle mae tangynrychiolaeth yn parhau. Bydd y gwaith i greu system recriwtio a chamu ymlaen fwy cynhwysol a chyfartal, yn ogystal ag ymdrechion parhaus i gael gwared ar rwystrau ac adeiladu diwylliant lle gall pawb ffynnu, yn ganolog i leihau'r bwlch ymhellach a chyrraedd y nod o gydraddoldeb cyflog.

At ei gilydd, mae'r gwaith a wnaed yn ystod 2025-26 yn dangos cynnydd clir o ran symud o uchelgais i gyflawni mwy strwythuredig. Rydym wedi cryfhau'r systemau a'r arferion sy'n ffurfio tegwch yn y gwaith, wedi dyfnhau'r ffordd mae llais a phrofiad bywyd staff yn llywio newid, wedi gwella'r cymorth sydd ar gael i staff yn eu hamgylchedd gwaith o ddydd i ddydd, ac wedi adeiladu sylfaen dystiolaeth gryfach er mwyn helpu i dargedu camau gweithredu ac olrhain cynnydd. Er mai gwaith hirdymor ydyw o hyd, mae'r cynnydd a wnaed y flwyddyn hon yn rhoi sylfaen gadarnach ar gyfer cynnal momentwm a chanolbwyntio camau gweithredu yn y dyfodol lle maent eu hangen fwyaf.

Rhwydweithiau Staff

Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd – Y rhwydwaith cymorth i staff anabl sydd hefyd yn rhoi cyngor ar effaith polisïau cyflogaeth, arferion ac amgylchedd ar staff anabl yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd.

Materion y Meddwl – Y rhwydwaith staff ar gyfer cydweithwyr sydd â diddordeb mewn iechyd meddwl a llesiant, gan gynnwys staff y mae iechyd meddwl yn effeithio arnynt, neu staff sy'n rheoli neu'n gofalu am rywun y mae iechyd meddwl yn effeithio arno.

Rhwydwaith y Staff Ethnig Lleiafrifol – Y rhwydwaith ar gyfer staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n rhoi sicrwydd o ran cydraddoldeb mewn perthynas â pholisïau ac sy'n helpu aelodau i wneud eu profiad o weithio i Lywodraeth Cymru yn un sy'n fuddiol i'n cymunedau ac sy'n datblygu unigolion. Mae MESN yn gweithio'n agos gyda'r sefydliad ar yr uchelgais i ddod yn wrth-hiliol.

Y Rhwydwaith Niwrowahaniaeth – Mae'n cefnogi cydweithwyr niwrowahanol ar draws y sefydliad ac yn hybu dealltwriaeth o sut y mae niwrogynhwysiant yn gwella'r gweithle i bawb.

PRISM – Y rhwydwaith staff ar gyfer unigolion lesbiaidd, hoyw, deurywiol, traws, rhyngrywiol ac unigolion â chyfeiriadeddau rhywiol a hunaniaethau rhywedd lleiafrifol eraill.

Menywod Ynghyd – Mae'r rhwydwaith yn lle cynhwysol sy'n agored i'r holl staff a'i nod yw meithrin diwylliant o gydraddoldeb a chymorth i'w gilydd, gan sbarduno mentrau sy'n grymuso menywod ac yn mynd i'r afael â rhwystrau systemig. Ein hamcanion yw grymuso; eiriolaeth; cymorth; gweledigaeth; ac ymgysylltu.

Gweithio'n ddwyieithog

Fel sefydliad, rydym yn sicrhau bod ein gweision sifil yn cael cyfleoedd i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Cafodd ein strategaeth ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn fewnol, 'Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd', ei chyhoeddi ym mis Ebrill 2020. Yn ystod y pum mlynedd cyntaf, gwnaethom gynnydd da o ran ymgorffori'r strategaeth wrth inni weithio i gyflawni ei hamcan o ddod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog erbyn 2050, gweithle lle mae'n arferol defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg fel ieithoedd gwaith, yn gyfnewidiol ac yn naturiol. Rydym bellach yn bwriadu cyhoeddi ail iteriad o'r strategaeth ar gyfer y cyfnod hyd at 2030.

Yn y tymor byrrach, pennwyd amcan o ddod yn sefydliad sy'n esiampl o ran ein defnydd o'r iaith o'i gymharu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Er mwyn cyflawni hyn, mae pedair thema wedi bod yn ganolog i weithredu'r strategaeth: dysgu, arweinyddiaeth, recriwtio a thechnoleg.

Dysgu

Rydym wedi ailwampio ein rhaglen dysgu Cymraeg ers i'r strategaeth 'Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd', gael ei chyhoeddi ym mis Ebrill 2020. Rydym bellach yn cynnig arlwy mwy hyblyg ac amrywiol sydd wedi denu mwy o ddysgwyr i'r rhaglen. Ym mis Mai 2020, roedd 76 o ddysgwyr yn dilyn rhaglen dysgu Cymraeg ffurfiol yn Llywodraeth Cymru, ond yn 2025 roedd bron 700 o ddysgwyr yn manteisio ar un o'r 14 opsiwn dysgu ffurfiol.

Rydym hefyd wedi cyflwyno dysgu pwrpasol wedi'i deilwra ar gyfer staff Llywodraeth Cymru fel y cyrsiau Codi Hyder ac Ynganu ac wedi sicrhau bod yr arlwy dysgu yn hygyrch i gydweithwyr ag anghenion dysgu ychwanegol drwy gynnig hyfforddiant un i un gyda thiwtoriaid arbenigol. Dros y cyfnod nesaf rydym am ganolbwyntio ar roi cyfleoedd dysgu dwys pellach a byddwn yn cyflwyno'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin i fesur a chofnodi sgiliau iaith ein gweithlu.

Arweinyddiaeth

Mae ein Huwch-weision Sifil yn arwain drwy esiampl o ran modelu ymddygiad ac ymarfer da o ran eu defnydd o'r Gymraeg wrth ryngweithio â staff mewn cyfarfodydd a chyflwyniadau. Bu arweinyddiaeth ein huwch-arweinwyr yn amhrisiadwy yn hyn o beth, ac mae'r Gymraeg yn fwy gweladwy a chlywadwy mewn digwyddiadau corfforaethol. Rydym am weld ein huwch-arweinwyr yn adeiladu ar y sylfeini hyn ac yn parhau i annog a hwyluso eu timau i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Recriwtio

Rydym wedi ailddrafftio'r ffordd y disgrifir sgiliau Cymraeg yn ein dogfennau recriwtio, gan bwysleisio gwerth y Gymraeg fel ased i'r sefydliad, waeth beth fo'r swydd. Yn ystod 2025-26, cyflwynwyd rhaglenni dysgu mawr a dwys ar gyfer carfannau newydd o staff, megis prentisiaid, ceidwaid Cadw a staff y Swyddfa Breifat.

Dros amser bydd angen inni recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg i gyrraedd amcan Llywodraeth Cymru ar gyfer 2050 o ddod yn sefydliad dwyieithog. Ein man cychwyn fydd parhau i anelu at recriwtio'r bobl orau, ni waeth beth fo'u cefndir, gan groesawu a chefnogi staff newydd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a'u hannog i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle. Fodd bynnag, bydd angen inni hefyd recriwtio mwy o bobl sydd eisoes â sgiliau Cymraeg. Bydd cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg mewn cymdeithas yn hwyluso hyn, yn enwedig wrth i fwy o ddisgyblion adael yr ysgol â sgiliau iaith gwell o ganlyniad i Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

Technoleg

Mae'r swyddogaeth cyfieithu ar y pryd wedi cael ei hyrwyddo'n eang yn Microsoft Teams, ac mae canllawiau ar ddefnyddio Microsoft Translator wedi cael eu datblygu a'u rhannu'n eang ymhlith y staff. Rydym wedi mynd ati y flwyddyn hon i sicrhau bod ein staff yn ymwybodol o'r adnoddau a all eu helpu gyda thasgau pob dydd, a fydd dros amser yn lleihau ein dibyniaeth ar wasanaethau cyfieithu.

Mae technoleg yn dal i ddatblygu a byddwn yn edrych ar ddefnyddio technoleg cyfieithu a thrawsgrifio, a datblygiadau mewn deallusrwydd artiffisial, i hwyluso gweithio'n ddwyieithog o ddydd i ddydd. Byddwn yn canolbwyntio ar:

- annog cydweithwyr sydd â'r hyder i siarad neu ysgrifennu yn y Gymraeg i wneud hynny, gan gynnig cymorth a chyngor lle y bo angen
- manteisio i'r eithaf ar y cymorth y gall technoleg ei gynnig i bawb er mwyn hwyluso gweithio'n ddwyieithog.

Yn unol â'n dyletswyddau statudol, rydym yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Mae ein hadroddiad ar gyfer 2025-26 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.[50]

Gohebiaeth a chwynion

Mae gan Lywodraeth Cymru bolisi cwyno clir a thryloyw sy'n esbonio'r ffordd rydym yn ymdrin â chwynion gan aelodau o'r cyhoedd neu sefydliadau eraill. Rydym wedi mabwysiadu'r arferion gorau o ran ymdrin â chwynion yn unol â'r polisi a'r canllawiau cwynion enghreifftiol a nodwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Tîm Cynghori ar Gwynion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau y dilynir y polisi a'r weithdrefn gwyno yn gyson ac yn deg drwy roi cyngor ac arweiniad i swyddogion ar ymdrin â chwynion. Mae hyn yn cynnwys cynghori ar gynnydd ac amserlenni a phwysleisio pwysigrwydd ymateb i gwynion yn unol â'r terfyn amser y cytunwyd arno. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2025-26, cafodd Tîm Cynghori ar Gwynion Llywodraeth Cymru gyfanswm o 95 o gwynion.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) sy'n pennu cyfradd ymateb o 85% o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Dylai cwynion Cam 1 (anffurfiol) gael eu hystyried a'u datrys o fewn 10 diwrnod gwaith. Dylai cwynion Cam 2 (ffurfiol) gael eu hystyried a'u datrys o fewn 20 diwrnod gwaith.

50 www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-safonaur-gymraeg-2025-i-2026

Mae'r tabl isod yn dangos amseroedd ymateb ar gyfer y pedair blynedd diwethaf:

	Cyfanswm nifer y cwynion a ddaeth i law	Yr ymatebion a roddwyd	Ymateb o fewn yr amserlen y cytunwyd arni	% a gafodd ymateb o fewn yr amserlen y cytunwyd arni
Ebrill 2022 – Mawrth 2023	54	66	39	59%
Ebrill 2023 – Mawrth 2024	103	101	72	72%
Ebrill 2024 – Mawrth 2025	57	57	47	82%
Ebrill 2025 – Mawrth 2026	95	95	84	88%

Mae'r cynnydd yn nifer y cwynion a gofnodwyd yn deillio'n bennaf o drefniadau adrodd gwell a chydweithio agosach, sydd bellach yn cofnodi cwynion gan gyrff a oedd gynt ar wahân nad oedd eu prosesau cwyno wedi'u hintegreiddio'n llawn â phroses adrodd canolog Llywodraeth Cymru o'r blaen. Nid yw'n dangos cynnydd sylweddol mewn cwynion gwirioneddol.

Caiff amserlenni ymateb i gwynion eu monitro bob mis a'u rhannu â swyddogion arweiniol sy'n adrodd ar gwynion o fewn pob grŵp ac yn eu monitro, gan olygu y gellir uwchgyfeirio ymatebion hwyr a phroblemau eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau a chymryd camau i wella perfformiad. Gall ffactorau fel cymhlethdod y gŵyn neu'r lefel ymchwilio sydd ei hangen effeithio ar amseroedd ymateb.

O'r 95 o gwynion a ddaeth i law, ymatebodd Tîm Cynghori ar Gwynion Llywodraeth Cymru i 54 o gwynion Cam 1 o fewn y terfyn amser datganedig o 10 diwrnod a 41 o gwynion Cam 2 o fewn y terfyn amser datganedig o 20 diwrnod. Pan fo achos yn fwy cymhleth, gellir ei uwchgyfeirio'n uniongyrchol i ymchwiliad cam 2. Felly, nid oes cydberthynas uniongyrchol rhwng nifer y cwynion cam 1 sy'n cael eu huwchgyfeirio i gam 2. Ar gyfer yr 11 cwyn sy'n weddill, pan gaiff terfyn amser cwyn ei estyn oherwydd hyd neu gymhlethdod yr ymchwiliad, rhoddir gwybod i'r achwynydd a rhoddir yr wybodaeth ddiweddaraf iddo drwy gydol y broses, yn unol â model Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Nid yw Adroddiad Blynyddol 2025-26 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cael ei gyhoeddi eto, ond mae'n hysbys i 57 o gwynion gael eu hatgyfeirio at yr Ombwdsmon yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Gall unigolyn gysylltu â'r Ombwdsmon yn uniongyrchol ynghylch unrhyw fater y mae'n anfodlon ag ef, ond fel arfer bydd yr Ombwdsmon yn disgwyl bod y mater wedi bod drwy broses fewnol y sefydliad cyn y gall ei ystyried. O'r 57 o gwynion a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon roedd 8 yn gwynion cynamserol nad oeddent wedi bod drwy broses gwyno Llywodraeth Cymru; ni fu 24 yn destun ymchwilio, roedd 23 yn faterion y tu allan i'w awdurdodaeth a chafodd 2 eu datrys yn gynnar.

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm yr achosion a gaewyd gan yr Ombwdsmon dros y pum mlynedd diwethaf:

Blwyddyn	Achosion
2021-22	1
2022-23	2
2023-24	17
2024-25	30
2025-26	57

Mae'n bosibl y bydd nifer y cwynion a gofnodir fel rhai a gaewyd gan yr Ombwdsmon yn ymddangos yn fwy yn sgil rhoi dulliau adrodd mwy cywir ar waith a gwell cydweithio ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r gwelliant hwn yn golygu bod modd cofnodi cwynion yn fwy manwl gywir, gan sicrhau bod pob cwyn gyflogaeth yn cael ei chofnodi a'i hystyried yn briodol.

Fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw'r cynnydd hwn yn arwydd o gynnydd sydyn yn nifer y cwynion gwirioneddol a ddaeth i law, ond mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i fod yn dryloyw ac yn drylwyr. Wrth i'n hymdrechion barhau, gallai nifer y cwynion yr adroddir amdanynt gynyddu eto y flwyddyn nesaf, a dylid ystyried hyn yn arwydd cadarnhaol o'n hymroddiad parhaus i dryloywder a dogfennu manwl, yn hytrach nag yn achos pryder.

Adroddiad Atebolrwydd 2025-26



Diben yr adroddiad atebolrwydd yw bodloni gofynion atebolrwydd allweddol i'r Senedd, sef prif ddefnyddiwr yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

Mae gan yr adroddiad atebolrwydd yr adrannau canlynol:

- Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol
- Colledion, Taliadau Arbennig a Datgelu Rhoddion
- Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff
- Crynodeb o'r Alldro Adnoddau
- Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol

Diben yr adroddiad llywodraethiant corfforaethol yw esbonio cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethiant yr endid a sut y maent yn cynorthwyo i gyflawni ei amcanion. Mae'r adroddiad llywodraethiant corfforaethol yn cynnwys Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r datganiad llywodraethiant. Fel arfer byddai'n cynnwys adroddiad cyfarwyddwr ond mae'r agweddau hynny a fyddai mewn adroddiad cyfarwyddwr yn cael eu datgelu mewn mannau eraill yn y cyfrifon cyfunol.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrifon adnoddau cyfunol blynyddol yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys EF, yn nodi'r adnoddau sydd wedi'u caffael, eu dal neu eu gwaredu a'r defnydd o adnoddau yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill a ddynodwyd yng ngrŵp Llywodraeth Cymru ac a restrir yn y nodiadau i'r cyfrifon hyn. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o faterion Llywodraeth Cymru a'r grŵp, ac o incwm a gwariant, Datganiad o Sefyllfa Ariannol a llifoedd arian parod y grŵp ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Y Prif Swyddog Cyfrifyddu ar ran Gweinidogion Cymru biau'r cyfrifoldeb dros drefniadaeth gyffredinol, rheolaeth a staffio Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros systemau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid a materion eraill, a thros reoli gofyniad net Llywodraeth Cymru am arian parod. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol hefyd am baratoi a llofnodi cyfrif adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth ac, yn arbennig:

- parchu'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan y Trysorlys, gan gynnwys gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru systemau a gweithdrefnau priodol a dibynadwy i gyflawni'r broses gydgrynhoi;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol, gan gynnwys y penderfyniadau sydd ynghlwm wrth gydgrynhoi'r wybodaeth gyfrifyddu a ddarperir gan gyrff cyhoeddus eraill yn y grŵp;
- datgan a yw'r safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn FReM, wedi'u dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu crynswth yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r farn sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

O dan Adran 133(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gallu dynodi aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn dynodi Prif Weithredwr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn Swyddog Cyfrifyddu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae gwaith y Byrddau Iechyd Lleol, y Byrddau Iechyd

Arbennig ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yn cael ei lywodraethu drwy awdurdod ar wahân ac mae Prif Weithredwyr pob un o'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cael eu penodi'n Swyddogion Atebol gan Brif Weithredwr y GIG yng Nghymru. Nid yw'r penodiadau hyn yn tynnu oddi ar gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Swyddog Cyfrifyddu dros gyfrifon Llywodraeth Cymru.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu (neu Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol, ar ei ran) wedi dynodi Prif Weithredwyr (neu swyddogion cyfatebol) Cyrff Cyhoeddus Cymru yn Swyddogion Cyfrifyddu'r cyrff hynny. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau bod systemau a rheolaethau ar waith i sicrhau bod unrhyw grantiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i Gyrff Cyhoeddus Cymru yn cael eu defnyddio at y dibenion a fwriedir.

Mae'n gyfrifol hefyd am sicrhau bod modd cyfrif yn briodol am y gwariant hwnnw ac incwm a gwariant arall y cyrff hynny o fewn y cyfrifon adnoddau. O dan y telerau penodi, mae Swyddogion Cyfrifyddu Cyrff Cyhoeddus Cymru yn atebol am y defnydd a wneir o'r grantiau a dderbynnir, gan gynnwys rheoleidd-dra a phriodoldeb, ac am incwm a gwariant arall y cyrff hynny.

Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol a thros ddiogelu asedau Llywodraeth Cymru neu'r corff Cyhoeddus Cymreig y mae'r swyddog cyfrifyddu'n atebol iddo, yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

Datgelu Gwybodaeth i Archwilwyr

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gwybod am yr wybodaeth honno. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol ohoni.

Dr Andrew Goodall CBE
Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu

26 Tachwedd 2026

Datganiad Llywodraethiant



Cyflwyniad

Rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod safonau uchel o uniondeb yn y ffordd y rheolir arian cyhoeddus. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cynorthwyo i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Gweinidogion Cymru, ac sy'n hwyluso arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli risg.

Yn ystod 2025-26, cyflawnwyd blwyddyn olaf y Rhaglen Lywodraethu, ymdrech sylweddol ar y cyd a oedd yn gofyn am lawer iawn o waith caled i gyflawni ein hymrwymiadau polisi a deddfwriaethol i bobl Cymru. Yn ystod yr un cyfnod, buom yn paratoi ar gyfer y pontio i'r Senedd nesaf, gan roi mesurau ar waith i sicrhau ein bod yn barod i gefnogi'r weinyddiaeth newydd o'r diwrnod cyntaf.

Cynhaliwyd ein Harolwg Pobl blynyddol, ac mae'r canlyniadau'n dangos y gallwn gyflawni gwelliannau diriaethol sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol drwy ganolbwyntio ar feysydd allweddol. Mae dysgu a datblygu, hyder i herio, ac arweinyddiaeth a rheoli newid i gyd yn feysydd yr ydym wedi canolbwyntio arnynt yn gyson dros nifer o flynyddoedd, ac mae ein sgoriau yn y meysydd hyn wedi gwella'n

gyson. Gallwn weld tystiolaeth glir hefyd fod cydweithwyr benywaidd, cydweithwyr ethnig leiafrifol a chydweithwyr LHDTC bellach yn adrodd yn fwy cadarnhaol am eu profiadau ar draws ystod eang o themâu'r arolwg. Rwyf yn falch o nodi gwelliannau ym mhob rhan o'r arolwg bron, a'n bod yn parhau i berfformio'n gryf o'i gymharu â'r mwyafrif o brif adrannau'r DU.

Rydym wedi parhau i lywio ein ffordd drwy bwysau ariannol a chyllidebol sylweddol sy'n deillio o chwyddiant a chostau byw drwy ein prosesau mewnol a'n trefniadau llywodraethiant, gan gynnwys cynorthwyo'r Cabinet i wneud penderfyniadau. Er bod gwasgfa o hyd o ran adnoddau, mae gennym gyfle bellach i gynllunio'n fwy effeithiol a nodi ffyrdd newydd o weithio i greu capasiti ar gyfer ein blaenoriaethau. Er mwyn hybu gwell effeithlonrwydd, byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â'r Cabinet ar y dewisiadau anodd o fewn y gyllideb sydd ar gael, gan gynnwys buddsoddi mewn adnewyddu a thrawsnewid systemau TG etifeddol a phrosesau ategol, megis drwy'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol.

Fel bob amser, mae ein staff wedi darparu cymorth proffesiynol i'r Gweinidogion ar draws cyfrifoldebau eu portffolios a strwythurau'r grwpiau, hyd yn oed yng nghyd-destun heriol y flwyddyn ddiwethaf. Rwyf yn ddiolchgar iawn am y ffordd y maent wedi cyflawni dros y Gweinidogion a'r sefydliad ehangach, ac rydym wedi ymrwymo o hyd i fod yn gyflogwr ymatebol a chefnogol. Mae'n rhoi hyder mawr imi ein bod wedi dod drwy flwyddyn mor gymhleth a heriol, ac rwyf yn hyderus y byddwn yn parhau i gefnogi'r llywodraeth newydd mewn ffordd broffesiynol ac effeithiol.

Mae'r prif ffynonellau gwybodaeth yr wyf yn eu hystyried wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethiant hwn wedi'u nodi yn Ffigur 1.

Ffigur 1: Ffynonellau Sicrwydd sy'n Cyfrannu at y Datganiad Llywodraethiant Blynyd



Defnyddir ffynonellau gwybodaeth allanol hefyd i lywio'r Datganiad Llywodraethiant. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau gan y canlynol ymhlith eraill:

- **Archwilio Cymru**
- **Rheoleiddwyr**
- **Y Comisiwn Ewropeaidd**
- **Aseswyr Allanol**.

Y Fframwaith Llywodraethiant

Mae'r Fframwaith Llywodraethiant yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfeirio a rheoli Llywodraeth Cymru a'r gweithgareddau y mae'n atebol drwyddynt i Senedd Cymru ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid drwyddynt. Mae'n galluogi'r sefydliad i fonitro'r modd y mae ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion yn cael eu cyflawni ac i weld a lwyddwyd i sicrhau gwerth am arian. Mae'r Fframwaith yn cynnwys y cyrff hynny y cyflawnir blaenoriaethau ac ymrwymiadau'r Llywodraeth drwyddynt a hefyd y trefniadau mewnol ar gyfer gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru. Ceir manylion pellach am y Fframwaith Llywodraethiant o fewn Datganiad System y Swyddog Cyfrifyddu.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Rwyf wedi ymrwymo i gefnogi Gweinidogion Cymru i gyflawni eu dyletswydd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) a llesiant (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus, ac felly dylai trefniadau gweithredu a llywodraethu a mecanweithiau'r Llywodraeth, a'r cyngor a'r cymorth a roddir gan y gwasanaeth sifil yng Nghymru, wella'n gyson er mwyn ymateb i'r gofynion hyn.

Wrth inni ddechrau ar dymor newydd yn y Senedd, rwy'n cael fy nghalonogi gan y cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud wrth roi egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth wraidd sut rydym yn ymddwyn a phopeth a wnawn. Yn unol â'r ymrwymiad yn y maniffesto i adolygu'r Ddeddf, mae'n bwysig ein bod yn defnyddio'r amser hwn i feddwl am yr hyn sydd wedi gweithio'n dda o dan y Ddeddf, ond hefyd i ystyried sut y gallwn wneud mwy i wreiddio ei hegwyddorion a'i hamcanion ymhellach.

Yn Llywodraeth Cymru, roedd trefniadau i hyrwyddo datblygu cynaliadwy hefyd yn cael eu cyflawni drwy LlC2025, ein rhaglen tair blynedd ar gyfer datblygu sefydliadol. Er mwyn sicrhau bod datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio wrth wraidd popeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud, ym mis Chwefror 2023, cyhoeddwyd Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2023-25. Daeth y cynllun hwn â thros 51 o gamau gweithredu ynghyd i ddyfnhau ein dealltwriaeth a'n defnydd o'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Llywodraeth Cymru. Ym mis Mai 2024, cyhoeddwyd adroddiad cynnydd ar y cynllun, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd yn erbyn pob cam gweithredu ac yn adrodd ein hanes o ddysgu. Wrth i'r cynllun ddod i ben yn 2025, o'r 51 o gamau gweithredu, canfu dadansoddiad mewnol fod 20 naill ai heb eu cwblhau neu yn parhau a byddant yn cael eu cadw i sbarduno gwelliant parhaus.

Wrth inni bennu amcanion llesiant newydd ar gyfer tymor nesaf y Senedd, byddwn hefyd yn adolygu sut yr ydym yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy ar draws Llywodraeth Cymru a'i gysoni â strategaethau sefydliadol ehangach. Rydym yn credu bod ein dull gweithredu yn cyfleu neges glir i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru fod gwella a myfyrio'n barhaus yn hanfodol i lwyddiant agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Roedd 2025 yn nodi degfed pen-blwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ers y Cydsyniad Brenhinol. Elfen bwysig o nodi'r pen-blwydd oedd creu cyfres o gynhyrchion a chynigion newydd i helpu pobl i gymhwyso'r Ddeddf. Mae llawer o'r cynhyrchion hyn nid yn unig yn cefnogi swyddogion Llywodraeth Cymru i wneud eu gwaith yn well ond maent ar gael yn eang i eraill eu defnyddio. Mae rhai o'r rhain ar gael yma:

- Ti, fi a dyfodol Cymru
- e-gwrs: Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Llawlyfr Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn parhau i helpu i gyflawni canlyniadau gwell mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol. Mae ymrwymiad cryf ar draws y sefydliad (a'r tu hwnt) i ddyfnhau dealltwriaeth o'r Ddeddf a'r ffordd y caiff ei chymhwyso. Mae'r brwdfrydedd hwn, ynghyd â chyflwyno cynhyrchion dysgu newydd, yn helpu i ymgorffori sgiliau allweddol a meithrin ffyrdd newydd o weithio ar draws y gwasanaeth sifil, gan gefnogi'r Llywodraeth newydd yn ei dull gweithredu.

Cyrff Cyhoeddus Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni rhai o'i nodau a'i hamcanion drwy nifer o gyrff cyhoeddus Llywodraeth Cymru, a elwir fel arfer yn Gyrff Hyd Braich, sy'n cynnwys cyrff gweithredol statudol, is-gwmnïau, deiliaid swyddi annibynnol a rhai cyrff cyhoeddus eraill a ariennir gan y llywodraeth. Mae hyn ar wahân i'w gwaith gyda'r GIG a chyrff llywodraeth leol.

Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn cefnogi cyrff cyhoeddus a'u timau noddi (a elwir yn dimau partneriaeth) i ddarparu cysondeb mewn llywodraethiant, cyflog a phenodiadau cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio'r Model Hunanasesu a dreialwyd i ddechrau gan grŵp bach o gyrff cyhoeddus yn 2024-25 cyn cyfnod profi ehangach yn 2025-26. Bydd yn ofynnol i dimau partneriaeth a'u cyrff cyhoeddus weithio drwy'r model hwn yn flynyddol.

Mae'r Prif Swyddog Gweithredu yn cadeirio Grŵp Cyfeirio Cyrff Cyhoeddus o uwch-swyddogion sydd â chyfrifoldeb dros gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Sefydlwyd y Grŵp i adolygu a datblygu gwaith Llywodraeth Cymru gyda thimau partneriaeth mewn perthynas â phenodiadau, adolygiadau ac agweddau eraill ar nawdd a llywodraethiant. Mae cyfarwyddwyr sydd â thimau partneriaeth yn eu cylch gwaith yn mynychu'r Grŵp Cyfeirio Cyrff Cyhoeddus yn ogystal â darparu asesiad o'u sicrwydd ar gyrff cyhoeddus y maent yn eu hariannu drwy'r Holiadur Rheolaeth Fewnol.

Mae timau partneriaeth hefyd yn chwarae rôl wrth sicrhau bod llywodraethiant effeithiol ar waith. Maent yn cytuno ar ddogfen fframwaith gyda'u corff cyhoeddus sy'n nodi'r telerau ac amodau y mae'r corff yn cael arian cyhoeddus odanynt. Mae amcanion, camau gweithredu, dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt a threfniadau adrodd i adolygu perfformiad wedi'u nodi mewn llythyr cylch gwaith a gyhoeddir unwaith bob tymor y llywodraeth.

Mae templed diwygiedig ar gyfer y cytundeb fframwaith ar waith ar gyfer tymor newydd y llywodraeth.

Caiff Prif Weithredwyr neu'r swyddog cyfatebol ym mhob corff sydd â swyddogaethau gweithredol eu dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol. Maent yn gyfrifol yn bersonol am reolaeth eu sefydliad ar gyllid cyhoeddus a chyflawni ei amcanion. Mae'n ofynnol i Swyddogion Cyfrifyddu lofnodi datganiad llywodraethiant a gyhoeddir yng nghyfrifon blynyddol eu corff. Diffinnir y berthynas â Llywodraeth Cymru mewn dogfennaeth ysgrifenedig ar gyfer pob corff.

Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn parhau i ddatblygu perthnasoedd rhwng Llywodraeth Cymru a'i chyrff cyhoeddus drwy gyfarfodydd rheolaidd. Cynhelir cyfarfodydd y Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus (sydd wedi'u hanelu at Gadeiryddion, Prif Weithredwyr ac undebau) ddwywaith y flwyddyn fel rheol. Mae Cadeirydd y Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus yn aelod o'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a hi yw'r cyfrwng ar gyfer adborth rhwng y ddau gyfarfod. Mae'r Prif Swyddog Gweithredu yn cadeirio cyfarfodydd deufisol o Brif Weithredwyr a chyfarfodydd chwarterol o Gadeiryddion.

Mae Grŵp y Sector Datganoledig, sy'n cael ei gadeirio ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd a chadeirydd y cytunwyd arno gan yr undebau llafur, yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn fel rheol. Mae'n cael ei fynychu gan Lywodraeth Cymru, a chynrychiolwyr cyflogwyr a'r undebau llafur o gyrff hyd braich, swyddfeydd comisiynwyr, adrannau anweinidogol, deiliaid swyddi annibynnol a chwmnïau sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r Grŵp yn canolbwyntio ar faterion y gweithlu.

Mae'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus yn y Ganolfan Arbenigedd Recriwtio ac Adnoddau yn parhau i arwain y gwaith o gyflawni mwy na 100 o benodiadau rheoleiddiedig bob blwyddyn, gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus. Yn 2025-26, ailsefydlodd y tîm sylfaen dystiolaeth ar gyfer penodiadau cyhoeddus rheoleiddiedig i ddarparu darlun mwy cadarn, am y tro cyntaf, o weithgarwch ac amrywiaeth penodiadau cyhoeddus rheoleiddiedig. Datblygwyd cynigion ganddynt hefyd ar gyfer fframwaith recriwtio a dull asesu newydd a chynlluniwyd hyfforddiant newydd i aelodau paneli, sy'n dilyn egwyddorion llywodraethiant. Bydd angen i'r llywodraeth newydd roi sêl ei bendith i'r dulliau gweithredu newydd.

Mae'r tîm Tâl a Gwobrwyo o fewn yr Uned yn arwain y gwaith o ddatblygu'r canllawiau cylch gwaith cyflog blynyddol ar gyfer cyrff hyd braich, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, cyfyngiadau cyllidol, a pholisi cyflog ehangach y sector cyhoeddus. Mae'r tîm hefyd yn darparu goruchwyliaeth ar Gyrff Hyd Braich mewn perthynas â thaliadau arbennig wrth adael cyflogaeth a'r rheolaethau dirprwyedig o dan Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, gan sicrhau bod cynigion y cyrff ar gyfer cynlluniau ymadael yn cydymffurfio â'r gofynion, yn cynnig gwerth am arian, ac yn cael eu trin yn gyson ar draws sefydliadau.

Trefniadau Mewnol Llywodraeth Cymru

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan graidd o'r Fframwaith Llywodraethiant a bwriedir iddi reoli a lleihau risg annerbyniol. Mae Cynllun Dirprwyadau Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r dirprwyaethau safonol a gymhwysir ar draws pob maes o'r sefydliad. Fel elfen allweddol o'r fframwaith llywodraethiant corfforaethol, mae'n galluogi'r Prif Swyddog Cyfrifyddu i gyflawni ei gyfrifoldebau yn effeithiol drwy sefydlu llinellau clir o atebolrwydd ac adrodd. Mae hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni diben Llywodraeth Cymru a chyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Gweinidogion.

Diwygiwyd y Cynllun Dirprwyadau ym mis Ebrill 2026 i ymgorffori sawl diweddariad, gan gynnwys:

- cyflwyno fframwaith dirprwyadau ar gyfer Cymhellion Ymchwil Defnyddwyr; a
- throthwyon caffael mewnol diwygiedig, ochr yn ochr â phrosesau symlach i gefnogi caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith gwerth isel mewn ffordd sy'n symlach, cymesur a thryloyw.

Cydweithiodd y Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol (CGCoE) yn agos ag arweinwyr swyddogaethol ar gyfer Cymhellion Ymchwil Defnyddwyr a Chaffael i sicrhau bod y diweddariadau hyn yn cael eu cyfleu ar draws Llywodraeth Cymru drwy ddulliau cyfathrebu mewnol, gan gynnwys erthyglau newyddion.

Mae CGCoE yn parhau i adolygu'r Cynllun Dirprwyadau yn rheolaidd ac yn ei ddiweddaru yn ôl yr angen.

Mae arferion llywodraethiant da yn cael eu rhannu ar draws Grwpiau Llywodraeth Cymru drwy sianeli allweddol megis y Gymuned Ymarfer Llywodraethiant Corfforaethol ac adnoddau'r fewnrwyd, gan gynnwys deunyddiau canllaw a bwletinau.

Mae'r Fframwaith Llywodraethiant a'r system rheolaeth fewnol yn cael eu cefnogi ymhellach gan broses rheoli risg barhaus. Mae'r broses hon yn nodi ac yn blaenoriaethu risgiau o ran cyflawni polisïau, nodau ac amcanion, yn asesu eu tebygolrwydd a'u heffaith, ac yn sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae Archwilio Mewnol yn darparu cyngor a sicrwydd i gefnogi'r gwaith o wella'r fframwaith yn barhaus. Yn gyffredinol, mae'r fframwaith llywodraethiant yn cyd-fynd ag egwyddorion llywodraethiant da cydnabyddedig ac mae'n cael ei ategu gan Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, sy'n nodi sut y dylid rheoli adnoddau'r sector cyhoeddus.

Mae CGCoE yn parhau i adolygu ac adnewyddu canllawiau corfforaethol. Rydym yn parhau i ddiweddaru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Rydym wedi diweddaru'r penodau sy'n cynnwys meysydd lle'r ydym wedi ymrwymo i adolygu canllawiau, fel y cytunwyd gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Byddwn yn cyhoeddi'r penodau wedi'u diweddaru wrth iddynt gael eu cwblhau. Er ein bod wedi pennu dyddiad cwblhau dros dro o fis Rhagfyr 2026 ar gyfer y prosiect cyfan, mae'n bosibl y bydd yr amserlen hon yn cael ei haddasu ar sail blaenoriaethau eraill sy'n cystadlu â'r flaenoriaeth hon.

Mae'r diagram yn adlewyrchu'r strwythur llywodraethiant a oedd ar waith ar gyfer y rhan fwyaf o 2025-26.



Adrodd ar Berfformiad

Y llynedd, adroddais am gyflwyno dull newydd o fesur perfformiad sefydliadol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys defnyddio cerdyn sgorio cytbwys. Mae'r dull hwn wedi parhau i ennill ei blwyf drwy gydol 2025-26, gyda chymorth adroddiadau chwarterol ar draws ystod o fetrigau perfformiad corfforaethol. Mae hyn yn golygu bod modd cymryd camau gweithredu amserol a monitro cynnydd yn rheolaidd.

Yn ogystal, mae adroddiad perfformiad blynyddol wedi'i ddatblygu i ddarparu trosolwg mwy cynhwysfawr o berfformiad dros y flwyddyn flaenorol. Gyda'i gilydd, mae'r trefniadau hyn yn darparu fframwaith hyblyg a chyfannol ar gyfer monitro perfformiad drwy gydol y flwyddyn.

Y Cod Llywodraethiant Corfforaethol

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddilyn yr egwyddorion a amlinellir yn y Cod Llywodraethiant Corfforaethol ar gyfer Adrannau'r Llywodraeth Ganolog cyn belled ag y bo'n ymarferol. Mae meysydd lle mae arfer Llywodraeth Cymru yn ymwahanu oddi wrth y Cod (gan fod y Cod wedi'i gynllunio ar gyfer Adrannau yn hytrach na Gweinyddiaethau Datganoledig) yn cynnwys:

- nid yw Prif Weinidog Cymru yn mynychu nac yn cadeirio cyfarfodydd Bwrdd Llywodraeth Cymru; ac
- mae nifer yr aelodau gweithredol yn uwch na nifer y cyfarwyddwyr anweithredol.

Y Bwrdd

Fel Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu, fe'm cefnogir gan Fwrdd Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys 14 Aelod, yn Gyfarwyddwyr Anweithredol a Chyfarwyddwyr Gweithredol.
Mae Cyd-gadeirydd Arweiniol y Bwrdd Cysgodol a Hyrwyddwr Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn bresennol fel arsylwyr cyfranogol. Mae cynrychiolydd o un o'r tri Undeb Llafur swyddogol sy'n gweithredu yn Llywodraeth Cymru yn mynychu ar sail rota. Mae'r Bwrdd yn fy nghynghori wrth imi wneud penderfyniadau strategol allweddol ynghylch sut y mae Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn cael ei ddatblygu i gynorthwyo'r Prif Weinidog a'r Gweinidogion i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu ac i gyflawni blaenoriaethau'r Gweinidogion. Rwyf yn cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd ac ar ôl pob Bwrdd rwyf yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol.

Yn ystod y flwyddyn ystyriodd y Bwrdd ystod o faterion, gan gynnwys y canlynol, fel rhan o'i agenda:

- Y Rhaglen Lywodraethu
- Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol
- Archwiliad dwfn o risgiau seiber a gwydnwch TG
- Diweddariadau ddwywaith y flwyddyn ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Cyflawni Mega-ddigwyddiadau: Tour de France 2027 ac UEFA Euro 2028
- Archwiliad dwfn o fodloni gofynion Iechyd, Diogelwch a Llesiant
- Archwiliad dwfn o reoli risgiau capasiti a gallu'r gweithlu
- Strategaeth Ddata Llywodraeth Cymru
- Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru
- Cynllun Gweithredu Adran 23
- AI yn Llywodraeth Cymru
- Diweddariadau cyllid a chynllunio'r gyllideb
- Diweddariadau ar Ddiwygio'r Senedd a'r paratoadau ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2026
- LlC2025: blaenoriaethau parod ar gyfer newid
- Archwiliad dwfn o reoli gwydnwch, llesiant a morâl ar draws ein gweithlu.
- Fferm Gilestone.

Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd

Cafwyd newidiadau i aelodaeth y Bwrdd dros y flwyddyn. Camodd Mutale Merrill yn ôl ym mis Gorffennaf 2025 am resymau personol ac ymddiswyddodd yn ffurfiol ym mis Rhagfyr 2025. Ymunodd Jacqueline Totterdell â'r Bwrdd ym mis Hydref ar ôl iddi gael ei phenodi'n Gyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar a Phrif Weithredwr GIG Cymru. Ymunodd Nicola Williams â'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2025 ar ôl iddi gael ei phenodi'n Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol.

Aelodaeth yn ystod 2025-26	Presenoldeb mewn cyfarfodydd
Andrew Goodall, yr Ysgrifennydd Parhaol	8/8
Mutale Merrill, Cyfarwyddwr Anweithredol	2/2
Aled Edwards, Cyfarwyddwr Anweithredol	8/8
Carys Williams, Cyfarwyddwr Anweithredol	8/8
Mike Usher, Cyfarwyddwr Anweithredol	8/8
Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth	6/8
Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig	8/8
Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar/Prif Weithredwr GIG Cymru	6/8
Jacqueline Totterdell, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar/Prif Weithredwr GIG Cymru	2/3
Sioned Evans, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Prif Swyddog Gweithredu	6/8
David Richards, Cyfarwyddwr, Priodoldeb a Moeseg	4/8
Dom Houlihan, Cyfarwyddwr, Pobl a Lleoedd	8/8
Dean Medcraft, Cyfarwyddwr, Cyllid	6/8
Nia James, Cyfarwyddwr Dros Dro, Gwasanaethau Cyfreithiol	3/5
Nicola Williams, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol	3/3
Nicola Edwards, Uwch-arweinydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	1/1

Hunanasesiad y Bwrdd o Berfformiad

Cynhaliwyd arolwg yr Adolygiad Blynyddol o'r Bwrdd ar ddiwedd 2025. Roedd yr arolwg yn fyw rhwng 11 Tachwedd 2025 a 9 Ionawr 2026 ac fe gasglodd 14 o ymatebion. Dadansoddwyd y canlyniadau gan y Tîm Ymchwil Corfforaethol.

Ar y cyfan, roedd aelodau'r Bwrdd yn gadarnhaol am eu rôl ar y Bwrdd, a'u profiad ohono, a oedd yn gyffredinol yn ategu teimladau adolygiad 2023 a 2024. Un o'r prif elfennau cadarnhaol o ran sut y mae'r Bwrdd yn gweithredu, a amlygwyd gan sawl aelod, oedd natur gynhwysol cyfarfodydd y Bwrdd. Roedd llawer yn teimlo bod y Bwrdd yn cael ei gynnal yn dda, gyda dull cydweithredol nad yw'n hierarchaidd lle mae cydweithwyr yn cael eu trin mewn ysbryd o barch a chydweithio.

Roedd natur agored cyfarfodydd y Bwrdd yn cael ei gwerthfawrogi hefyd, lle mae aelodau'n teimlo'n ddiogel i gyfrannu a herio, ac i ddysgu oddi wrth ei gilydd, gan gefnogi ymgysylltiad gan yr holl gydweithwyr mewn trafodaethau. Roedd teimlad bod yr ymagwedd gyffredinol gan aelodau'r Bwrdd yn gefnogol ond yn chwilfrydig.

Nodwyd manteision cael cyfraniadau o ystod o safbwyntiau, gan gynnwys Cyfarwyddwyr Anweithredol, y Bwrdd Cysgodol, ac Ochr yr Undebau Llafur, a oedd yn helpu i ychwanegu at ehangder a chyflawnder y trafodaethau. Roedd cymwynasgarwch a hygyrchedd y Cyfarwyddwyr Anweithredol yn cael ei werthfawrogi hefyd.

Is-bwyllgorau'r Bwrdd

Roeddwn hefyd yn cael fy nghynghori gan ddau Is-bwyllgor y Bwrdd a arweinir gan Aelodau Anweithredol (y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol).

Is-bwyllgor y Bwrdd: Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) a Byrddau Sicrwydd y Grwpiau

Mae ARAC Llywodraeth Cymru yn fy nghefnogi ar faterion sicrwydd. Un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y Bwrdd oedd yn cadeirio'r Pwyllgor, a Chadeiryddion Byrddau Sicrwydd y Grwpiau oedd gweddill yr aelodau.

Ar ddechrau 2025-26, disodlwyd ARACs y Grwpiau gan Fyrddau Sicrwydd y Grwpiau i roi mwy o ystwythder, hyblygrwydd a chymesuredd wrth ddarparu sicrwydd i Gyfarwyddwyr Cyffredinol, gyda ffocws penodol ar:

- effeithlonrwydd sefydliadol, gan gynnwys trefniadau llywodraethiant; a
- yr amgylchedd rheolaeth fewnol, gan gynnwys rheoli risg.

Mae'r Byrddau Sicrwydd yn cyfarfod yr un mor aml ac mae'r llinellau adrodd rhyngddynt ac ARAC Llywodraeth Cymru yn dal yr un fath.

Yn ogystal â'i eitemau safonol ynghylch y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, gweithredu argymhellion archwilio, a diweddariadau o archwilio mewnol ac allanol, roedd y Pwyllgor yn darparu gwaith craffu manwl a her mewn meysydd ychwanegol, gan gynnwys:

- Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru a'r Datganiad Llywodraethiant a'r set o ddogfennau sy'n sail i'r sicrwydd y maent yn ei ddarparu.
- Y dull o reoli meysydd allweddol megis y gallu i gyflawni rhaglenni a rheoli prosiectau, a rhaglen newid mewnol y sefydliad.
- Y paratoadau mewnol a'r trefniadau llywodraethiant ar gyfer Diwygio'r Senedd. Er mwyn darparu set ehangach o sicrwydd, comisiynodd y Pwyllgor bob Bwrdd Sicrwydd i ystyried y maes hwn o fewn eu priod Grwpiau.
- Ystyried a chymeradwyo'r Siarter, Mandad a Strategaeth Archwilio Mewnol, sy'n ofyniad allweddol o dan y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2025.

Roedd pob ARAC a phob Bwrdd Sicrwydd yn cyfarfod drwy'r flwyddyn yn unol â'u hamserlen o gyfarfodydd chwarterol.

Cynhaliwyd ffocws ar ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth i aelodau ARACs a Byrddau Sicrwydd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys sesiynau ymwybyddiaeth rhwng aelodau newydd a swyddogion, a hyrwyddo presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddi ARAC cenedlaethol a drefnir gan Bennaeth Proffesiwn Archwilio Gwasanaeth Sifil y DU.

Is-bwyllgor y Bwrdd: Y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol

Ail is-bwyllgor y Bwrdd yw'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol. Mae'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol yn gorff cynghori strategol. Mae'n darparu her, cyfeiriad a sicrwydd ar strategaethau sy'n gysylltiedig â phobl, risgiau a chyfleoedd allweddol a'r strategaeth a'r polisi tâl ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil. Mae ganddo gyfrifoldebau statudol dros gymhwyso telerau ac amodau'r Uwch Wasanaeth Sifil, gan gynnwys y fframwaith rheoli perfformiad, y strategaeth gyflogau a dyfarniadau cyflog a bydd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddadansoddiad rheolaidd o dueddiadau'r gweithlu ar gyfer ein Huwch Wasanaeth Sifil. Yn ehangach mae'n ystyried hefyd faterion strategol ehangach sy'n bwysig i'r sefydliad.

Agenda ac Eitemau Trafod (Ebrill 2025 – Mawrth 2026)

- Diwylliant Perfformiad Llywodraeth Cymru (gan gynnwys canlyniadau Arolwg Pobl 2025 a 'Codi Llais' a 'Diogel i Herio' – sy'n cefnogi ein staff i godi pryderon).
- Rheoli Perfformiad (graddau dirprwyedig a heb eu dirprwyo) gan gynnwys Cymedroli Perfformiad canol a diwedd blwyddyn a'r Camau Nesaf.
- Adolygiad o Strategaeth Tâl a Gwobrwyo Llywodraeth Cymru (yn benodol lwfansau a'r dull o ymdrin â Thâl a Dilyniant yr Uwch Wasanaeth Sifil).
- Cysoni pobl a galluoedd â strategaethau a chynlluniau'r sefydliad.
- Drafftio a gweithredu Cynllun Pobl newydd.
- Canlyniadau'r Arolwg Pobl a'r Arolwg Pwls.
- Mae pynciau llosg yn cynnwys, newidiadau a heriau yn y Cynllun Pensiwn a diwygio'r Senedd a chynllunio etholiadau.
- Rhaglen Datblygu Bandiau Gweithredol (ac yn ehangach rhaglenni datblygu eraill).
- Risgiau sy'n gysylltiedig ag ymddeol a chadw yn yr Uwch Wasanaeth Sifil.
- Ceisiadau unigol am ran-ymddeoliad, gweithio rhan-amser a threfniadau rhannu swydd.
- Trefniadau ymadael unigol.

Rhaid i gyflog yr Ysgrifennydd Parhaol adeg ei benodi gael ei gymeradwyo gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys. Mae holl benodiadau a chydnabyddiaeth ariannol Ysgrifenyddion Parhaol yn cael eu rheoli'n ganolog gan Swyddfa Cabinet y DU. Maent hefyd o fewn cwmpas rheolaeth uwch-gyflogau'r Trysorlys.

O dan lefel Ysgrifennydd Parhaol, nid yw rheolaeth uwch-gyflogau'r Trysorlys yn gymwys i benodiadau sydd wedi'u gwneud neu eu cymeradwyo gan Weinidogion mewn Gweinyddiaethau Datganoledig. Yn gyffredinol, mae Swyddfa Cabinet y DU yn disgwyl i gyflogau'r holl Gyfarwyddwyr Cyffredinol a benodir gael eu cytuno gan yr Ysgrifennydd Parhaol (y Prif Swyddog Cyfrifyddu). Ar gyfer penodiadau mewnol, yn achos unrhyw achosion lle mae cyflog Cyfarwyddwr Cyffredinol adeg ei benodi yn fwy na naill ai isafswm y band cyflog neu godiad cyflog 10% adeg dyrchafiad, mae angen cymeradwyaeth gan y Pennaeth Proffesiwn perthnasol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn ogystal â chymeradwyaeth gan y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol. Nid oes angen y gymeradwyaeth

hon ar gyfer cyflogau Cyfarwyddwyr Cyffredinol sydd o fewn y trothwy 10% o gyflog adeg dyrchafiad oni bai eu bod yn fwy na £140,000, ac os felly mae angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Parhaol (y Prif Swyddog Cyfrifyddu).

Mae Cyfarwyddwr Anweithredol yn cadeirio'r Pwyllgor. Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn ystod y flwyddyn a mynychais yr holl gyfarfodydd ond un. Ni chynhaliwyd tri chyfarfod fel y'u trefnwyd yn wreiddiol ac fe'u haildrefnwyd ar gyfer dyddiadau diweddarach.

Y Pwyllgor Gweithredol (ExCo)

ExCo yw'r fforwm gwneud penderfyniadau strategol sy'n fy nghefnogi fel Prif Gynghorydd Polisi'r Prif Weinidog, Prif Swyddog Cyfrifyddu a Phennaeth Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru. Mae ExCo yn cyfarfod yn wythnosol ac yn ystyried ystod o faterion gweithredol a strategol.

Drwy gydol 2025-26, roeddwn yn cael fy nghefnogi gan dîm arwain o Gyfarwyddwyr Cyffredinol, pob un yn arwain Grŵp yn Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r Cyfarwyddwyr sy'n ymdrin â swyddogaethau corfforaethol allweddol sef Llywodraethiant a Moeseg, Cyllid, Adnoddau Dynol/Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Cyfreithiol.

Mae Cyfarwyddwyr Cyffredinol y Pwyllgor Gweithredol yn cael eu dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol mewn perthynas â'r cyllidebau sydd wedi'u dirprwyo iddynt er mwyn rhoi cyfrifoldeb ac atebolrwydd personol iddynt dros ddefnyddio arian cyhoeddus yn briodol a sicrhau gwerth am arian ar fy rhan innau. Mae rhai Cyfarwyddwyr penodol hefyd yn cael eu dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol i egluro ymhellach drefniadau llywodraethiant corfforaethol ac atebolrwydd, a hynny ar gyfer defnyddio cronfeydd cyhoeddus ac wrth ateb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Mae'r dynodiadau hyn yn achos Cyfarwyddwyr yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol.

Ystyriodd ExCo ystod o bynciau drwy gydol 2025-26 gan gynnwys eitemau ar gynllunio'r gweithlu, y Cerdyn Sgorio Cytbwys, gwella Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Diwygio'r Senedd yn ogystal â chael diweddariadau rheolaidd ar y sefyllfa gyllid yn ystod y flwyddyn a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Yr Is-bwyllgor Effeithiolrwydd Gweithredol (a elwid gynt yn Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol)

Mae'r Is-bwyllgor Effeithiolrwydd Gweithredol (a elwid gynt yn Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol) yn is-bwyllgor o ExCo. O dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Gweithredu, mae'r is-bwyllgor wedi cyfarfod ddwywaith y mis ers mis Ionawr 2026 i gynghori ExCo ar reolaeth ariannol, llywodraethiant, sicrwydd a masnachol y sefydliad, a rheoli a datblygu gweithlu'r sefydliad. Nod yr is-bwyllgor hefyd yw ysgogi gwelliant parhaus yn y rheoli, y sgiliau a'r galluoedd yn y meysydd hyn. Mae'r aelodaeth yn cynnwys Cyfarwyddwr Anweithredol, arweinwyr cyllid a gweithrediadau o bob Grŵp ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr Pobl a Lleoedd, Cyfarwyddwr y Trysorlys, y Cyfarwyddwr Caffael Masnachol, y Prif Swyddog Digidol, a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd (y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Swyddog Diogelu Data).

Ystyriodd yr Is-bwyllgor Effeithiolrwydd Corfforaethol ystod o bynciau drwy gydol 2025-26 gan gynnwys eitemau ar wella perfformiad o ran busnes y Llywodraeth, perfformiad o ran cyflog, gwella perfformiad rheoli prosiectau yn ogystal â chael diweddariadau rheolaidd ar y sefyllfa gyllid yn ystod y flwyddyn a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Is-bwyllgor ExCo: Y Pwyllgor Gweithredol Deddfwriaethol (LExCo)

Mae LExCo yn cydgysylltu ac yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni rhaglen ddeddfwriaeth y Llywodraeth ar lefel swyddogion. Yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf, cafodd chwe Bil Llywodraeth y Cydsyniad Brenhinol, a chyflwynwyd wyth Bil Llywodraeth i'r Senedd yn ystod y Cyfnod Adrodd; maent i gyd wedi cael y Cydsyniad Brenhinol ers hynny. Yn ystod y Chweched Senedd mae LExCo wedi cefnogi Is-bwyllgor Cabinet, sef Pwyllgor Sefydlog y Cabinet ar Ddeddfwriaeth. Mae LExCo yn cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Parhaol ac fel arfer mae'n cyfarfod bob chwe wythnos.

Llywodraeth Cymru 2025

Yn ystod 2025-26 daeth LlC2025 i ben ac mae wedi bod yn allweddol i Lywodraeth Cymru, gan gryfhau'r ffordd y mae'n gweithio, yn rheoli adnoddau, ac yn cyflawni dros Gymru.

Mae'r rhaglen wedi gwella diwylliant sefydliadol, ystwythder, cynaliadwyedd ariannol, a pharodrwydd ar gyfer heriau yn y dyfodol – gan gynnwys Diwygio'r Senedd. Mae wedi ymgorffori arloesedd, llywodraethiant cryfach ac wedi gwneud Llywodraeth Cymru yn weithle mwy effeithiol a chynhwysol. Mae LlC2025 wedi rhoi Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i:

- Gyflawni blaenoriaethau gweinidogol yn effeithiol.
- Addasu'n gyflym i newid gwleidyddol ac ariannol.
- Parhau i wella drwy arloesi a llywodraethiant cryfach.

Ymchwiliad COVID-19

Yn ystod 2025-26 parhaodd Llywodraeth Cymru i ddarparu tystiolaeth i'r Ymchwiliad COVID-19; daeth sesiynau tystiolaeth lafar i ben ar ddechrau 2026. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariadau ac ymatebion pellach i adroddiadau'r ymchwiliad. Mae teclyn adrodd wedi'i greu Ymchwiliadau cyhoeddus – LLYW.CYMRU, nid yn unig ar gyfer yr ymchwiliad COVID-19 ond hefyd ar gyfer ymchwiliad Grenfell a'r ymchwiliad Gwaed Heintiedig, sy'n nodi ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr ymchwiliad ac yn darparu diweddariadau ar gynnydd. Yn 2025-26, cytunodd Llywodraeth Cymru hefyd i dreialu uned ymchwiliadau cyhoeddus corfforaethol a fyddai'n ceisio defnyddio'r wybodaeth a'r profiad a gafwyd drwy ei gwaith ar Ymchwiliad COVID-19 a dod â hyn i ymchwiliadau eraill.

Cymorth i fusnesau yn ystod COVID-19

Rydym wedi parhau i fonitro ac adolygu'r cronfeydd a ddefnyddiwyd i ddarparu cymorth busnes yn ystod y pandemig, gyda'r bwriad o gau pen y mwdwl ar fonitro'r cronfeydd, gan ddarparu diweddariad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. O ran y cynlluniau a weithredir gan Lywodraeth Cymru, ni nodwyd unrhyw faterion arwyddocaol nac ychwaith achosion neu adferiadau oherwydd twyll. Unwaith eto, o ran y cynlluniau a weithredir gan yr Awdurdodau Lleol, mae'r gyfradd dwyll yn dal yn gyson â'r hyn a adroddwyd yn flaenorol. Mae Strategaeth Ymadael wedi'i datblygu a'i chytuno ar gyfer y Gronfa Cadernid Economaidd, a daeth y gweithgarwch Monitro ar ôl Cwblhau (PCM) i ben ar ddechrau 2026, ac eithrio ar gyfer y busnesau hynny a ymatebodd yn hwyr i geisiadau am fanylion, a fyddai'n caniatáu i achosion gael eu cau. Ar ôl cau'r achosion hyn sy'n weddill, bydd ymarfer gwersi a ddysgwyd pellach yn cael ei gynnal yn 2026 fel rhan o waith cau PCM a ddaw i ben yn Chwarter 3 2026.

Trefniadau Sicrwydd



Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant gan gynnwys y system rheolaeth fewnol, yr wyf yn cymryd sicrwydd gan amrywiaeth eang o weithgareddau ar ei chyfer. Yn hyn o beth, fe'm hysbysir gan waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r swyddogion hynny yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Rwyf yn cymryd sicrwydd o gytuno ar gynlluniau gweithredu a'u cyflawni gan reolwyr mewn ymateb i faterion a nodir gan Archwilio Mewnol, yr Archwilydd Allanol (Archwilydd Cyffredinol Cymru) yn ei adroddiadau ac mewn adroddiadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau Craffu eraill y Senedd sy'n cynnal eu hymchwiliadau eu hunain. Mae'r Byrddau Grŵp a'r Byrddau Sicrwydd ac ARAC Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion a wneir gan Archwilio Mewnol, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Rwyf wedi cael fy nghynghori hefyd ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Bwrdd, yr ARAC a Byrddau Sicrwydd y Grwpiau.

Mae cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru'n cwmpasu meysydd allweddol ar fywyd cyhoeddus, a hynny o dan arweiniad y Prif Weinidog a'r Cabinet, a'r Gweinidogion eraill sydd wedi'u penodi ganddi. Mae ystod eang o reolaethau mewnol yn bodoli i ddarparu ar gyfer stiwardiaeth gadarn ar adnoddau.

Archwilio Mewnol

Fe wnaeth y rhaglen o waith archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn i Lywodraeth Cymru, sy'n gyrru'r lefel sicrwydd gyffredinol a roddir, arwain at y safbwyntiau canlynol ar gyfer archwiliadau a seilir ar sicrwydd:

Barn Sicrwydd	2025-26	2024-25	2023-24	2022-23	2021-22
Sicrwydd Sylweddol	4	5	8	10	14
Sicrwydd Rhesymol	29	34	26	18	25
Sicrwydd Cyfyngedig	7	10	4	7	3
Dim Sicrwydd	-	-	1	1	-
Cyfanswm yr Archwiliadau Sicrwydd	**40**	**49**	**39**	**36**	**42**
Cynghorol neu Ni roddwyd barn	35	10	9	6	2
Cyfanswm	**75**	**59**	**48**	**42**	**44**

Eleni, cynhaliwyd nifer sylweddol o archwiliadau cynghori hefyd, sy'n adlewyrchu datblygiad parhaus gwasanaethau cyngor, mewnwelediad a rhagolwg ochr yn ochr â gwasanaethau sicrwydd. Roedd y datblygiad hwn, ynghyd â newidiadau i'r dull archwilio (a oedd yn cefnogi cyflwyno adroddiadau cynghori ychwanegol ochr yn ochr ag adroddiadau sicrwydd), yn dilyn mabwysiadu'r diffiniad newydd o archwilio mewnol o fewn y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS). Credir bod y cydbwysedd rhwng gwaith sicrwydd a chynghori yn briodol ac yn rhesymol ac, er nad oes barn sicrwydd yn cael ei rhoi, mae canlyniadau gwaith cynghori yn dal i gyfrannu at farn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ynghylch effeithiolrwydd llywodraethiant, rheoli risg a phrosesau rheoli.

Barn Sicrwydd

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn cadw ei barn sicrwydd 'hollt' o'r llynedd. Yn ei barn hi, o fewn rhwydwaith TG diogel, mae dibyniaeth barhaus Llywodraeth Cymru ar systemau TG ar lefel sefydliad sy'n heneiddio ac sy'n rhai 'etifeddol' yn golygu ei bod yn cael ei hamlygu i risgiau cynyddol ac nad oes ond mesurau cyfyngedig ar gael ar hyn o bryd i liniaru'r risgiau hynny. Mae gwell dealltwriaeth o'r risgiau sy'n wynebu'r seilwaith TG wedi'i datblygu ers i'r risg hirdymor hon gael ei nodi gyntaf, gan alluogi'r sefydliad i flaenoriaethu mesurau lliniaru yn fwy effeithiol. Er hynny, fel y gwelwyd mewn sawl archwiliad eleni, mae'r heriau a'r cyfyngiadau sy'n deillio o'r systemau hyn yn parhau i gael effaith andwyol ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol gweithrediadau. Mae hyn oherwydd diffyg rhyngweithrededd, diffyg gwybodaeth reoli ddigonol neu ddibynadwy, diffyg cysondeb neu wydnwch gweithredol, ynghyd â chostau cynyddol a dibyniaeth ar ddatrysiadau llaw.

Er nad yw'r effeithiau hyn wedi atal Llywodraeth Cymru rhag cyflawni ei hamcanion, maent yn lleihau effeithiolrwydd ei phrosesau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth:

- O ganlyniad, dim ond sicrwydd cyfyngedig y gellir ei roi ynghylch effeithiolrwydd llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth mewn perthynas â systemau TG Llywodraeth Cymru ar lefel y sefydliad – systemau sy'n heneiddio a rhai etifeddol – a'r prosesau sy'n gweithredu o'u cwmpas.
- Serch hynny, ar sail canlyniadau archwiliadau sy'n seiliedig ar sicrwydd eleni, gellir darparu sicrwydd rhesymol ar effeithiolrwydd prosesau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth a weithredir dros weithgareddau sy'n canolbwyntio ar weithgareddau polisi a chyflawni ar lefel Grŵp.

Canfyddiadau Allweddol

Nododd y saith adroddiad archwilio 'sicrwydd cyfyngedig' wendidau yn y meysydd canlynol:

- Prosiectau a rhaglenni, lle nad oedd gan ddau fwrdd rhaglenni elfennau sylfaenol a/neu orfodol o arfer PPM safonol Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae'r rhaglen 'Get to Green' bellach wedi cau ac wedi symud i welliant parhaus 'busnes yn ôl yr arfer' ond, er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn, mae gan Lywodraeth Cymru waith i'w wneud o hyd i hyrwyddo ei haeddfedrwydd rheoli prosiectau a rhaglenni.
- Roedd dau weithgaredd ar draws y sefydliad, sef Trefniadau Partneriaeth (ar gyfer Cyrff Hyd Braich Cymru) ac Asesiadau Effaith Integredig, lle y nodwyd anghysondebau mewn arferion gweithredol ochr yn ochr â chyfyngiadau mewn trefniadau a goruchwyliaeth ar lefel sefydliad, gan leihau eu gallu i sicrhau effeithiolrwydd, cysondeb a gwydnwch hirdymor.
- Dwy ffrwd ariannu benodol, lle'r oedd elfennau allweddol rheoli grantiau effeithiol ar goll gyda llywodraethiant gwael a rhai diffygion rheoli systemig.

Nododd archwiliadau 'cynghorol' eraill a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn rai gwendidau mewn polisïau a gweithdrefnau penodol sy'n gysylltiedig â thâl, gyda rheolaethau'n cael eu cymhwyso yn anghyson gan reolwyr llinell sydd â'r cyfrifoldeb dros weithredu gwiriadau a rheolaethau dros drafodiadau, a gwybodaeth reoli annigonol ar gael i'r rheolwyr llinell hynny. Nodwyd cyfyngiadau o ran monitro a goruchwylio trafodiadau hefyd ynghyd â gwendidau yn y polisïau a'r gweithdrefnau sefydliadol sy'n ymwneud â'r trafodiadau hynny.

Materion Sicrwydd Eraill

Grŵp Llywodraeth Cymru

Mae cwmpas Pennaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru yn ymwneud â Llywodraeth Cymru ei hun yn unig ac nid y cyrff cyhoeddus eraill o fewn y Grŵp Llywodraeth Cymru cyfunol ehangach. Er hynny, mae ganddi fynediad at adroddiadau blynyddol a barn Penaethiaid Archwilio Mewnol ar gyfer y cyrff Grŵp hyn. Mae eu barn gyfunol, y mae Pennaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru yn dibynnu arnynt, yn darparu 'sicrwydd rhesymol' cyffredinol ar effeithiolrwydd prosesau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth o fewn Cyrff Cyhoeddus Cymru a gyfunwyd o fewn Grŵp Llywodraeth Cymru.

Sicrwydd y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT)

Mae'r corff a gasglwyd o archwiliadau allanol o brosiectau a ariennir gan y Comisiwn Ewropeaidd (CE) yn darparu sicrwydd ar gydymffurfiaeth Cronfeydd Strwythurol a rhaglenni eraill a ariennir gan y CE â Rheoliadau'r CE ar gydnabod a hawlio'r costau hynny o'r CE.

- **Cronfeydd Strwythurol 2014–2020 (ESF ac ERDF)**
  Cyflwynwyd yr Adroddiad Rheoli Terfynol a'r Pecyn Cau ar gyfer rhaglenni ESF ac ERDF i'r CE ym mis Rhagfyr 2025 gyda barn archwilio ddiamod a chyfradd cyfeiliornad o 0.20%, sydd dipyn yn is na lefel perthnasedd y CE o 2%. Cytunwyd ar yr adroddiad ac fe gafodd ei dderbyn gan y CE ym mis Chwefror 2026.
  Er hynny, nid oes hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol bod y rhaglenni wedi cau wedi dod i law oddi wrth y CE hyd yma.
- **Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd Iwerddon – Cymru 2014–2020**
  Roedd yr Adroddiad Rheoli Terfynol a'r Pecyn Cau yn cynnwys barn archwilio ddiamod a chyfradd cyfeiliornad o lai na 2%. Caewyd y Rhaglen yn ffurfiol gan y CE ym mis Tachwedd 2025.
- **Rhaglen Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) 2014–2020**
  Roedd gwaith archwilio EFAT ar brosiectau EMFF Cymru yn cynnwys yr Adroddiad Rheoli Terfynol ar gyfer y rhaglen hon, a arweiniwyd gan Lywodraeth y DU fel yr Awdurdod Archwilio. Cyflwynodd Llywodraeth y DU ei hadroddiad ym mis Chwefror 2026, a roddodd sicrwydd diamod i'r CE ym mhob maes a chadarnhaodd gyfanswm cyfradd cyfeiliornad ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu terfynol o lai na 1%. Derbyniodd y CE yr adroddiad ym mis Mawrth 2026.

Sicrwydd Ansawdd Allanol

Yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS), fel y'u mabwysiadwyd drwy Nodyn Cymhwyso Sector Cyhoeddus y DU, roedd Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru yn destun ei Asesiad Ansawdd Allanol annibynnol (EQA) pum mlynedd ar ddechrau 2026. Roedd canlyniad yr EQA yn gadarnhaol gyda'r farn bod y Gwasanaeth yn 'cydymffurfio yn gyffredinol' â GIAS.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Mae'r ARAC yn rhoi cymorth a chyngor i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar faterion sy'n ymwneud â rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethiant, yn unol â'r egwyddorion a'r canllawiau a nodwyd yn Llawlyfr ARAC Trysorlys EF. Fel is-bwyllgor o'r Bwrdd, mae'r ARAC yn gweithredu mewn rôl gynghori ac nid oes ganddo bwerau gweithredol.

Ym mhob un o'r pum cyfarfod ARAC yn 2025-26, roedd yr eitemau agenda sefydlog yn cynnwys:

- Diweddariad a throsolwg gan y Prif Swyddog Cyfrifyddu
- Materion llywodraethu a risg, gan gynnwys y gofrestr risg gorfforaethol ac adroddiadau chwarterol gan Fyrddau Sicrwydd y Grwpiau.
- Monitro'r gwaith o weithredu ar argymhellion a wnaed gan ein harchwilwyr mewnol ac allanol a chan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd
- Diweddariad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol; a
- Diweddariad gan Archwilio Cymru.

Yn ogystal â'r eitemau sefydlog hyn ar yr agenda, cynhaliodd y pwyllgor archwiliadau dwfn o sawl maes, gan gynnwys:

- Cynnydd o ran rhaglen newid 'LlC2025'
- Paratoadau ar gyfer Diwygio'r Senedd; a'r
- Trefniadau rheoli rhaglenni a phrosiectau.

Yn ogystal, aeth aelodau o'r pwyllgor i gyfarfod briffio gan Archwilio Cymru a thîm cyllid canolog Llywodraeth Cymru ar y materion allweddol sydd ynghlwm wrth y gwaith o baratoi ac archwilio'r cyfrifon blynyddol, a arweiniodd at wella ansawdd y drafodaeth yn ei gyfarfodydd dilynol.

Yn bresennol fel mater o drefn ym mhob un o gyfarfodydd y pwyllgor roedd yr Ysgrifennydd Parhaol, y Prif Swyddog Gweithredu, yr holl Gyfarwyddwyr Cyffredinol, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Pennaeth Archwilio Mewnol, Pennaeth y Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol, y Prif Gyfrifydd a chynrychiolwyr Archwilio Cymru. Roedd swyddogion eraill yn bresennol i gyflwyno papurau penodol ar gais y pwyllgor.

Roedd presenoldeb drwy gydol y flwyddyn yn dda iawn, a bu'r ARAC yn fforwm gwerthfawr ar gyfer trafodaeth agored a her adeiladol. Cyhoeddir cofnodion cyfarfodydd ARAC ar wefan Llywodraeth Cymru[51], er mwyn sicrhau mwy o dryloywder ac yn unol â'r arferion llywodraethiant gorau. Mae Byrddau Sicrwydd y Grwpiau a gyflwynwyd ar ddechrau 2025-26 yn rhoi ffocws llywodraethu cryfach ar y risgiau allweddol ym mhob un o'r portffolios Grŵp, ac mae hyn yn ei dro yn helpu i wella'r sicrwydd a roddir gan y Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu.

Ar sail ei waith drwy gydol 2025-26, roedd yr ARAC yn gallu rhoi sicrwydd rhesymol cyffredinol ar ddigonolrwydd y trefniadau archwilio ar gyfer Llywodraeth Cymru a hefyd ar y trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol sydd wedi bod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol, yn seiliedig ar yr ystod o fesurau sicrwydd a gyflwynwyd i'r Pwyllgor a'r wybodaeth a roddwyd iddo gan swyddogion.

Er hynny, fel y llynedd, roedd yr ARAC yn dal i bryderu am y rhesymau dros y defnydd parhaus o farn sicrwydd hollt gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, a'r ffaith mai sicrwydd 'cyfyngedig' yn unig a roddodd mewn perthynas â'r risgiau sy'n cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru o ran ei systemau corfforaethol sy'n heneiddio. Mae'r ARAC yn parhau i gymryd diddordeb brwd yn y rhaglen 'Trawsnewid Systemau Corfforaethol' sydd â'r bwriad o liniaru'r risgiau hyn, ac mae'n dal yn amlwg y bydd angen buddsoddiad sylweddol dros y blynyddoedd nesaf i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Holiaduron Rheolaeth Fewnol a Datganiadau Sicrwydd Blynyddol

Un o'm prif ffynonellau sicrwydd yw'r broses Holiadur Rheolaeth Fewnol (ICQ). Ar gyfer 2025-26, adeiladodd y Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol (CGCoE) ar y dull a ddefnyddiwyd yn 2024-25 drwy fireinio'r strwythur ICQ, mabwysiadu methodoleg fwy hybrid a chanolbwyntio'r asesiad ar dystiolaeth o wybodaeth ail linell / trydedd linell a ddarperir gan Arweinwyr Swyddogaethol. Rhoddwyd mynediad i gyfarwyddwyr unwaith eto i'w ffurflenni a'u sgoriau ICQ 2024-25; roedd hyn, ynghyd â'r dystiolaeth sicrwydd ychwanegol a oedd ar gael iddynt, yn helpu i sicrhau asesiad mwy cadarn a gwybodus.

Cyn cyflwyno eu gwybodaeth, aeth y Grwpiau ati i sicrhau ei hansawdd yn drylwyr. Roedd hyn yn cynnwys gwaith craffu gan Dimau Uwch-reolwyr, adolygiad gan Fyrddau Sicrwydd y Grwpiau, a her gan Dimau Llywodraethiant y Grwpiau.

51 www.llyw.cymru/audit-and-risk-assurance-committee-meetings

Ar ôl iddynt gael eu cyflwyno, cynhyrchwyd dadansoddiad “map gwres”. Adolygwyd hyn gan arweinwyr swyddogaethol, gan gynnwys y Prif Swyddog Diogelwch a’r Prif Swyddog Digidol. Cynhaliwyd sesiwn her ffurfiol hefyd gan yr Is-bwyllgor Effeithiolrwydd Gweithredol. Rhoddwyd adborth i gyfarwyddwyr gan arweinwyr swyddogaethol, gan roi cyfle iddynt fyfyrio ar eu sgoriau a, lle bo angen, eu hadolygu.

Ar ôl cwblhau’r broses ICQ, bydd CGCoE yn ymgymryd ag ymarfer gwersi a ddysgwyd, gan weithio ar y cyd â Grwpiau i nodi meysydd o arferion da a chyfleoedd ar gyfer gwella ymhellach. Bydd y cwestiynau ICQ yn cael eu hadolygu hefyd cyn 2026-27 i sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol ac yn briodol.

Mae’r Cyfarwyddwyr Cyffredinol wedi cael mynediad at ganlyniadau ICQ 2025-26 ac wedi manteisio ar yr wybodaeth hon wrth baratoi eu Datganiadau Sicrwydd fel Cyfarwyddwyr Cyffredinol, sydd yn eu tro yn ategu fy sylwebaeth yn y Datganiad Llywodraethiant.

Yn gyffredinol, mae ffurflenni ICQ 2025-26 yn dangos bod gan Gyfarwyddwyr ‘hyder rhesymol’ yn y mwyafrif o reolaethau sydd ar waith ar draws y sefydliad. Mae’r sefyllfa hon yn gyson â’r blynyddoedd blaenorol, er bod Cynllunio Busnes, Cyflawni Prosiectau a Staffio yn parhau i gofnodi lefelau cymharol is o hyder.

Y Panel Codi Pryderon

Cyfarfu’r Panel Codi Pryderon (Chwythu’r Chwiban gynt) bedair gwaith drwy gydol y flwyddyn i ystyried pryderon a godwyd o dan bolisi’r Cod Chwythu’r Chwiban a’r Gwasanaeth Sifil. Rôl y panel yw sicrhau bod camau yn cael eu cymryd yn brydlon ond gyda gofal i gadw cyfrinachedd lle bynnag y bo modd. Mae’r Panel yn ymdrin â phryderon a godir gan staff ynghylch camweddau posibl, ac a fyddai’n debygol o ddod o dan ddeddfwriaeth chwythu’r chwiban (Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998) neu bryderon bod aelod o staff wedi torri Cod y Gwasanaeth Sifil.

Mae gan Lywodraeth Cymru broses ar wahân i staff godi pryderon am faterion megis telerau eu cyflogaeth neu ymddygiad amhriodol, ac nid yw’r pryderon hynny wedi’u cynnwys yn yr ystadegau yma.

Mae’r polisi’r Cod Chwythu’r Chwiban a’r Gwasanaeth Sifil yn esbonio beth ddylai staff ei wneud os ydynt yn amau camwedd o fewn y sefydliad a sut y bydd yn cael ei drin. Cyhoeddir gwybodaeth ar y Fewnrwyd hefyd. Mae trefniadau Codi Pryder yn Llywodraeth Cymru yn dryloyw ac yn cydfynd ag arferion da.

Ystyriwyd pedwar achos gan y Panel yn ystod y flwyddyn; roedd hyn yn cynnwys dau achos nad ystyriwyd eu bod yn dod o fewn y polisi gan eu bod yn ymwneud â dau o gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru. Caewyd un achos yn ystod y flwyddyn, gydag un yn cario ymlaen i 2027.

Pryderon a godwyd	2025-26	2024-25	2023-24	2022-23	2021-22	2020-21
Heb eu cadarnhau	1	1	4	2	4	3
Wedi'u datrys yn fewnol (materion yn ymwneud â staff)	-	1	-	-	1	1
Ddim yn fater i Lywodraeth Cymru	2	-	-	-	1	-
Cyngor wedi'i roi i'r Chwythwr Chwiban	-	-	2	-	-	1
Yn destun ymchwiliad o hyd	1	-	-	2	2	5
Wedi'u cadarnhau a chamau wedi'u cymryd	-	-	1	-	2	1
Dim digon o dystiolaeth i fynd ar eu trywydd	-	-	-	-	1	
Cyfanswm	**4**	**2**	**7**	**4**	**11**	**11**

Panel Sicrwydd Allanol a Gwrth-dwyll

Yn ogystal â'r Panel Codi Pryderon sy'n delio ag achosion mewnol, mae'r Panel Sicrwydd Allanol, a gyfarfu saith gwaith yn ystod y flwyddyn, yn darparu cyngor i Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol a swyddogion polisi ar ymateb i bryderon a godir mewn perthynas â chronfeydd Llywodraeth Cymru a ddyfernir i gyrff allanol. Mae llawer, ond nid pob un, o'r achosion hyn yn honiadau o dwyll, ac nid oes angen dod â'r holl achosion y mae'r Uned Gwrth-dwyll yn delio â hwy gerbron y Panel (felly mae gwahaniaeth yn nifer yr achosion y mae'r Panel a'r Tîm Gwrth-dwyll yn delio â hwy). Mae'r Panel yn darparu cyngor proffesiynol a chraffu annibynnol, yn ceisio sicrhau triniaeth gyson ar draws Llywodraeth Cymru, ac yn anelu at nodi gwersi a ddysgwyd ac arferion gorau y gellir eu rhannu â swyddogion polisi.

Mae'r Panel yn ystyried hefyd bryderon a godwyd lle nad yw'r sefydliad o dan sylw yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, er bod Llywodraeth Cymru yn gyfyngedig o ran sut y gall ymyrryd yn yr achosion hyn. Mae Protocol Llywodraeth Cymru yn cynghori swyddogion ar yr ymatebion priodol i honiadau a ddaeth i law am gyrff a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys pryderon am ymddygiad a materion heblaw afreoleidd-dra ariannol, yn ogystal â chefnogaeth a chyngor y Panel.

Cafodd naw o achosion newydd yn y flwyddyn eu hadrodd i'r Panel yn ychwanegol at y tri achos a gariwyd ymlaen o 2024-25. Datrysodd y Panel ddeg o achosion yn ystod y flwyddyn, yr oedd tri ohonynt wedi'u cario ymlaen o'r flwyddyn flaenorol. Dau achos wedi'u cario ymlaen i 2026-27.

Gwrth-dwyll

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi nifer yr achosion twyll a amheuir a adroddwyd i Bennaeth Atal Twyll Llywodraeth Cymru yn ystod 2025-26, o'i gymharu â 2024-25.

Achosion Gwrth-dwyll	2025-26
Cariwyd ymlaen o 2024-25	6
Achosion newydd yn codi	13
Achosion a gafodd eu datrys	16
Achosion sy'n parhau ac sy'n destun ymchwiliad	**3**
– Achos llys yn mynd rhagddo	0
– Yn destun ymchwiliad gan yr heddlu	1
– O dan waith monitro ad-dalu	0
– Yn destun adolygiad gan asiantaeth twyll annibynnol	1 (yr heddlu yn ymwybodol)
– Ymchwiliad yn parhau gan Lywodraeth Cymru	1

Achosion Gwrth-dwyll	2024-25
Cariwyd ymlaen o 2023-24	8
Achosion newydd yn codi	19
Achosion a gafodd eu datrys	21
Achosion sy'n parhau ac sy'n destun ymchwiliad	**6**
– Achos llys yn mynd rhagddo	0
– Yn destun ymchwiliad gan yr heddlu	3
– O dan waith monitro ad-dalu	0
– Yn destun adolygiad gan asiantaeth twyll annibynnol	1
– Ymchwiliad yn parhau gan Lywodraeth Cymru	2

Mae'r 16 o achosion a gafodd eu datrys yn 2025-26 wedi'u nodi yn y categorïau isod	
Twyll wedi'i brofi. Achosion sy'n bodloni'r safon droseddol ac sy'n cael eu hatgyfeirio at yr Heddlu, CPS, asiantaethau eraill ac achosion llai y gellir ymdrin â hwy drwy ddulliau amgen cyfreithlon (e.e. adfer, rhybudd, disgyblu, diswyddo ac ati) ac mae tystiolaeth o dwyll yn bodoli.	1 (Rhybuddiad gan yr Heddlu, colled wedi'i hadfer, ac ymddiswyddo)
Yr heddlu heb fynd ar drywydd achos troseddol. Adferiad ariannol neu ymchwiliad AD/disgyblu oedd y cam priodol. (Tystiolaeth o dwyll ond nid yw'n cyrraedd prawf trothwy troseddol y CPS. Mae cost ymchwiliad yn drech na'r golled, neu ffactorau/amgylchiadau lliniarol eraill.)	3
Ni chanfuwyd unrhyw dwyll. Ar ôl ymchwiliad, dim twyll yn bresennol.	12

Mae pob achos yn cael ei adolygu er mwyn dysgu gwersi a chaiff y rhain eu lledaenu i'r timau priodol a'u trafod gyda'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau a'r Panel Sicrwydd Allanol.

Mae Asesiadau Risg Twyll a Llygredd yn cael eu paratoi gan y cyfarwyddiaethau o fewn pob maes polisi, eu monitro a'u hadolygu yn ystod y flwyddyn a'u cyflwyno i Bennaeth y Tîm Gwrth-dwyll bob chwe mis.

Y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI)

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddangos ei hymrwymiad i ganfod twyll a chamgymeriadau yn y sector cyhoeddus drwy gymryd rhan unwaith eto yn y Fenter Twyll Genedlaethol a gynhelir bob dwy flynedd. Dechreuodd yr ymarfer diweddaraf dros Haf 2024 a daeth y canlyniadau i law ar ddechrau 2025. Asesodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol risg y cyfatebiadau a datblygu strategaeth brofi. Mae'r adolygiad o gyfatebiaethau'r Fenter Twyll Genedlaethol bellach wedi dod i ben ac ni nodwyd unrhyw achosion o dwyll.

Gwrthdaro Buddiannau

Mae sicrhau bod unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei reoli'n effeithiol yn agwedd allweddol ar unrhyw fframwaith llywodraethiant a system rheolaeth fewnol effeithiol. O fewn Llywodraeth Cymru mae'r rheolaethau sydd ar waith i ddelio â hyn yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau corfforaethol sy'n cwmpasu cofrestrau gwrthdaro buddiannau a ffurflen flynyddol gan yr holl staff perthnasol a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru (gan ddatgelu pob aelodaeth o fwrdd ac aelodaeth debyg o sefydliadau trydydd parti a ddelir gan swyddogion Llywodraeth Cymru).

Mae gan y Bwrdd, ARAC Llywodraeth Cymru a phob un o Fyrddau Sicrwydd y Grwpiau hefyd Gofrestrau Gwrthdaro Buddiannau. Gofynnir hefyd am wrthdaro buddiannau sy'n gysylltiedig ag eitemau agenda penodol ym mhob cyfarfod ac fe'u cofnodir yn ffurfiol. Mae'r gofynion a osodir ar aelodau'r Bwrdd, ARAC a Byrddau Sicrwydd y Grwpiau hefyd wedi'u nodi mewn llythyrau penodi ac yn y Cylch Gorchwyl.

Rwyf yn dal yn ffyddiog bod ein polisïau a'n gweithdrefnau presennol yn effeithiol, ac fe gaiff gwaith i gryfhau ein dull gweithredu ar gyfer yr holl staff ei gyhoeddi cyn bo hir, yn dilyn ymgynghori â'n hundebau llafur, gan adeiladu ar ganlyniadau archwiliadau mewnol a chanllawiau wedi'u hadnewyddu gan Wasanaeth Sifil y DU. Mae ein cynllun cychwynnol i ddatblygu a lansio system bwrpasol, wedi'i digideiddio yn llawn ar gyfer monitro a chofnodi datganiadau yn anymarferol yng ngoleuni newidiadau i drefniadau cyllido a chostau trwyddedu rhagamcanol. Er hynny, rydym yn parhau i archwilio dewisiadau eraill cost is i alluogi gwell cofnodi ac adrodd, ochr yn ochr â lansio ein polisi ar ei newydd wedd. Bydd hyn yn sicrhau bod mwy o oruchwylio, adrodd a chydymffurfiaeth ac mae opsiynau peilot eisoes yn cael eu hystyried.

Modelau dadansoddol allweddol o ran busnes

Cynhaliodd Penaethiaid y Proffesiynau Dadansoddol yn Llywodraeth Cymru ymarfer sicrwydd blynyddol i asesu'r risgiau sefydliadol sy'n gysylltiedig â modelau dadansoddol sy'n allweddol o ran busnes. Yn ogystal, cynhaliwyd adolygiadau gan gymheiriaid ar nifer bach o fodelau i ategu'r ymarfer blynyddol.

Mae amlygiad Llywodraeth Cymru i risg modelu dadansoddol yn parhau i gynyddu'n raddol. Eleni adolygwyd 30 o fodelau sy'n allweddol o ran busnes, gan gynyddu o 28 yn y flwyddyn flaenorol ac yn parhau i godi yn gyson ers i'r broses sicrwydd gael ei sefydlu yn 2017-18. Er bod nifer cyffredinol y modelau wedi cynyddu'n gymedrol, mae hyn yn adlewyrchu dibyniaeth gynyddol raddol ar fodelau dadansoddol allweddol o ran busnes ar draws y sefydliad, gan gynnwys mewn meysydd polisi proffil uchel a sensitif.

Yn ystod yr ymarfer sicrwydd blynyddol, mae pob model yn cael ei sgorio ar ei risg a'i effaith. Eleni, diwygiwyd sgoriau pum model, a chafwyd pedwar gostyngiad ac un cynnydd. Hefyd, drwy broses newydd, cafwyd asesiadau gan y perchnogion modelau eu hunain i wella cysondeb y sgorio. Yn ogystal, cyflwynwyd cwestiwn

newydd ar werthuso modelau, a ganfu fod bron pob model yn destun rhyw fath o werthuso, gan gynnwys adolygiad gan gymheiriaid, adolygiad mewnol neu allanol, neu brofi sensitifrwydd. Yn gyffredinol, mae amlygiad i risg yn parhau i gael ei sbarduno gan:

- ansicrwydd neu gymhlethdod cynhenid yn y data a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir mewn modelu
- dibyniaeth ar arbenigedd allanol ar gyfer modelau arbenigol, ochr yn ochr â'r angen am oruchwyliaeth fewnol effeithiol
- risgiau gwydnwch lle mae modelau'n dibynnu ar nifer bach o ddadansoddwyr neu sgiliau arbenigol.

Mae capasiti dadansoddol yn dal yn her sylweddol, gyda rhai modelau yn parhau i ddibynnu ar nifer bach o unigolion allweddol. Er bod camau lliniaru megis gwell dogfennaeth ac adolygu gan gymheiriaid yn amlwg, mae lleihau'r risg o ran unigolion allweddol yn dal yn ystyriaeth barhaus.

Mae enghreifftiau o gryfhau ymarfer eleni, gan gynnwys mwy o weithgarwch gwerthuso a threfniadau llywodraethiant ar gyfer modelau gwerth uchel. Mae hyfforddiant ar gyfer uwch-berchnogion sy'n gyfrifol am fodelau wedi'i adnewyddu i gefnogi cysondeb, rhannu arferion da a mynd i'r afael â heriau cyffredin.

Mae'r ymarfer sicrwydd blynyddol yn darparu rheolaethau rhesymol i ddeall amlygiad i risg modelu dadansoddol, ac mae Penaethiaid y Proffesiwn dadansoddi wedi gwneud argymhellion i liniaru'r risg ymhellach. Mae gwelliannau eleni, yn enwedig ynghylch gwerthuso a sgorio risg, wedi cryfhau'r sylfaen dystiolaeth. Er hynny, mae'r cyfrifoldeb dros weithredu camau lliniaru yn parhau yn nwylo perchnogion modelau, ac mae argymhellion adolygiad gan gymheiriaid bellach yn cael eu tracio yn ganolog i gefnogi dilyniant ac atebolrwydd.

Er mwyn gwella tryloywder, mae cofrestr Llywodraeth Cymru o fodelau allweddol o ran busnes yn parhau i gael ei chyhoeddi a'i diweddaru'n flynyddol. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i gryfhau'r trefniadau sicrwydd ar gyfer modelau a ddefnyddir gan gyrff hyd braich, gan gynnwys cynlluniau i'w cynnwys yn rhan o fodel hunanasesu'r cyrff hyd braich.

Maes pellach i'w ddatblygu yw monitro materion trawsbynciol a materion sy'n dod i'r amlwg yn barhaus, gan gynnwys rhyng-ddibyniaeth modelau, modelau cymhleth sy'n seiliedig ar daenlenni, a llywodraethiant AI ac awtomeiddio.

Materion Rheolaeth Fewnol



Mae'r sicrwydd cadarnhaol yr wyf wedi'i gael yn rhoi hyder imi fod gan Lywodraeth Cymru, yn gyffredinol, fframweithiau cadarn a threfnus o lywodraethiant a rheolaeth fewnol. Er hynny, datgelwyd rhai materion nodedig yn ystod y flwyddyn ac mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain ac i wneud gwelliannau, fel y nodir isod.

Colledion, Dileadau a Thaliadau Arbennig

Cynlluniau Inswleiddio Etifeddol – £6.3m

Gwnaed tri thaliad ex-gratia (£3,316,575, £920,612 a £2,076,000) yn ymwneud â chynlluniau inswleiddio etifeddol (Arbed a CESP). Gwnaed y taliadau ar gyfer tynnu ac ailosod deunydd inswleiddio diffygiol a roddwyd mewn waliau allanol. Yn niffyg unrhyw fecanwaith amgen i gefnogi aelwydydd yr effeithiwyd arnynt, cytunwyd ar gyllid i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan arwain at y taliadau ex-gratia.

Arwyddion 20mya rhan-amser electronig – £5,234,476

Yn ystod 2025-26, gwnaed dilead o £5,234,476 mewn perthynas â thynnu a gwaredu arwyddion 20mya rhan-amser electronig. Roedd yr arwyddion hyn wedi'u gosod sawl blwyddyn ynghynt i gefnogi'r polisi o weithredu terfynau cyflymder rhan-amser 20mya y tu allan i ysgolion ledled Cymru. Ar ôl i'r cynllun terfyn cyflymder 20mya parhaol gael ei gyflwyno, nid oedd angen yr arwyddion rhan-amser electronig mwyach ac felly cawsant eu tynnu a'u dileu.

Setlo Hawliad Llifogydd – £2,150,000

Yn 2016, bu llifogydd mewn mangre ger safle a oedd gynt yn eiddo i Lywodraeth Cymru. Y cyngor cyfreithiol a gafwyd oedd setlo'r hawliad ar sail gwerth am arian.

Anaf personol – £301,826

Ym mis Mawrth 2021 dioddefodd unigolyn anaf personol difrifol pan wrthdrawodd ei e-feic ag arwydd ar y llwybr beicio ger yr A4108. Ar sail cyngor cyfreithiol, cytunwyd ar setliad o £301,826.

Setlo Hawliad Difrod Eiddo – £301,235

Ar 22 Tachwedd 2019, fe wnaeth HGV a oedd yn cario darn o gyfarpar trwm daro a difrodi Pont Primrose Hill ar yr A55, gan achosi difrod sylweddol. Derbyniodd Llywodraeth Cymru gynnig setliad "heb ragfarn" hawlydd o £500,000, a barnwyd bod hyn yn briodol ar sail cyngor cyfreithiol ynghylch costau a llog. Cafodd y balans a oedd yn ddyledus ar gyfer yr hawliad ei ddileu wedyn.

Dileu stociau ffliw pandemig, meddyginiaeth Covid a phrofion llif unffordd

Yn flynyddol, y prif eitemau a gofnodir yng Nghofrestr Golledion y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar yw dileu stociau wrth gefn o gyffuriau ffliw pandemig sydd wedi dyddio a nwyddau traul cysylltiedig. Cynhelir cyfrifiad o'r stoc ar 31 Mawrth i nodi'r stoc sydd i'w dileu. Ar gyfer 2025-26 y gwerthoedd oedd:

- **Gwrthfiotigau** – £426,711 (2024-25 £177,860)
- **Cyffuriau gwrthfeirol** – £3,683,947 (2024-25 £1,029,507)
- **Deunyddiau traul** – £222,336 (2024-25 £113,128)

Hefyd yn 2025-26, cafodd yr eitemau canlynol eu dileu gan eu bod wedi mynd heibio i'w dyddiadau dod i ben:

- **Meddyginiaethau Covid** – £4,084 (2024-25 £2,578)
- **Pecynnau prawf llif unffordd** – £707,790 (2024-25 £1,656)

Mae stociau o gyffuriau gwrthfeirol, gwrthfiotigau a defnyddiau traul yn cael eu dal gan Lywodraeth Cymru yn unol â chynllunio ledled y DU ym maes iechyd y cyhoedd. Mae lefelau stoc y mae ei hangen, y mathau o gyffuriau ac ailbrosesu cyffuriau yn cael eu rheoli ar lefel y DU a gallant fod yn anwadal o'r herwydd. Mae dileadau'n digwydd o ganlyniad i addasu cyflenwadau gwladol i fodloni angen cynlluniedig. Mae'n risg gydnabyddedig, wrth wneud paratoadau priodol ar gyfer ffliw pandemig a brigiadau eraill, fod rhai stociau'n debygol o gael eu dileu.

Materion eraill yn ystod y flwyddyn

Trefniadau TAW / Cynllunio a Rheoli Trethi

Fel rhan o raglen dreigl o adolygiadau cydymffurfio, mae gan CThEF y tri adolygiad cydymffurfio parhaus canlynol:

- Adolygiad IR35;
- Adolygiad o Gydymffurfiaeth Cyflogwyr; ac
- Archwiliad Treth ar Werth (TAW).

Oherwydd materion adnoddau CThEF, dim ond yr Archwiliad TAW sydd wedi symud ymlaen yn ystod y cyfnod hwn. Ni chafwyd unrhyw adroddiadau gan CThEF yn ystod y cyfnod sy'n nodi diffyg cydymffurfio.

Cymorth i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd

Ar ddiwedd 2023, cytunodd Gweinidogion Cymru i fynd ar drywydd polisi o gymorth ariannol hirdymor, graddadwy i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig i helpu i wireddu ei botensial o ran twf economaidd. Gofynnwyd i swyddogion ddatblygu manylion pecyn cymhorthdal hirdymor, gan arwain at gynnig a fyddai'n golygu darparu cymorth gwerth hyd at £205.2 miliwn dros gyfnod o ddeng mlynedd. Atgyfeiriwyd y cymhorthdal at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i'w ystyried.

Yn dilyn trafodaethau'r Cabinet a'r broses Cyngor Gweinidogol ffurfiol, cymeradwyodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi y trefniadau cymhorthdal ym mis Mawrth 2025, a gwnaed y taliad cyntaf i'r Maes Awyr wedyn.

Ym mis Mehefin 2025, dechreuodd Maes Awyr Bryste achos gerbron y Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth (CAT) yn herio'r penderfyniad ynghylch y cymhorthdal. Amddiffynnodd Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru yr achos, gyda chefnogaeth swyddogion polisi a chwnsler allanol. Yn dilyn gwrandawiad deuddydd yng Nghaerdydd ar 9-10 Chwefror 2026, gwrthododd CAT yr her ar 7 Ebrill 2026. Roedd y cynnig cymhorthdal hefyd wedi bod yn destun Asesiad Swyddog Cyfrifyddu.

Trwy orchymyn dyddiedig 14 Hydref 2026, rhoddodd y Llys Apêl ganiatâd i Faes Awyr Bryste apelio yn erbyn dyfarniad CAT. Bydd yr apêl yn cael ei chlywed gan y Llys Apêl rhwng 23 a 25 Chwefror 2027. Hyd nes y ceir ei benderfyniad, mae unrhyw daliadau pellach yn parhau i fod yn ddarostyngedig i delerau'r Cytundeb Grant ac unrhyw orchymyn llys cymwys.

Sefydliad Addysg Uwch

Yn ystod 2025-26, nodwyd mater yn ymwneud ag amheuaeth o dwyll cyllid myfyrwyr mewn perthynas â cheisiadau a oedd yn gysylltiedig â threfniant cwrs breiniol. Cafodd y mater ei uwchgyfeirio ac mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn ymchwilio iddo, ochr yn ochr ag adolygiad rheoleiddiol gan Medr o systemau a rheolaethau'r darparwr. Canfuwyd bod nifer o gyfrifon myfyrwyr yn anghymwys, ac mae camau adfer yn cael eu dilyn lle bo'n briodol. Mae'r mater wedi'i adrodd drwy drefniadau llywodraethiant sefydledig ac yn parhau i gael ei adolygu. Bydd canfyddiadau o'r ymchwiliadau yn llywio unrhyw gamau rheoleiddio, adfer neu reoli pellach y bydd eu hangen.

Cyfraniadau

Y Pwyllgor Argyfyngau Brys

Rhoddodd Llywodraeth Cymru rodd o £100,000 i'r Pwyllgor Argyfyngau Brys (DEC) er mwyn cyfrannu at yr Apêl ar gyfer y Ddaeargryn yn Myanmar. Gwnaeth yr arian a godwyd ar gyfer yr apêl hon helpu DEC i ddarparu cymorth dyngarol costeffeithiol, priodol yn ddi-oed drwy glymblaid o'r prif asiantaethau datblygu rhyngwladol, gan ddosbarthu cymorth yn gyflym i bobl yr oedd arnynt ei angen.

Rhoddwyd rhodd arall o £250,000 i DEC at ddiben cyfrannu at Apêl Ddyngarol y Dwyrain Canol. Defnyddiwyd yr arian a ddarparwyd i ddarparu cymorth dyngarol drwy bartneriaid lleol gan gynnwys bwyd, lloches a chymorth meddygol i'r rhai a oedd wedi'u hanafu neu a oedd yn sâl.

Llywodraethiant Gwybodaeth

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau ar waith i gydymffurfio â'r set graidd o fesurau gorfodol gofynnol i ddiogelu gwybodaeth yn Adrannau'r Llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys asesu risgiau a sicrhau bod strategaethau lliniaru effeithiol ar waith.

Pan fo trydydd partïon yn prosesu gwybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol amdani yn gyfreithiol, mae cyngor a chyfarwyddyd yn cael eu rhoi iddynt ynghylch sut y mae'n rhaid ymdrin â'r wybodaeth honno. Mae sicrwydd seiberddiogelwch cyflenwyr yn cael ei asesu cyn dyfarnu'r contract, pan fo data personol yn cael ei brosesu, ac mae gofynion sicrwydd gwybodaeth yn cael eu cynnwys fel safon o fewn telerau'r contract. Yn ogystal, rydym yn ceisio sicrwydd bod sefydliadau sy'n trin gwybodaeth sensitif yn destun Gwiriadau Iechyd TG annibynnol ac yn bodloni'r safon gydnabyddedig o ran arferion gorau e.e. Cyber Essentials neu ISO27001.

Mae gan Lywodraeth Cymru bolisïau a gweithdrefnau ar waith i reoli risg seiberddiogelwch yn rhagweithiol, gan weithio gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i ddiogelu ein hasedau digidol a'n seilwaith TGCh. Mae risgiau diogelwch, gan gynnwys risgiau seiber yn cael eu trafod yn y Bwrdd Diogelwch ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (enwebai diogelwch ar lefel Bwrdd) a'r Prif Swyddog Diogelwch. Rwy'n cael fy hysbysu am ddigwyddiadau arwyddocaol wrth iddynt ddigwydd ac yn cael adroddiad diogelwch blynyddol ar gyfer y sefydliad. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cael sesiynau briffio diogelwch.

Tabl 1: Digwyddiadau sy'n dod o fewn y meini prawf ar gyfer adrodd i'r ICO (adroddwyd)

Blwyddyn	Digwyddiadau a adroddwyd i'r ICO	Camau a gymerwyd gan yr ICO
2024-25	0	0
2025-26	3	0

Tabl 2: Crynodeb o ddigwyddiadau eraill yn ymwneud â data personol a ddiogelir

Yn y tabl isod nodir digwyddiadau nad yw'r Rheolydd Data yn barnu eu bod yn perthyn i'r meini prawf ar gyfer adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ond sy'n cael eu cofnodi'n fewnol.

Math	Natur y digwyddiad	2025-26	2024-25
I	Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol, o safleoedd diogel y Llywodraeth	1	2
II	Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol, o'r tu allan i safleoedd diogel y Llywodraeth	2	1
III	Gwaredu mewn modd anniogel offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol	0	1
IV	Datgeliad anawdurdodedig e.e. anfon e-bost at y person anghywir	205	141
V	Arall	0	1
Cyfanswm		**208**	**146**

Mae pob datgeliad data heb ei awdurdodi yn cael ei gofnodi ac ymchwilir iddo. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal proses adrodd fewnol gadarn sy'n cynnwys pob math o ddigwyddiad. Ar ôl pob toriad yr adroddir amdano, cytunir ar gamau adfer gyda'r rheolwyr ac mae cynnydd yn cael ei fonitro i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau. Adroddir ar bob achos o dorri data i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol perthnasol. Pan fo'n briodol, mae'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu ar draws y sefydliad ac yn cael eu cynnwys yn y Bwletin Diogelwch rheolaidd i'r holl staff.

Fel yr amlinellir yn Nhabl 1, adroddwyd am dri thoriad i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn 2025-26. Daeth yr ICO i'r casgliad na fyddai unrhyw gamau rheoleiddiol yn cael eu cymryd mewn perthynas â'r ddau doriad yr adroddwyd amdanynt fis Gorffennaf 2025. Mae penderfyniad ar y toriad yr adroddwyd amdano fis Rhagfyr 2025 yn yr arfaeth.

Fel yr amlinellwyd yn Nhabl 2 mae nifer y digwyddiadau sy'n ymwneud â data personol wedi cynyddu 42% (o 146 i 208). Mae'r cynnydd hwn yn cael ei sbarduno yn bennaf gan gynnydd mewn datgeliadau heb eu hawdurdodi. O'r 205 o ddatgeliadau anawdurdodedig a gofnodwyd:

- roedd 123 (60%) yn ymwneud â gwybodaeth a anfonwyd neu a e-bostiwyd at y derbynnydd anghywir. I roi hyn yn ei gyd-destun, anfonodd Llywodraeth Cymru 1 miliwn o negeseuon e-bost y mis ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod hwn.

Mae cynnydd yn nifer y toriadau data yr adroddwyd amdanynt rhwng 2024-25 a 2025-26. Er nad oes un esboniad wedi'i gadarnhau am y cynnydd hwn, gall adlewyrchu'n rhannol well ymwybyddiaeth ymhlith staff o beth yw toriad, ynghyd â hyfforddiant gorfodol ar ddiogelwch a diogelu data. Wrth i ddealltwriaeth dyfu, efallai fod staff yn fwy tebygol o roi gwybod am ddigwyddiadau posibl. Nid yw pob adroddiad yn bodloni'r trothwy o dor diogelwch data personol; er hynny mae hyn yn adlewyrchu newid cadarnhaol tuag at ddiwylliant adrodd rhagweithiol. Mae hybu adrodd prydlon yn sicrhau bod risgiau posibl yn cael eu nodi'n gynnar ac yn cefnogi sefyllfa gyffredinol Llywodraeth Cymru o ran diogelwch.

Mae'n ofynnol i bob aelod o staff sydd â chyfrif TG Llywodraeth Cymru gwblhau hyfforddiant Diogelwch a Diogelu Data gorfodol.

Adroddiad y Swyddog Diogelu Data

Mae trefniadau prosesu data personol Llywodraeth Cymru yn ddiogel ar y cyfan, ond mae angen gwneud mwy i wella systemau a phrosesau sylfaenol allweddol i gefnogi dull cydymffurfio mwy rhagweithiol a arweinir gan ddata.

- Mae metrigau diogelu data yn ystod 2025-26 yn parhau i awgrymu bod mesurau technegol a sefydliadol Llywodraeth Cymru yn effeithiol, yn gyffredinol, wrth ddiogelu data personol a chefnogi atebolrwydd. Yn benodol, mae diogelwch o ran asedau data personol yn gadarn. Er na ellir dileu digwyddiadau diogelu data yn llwyr, maent yn gyffredinol yn risg fach/isel, mae amddiffyniad da rhagddynt ac mae'r ymateb iddynt yn effeithiol, gyda chamau gweithredu clir yn cael eu cymryd a gwersi yn cael eu dysgu.
- Serch hynny, mae achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data yn parhau i gael eu nodi. Mae absenoldeb offer rheoli data modern a monitro cydymffurfiaeth yn ei gwneud yn anodd nodi a mynd i'r afael â risg cydymffurfio. Yn ogystal, mae rheoli asedau data drwy eu rhoi mewn categorïau gwahanol, ynghyd â bodolaeth barhaus llawer o systemau data ac asedau data etifeddol, yn dal yn rhwystr o ran rheoli risg data yn effeithiol. Mae'n rhwystr hefyd, felly, o ran cydymffurfio â rheolau diogelu data yn gyson, yn effeithiol ac yn effeithlon.

Atebolrwydd Lleol



Mae cyfran sylweddol o wariant Llywodraeth Cymru'n cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol Cymru a chyrff GIG Cymru i gyflawni amcanion polisi ac ystod o wasanaethau rheng flaen, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar yn Llywodraeth Cymru hefyd yn Brif Weithredwr GIG Cymru.

Awdurdodau Leol

Darperir cyllid grant i awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Yr elfen unigol fwyaf o gyllid grant yw'r setliad heb ei neilltuo blynyddol ar gyfer Awdurdodau Unedol sy'n cynnwys Grant Cynnal Refeniw a chyfran o incwm ardrethi annomestig. Pennir cwantwm y cyllid fel rhan o gylch cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru.

Fe'i dosberthir gan ddefnyddio fformiwla sy'n adlewyrchu'r ffactorau sydd wrth wraidd angen yr awdurdodau i wario i ddarparu ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys addysg a gofal cymdeithasol. Mae'r fformiwla'n cael ei chynnal, ei diweddaru a'i gwella drwy raglen waith barhaus gyda llywodraeth leol. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn cael ei ddosbarthu ar sail data sy'n cael ei ddiweddaru bob blwyddyn. Mae'r fformiwla wedi'i diwygio

i ystyried data Cyfrifiad 2021 pan fo'n briodol. Dechreuodd gwaith hefyd i adolygu a diweddaru'r dangosyddion a'r pwysoliadau yn y fformiwla.

Rhoddir cyllid hefyd i awdurdodau drwy grantiau na ellir eu defnyddio ond at y dibenion penodol y maent yn cael eu darparu ar eu cyfer. Yn ogystal, mae'r Awdurdodau Unedol yn cael rhai grantiau penodol oddi wrth Adrannau Llywodraeth y DU ar gyfer swyddogaethau sydd heb eu datganoli, o'r dreth gyngor a bennir yn lleol, ac o ffioedd, taliadau a ffynonellau incwm eraill. Mae'r Awdurdodau Unedol hefyd yn cael grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwario cyfalaf a chymorth ar gyfer benthyca. Cydategir hyn gan allu'r awdurdodau eu hunain i fenthyca, grantiau gan gyrff eraill a derbyniadau cyfalaf.

Mae trefniadau tebyg yn gymwys i'r ddarpariaeth refeniw ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a ariennir drwy gyfuniad o'r Grant Cynnal Refeniw ac incwm ardrethi domestig gan Lywodraeth Cymru, Grant yr Heddlu oddi wrth y Swyddfa Gartref, grantiau penodol, a'r dreth gyngor. Mae awdurdodau eraill yn cael eu hariannu drwy drefniadau megis grantiau penodol, ardollau a phraeseptau.

Mae pob awdurdod yn atebol am sut y mae'n defnyddio'r cyllid sydd ar gael wrth gyflawni'r swyddogaethau y mae'n gyfrifol amdanynt. Rhaid i'r Awdurdodau Unedol, cyrff yr heddlu ac Awdurdodau Tân ac Achub gael swyddog penodedig o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sydd â dyletswyddau statudol i sicrhau bod materion ariannol yn cael eu gweinyddu'n briodol. Mae awdurdodau yn cael eu dwyn i gyfrif drwy eu swyddogaethau craffu a thrwy atebolrwydd uniongyrchol i'w hetholwyr lleol. Mae rheoleiddwyr statudol ar gyfer rhai swyddogaethau. Mae eu materion ariannol yn cael eu llywodraethu drwy fframwaith cyfrifyddu ac archwilio statudol ac mae eu cyfrifon yn destun archwiliadau allanol blynyddol llawn.

Mae'n ofynnol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 adolygu eu perfformiad gan gynnwys ymgymryd â hunanasesiadau blynyddol ac adolygiadau gan gymheiriaid bob pum mlynedd, ymgynghori arnynt, eu cyhoeddi a gweithredu arnynt.

O ran cyllid a ddarperir at ddibenion penodol, yr adrannau polisi perthnasol sy'n gyfrifol am delerau ac amodau grantiau unigol. Mae'n ofynnol i'r telerau ac amodau hyn roi sylw dyladwy i Safonau Gofynnol y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ar gyfer Cyllid Grant. Drwy gadw at y safonau hyn dylid sicrhau cydymffurfiaeth â threfniadau llywodraethiant ac ariannol, cyfreithiau perthnasol, polisïau ac arferion da Llywodraeth Cymru. Mae'r Grŵp yn darparu cymharol ychydig o'r rhain ond mae nifer y grantiau refeniw a swm y cyllid drwy grantiau penodol oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ei gyfanrwydd yn sylweddol. Mae gwaith y dechreuwyd arno yn 2022-23 i adolygu'r beichiau gweinyddol ar yr awdurdodau lleol o dan Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru wedi parhau yn 2025-26 gan gynnwys ffocws ar y gorbenion gweinyddol a achosir gan gyllid grant. O ran y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â swyddogaethau heb eu datganoli, cytunir ar y trefniadau ar gyfer atebolrwydd rhwng yr Awdurdodau Lleol a'r Adran berthnasol yn Llywodraeth y DU.

Iechyd

Mae Byrddau Iechyd Lleol (BILl) yn cael eu hariannu i gomisiynu a darparu Gwasanaethau Ysbytai ac Iechyd Cymunedol ac i dalu cost cyffuriau a ragnodir gan Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer eu poblogaethau preswyl. Darperir cyllid hefyd i roi taliadau i gontractwyr annibynnol gan gynnwys Ymarferwyr Cyffredinol, Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol a Fferyllwyr. Mae cyllid ychwanegol wedi'i dargedu yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Darperir cyllid cyfalaf i gefnogi Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan ac mae cyllid cyfalaf disgresiynol hefyd yn cael ei ddarparu i gefnogi blaenoriaethau a nodir yn lleol.

Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd

Mae'r tabl canlynol yn nodi statws uwchgyfeirio ac ymyrraeth 12 corff GIG Cymru ar 31 Mawrth 2026 o'i gymharu â 31 Mawrth 2025[52].

Sefydliad Gwasanaeth Iechyd	Statws Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar 31 Mawrth 2026	Statws Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar 31 Mawrth 2025
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Lefel 4 ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio Lefel 4 ar gyfer perfformiad a chanlyniadau mewn perthynas â gofal brys ac argyfwng	Lefel 4 ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio Lefel 3 ar gyfer perfformiad a chanlyniadau mewn perthynas â pherfformiad gofal brys ac argyfwng yn Ysbyty Athrofaol y Faenor
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Lefel 5 ar gyfer y sefydliad cyfan	Lefel 5 ar gyfer y sefydliad cyfan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Lefel 4 ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio	Lefel 4 ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	Lefel 4 ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â gofal brys ac argyfwng Lefel 3 ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â gofal a gynlluniwyd	Lefel 3 ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio Lefel 3 ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â gofal a gynlluniwyd a chanser Lefel 4 ar gyfer perfformiad a chanlyniadau mewn perthynas â gofal brys ac argyfwng
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Lefel 4 ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio, perfformiad a chanlyniadau mewn perthynas â gofal brys ac argyfwng, ansawdd gofal mewn perthynas â heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (HCAIs) a gwasanaethau bregus Lefel 3 ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â gofal a gynlluniwyd	Lefel 4 ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio, perfformiad a chanlyniadau, gwasanaethau bregus (gan gynnwys canser ac offthalmoleg) gofal brys ac argyfwng, a HCAIs Lefel 3 ar gyfer arweinyddiaeth a llywodraethiant, a pherfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â gofal a gynlluniwyd ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc (CAMHS)
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Lefel 4 ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio	Lefel 4 ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	Lefel 4 ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio, perfformiad a chanlyniadau mewn perthynas â gofal brys ac argyfwng, canser ac ansawdd gofal mewn perthynas â HCAIs a gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol Lefel 3 ar gyfer perfformiad a chanlyniadau mewn perthynas â gofal a gynlluniwyd, CAMHS	Lefel 4 ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio Lefel 4 ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â chanser, gofal brys ac argyfwng a HCAIs Lefel 3 ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n ymwneud â gofal a gynlluniwyd, a CAMHS Lefel 3 ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol

52 Mae dolen i'r pum lefel o drefniadau llywodraethiant yma.

Sefydliad Gwasanaeth Iechyd	Statws Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar 31 Mawrth 2026	Statws Uwchgyfeirio ac Ymyrryd ar 31 Mawrth 2025
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru	Lefel 1 (trefniadau arferol)	Lefel 1 (trefniadau arferol)
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre	Lefel 1 (trefniadau arferol)	Lefel 1 (trefniadau arferol)
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	Lefel 1 (trefniadau arferol)	Lefel 1 (trefniadau arferol)
Iechyd a Gofal Digidol Cymru	Lefel 3 ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n gysylltiedig â chyflawni rhaglenni mawr	Lefel 3 (ar gyfer perfformiad a chanlyniadau sy'n gysylltiedig â darparu rhaglenni mawr)
Addysg a Gwella Iechyd Cymru	Lefel 1 (trefniadau arferol)	Lefel 1 (trefniadau arferol)

Mae rhagor o fanylion i'w gweld yng nghyfrifon unigol y sefydliad neu ar dudalennau Uwchgyfeirio'r GIG Trefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd GIG Cymru – LLYW.CYMRU.

Barn Archwilio ar ddatganiadau ariannol a rheoleidd-dra

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra ar gyfer pob un o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol sydd wedi'u hardystio ar hyn o bryd. Cafodd chwe barn eu hamodi ar y sail nad oedd y bwrdd iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol statudol a nodir yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, adran 175 (1), i sicrhau nad yw ei wariant yn fwy na chyfanswm y cyllid a ddyrannwyd iddo dros gyfnod o dair blwyddyn ariannol, a chafodd un farn ei hamodi oherwydd materion cydnabyddiaeth ariannol fel yr amlinellir isod.

Cafodd Cyfrifon Cryno GIG Cymru hefyd farn amodol ar reoleidd-dra. Nid oedd yr amodiad hwn yn adlewyrchiad o broses baratoi a chrynhoi'r Cyfrif Cryno, na'r farn 'wir a theg', ond yn ganlyniad i'r ffaith bod pob un o'r chwe Bwrdd Iechyd Lleol wedi cynhyrchu diffygion ariannol dros gyfnod asesu'r ddyletswydd statudol 2023-24 i 2025-26. Roedd Barn Reoleidd-dra Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi'i hamodi oherwydd mater sy'n ymwneud â'r bandiau cyflog â chydnabyddiaeth ariannol ar gyfer dau gyfarwyddwr gweithredol, a oedd yn fwy na'r bandiau cyflog perthnasol a nodwyd gan Weinidogion Cymru ac sy'n wariant afreolaidd.

Cyflawnodd pob un o'r tair Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru eu dyletswydd ariannol o dan Atodlen 4 Paragraff 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i sicrhau nad yw eu refeniw yn llai na digonol, gan gymryd un flwyddyn ariannol gyda'r llall, a fesurir dros gyfnod treigl o dair blynedd.

Cyflawnodd y ddau Awdurdod Iechyd Arbennig eu dyletswydd flynyddol ac nid aethant y tu hwnt i'r terfynau adnoddau refeniw a ddyrannwyd iddynt.

Cafodd pob un o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol, pob un o dair Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru a'r ddau Awdurdod Iechyd Arbennig farn archwilio wir a theg diamod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â'u datganiadau ariannol ar gyfer 2025-26.

Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2025 i 2028

Ym mis Tachwedd 2021, ailsefydlodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Cynllunio Cynlluniau Tymor Canolig Integredig GIG Cymru. Mae'r Fframwaith yn rhoi'r eglurder y mae ei angen i osod y sylfeini ar gyfer manteisio ar yr arloesi a'r hyn a ddysgwyd yn ystod y pandemig, ac i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gynlluniau'r tri chorff canlynol a oedd wedyn yn cyflawni eu hail ddyletswydd ariannol:

- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Er nad yw'n ofyniad statudol, cyflwynodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru Gynlluniau Tymor Canolig Integredig boddhaol.

Methodd pob BILl, ac eithrio Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, â chyflawni ei ddyletswydd statudol i gyflwyno cynllun tair blynedd integredig y gellir ei gymeradwyo ar gyfer y cyfnod 2025 i 2028 yn y flwyddyn ariannol 2025-26. Felly, mae cynlluniau blynyddol, yn hytrach na chynlluniau tair blynedd, yn destun monitro parhaus drwy ystod o fecanweithiau, gan gynnwys trafodaethau sy'n cynnwys Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Prif Weithredwyr, cyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig a'r Bwrdd Perfformiad cenedlaethol.

Proffil Risg



Mae proffil risg Llywodraeth Cymru yn eang ac amrywiol, gan adlewyrchu'r ystod eang o weithgareddau y mae'n ymgymryd â hwy. Mae risgiau gweithredol yn dod i'r amlwg wrth gyflawni amcanion polisi allweddol ac maent yn cael eu rheoli a'u lliniaru o ddydd i ddydd ar draws y sefydliad. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn agored i nifer o risgiau digwyddiadol – y rhai sydd ag effaith uchel bosibl ond tebygolrwydd isel – sy'n deillio o'i dyletswyddau rheoleiddio. Mae enghreifftiau'n cynnwys ei chyfrifoldebau wrth ymateb i frigiadau o achosion o glefydau ymhlith pobl neu anifeiliaid yng Nghymru, yn ogystal â'i rhwymedigaethau o dan warantau a ddarperir o bryd i'w gilydd i gefnogi busnesau Cymru.

Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn nodi'r risgiau "ar draws y sefydliad" a allai fygwth busnes craidd Llywodraeth Cymru a'r ffordd y mae'n gweithredu. Dogfen fewnol ydyw. Isod mae trosolwg o newidiadau i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ystod y flwyddyn.

Sgorio Risg:

- **Sgôr: 20 – 25**
  Lefel: Uchel Iawn
  Natur y Risg: Risgiau allweddol
- **Sgôr: 13 – 19**
  Lefel: Uchel
  Natur y Risg: Risgiau perthnasol
- **Sgôr: 5 – 12**
  Lefel: Canolig
  Natur y Risg: Risgiau y gellir eu rheoli
- **Sgôr: 1 – 4**
  Lefel: Isel
  Natur y Risg: Risgiau dibwys

Newid yn y flwyddyn (risg weddilliol): **I fyny** ↑ ⟷ **Aros yr un peth** ↓ **I lawr**

Risg Gorfforaethol	Sgôr Risg Weddilliol Ebrill 2025	Newid yn y flwyddyn	Sgôr Risg Weddilliol Ebrill 2026
Risg Ariannol[53] Risg Ariannol yn y flwyddyn	16	⟷	16
Risg Ariannol y Blynyddoedd i Ddod		Amh	16
Capasiti'r Gweithlu[54]	16	⟷	16
Gallu a Hyblygrwydd y Gweithlu	16	⟷	16
Llesiant staff	9	⟷	9
Gwydnwch Systemau TGCh	15	⟷	15
Y Rhaglen Ddeddfwriaethol	20	↓	15
Risg Ddigidol	16	⟷	16
Seiberddiogelwch	20	⟷	20
Digwyddiad Tarfu ar Fusnes/ Parhad Busnes	15	⟷	15
Ymateb i Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 y DU gyfan	16	Dilëwyd Gorffennaf 2025	
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	20	⟷	20

Risg Gorfforaethol	Sgôr Risg Weddilliol Ebrill 2025	Newid yn y flwyddyn	Sgôr Risg Weddilliol Ebrill 2026
Y Gymraeg	20	⟷	20
Diwedd y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol	15	↓	12
Methiant Llywodraeth y DU i lynu at egwyddorion cyfansoddiadol sylfaenol	15	↓	12
Ymateb Brys	16	⟷	16
Rheolaeth y Ffin	12	Dilëwyd Gorffennaf 2025	
Newid Hinsawdd	20	⟷	20
Costau Uwch Rhaglen Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd	12	Dilëwyd Mawrth 2026	
Iechyd a Diogelwch	9	⟷	9
Map Ffordd Cenhadaeth Genedlaethol: Safonau Uchel i Bawb (Addysg)	12	↑	16
Rheolaeth a Pherchnogaeth Cymwysiadau Busnes Etifeddol	20	⟷	20
Diwygio'r Senedd		Ychwanegwyd Gorffennaf 2025	15

53 Yn ystod 2025-26 rhannwyd y risg ariannol rhwng risg ariannol yn ystod y flwyddyn a risg ariannol y blynyddoedd sydd i ddod.
54 Unwyd risg capasiti a gallu'r gweithlu yn ystod 2025-26.

Mae'r holl risgiau corfforaethol ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol wedi cael eu hadolygu gan yr Is-bwyllgor Effeithiolrwydd Gweithredol, ExCo, y Bwrdd ac ARAC fel rhan o'n rheolaeth barhaus o risg gorfforaethol. Amlinellir isod fanylion pellach am risgiau newydd a risgiau sydd wedi'u dileu yn ystod y flwyddyn.

Dilëwyd tair risg o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ystod y flwyddyn:

- Ymateb i Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 ledled y DU – Cafodd hyn ei ddileu wrth i bwysau adnoddau yn y maes leihau'n sylweddol, gyda'r ychydig ddatganiadau a oedd yn weddill yn cael eu cwblhau dros Haf 2025.
- Rheolaeth y Ffin – yn dilyn Datganiad y Cabinet ar 24 Mehefin. Cytunwyd y dylid dileu'r risg hon.
- Costau Uwch Rhaglen Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd – Cafodd y risg hon ei hisgyfeirio ac mae bellach wedi'i chynnwys ar Gofrestr Risgiau'r Grŵp.

Ychwanegwyd risg newydd yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â Diwygio'r Senedd, gan adlewyrchu'r angen i fod yn barod ar gyfer goblygiadau'r diwygiadau, i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth nesaf Cymru yn effeithiol, ac i ymateb yn briodol i'r craffu cynyddol sy'n deillio o Senedd wedi'i hehangu.

Y Gallu i Ymdrin â Risg

Mae Llywodraeth Cymru yn cadw at y prif egwyddorion ar gyfer rheoli risg yn y llywodraeth a amlinellir yn nogfen Trysorlys EF *The Orange Book; Management of Risk – Principles and Concepts (2019, diweddarwyd 2026)*.

Prif amcan polisi rheoli risg Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod proses gyson yn bodoli ar gyfer mesur, rheoli, monitro ac adrodd ar risg ar draws y sefydliad. Ni ddylai rheoli risg yn effeithiol beri bod Llywodraeth Cymru'n ymdrechu'n ormodol i osgoi risg ac wrth fynd ar drywydd ei hamcanion, mae'n barod i gymryd risgiau sydd wedi'u hasesu, eu gwerthuso a'u rheoli'n briodol er mwyn gallu manteisio'n fwy effeithiol ar gyfleoedd wrth iddynt godi, gan dderbyn yr un pryd y gallai methiant ddigwydd.

Yn gorfforaethol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am oruchwylio gweithredu polisi a phroses ar gyfer rheoli risg ac am oruchwylio a chraffu ar liniaru'r risgiau allweddol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a allai fel arall atal neu lesteirio'r sefydliad rhag cyflawni ei hamcanion strategol. Yn bennaf, y rhain yw'r risgiau sydd mor allweddol fel na ellir eu rheoli ar lefel Grŵp, ynghyd â rhai o natur gorfforaethol y teimlid eu heffaith ar draws y sefydliad cyfan. Mae risgiau corfforaethol wedi cael eu hadolygu gan y Bwrdd ddwywaith yn y flwyddyn a chan yr Is-bwyllgor Effeithiolrwydd Gweithredol, ExCo ac ARAC Llywodraeth Cymru bob chwarter.

Cyfrifoldeb rheoli yw rheoli a lliniaru risg o ddydd i ddydd ac mae pob Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi bod yn gyfrifol am reoli risg a chyfle mewn perthynas ag amcanion allweddol eu Grŵp. Cafodd risgiau grŵp eu hadolygu'n rheolaidd gan uwch dimau rheoli a chan Fyrddau Sicrwydd y Grwpiau ac fe gawsant eu llywio gan gofrestrau risg a gynhelir gan brosiectau a rhaglenni ac asesiadau risg a chofrestrau risg ar lefel Adrannol. Mae'r diagram isod yn dangos y map llwybr ar gyfer uwchgyfeirio risg.


Arweinwyr Risg y Grwpiau
Yn gyfrifol am reoli Cofrestrau Risgiau'r Grwpiau ac am nodi risgiau i'w huwchgyfeirio i'r Is-bwyllgor Effeithiolrwydd Gweithredol. Mae uwch-reolwyr o fewn y grŵp yn bwydo i'r broses hon.
Byrddau Sicrwydd y Grwpiau
Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru
Yn cefnogi'r Bwrdd a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar brosesau strategol ar gyfer risg a'r fframwaith risgiau ac yn ceisio sicrwydd o ran rheoli risg.
Yr Is-bwyllgor Effeithiolrwydd Gweithredol
Yn gyfrifol am nodi risgiau corfforaethol o fewn ei gwmpas/cylch gwaith penodol a chraffu ar risgiau ar lefel gorfforaethol cyn adrodd i'r Pwyllgor Gweithredol (ExCo).
Bwrdd Llywodraeth Cymru
Yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau effeithiol i reoli risg ac i ddarparu cyngor a chraffu ynghylch risgiau allweddol. Maent yn rhoi eglurder ynghylch y parodrwydd i dderbyn risg ac yn sicrhau bod fframwaith priodol ar gyfer gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar risg.
Y Pwyllgor Gweithredol (ExCo)
Yn gyfrifol am wneud penderfyniadau yn ymwneud â risgiau ar lefel gorfforaethol gan gynnwys asesu a gwerthuso risgiau, eu cynnwys ar y gofrestr risgiau corfforaethol, perchnogaeth gorfforaethol a lliniaru. Yn gyfrifol hefyd am osod a chymeradwyo'r fframwaith rheoli risgiau corfforaethol.

I gloi



Dr Andrew Goodall CBE

Ysgrifennydd Parhaol
a Phrif Swyddog Cyfrifyddu

Roedd system rheolaeth fewnol y sefydliad ar waith drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 ac arhosodd yn weithredol ac yn effeithiol hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Cyfunol. Mae'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EF. Rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a roddwyd imi drwy fy adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant a gallaf gymryd sicrwydd rhesymol bod y trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu wedi cael eu cynllunio a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae rhai materion angen sylw rheoli o ran rheoli, cynllunio neu gydymffurfio, ac maent yn agored i risg cymedrol nes cael eu datrys.

26 Tachwedd 2026

Llun: © John Wellings

Colledion, Taliadau Arbennig a Rhoddion

Mae'r canlynol yn ddatganiad o golledion a thaliadau arbennig fel sy'n ofynnol o dan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, gyda datgeliadau unigol lle mae'r cyfansymiau a dynnir yn uwch na'r terfynau a bennir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru o £300,000.

Craidd Llywodraeth Cymru

Colledion

	2025-26	2024-25
Cyfanswm y colledion	195	186
Cyfanswm gwerth y colledion (£000)	12,607	32,132

Manylion y colledion dros £300,000:		
Colled Ddeongliadol	Dileu asedau cyfathrebu'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol	5,234,476
Colledion Storfa	Dileu stoc feddygol Ffliw Pandemig (Cyffuriau Gwrthfeirol)	3,683,947
Colledion Storfa	Dileu citiau Prawf Llif Unffordd y mae eu dyddiad dod i ben wedi mynd heibio	707,790
Colledion Storfa	Dileu stoc feddygol Ffliw Pandemig (Gwrthfiotigau)	426,711
Hawliadau sydd wedi'u Hepgor a'u Hildio	Difrod i bont ffordd	301,235

Taliadau Arbennig

	2025-26	2024-25
Cyfanswm nifer y taliadau arbennig	27	21
Cyfanswm gwerth taliadau arbennig (£000)	9,576	353

Manylion taliadau arbennig dros £300,000:		
Taliad ex gratia	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – gwaith cyweirio oherwydd gosod inswleiddiad waliau allanol yn ddiffygiol	3,316,575
Taliad ex gratia	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – gwaith cyweirio oherwydd gosod inswleiddiad waliau allanol yn ddiffygiol	2,076,000
Taliad ex gratia	British Gas – angen gwaith cyweirio yng Ngwynedd oherwydd gosod inswleiddiad waliau allanol yn ddiffygiol	920,612
Taliad ex gratia	Gwaith cyweirio oherwydd llifogydd mewn mangre gyfagos â safle a oedd gynt ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru	2,150,000
Digolledu	Hawliad anaf personol oherwydd digwyddiad ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol	301,826

Ceir rhagor o fanylion am y colledion unigol a'r taliadau arbennig a ddatgelwyd yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar dudalennau 117 i 118.

Colledion Grŵp a Thaliadau Arbennig

	2025-26		2024-25	
	Nifer	£000	Nifer	£000
Esgeuluster Clinigol y GIG	973	149,344	943	104,920
Niwed Personol y GIG	315	6,791	292	5,699
Setliadau Strwythuredig y GIG a reolir gan Gronfa Risg Cymru	255	25,661	234	24,136
Pob colled Grŵp arall a thaliadau arbennig	4,190	139,085	1,916	41,419
Cyfanswm	**5,733**	**320,881**	**3,385**	**176,174**

Mae'r tabl uchod yn cynnwys datgeliadau Llywodraeth Cymru o'r dudalen flaenorol. Nid oes unrhyw golledion na thaliadau arbennig ar gyfer WGC Holdco Ltd, a Chronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP. Mae manylion colledion unigol a thaliadau arbennig dros £300,000 mewn perthynas â setliadau'r GIG wedi'u cynnwys yng nghyfrifon cyrff unigol y GIG. Roedd gan Grŵp Banc Datblygu Cymru 13 o golledion unigol dros £300,000 sef cyfanswm o £8.1 miliwn ac roedd gan Trafnidiaeth Cymru un golled unigol dros £300,000 sef £2.7 miliwn. Cafodd Grŵp Banc Datblygu Cymru a Grŵp Gyrfa Cymru un taliad diswyddo arbennig yr un yn ystod y flwyddyn. Nodir rhagor o fanylion isod; mae'r datgeliadau yn destun cyfrinachedd masnachol:

Manylion y colledion dros £300,000:		£
Hawliadau sydd wedi'u Hepgor a'u Hildio – DBW	Diddymwyd y cwmni yn dilyn ansolfedd (dwylo'r gweinyddwyr ac wedyn datodiad)	1,527,124
Hawliadau sydd wedi'u Hepgor a'u Hildio – DBW	Diddymwyd y cwmni yn dilyn ansolfedd (datodiad gwirfoddol credydwyr)	406,336
Hawliadau sydd wedi'u Hepgor a'u Hildio – DBW	Diddymu'r cwmni drwy ddilead gwirfoddol	741,018
Hawliadau sydd wedi'u Hepgor a'u Hildio – DBW	Diddymwyd y cwmni yn dilyn ansolfedd (datodiad gwirfoddol credydwyr)	917,822
Hawliadau sydd wedi'u Hepgor a'u Hildio – DBW	Diddymwyd y cwmni yn dilyn ansolfedd (datodiad gwirfoddol credydwyr)	310,147
Hawliadau sydd wedi'u Hepgor a'u Hildio – DBW	Gwerthu cyfranddaliadau DBW ar lai na swm y gost gyfredol	421,486
Hawliadau sydd wedi'u Hepgor a'u Hildio – DBW	Gwerthu cyfranddaliadau DBW ar lai na swm y gost gyfredol	706,161
Hawliadau sydd wedi'u Hepgor a'u Hildio – DBW	Gwerthu cyfranddaliadau DBW ar lai na swm y gost gyfredol	695,000
Hawliadau sydd wedi'u Hepgor a'u Hildio – DBW	Cwmni mewn datodiad gwirfoddol credydwr	625,937
Hawliadau sydd wedi'u Hepgor a'u Hildio – DBW	Cwmni sydd yn nwylo gweinyddwyr	717,312
Hawliadau sydd wedi'u Hepgor a'u Hildio – DBW	Diddymwyd y cwmni yn dilyn ansolfedd (datodiad gwirfoddol credydwyr)	390,790
Hawliadau sydd wedi'u Hepgor a'u Hildio – DBW	Gwerthu cyfranddaliadau DBW ar lai na swm y gost gyfredol	304,787
Hawliadau sydd wedi'u Hepgor a'u Hildio – DBW	Cwmni sydd yn nwylo gweinyddwyr	376,917
Colled Ddeongliadol – TrC	Amhariad ar asedau sy'n cael eu hadeiladu yn dilyn newid yn y gofynion dylunio	2,700,000

Taliadau diswyddo arbennig		£
DBW – un taliad arbennig i derfynu cyflogaeth	Telir o dan amgylchiadau penodol i gyflogeion, contractwyr ac eraill y tu allan i ofynion statudol neu gontractiol arferol, wrth ymadael â chyflogaeth yn y gwasanaeth cyhoeddus, p'un a ydynt yn ymddiswyddo, yn cael eu diswyddo, neu'n cytuno i ddod â chontract i ben.	50,000 – 100,000
Gyrfa Cymru – un taliad arbennig i derfynu cyflogaeth		10,000 – 25,000

Nid oes manylion pellach am y taliadau diswyddo arbennig wedi'u cynnwys am resymau cyfrinachedd.

O dan Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, mae angen ymgynghori ymlaen llaw â Llywodraeth Cymru a chymeradwyaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru ar gyfer taliadau terfynu arbennig. Ni cheisiodd DBW y gymeradwyaeth angenrheidiol cyn gwneud y taliad. Ceisiwyd cymeradwyaeth ôl-weithredol wedyn ond ni chafodd ei rhoi. Mae DBW wedi cydnabod nad oedd y broses ofynnol wedi'i dilyn ac wedi cryfhau ei drefniadau i sicrhau y ceir cymeradwyaeth briodol ymlaen llaw ar gyfer unrhyw daliadau terfynu arbennig yn y dyfodol.

Rhoddion a Wnaed

Craidd Llywodraeth Cymru

	2025-26	2024-25
Cyfanswm nifer y rhoddion a wnaed	4	3
Cyfanswm gwerth y rhoddion (£000)	368	211

Manylion y rhoddion dros £300,000:
Dim

Ni ddatgelwyd unrhyw roddion gan gyrff cyfunol eraill y Grŵp.

Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff 2025-26

Polisi Cydnabyddiaeth Ariannol

Mae cydnabyddiaeth ariannol Uwch Weision Sifil[55] (SCS) yn cael ei phennu ar lefel Llywodraeth y DU yn dilyn cyngor oddi wrth y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion.[56] Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb dirprwyedig dros gydnabyddiaeth ariannol staff nad ydynt yn rhan o'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Mae tâl a phensiynau'r Gweinidogion yn cael eu pennu gan Benderfyniad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd[57] ar Dâl a Lwfansau'r Aelodau.[58]

Contractau Gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau gael eu gwneud ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellid gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir hynny isod, mae'r swyddogion sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn dal swyddi sy'n benagored. Byddai penderfyniad i derfynu swydd, am resymau ac eithrio camymddygiad, yn golygu bod yr unigolyn yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir gwybodaeth bellach am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn Hafan – Comisiwn y Gwasanaeth Sifil.

Datganiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar ei Pholisi Tâl

Yn unol ag egwyddorion 'Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru'[59] a gyhoeddwyd ar 7 Rhagfyr 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad ar ei pholisi tâl ar ei gwefan.[60]

Mae'r Datganiad Polisi Tâl yn ymdrin â diffiniad Llywodraeth Cymru o "swyddi uwch" a "gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf" a'r berthynas rhwng taliadau cydnabyddiaeth swyddi uwch a thaliadau cydnabyddiaeth y gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf. Mae hefyd yn trafod:

a) tystiolaeth amlwg o fforddiadwyedd a gwerth am arian,

b) nifer y swyddi uwch o fewn y corff sydd â phecyn cydnabyddiaeth ariannol o fwy na £100,000 mewn bandiau o £5,000,

55 Canllawiau Cylch Cyflog y Gwasanaeth Sifil 2025 i 2026 – GOV.UK
56 Adroddiad y Corff Adolygu Uwch-gyflogau: 2025 – GOV.UK
57 Bwrdd Taliadau
58 Penderfyniadau (Bwrdd Taliadau Cymru)
59 Tryloywder cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru – LLYW.CYMRU
60 Datganiadau Polisi Tâl Llywodraeth Cymru – LLYW.CYMRU

c) y ffordd o reoli talent fewnol,

d) y ffordd o ymdrin â thâl ar sail perfformiad,

e) y ffordd o roi cymorth i staff sydd ar gyflog llai,

f) y pwyntiau tâl uchaf ac isaf; a

g) y polisïau ar daliadau diswyddo sy'n weithredol a sut ac o dan ba amgylchiadau y gellir eu hamrywio.

Cydnabyddiaeth ariannol (gan gynnwys cyflog) a hawliau pensiwn

Mae'r adran hon yn destun archwiliad ac yn cael ei chynnwys ym marn archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion cydnabyddiaeth ariannol a buddion pensiwn y Gweinidogion a'r Uwch Reolwyr. Mae uwch-swyddogion at ddibenion yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol i gyd yn aelodau parhaol o Fwrdd a Phwyllgor Gweithredol Llywodraeth Cymru am y flwyddyn ariannol.

Cydnabyddiaeth ariannol

Nodir isod gydnabyddiaeth ariannol y Prif Weinidog a'i thîm yn y Cabinet a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn. Adlewyrchir y costau hyn yng nghyfrifon Comisiwn y Senedd ac nid Llywodraeth Cymru. Mae cyflogau'r Gweinidogion yn cynnwys eu cyflogau fel Aelodau'r Senedd o £76,380 (2024-25: £72,057). Y cyflog sy'n daladwy i'r Gweinidogion yw'r cyflog sy'n daladwy o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i pennir gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd.[58]

Ni chynhwysir buddion mewn nwyddau mewn perthynas â chyfrifoldebau Aelodau'r Senedd yn y tabl dros y dudalen.

Cyfanswm Ffigur Cydnabyddiaeth Ariannol – y Gweinidogion

Y Gweinidogion	Cyflog 2025-26 £	Cyflog 2024-25 £	Buddion mewn Nwyddau 2025-26 £	Buddion mewn Nwyddau 2024-25 £	Buddion Pensiwn 2025-26 (i'r £1000 agosaf) £[a]	Buddion Pensiwn 2024-25 (i'r £1000 agosaf) £	Cyfanswm 2025-26 (i'r £1000 agosaf) £	Cyfanswm 2024-25 (i'r £1000 agosaf) £
Eluned Morgan[b] Prif Weinidog	167,081	142,007	-	-	52,000	42,000	219,000	184,000
Huw Irranca-Davies[b] Ysgrifennydd Cabinet, Dirprwy Brif Weinidog	119,343	112,588	-	-	37,000	34,000	156,000	147,000
Julie James[b] Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog	119,343	95,226	-	-	45,000	35,000	165,000	130,000
Jane Hutt[b,c] Trefnydd, Prif Chwip a Ysgrifennydd Cabinet	119,343	112,588	-	-	-	13,000	119,000	125,000
Mark Drakeford[b] Ysgrifennydd Cabinet	119,343	73,243	-	-	45,000	28,000	164,000	101,000
Rebecca Evans Ysgrifennydd Cabinet	119,343	112,588	-	-	46,000	37,000	166,000	149,000
Jeremy Miles[b] Ysgrifennydd Cabinet	119,343	95,538	-	-	37,000	33,000	156,000	129,000
Lynne Neagle Ysgrifennydd Cabinet	119,343	112,588	-	-	53,000	41,000	173,000	154,000
Jayne Bryant[b] Ysgrifennydd Cabinet	119,343	107,640	-	-	37,000	32,000	156,000	140,000
Ken Skates Ysgrifennydd Cabinet	119,343	112,588	-	-	43,000	36,000	163,000	148,000
Dawn Bowden Gweinidog	101,443	95,701	-	-	31,000	29,000	133,000	125,000
Sarah Murphy[b] Gweinidog	101,443	83,610	-	-	31,000	25,000	133,000	109,000
Jack Sargeant[b] Gweinidog	101,443	67,402	-	-	31,000	22,000	133,000	89,000
Vikki Howells[b] Gweinidog	101,443	53,167	-	-	31,000	18,000	133,000	71,000

a Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.

b Roedd gan yr Aelodau hyn o'r Senedd swyddi Gweinidogol gwahanol yn y flwyddyn ariannol flaenorol, a/neu am gyfnodau nad oeddent yn flwyddyn ariannol lawn o bosibl.

c Nid yw'r Aelod bellach yn cronni pensiwn ers 14 Rhagfyr 2024.

Mae “Un o Weinidogion Cymru” yn berson a benodir o dan adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn y Cabinetau a oedd yn gwasanaethu yn 2025-26 cyfeirir at “Un o Weinidogion Cymru” fel “Ysgrifennydd Cabinet”. Mae “Un o Ddirprwy Weinidogion Cymru” yn berson a benodir o dan adran 50 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn y Cabinet a oedd yn gwasanaethu yn 2025-26 cyfeirir at “Un o Ddirprwy Weinidogion Cymru” fel “Gweinidog”.

Mae cyflogau ‘swydd-ddeiliaid’ fel aelodau’r Cabinet yn daladwy mewn perthynas â’r swydd a ddelir, am y cyfnod y delir y swydd.

Y cyflogau cyfwerth ag amser llawn ar gyfer 2025-26 yw:	
Prif Weinidog	£167,081
Cwnsler Cyffredinol	£119,343
Un o Weinidogion Cymru/ Ysgrifennydd Cabinet	£119,343
Dirprwy Weinidog/Gweinidog	£101,443

Manylion pensiwn – y Gweinidogion

Y Gweinidogion	Pensiwn cronedig ar 31/03/2026 £000	Pensiwn cronedig ar 31/03/2025 (Ailddatgan)[a] £000	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 65 oed ar 31/03/2026 £000	CETV ar 31/03/2026 £000	CETV ar 31/03/2025 (Ailddatgan)[b] £000	Cynnydd gwirioneddol mewn CETV ar 31/03/2026 £000
Eluned Morgan Prif Weinidog	25-30	20-25	2.5-5	359	292	31
Huw Irranca-Davies Ysgrifennydd Cabinet, Dirprwy Brif Weinidog	20-25	15-20	0-2.5	320	264	26
Julie James[b] Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog	35-40	30-35	2.5-5	641	589	35
Jane Hutt[b,c] Y Trefnydd a'r Prif Chwip, Ysgrifennydd Cabinet	85-90	80-85	-	1,071	1,077	-
Mark Drakeford Ysgrifennydd Cabinet	45-50	40-45	2.5-5	730	685	30
Rebecca Evans[b] Ysgrifennydd Cabinet	35-40	30-35	2.5-5	448	391	19
Jeremy Miles Ysgrifennydd Cabinet	20-25	20-25	0-2.5	298	251	17
Lynne Neagle[b] Ysgrifennydd Cabinet	50-55	45-50	2.5-5	844	747	35
Jayne Bryant Ysgrifennydd Cabinet	20-25	15-20	0-2.5	201	166	12
Ken Skates[a,b] Ysgrifennydd Cabinet	30-35	25-30	2.5-5	377	326	17
Dawn Bowden Gweinidog	15-20	15-20	0-2.5	345	297	26
Sarah Murphy Gweinidog	5-10	5-10	0-2.5	68	49	5
Jack Sargeant Gweinidog	15-20	10-15	0-2.5	95	77	2
Vikki Howells Gweinidog	15-20	15-20	0-2.5	192	159	11

a Mae pensiwn cronedig yr Aelod hwn ar 31 Mawrth 2025 yn cael ei ailddatgan oherwydd effaith rhwymedi McCloud.

b Mae'r symiau a ddangosir yn y CETV ar 31 Mawrth 2025 wedi'u hailddatgan i adlewyrchu effaith rhwymedi McCloud.

c Nid yw'r aelod hwn bellach yn cyfrannu at y cynllun pensiwn ac felly ni wnaeth gronni unrhyw bensiwn ychwanegol eleni.

Mae'r Senedd yn darparu cynllun â buddion diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae adran 20 (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 11 iddi, yn sicrhau dilyniant yn y Cynllun. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Mae'r Cynllun yn darparu buddion i Aelodau'r Senedd a Deiliaid Swyddi. Mae pob Aelod o'r Senedd yn aelod o'r Cynllun o'r dyddiad y mae'n dechrau yn y Senedd oni bai ei fod yn dewis yn benodol peidio â bod yn rhan ohono. Nid yw'r Gweinidogion yn derbyn cyfandaliad awtomatig. Mae ganddynt yr opsiwn i drosi rhan o'u pensiwn yn gyfandaliad yn gyfnewid am lai o bensiwn.

Cyflwynwyd Cynllun Pensiwn Enillion Cyfartalog Gyrfa o 6 Mai 2016. Roedd aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 yn destun 'gwarchodaeth drosiannol' ac roedd eu buddion yn parhau i gael eu cyfrifo ar sail eu cyflog terfynol am bum mlynedd yn ychwanegol, hyd at 5 Mai 2021.

Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y 'warchodaeth drosiannol' a gynigir i rai aelodau o gynlluniau'r barnwyr a diffoddwyr tân, wedi arwain at wahaniaethu anghyfreithlon. Ar 15 Gorffennaf 2019, gwnaeth Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig yn cadarnhau, gan fod 'gwarchodaeth drosiannol' yn cael ei gynnig i aelodau o holl brif gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus, fod angen dileu'r gwahaniaeth mewn triniaeth o'r holl gynlluniau ar gyfer aelodau â gwasanaeth perthnasol.

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd sy'n gyfrifol am reolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau. Ar ôl ystyried barn y Bwrdd Pensiynau, cytunodd y Bwrdd y dylid mabwysiadu rhwymedi i ddileu'r gwahaniaethu yn rheolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau o ganlyniad i'r darpariaethau gwarchodaeth drosiannol yr oeddent yn eu cynnwys ar hyn o bryd.

Ymgynghorodd y Bwrdd â'r Aelodau yr effeithir arnynt a Chomisiwn y Senedd ar rwymedi arfaethedig, a elwir yn Rhwymedi McCloud. Cafodd Aelodau yr effeithir arnynt gynnig dewis ar unwaith i aros yn y Cynllun CARE neu i ddychwelyd i'r adran Cyflog Terfynol ar gyfer cyfnod y Rhwymedi sef 6 Mai 2016 – 6 Mai 2021. Mae'r penderfyniad a effeithiodd ar yr Aelodau a wnaed o dan rwymedi McCloud yn cael ei adlewyrchu yn ffigurau 2025-26 gan mai hon oedd y flwyddyn y gwnaeth yr Aelodau arfer eu dewis o dan y rhwymedi.

O ddechrau'r Chweched Senedd mae pob aelod yn y Cynllun Enillion Cyfartalog Gyrfa.

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd ar 1 Ebrill 2023. Ar ôl i'r prisiad gael ei gwblhau, gostyngodd cyfradd cyfraniad cyflogwyr sy'n daladwy gan y Senedd o 19.9% i 18% o gyflogau cyfanredol yr Aelodau o 1 Ebrill 2024. Roedd hyn yn adlewyrchu gwelliannau yn lefel ariannu'r cynllun a newidiadau yn rhagolygon y farchnad. Cyfraniad yr Aelod yw 10.5% o'r cyflog. Mae'r prisiad actiwaraidd nesaf ar 1 Ebrill 2026.

Mae'r Oedran Ymddeol Arferol yn gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65, p'un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar yr Oedran Ymddeol Arferol o 65.

Cofrestr Buddiannau

Cyhoeddir Cofrestr Buddiannau Gweinidogion Cymru sy'n datgelu buddiannau perthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru.
www.llyw.cymru/buddiannau-preifat-perthnasol-y-gweinidogion

Mae'r datganiad o fuddiannau, nodi gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a rheoli unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei wneud yn unol â Chod y Gweinidogion.
www.llyw.cymru/cod-gweinidogion

Cyfanswm ffigur cydnabyddiaeth ariannol

Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o Adrannau'r Llywodraeth Ganolog gynnwys Cyfanswm Ffigur Cydnabyddiaeth Ariannol ynghyd â ffigur cymaradwy ar gyfer blynyddoedd blaenorol o fewn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol. Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog gan gynnwys lwfansau sy'n destun trethiant y DU, taliadau bonws a buddion mewn nwyddau yn ogystal â ffigur buddion pensiwn. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronedig a wnaed gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi'i gofnodi yn y cyfrifon hyn. Mae'r buddion pensiwn wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth. O ganlyniad, gall ffactorau eraill ddylanwadu ar y ffigurau megis unigolyn sy'n penderfynu gwneud cyfraniadau ychwanegol neu ffactorau prisio sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfanrwydd. Nid yw'r symiau a ddatgelir felly yn y Cyfanswm Ffigur Cydnabyddiaeth Ariannol yn adlewyrchu cyfraniadau pensiwn a wneir ar gyfer unigolyn neu bensiynau a delir i unigolyn mewn unrhyw un flwyddyn. Mae'r fethodoleg hon yn gymwys i bob un o adrannau'r llywodraeth gan gynnwys cyrff y GIG.

Cyfanswm ffigur cydnabyddiaeth ariannol – Uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru

Uwch-swyddogion	Cyflog[a] 2025-26 £000	Cyflog 2024-25 £000	Buddion pensiwn[b] 2025-26 £000	Buddion pensiwn 2024-25 £000	Cyfanswm 2025-26 £000	Cyfanswm 2024-25 £000
Andrew Goodall[c] Ysgrifennydd Parhaol	250-255	240-245	25-30	30-35	275-280	270-275
Judith Paget[d] Cyfarwyddwr Cyffredinol	220-225	225-230	80-85	80-85	305-310	305-310
Tracey Burke Cyfarwyddwr Cyffredinol	145-150	140-145	55-60	55-60	200-205	195-200
Andrew Slade Cyfarwyddwr Cyffredinol	145-150	140-145	50-55	90-95	195-200	230-235
Sioned Evans[e] Cyfarwyddwr Cyffredinol	140-145	130-135	75-80	150-155	220-225	285-290
Emma Williams[f] Cyfarwyddwr Cyffredinol	115-120	-	85-90	-	205-210	-
Jacqueline Totterdell[g] Cyfarwyddwr Cyffredinol	145-150	-	-	-	145-150	-
David Richards[h] Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg	60-65	60-65	20-25	20-25	85-90	85-90
Nia James[i] Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol	65-70	95-100	10-15	90-95	80-85	190-195
Dom Houlihan Cyfarwyddwr – Pobl a Lleoedd	115-120	110-115	45-50	80-85	160-165	195-200
Dean Medcraft[j] Cyfarwyddwr Cyllid	130-135	105-110	40-45	70-75	170-175	180-185
Rachel Garside-Jones[k] Cyfarwyddwr Grŵp Swyddfa'r Prif Weinidog a Chyflawni	110-115	5-10	75-80	5-10	190-195	15-20
Nicola Williams[l] Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol	40-45	-	15-20	-	55-60	-
Nicola Edwards[m] Uwch-arweinydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	0-5	-	0-5	-	5-10	-
Aled Edwards[n] Cyfarwyddwr Anweithredol	10-15	10-15	-	-	10-15	10-15
Carys Williams[o] Cyfarwyddwr Anweithredol	10-15	10-15	-	-	10-15	10-15
Mike Usher[p] Cyfarwyddwr Anweithredol	10-15	10-15	-	-	10-15	10-15
Mutale Merrill[q] Cyfarwyddwr Anweithredol	0-5	10-15	-	-	0-5	10-15

a Cafodd pob uwch-swyddog ar delerau ac amodau Llywodraeth Cymru ddyfarniad cyflog o 3.25% ar gyfer 2025-26.

b Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn. Yn nodweddiadol, lle ceir gwerthoedd negyddol, mae hyn oherwydd bod yr unigolyn yn aelod o'r cynllun cyflog terfynol (classic/classic plus/premium) sydd wedi trosglwyddo i alpha. Cyfrifir pensiwn cyflog terfynol person mewn cyflogaeth drwy gyfeirio at eu cyflog a hyd eu gwasanaeth. Bydd y pensiwn yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall yn rhinwedd unrhyw godiad cyflog yn ystod y flwyddyn. Lle nad oes codiad cyflog neu godiad bach yn unig, efallai na fydd y cynnydd mewn pensiwn oherwydd gwasanaeth ychwanegol yn ddigonol i wrthbwyso'r cynnydd mewn chwyddiant – hynny yw, mewn termau real, gall gwerth y pensiwn leihau, ac o'r herwydd ceir gwerthoedd negyddol.

c Mae Andrew Goodall wedi'i secondio o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac yn gyson â thelerau trefniant y secondiad hwnnw mae wedi aros ar Delerau ac Amodau'r Bwrdd Iechyd. Dechreuodd ei secondiad i Lywodraeth Cymru yn ei swydd flaenorol fel Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru ar 8 Mehefin 2014. Ar ôl cael ei benodi'n Ysgrifennydd Parhaol, yn gyson â chyngor gan Swyddfa'r Cabinet sy'n arwain ar holl ymarferion recriwtio Ysgrifennydd Parhaol, rhoddwyd cytundeb secondiad newydd ar waith gyda'r Bwrdd Iechyd a oedd i ddod i ben ar 31 Hydref 2026. Cytunwyd ar estyniad hyd at 30 Ebrill 2027. Rhoddodd Andrew Goodall y gorau i gyfrannu at drefniadau Pensiwn y GIG ar 31 Rhagfyr 2024 ac fe optiodd yn ôl i'w drefniadau pensiwn ar 1 Tachwedd 2025. Yn dilyn Cylchlythyr Cyflog Iechyd Cymru 01/2026 i Weithredwyr y GIG, cafodd Andrew Goodall ddyfarniad cyflog o 3.25% ar gyfer 2025-26.

d Penodwyd Judith Paget yn Gyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 1 Mehefin 2023 ar ôl cystadleuaeth allanol; cyn hynny roedd yn ymgymryd â'r rôl ar sail dros dro. Cafodd Judith Paget ei secondio o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a pharhaodd ar delerau ac amodau'r Bwrdd Iechyd nes iddi gael ei throsglwyddo i delerau ac amodau Llywodraeth Cymru fel cyflogai ar 1 Rhagfyr 2023. Fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Strategaeth ar 30 Medi 2025. Mae addasiadau dyfarniad cyflog ôl-weithredol posibl rhwng £5,000 a £10,000 y flwyddyn ar gyfer 2024-25 a 2025-26 yn cael eu trafod ac yn amodol ar gytundeb â Judith Paget ym mlwyddyn ariannol 2026-27 mewn perthynas â'i throsglwyddiad i ymuno â Llywodraeth Cymru yn barhaol o'r GIG.

e Penodwyd Sioned Evans yn Brif Swyddog Gweithredu, Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau o 31 Mawrth 2025 a'i chyflog cyfatebol cyfwerth ag amser llawn cymaradwy ar gyfer 2024-25 oedd £135,000 – 140,000 y flwyddyn.

f Penodwyd Emma Williams yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg ar 12 Mai 2025. Ei chyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy yw £130,000 – £135,000 y flwyddyn. Oherwydd cyfranogiad yng Nghynllun Aberthu Cyflog Ceir Gwyrdd Llywodraeth Cymru i'r holl staff, y gwneir taliadau misol ar ei gyfer, mae cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol a ddatgelir uchod yn cynnwys budd mewn nwyddau o £900 ar gyfer 2025-26.

g Mae Jacqueline Totterdell wedi'i secondio o Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbytai Prifysgol St George ac yn gyson â thelerau'r trefniant secondiad hwnnw mae wedi aros ar Delerau ac Amodau'r Bwrdd Iechyd. Dechreuodd ei secondiad i Lywodraeth Cymru ar 1 Hydref 2025 fel Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar a Phrif Weithredwr GIG Cymru. Bwriedir i gyfnod y secondiad ddod i ben ar 31 Mawrth 2027. Ei chyflog Cyfwerth ag Amser Llawn cymaradwy yw £295,000 – £300,000 y flwyddyn. Nid yw Jacqueline Totterdell yn optio i mewn i drefniadau Pensiwn y GIG. Gwneir ad-daliad treuliau misol o £750 am bob mis calendr i Jacqueline Totterdell am gostau rhentu llety a delir mewn cysylltiad â'i secondiad i Lywodraeth Cymru.

h Gwnaeth David Richards gais am ymddeoliad rhannol o 1 Medi 2021 ac fe gymeradwywyd ei gais. O'r dyddiad hwnnw mae ei gyflog a'i oriau gwaith wedi'u gostwng. Ei gyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy yw £125,000-£130,000 y flwyddyn.

i Penodwyd Nia James yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol dros dro ar ôl ymarfer recriwtio Dyrchafiad Dros Dro mewnol o 1 Ionawr 2024. Daeth ei phenodiad i Fwrdd Llywodraeth Cymru i ben ar 30 Tachwedd 2025. Ei chyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy yw £100,000-£105,000 y flwyddyn. Oherwydd cyfranogiad yng Nghynllun Aberthu Cyflog Ceir Gwyrdd Llywodraeth Cymru i'r holl staff, y gwneir taliadau misol ar ei gyfer, mae cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol a ddatgelir uchod yn cynnwys budd mewn nwyddau o £700 ar gyfer 2025-26 a £600 ar gyfer 2024-25.

j Penodwyd Dean Medcraft yn Gyfarwyddwr Cyllid ar 1 Mehefin 2024. Ei gyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy ar gyfer 2024-25 oedd £120,000 – £125,000 y flwyddyn gyda Lwfans Dyletswyddau Dros Dro am ddwy flynedd sy'n cyfateb i swm cyfwerth ag amser llawn o £5,000 – £10,000 y flwyddyn.

k Penodwyd Rachel Garside-Jones yn Gyfarwyddwr – Swyddfa'r Prif Weinidog a Chyflawni ar 7 Mawrth 2025. Ei chyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy ar gyfer 2024-25 oedd £110,000 – £115,000 y flwyddyn.

l Penodwyd Nicola Williams yn Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol ar 1 Rhagfyr 2025. Ei chyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy yw £120,000 – £125,000 y flwyddyn.

m Penodwyd Nicola Edwards yn Uwch-arweinydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar 13 Mawrth 2026. Ei chyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy yw £95,000 – £100,000 y flwyddyn.

n Estynnwyd contract Aled Edwards ym mis Medi 2024 tan 31 Gorffennaf 2026.

o Estynnwyd contract Carys Williams ym mis Mawrth 2025 tan 31 Mawrth 2027.

p Estynnwyd contract Mike Usher ym mis Ionawr 2026 tan 31 Ionawr 2028.

q Penodwyd Mutale Merrill yn Gyfarwyddwr Anweithredol i Fwrdd Llywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2024. Camodd yn ôl o'i rôl fel Cyfarwyddwr Anweithredol ar 11 Gorffennaf 2025 ac ymddiswyddodd ar 2 Rhagfyr 2025.

Cofrestr Buddiannau

Cyhoeddir Cofrestr Buddiannau Llywodraeth Cymru sy'n datgelu buddiannau perthnasol Uwch Swyddogion ar Ryngrwyd Llywodraeth Cymru. Uwch-swyddogion: cofrestr o fuddiannau – LLYW.CYMRU

Mae'r datganiad o fuddiannau, nodi gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a rheoli unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei wneud yn unol â Chod y Gwasanaeth Sifil, Polisi Datganiad Buddiannau Llywodraeth Cymru, telerau contractiol penodiadau Cyfarwyddwyr Anweithredol a Chylch Gorchwyl y Bwrdd[61]. Ceir rhagor o wybodaeth am reoli buddiannau yn y Datganiad Llywodraethiant ar dudalen 115.

61 Cylch gorchwyl Bwrdd Llywodraeth Cymru [HTML] – LLYW.CYMRU

Manylion pensiwn – Uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru

Uwch-swyddogion	Pensiwn cronedig adeg oedran pensiwn fel yr oedd ar 31/03/26 a'r cyfandaliad cysylltiedig[a] £000	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig adeg oedran pensiwn £000	CETV ar 31/03/2026 £000	CETV ar 31/03/2025 (Ailddatgan)[b] £000	Cynnydd gwirioneddol mewn CETV ar 31/03/2026 £000
Andrew Goodall[c] Ysgrifennydd Parhaol	80-85 a chyfandaliad o 205-210	0-2.5 a chyfandaliad o 0-2.5	1,888	1,756	29
Judith Paget Cyfarwyddwr Cyffredinol	10-15	5-7.5	208	116	70
Tracey Burke Cyfarwyddwr Cyffredinol	60-65	2.5-5	1,163	1,069	46
Andrew Slade Cyfarwyddwr Cyffredinol	65-70 a chyfandaliad o 155-160	2.5-5	1,461	1,345	34
Sioned Evans Cyfarwyddwr Cyffredinol	50-55 a chyfandaliad o 115-120	2.5-5 a chyfandaliad o 2.5-5	1,158	1,051	60
Emma Williams Cyfarwyddwr Cyffredinol	50-55	2.5-5	1,005	876	78
Jacqueline Totterdell[d] Cyfarwyddwr Cyffredinol	-	-	-	-	-
David Richards Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg	5-10 a chyfandaliad o 0-5	0-2.5	98	78	17
Nia James Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol	50-55	0-2.5	969	922	4
Dom Houlihan Cyfarwyddwr – Pobl a Lleoedd	30-35	2.5-5	436	391	24
Dean Medcraft Cyfarwyddwr Cyllid	60-65	2.5-5	1,293	1,192	28
Rachel Garside-Jones Cyfarwyddwr Grŵp Swyddfa'r Prif Weinidog a Chyflawni	45-50	2.5-5	946	827	66
Nicola Williams Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol	0-5	0-2.5	15	0	13
Nicola Edwards Uwch-arweinydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	30-35 a chyfandaliad o 75-80	0-2.5	648	645	1

Mae datgeliad penodol sy'n ofynnol gan Hysbysiad Pensiwn Cyflogwr 727 wedi'i hepgor yn unol ag Erthygl 21 o GDPR y DU.

a Ar gyfer aelodau sydd yng nghwmpas Rhwymedi Pensiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus, mae cyfrifo eu buddion at ddibenion cyfrifo eu Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV) a chyfanswm ffigur eu cydnabyddiaeth ariannol, ar 31 Mawrth 2025 a 31 Mawrth 2026, yn adlewyrchu'r ffaith bod aelodaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 wedi'i dirwyn yn ôl i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil). Sut mae'r cyfnod pontio ar gyfer pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus yn effeithio ar eich pensiwn – GOV.UK (www.gov.uk).

b Mae ffigurau CETV yn cael eu hailddatgan pan fo Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil wedi gwneud diweddariadau ôl-weithredol i'r data a ddarperir.

c Rhoddodd Andrew Goodall y gorau i gyfrannu i Drefniadau Pensiwn y GIG ar 31 Rhagfyr 2024. Optiodd yn ôl i'w drefniadau pensiwn ar 1 Tachwedd 2025.

d Nid yw Jacqueline Totterdell yn optio i mewn i drefniadau Pensiwn y GIG.

Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros; goramser; hawliau neilltuedig i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n destun treth y DU.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a wneir gan Lywodraeth Cymru ac eithrio'r Gweinidogion fel y nodir uchod.

Mae gan Uwch-weision Sifil o fewn Llywodraeth Cymru hawl gontractiol i gael eu hystyried am daliad amrywiol ar sail perfformiad. Mae unrhyw daliadau a wneir yn cael eu talu ar ddiwedd mis Gorffennaf bob blwyddyn, ond ni wnaed unrhyw daliadau. Rôl y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol yw sicrhau bod polisi tâl uwch Llywodraeth y DU yn cael ei gymhwyso a chymeradwyo unrhyw ddyfarniadau a goruchwylio gweithrediad fframwaith rheoli perfformiad yr Uwch Wasanaeth Sifil. Mae'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol yn cynnwys yr Ysgrifennydd Parhaol, y Cyfarwyddwyr Cyffredinol, y Cyfarwyddwyr Anweithredol a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol.

Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol y buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac y mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn eu trin fel enillion trethadwy, ac yn cael ei nodi i'r £100 agosaf. Aseswyd bod y buddion mewn nwyddau am y flwyddyn 2025-26 yn £1,600 (2024-25: £600).

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actiwari. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond y gwasanaeth mewn swydd uwch sy'n destun datgelu.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod oherwydd iddynt brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain.

Cyfrifir y CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid yw'n rhoi ystyriaeth i unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir budd-daliadau pensiwn.

Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Mae'n eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant a chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall). Mae'n defnyddio ffactorau cyffredin prisio'r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Lluosrifau tâl

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf yn eu sefydliad a chydnabyddiaeth ariannol chwartel isaf, canolrifol a chydnabyddiaeth ariannol chwartel uchaf gweithlu'r sefydliad.

Cydnabyddiaeth ariannol wedi'i bandio'r cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf yn Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol 2025-26 oedd £295,000–£300,000 (2024-25: £240,000–245,000). Roedd hyn 6.2 gwaith (2024-25: 5.3) cydnabyddiaeth ariannol canolrifol y gweithlu, sef £47,675 (2024-25: £45,600). Ar sail cydnabyddiaeth ariannol wedi'i bandio yr Ysgrifennydd Parhaol, y gymhareb yw 5.3 gwaith (2024-25: 5.3).

Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog, tâl ar sail perfformiad sydd heb ei gyfuno a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo gan gyflogwyr a gwerthoedd trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod.

Dangosir y berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf a'r chwarteli isaf, canolrifol ac uchaf isod:

Blwyddyn		25ain Canradd	Canolrif	75ain Canradd
2025-26	Cymhareb Tâl (:1)	8.5	6.2	4.9
	Cydnabyddiaeth ariannol y chwartel	34,997	47,675	61,098
2024-25	Cymhareb Tâl (:1)	7.2	5.3	4.1
	Cydnabyddiaeth ariannol y chwartel	33,748	45,600	58,918

Mae'n ofynnol bellach i gyrff adrodd nodi canran y newid i'r gydnabyddiaeth ariannol o'r flwyddyn ariannol flaenorol ar gyfer y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf; a'r newid canrannol cyfartalog ers y flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â chyflogeion yr endid yn ei grynswth.

	Newid canrannol cydnabyddiaeth ariannol – y cyfarwyddwr ar y tâl uchaf	Newid canrannol cyfartalog cydnabyddiaeth ariannol – cyflogeion yn eu crynswth
2025-26	22.68%	5.06%
2024-25	4.30%	6.34%

Mae'r cyfrifiad gofynnol ar gyfer canran y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf yn cymharu canolbwynt y band tâl sef 2025-26 £295,000 – £300,000 (2024-25: £240,000 – £245,000), yn hytrach na'r newid canrannol yn y cyflog gwirioneddol. Mae defnyddio pwynt canol y band i gyfrifo yn gallu ystumio'r cyfrifiad o'i gymharu â'r dyfarniad gwirioneddol a gafwyd. Mae'r newid canrannol cyfartalog yng nghydnabyddiaeth ariannol cyflogeion yn ei gyfanrwydd (5.06%) yn uwch na'r dyfarniad cyflog o 3.7% ar gyfer 2025-26. Mae'r cyfrifiad hwn yn cynnwys staff ar secondiad a staff dros dro, a gall y cymysgedd o'r rhain amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn ogystal â'r dyfarniadau cyflog sy'n gymwys i unigolion o'r fath. Y newid canrannol cyfartalog i weithwyr ar gyflogres Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 yw 4.49% (2024-25: 7.06%).

Mae'r cynnydd mewn cyflogau cyfartalog staff yn adlewyrchu'r dyfarniad cyflog a wnaed yn 2025-26 a'r newid graddol tuag at weithlu ar lefel uwch, er bod hyn yn llai amlwg nag yn y blynyddoedd diwethaf. Bu gostyngiad bach yn nifer y staff ar raddau Cymorth Tîm a Swyddog Gweithredol, tra bu cynnydd yn nifer y staff ym mhob gradd o Uwch Swyddog Gweithredol i Gyfarwyddwr Cyffredinol.

Mae'r newid sylweddol yng nghyflog y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf i'w briodoli i benodiad newydd, yn hytrach na thwf cyflog y cyfarwyddwr a oedd ar y cyflog uchaf cyn hynny. Fel yn 2024-25, hysbysebwyd rhai o rolau'r Uwch Wasanaeth Sifil gyda chyflogau uwchlaw'r isafswm band i ddenu ymgeiswyr ac mae sawl secondai wedi dod yn barhaol, gan effeithio ar gyfartaledd cyflog oherwydd cyfateb cyflogau eu sefydliad gwreiddiol.

Mae gwybodaeth bellach am Bolisi Tâl, gwneud penderfyniadau a Thâl Uwch i'w gweld yn Natganiad Polisi Tâl Llywodraeth Cymru.

Niferoedd a Chostau Staff

Nifer cyfartalog y bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (gan gynnwys uwch-reolwyr a chynghorwyr arbennig) oedd:

	Staff a gyflogwyd yn barhaol	Staff eraill	Cynghorwyr Arbennig	Cyfanswm 2025-26	Cyfanswm 2024-25
Cyfanswm	**107,931**	**4,698**	**14**	**112,643**	**111,333**
O'r rheini:					
Llywodraeth Cymru	5,538	137	14	5,689	5,646
BILlau a chyrff y GIG	96,831	4,561	0	101,392	100,224
Is-gwmnïau	5,562	0	0	5,562	5,463
O gyfanswm Llywodraeth Cymru:					
Cyrff rheoleiddio a chyflawni	759	6	-	765	743
Tribiwnlysoedd	35	-	-	35	33

Cyfansoddiad staff Llywodraeth Cymru yn ôl rhyw (heb eu harchwilio)

	Gwryw	Benyw
Aelodau'r Bwrdd	47%	53%
Uwch Wasanaeth Sifil	50%	50%
Yr Holl Staff	39%	61%

Menywod yw mwy na 60% o'n gweithlu. Rydym yn parhau i wneud cynnydd o ran gwella cynrychiolaeth mewn rolau Uwch. Yn 2025-26, cynyddodd cyfran y menywod yn yr Uwch Wasanaeth Sifil o 48% i 50%. Ar lefel y Bwrdd, mae cyfran y menywod wedi cynyddu o raniad cyfartal o 50:50 yn y flwyddyn flaenorol i 53%.

Mae Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021–2026 yn nodi targedau a chamau gweithredu clir i fynd i'r afael â diffyg cynrychiolaeth, fel yr amlinellir yn yr adran 'Tegwch a Chynhwysiant' o dudalen 83.

Costau Staff

Llywodraeth Cymru	Staff a gyflogwyd yn barhaol £m	Staff eraill[a] £m	Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2026 Cyfanswm £m	Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2025 Cyfanswm £m
Cyflogau	305	18	323	299
Costau Nawdd Cymdeithasol	43	-	43	34
Costau Pensiwn Eraill	89	-	89	87
Cyfanswm	**437**	**18**	**455**	**420**
Adenillon o secondiadau	(2)	-	(2)	(2)
Costau net staff	**435**	**18**	**453**	**418**

Cydgrynhoi	Staff a gyflogwyd yn barhaol £m	Staff eraill[a] £m	Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2026 Cyfanswm £m	Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2025 Cyfanswm £m
Cyflogau	5,464	393	5,857	5,586
Costau Nawdd Cymdeithasol	688	34	722	551
Costau Pensiwn Eraill	1,090	33	1,123	1,056
Cyfanswm	**7,242**	**460**	**7,702**	**7,192**
Adenillon o secondiadau	(2)	-	(2)	(2)
Costau net staff	**7,240**	**460**	**7,700**	**7,190**

[a] Er ei fod wedi'i nodi mewn categori gwahanol o ran niferoedd staff, mae cyflogau Cynghorwyr Arbennig wedi'u cynnwys yn ffigurau costau Staff Eraill.

Mae cyflogau'n cynnwys cyflogau gros, y bonysau perfformio sy'n daladwy, hawliau neilltuedig i Bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw, a lwfansau swyddfa breifat.

Costau'r Cynghorwyr Arbennig oedd £1,439,621 (2024-25: £1,571,334) ar gyfer y flwyddyn, gan gynnwys costau pensiwn a nawdd cymdeithasol, ac maent wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod.

Roedd 17 o Gynghorwyr Arbennig yn gweithio yn ystod y cyfan neu ran o'r flwyddyn ariannol 2025-26, sy'n cyfateb i 14 o gynghorwyr arbennig cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd, fel y nodir yn y tabl niferoedd staff uchod.

Cyhoeddir Cofrestr Buddiannau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynghorwyr Arbennig sy'n datgelu buddiannau perthnasol ar Ryngrwyd Llywodraeth Cymru. Datganiadau o fuddiannau – LLYW. CYMRU

Mae'r datganiad o fuddiannau, nodi gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a rheoli unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei wneud yn unol â Chod y Gwasanaeth Sifil, Polisi Datganiad Buddiannau Llywodraeth Cymru a thelerau contractiol penodiadau Cynghorwyr Arbennig. Ceir rhagor o wybodaeth am reoli buddiannau yn y Datganiad Llywodraethiant ar dudalen 115.

Mae costau nawdd cymdeithasol a phensiynau ar gyfer staff dros dro a staff ar secondiad o dan y ffigurau craidd ar gyfer staff eraill wedi'u cynnwys yn y cyflogau gan eu bod yn cael eu hanfonebu ar sail gros. Mae cyflogau Gweinidogion Cymru yn cael eu talu gan Gomisiwn y Senedd ac yn cael eu hadlewyrchu yn y cyfrifon hynny.

O ran nifer yr uwch-staff y mae eu cyflog yn uwch na £100k, roedd 71 o staff yr oedd eu cyflog cyfwerth ag amser llawn yn uwch na £100k ar 31 Mawrth 2026. O'r rhain, roedd 8 yn staff rhan-amser yr oedd eu henillion gwirioneddol, felly, yn is na'r trothwy o £100k, ac roedd 2 yn aelodau staff amser llawn a ddechreuodd ar swyddi uwch yn ystod y flwyddyn, gan dderbyn cyflog o lai na £100k yn y flwyddyn. Y gyfradd darged ar gyfer lefel Cyfarwyddwr yn Llywodraeth Cymru yw £117,628. Mae hyn yn gynnydd o 3.25% ers 2024-25. Cafodd y mwyafrif o Uwch Weision Sifil Llywodraeth Cymru ddyfarniad cyflog o 3.25% yn 2025-26 (pwynt 1 ar gyfer Cyfarwyddwyr ac fe gafodd Dirprwy Gyfarwyddwyr godiad cyflog o 2.04% / 6.58%). Cafodd y rhan fwyaf o staff Llywodraeth Cymru islaw'r Uwch Wasanaeth Sifil ddyfarniad tâl o 3.7% yn 2025-26.

Cynhwysir manylion trefniadau oddi ar y gyflogres Byrddau Iechyd Lleol a chyrff y GIG yn eu cyfrifon.

Pensiynau

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyn 1 Ebrill 2015, yr unig gynllun oedd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sydd wedi'i rannu'n wahanol adrannau – mae **classic, premium a classic plus** yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, tra bo **nuvos** yn darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. Ymunodd pob un o'r gweision sifil a oedd newydd eu penodi, a'r mwyafrif o'r rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth, â'r cynllun newydd.

Mae PCSPS ac **alpha** yn gynlluniau statudol heb eu hariannu. Mae cyflogeion a chyflogwyr yn gwneud cyfraniadau (mae cyfraniadau cyflogeion yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05%, yn dibynnu ar gyflog). Mae gweddill cost y buddion mewn taliadau yn cael ei dalu ag arian sy'n destun pleidlais gan Senedd y DU bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n cael eu talu yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Yn hytrach na'r trefniadau buddion wedi'u diffinio, gall gweithwyr ddewis pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio gyda chyfraniad cyflogwr, sef cyfrif pensiwn **partnership**.

Yn **alpha**, mae pensiwn yn cronni ar gyfradd o 2.32% o enillion pensiynadwy bob blwyddyn, ac mae'r cyfanswm a gronnwyd yn cael ei addasu bob blwyddyn yn unol â chyfradd a bennir gan Drysorlys EF. Gall yr aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004. Bydd buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i'r cynllun **alpha** o PCSPS yn cael eu 'bancio'. O ran y rhai a gronnodd fuddion gynt fel aelodau o un o adrannau'r PCSPS a oedd yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, bydd y buddion hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael y cynllun **alpha**.

Y pensiynau cronedig a ddangosir yn yr adroddiad hwn yw'r pensiwn y bydd gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn arferol, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn arferol neu os yw'n hŷn na hynny. Yr oedran pensiwn arferol yw 60 ar gyfer aelodau'r cynlluniau **classic, premium a classic plus**, 65 i aelodau **nuvos**, a naill ai 65 neu oedran pensiwn y wladwriaeth ar gyfer aelodau **alpha**. Mae'r ffigurau pensiwn yn yr adroddiad hwn yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha**, fel y bo'n briodol. Pan fo gan swyddog fuddion yn PCSPS ac **alpha**, y ffigur a ddangosir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun. Dylid nodi, er hynny, y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.

Pan gyflwynodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus newydd yn 2015, roedd trefniadau trosiannol a oedd yn trin aelodau'r cynllun presennol yn wahanol ar sail eu hoedran. Arhosodd aelodau hŷn o PCSPS yn y cynllun hwnnw, yn hytrach na symud i **alpha**. Yn 2018, canfu'r Llys Apêl fod y trefniadau trosiannol yn y cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn aelodau iau.

O ganlyniad, mae camau'n cael eu cymryd i unioni'r diwygiadau hynny yn 2015, gan wneud darpariaethau'r cynllun pensiwn yn deg i bob aelod. Mae Rhwymedi Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus[62] yn cynnwys dwy ran. Caeodd y rhan gyntaf y PCSPS ar 31 Mawrth 2022, gyda'r holl aelodau gweithredol yn dod yn aelodau o **alpha** o 1 Ebrill 2022. Mae'r ail ran yn dileu'r gwahaniaethu ar sail oedran ar gyfer cyfnod y rhwymedi, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, drwy symud aelodaeth aelodau cymwys yn ystod y cyfnod hwn yn ôl i PCSPS ar 1 Hydref 2023. Gelwir hyn yn "dirwyn yn ôl".

Ar gyfer aelodau sydd yng nghwmpas Rhwymedi Pensiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus, mae cyfrifo eu buddion at ddibenion cyfrifo eu Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod a chyfanswm ffigur eu cydnabyddiaeth ariannol, ar 31 Mawrth 2025 a 31 Mawrth 2026, yn adlewyrchu'r ffaith bod aelodaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 wedi'i dirwyn yn ôl i'r PCSPS. Er y bydd aelodau maes o law yn cael opsiwn i benderfynu a ddylai'r cyfnod hwnnw gyfrif tuag at fuddion PCSPS neu **alpha**, mae'r ffigurau'n dangos y sefyllfa wedi'i dirwyn yn ôl, h.y., buddion PCSPS ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Mae'r cyfrif pensiwn **partnership** yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

Mae gweithwyr Llywodraeth Cymru yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ac eithrio nifer bach o staff sydd wedi dewis parhau i fod yn aelodau o gynlluniau eraill y sector cyhoeddus.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn '**Alpha**' – yn gynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr ac felly ni all Llywodraeth Cymru nodi ei chyfran o'r asedau a'r atebolrwyddau sylfaenol.

62 www.gov.uk/government/collections/sut-maer-cyfnod-pontio-ar-gyfer-pensiynaur-gwasanaeth-cyhoeddus-yn-effeithio-ar-eich-pensiwn.cy

Prisiodd Actiwari'r Cynllun y cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2024. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet.

Ar gyfer 2025-26, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £82,541,729 yn daladwy i PCSPS/**Alpha** (2024-25: £77,712,655) ar gyfradd safonol o 28.97% (2024-25: 28.97%) o enillion pensiynadwy. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu cost y buddion a gronnwyd yn ystod 2025-26 i gael eu talu pan fo'r aelod yn ymddeol ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn **partnership** sef pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol lle mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu. Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £320,612 (2024-25: £313,547) eu talu i'r darparwr pensiwn cyfanddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8 i 14.75% o enillion pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad cyfatebol i weithwyr hyd at 3% o enillion. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr o £10,532, 0.5% (2024-25: £10,281, 0.5%) o dâl pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu am y gost o ddarparu buddion cyfandaliadol yn y dyfodol os bydd gweithiwr yn marw yn y swydd neu'n ymddeol oherwydd salwch.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn ddyledus i ddarparwyr pensiwn **partnership** ar ddyddiad y fantolen (2024-25: £dim). Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu ar y dyddiad hwnnw (2024-25: £dim).

Ymddeolodd pump (2024-25: saith) unigolyn yn gynnar oherwydd salwch; cyfanswm yr atebolrwyddau pensiwn ychwanegol a gronnwyd yn y flwyddyn oedd £31,808 (2024-25: £126,537).

Dewisodd nifer bach o gyn-weithwyr Awdurdod Datblygu Cymru gadw'r telerau ac amodau a'r trefniadau pensiwn a oedd ganddynt. Maent yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sef cynllun a ariennir gan sawl cyflogwr sy'n darparu pensiwn a buddion cysylltiedig, sydd bellach yn cael ei gyfrifo ar sail cyfartaledd gyrfa yn hytrach nag ar sail cyflog terfynol. Mae asedau'r cynllun yn cael eu dal ar wahân i asedau Llywodraeth Cymru a'u gweinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Dangosir atebolrwyddau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cynllun hwn yn nodyn 13 i'r cyfrifon – 'Atebolrwyddau Eraill'. Rhoddir buddion ymddeol ychwanegol yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Leol (Iawndal am Ymddeol Cyn Pryd) 1982 a darperir y buddion hyn ar sail talu wrth fynd. Cynhwysir manylion Pensiynau Byrddau Iechyd Lleol a chyrff y GIG yn eu cyfrifon.

Adrodd ar gynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau eraill – pecynnau ymadael

Ar gyfer 2025-26, mae 6 (2024-25: 96) o gyflogeion wedi ymadael neu gytuno i ymadael am resymau ymadawiad gwirfoddol neu am resymau eraill rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Y taliadau iawndal y cytunwyd arnynt yw £176,972 (2024-25: £6,115,975).

Talwyd costau dileu swydd a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972, neu lle bo'n gymwys, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet ar Iawndal Effeithlonrwydd 2016. Pan fo'r adran wedi cytuno i ganiatáu ymddeoliadau cynnar, caiff y costau ychwanegol eu talu gan Lywodraeth Cymru, ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir costau ymddeol oherwydd afiechyd gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y tabl.

Band cost y pecyn ymadael	Nifer yr ymddiswyddiadau gorfodol	Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt	Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2025-26	Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost 2024-25
<£10,000	-	0	0	2
£10,000 – £25,000	-	2	2	10
£25,000 – £50,000	-	3	3	26
£50,000 – £100,000	-	1	1	55
£100,000 – £150,000	-	-	-	1
£150,000 – £200,000	-	-	-	1
£200,000+	-	-	-	1
Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl math	**-**	**6**	**6**	**96**
Cyfanswm cost yr adnoddau £	**-**	**-**	**176,972**	**6,115,975**

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru Gynllun Ymadael Gwirfoddol yn 2024-25. Ymadawodd cyfanswm o 91 o staff â'r sefydliad erbyn 31 Awst 2024 a chyfanswm y taliadau iawndal oedd £5.973m.

Mae'r tabl uchod yn dangos cyfanswm cost y pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn 2025-26 (rhoddir ffigurau cymaradwy 2024-25 hefyd). Cyfanswm y costau ymadael a dalwyd yn ystod 2025-26 oedd £176,972 (2024-25: £6,115,975).

Mae'r costau yn y tabl yn nodi cyfanswm y gost i'r sefydliad yn dilyn unrhyw ymadawiad. Er hynny, mewn rhai achosion gallai rhai unigolion, wrth ymadael, fod wedi defnyddio eu taliadau iawndal i ddarparu mynediad cynnar at bensiwn heb ei leihau, neu i brynu pensiwn wedi'i gynyddu.

Absenoldeb oherwydd salwch (heb ei archwilio)

	2025-26	2024-25	2023-24	2022-23	2021-22
Dyddiau a gollwyd (tymor byr) *O'r rheini oherwydd iechyd meddwl*[a]	18,668 *5,043*	20,708 *4,670*	19,074 -	22,329 -	21,018 -
Dyddiau a gollwyd (tymor hir) *O'r rheini oherwydd iechyd meddwl*[a]	24,014 *11,974*	25,649 *11,789*	23,110 -	21,408 -	20,109 -
Cyfanswm y dyddiau a gollwyd (dros gyfnod o 12 mis) *O'r rheini oherwydd iechyd meddwl*[a]	**42,682** *17,017*	**46,357** *16,459*	**42,184** -	**43,737** -	**41,127** -
Cyfanswm y blynyddoedd staff	5,600	5,610	5,679	5,435	5,390
Cyfanswm y staff cyflogedig yn ystod y cyfnod (fesul pen)	6,350	6,046	6,339	6,245	6,160
Cyfanswm y staff cyflogedig heb absenoldeb yn ystod y cyfnod (fesul pen)	3,615	3,194	3,486	3,001	3,259
% y staff heb absenoldeb salwch	57%	53%	55%	48%	53%
Nifer cyfartalog y dyddiau a gollwyd	7.7	8.3	7.4	8.0	7.6

[a] 2024-25 oedd y flwyddyn gyntaf i ddatgeliad ychwanegol am ddyddiau a gollwyd oherwydd iechyd meddwl gael ei gynnwys. Nid oes unrhyw ddata cymharol wedi'u cynnwys ar gyfer y blynyddoedd cyn 2024-25.

Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd absenoldeb oherwydd salwch yn 2025-26 oedd 7.7 diwrnod, sy'n ostyngiad o ffigur y flwyddyn flaenorol sef 8.3 diwrnod.

Roedd achosion absenoldeb yn dal yn gyson â'r blynyddoedd blaenorol, ac iechyd meddwl oedd y prif achos o hyd, gan gyfrif am 40% o absenoldebau. Er gwaethaf gostyngiad cyffredinol yn y diwrnodau a gollwyd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, afiechydon anadlol a phroblemau cyhyrysgerbydol oedd yr ail a'r trydydd achos mwyaf cyffredin o absenoldeb, yn unol â thueddiadau ar draws Gwasanaeth Sifil ehangach y DU.

Bu cynnydd bach mewn absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl ers y flwyddyn flaenorol, gyda chynnydd mwy ar gyfer absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl tymor byr.

Gwelsom 1,119 o atgyfeiriadau ac adolygiadau yn cael eu cwblhau gan ein darparwr Iechyd Galwedigaethol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026. Roedd cyfran o'r rhain yn ymwneud â phryderon iechyd meddwl, gyda 272 yn gysylltiedig â ffactorau sy'n gysylltiedig â chartref a 175 â ffactorau sy'n gysylltiedig â gwaith.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant ein staff. Ymhlith y gwasanaethau cymorth allweddol sydd ar gael i staff mae'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr, sy'n cynnig cwnsela a chyngor cyfrinachol, llinell gymorth 24/7 sy'n darparu cymorth ar unwaith, a chymorth gan gymheiriaid drwy'r rhwydwaith Cynghreiriaid Iechyd Meddwl. Mae llwybr hefyd i gael cyngor clinigol strwythuredig drwy wasanaethau Iechyd Galwedigaethol, yr ydym yn parhau i weithio'n rhagweithiol gyda hwy ar yr ystod o addasiadau a therapïau i gynorthwyo staff.

Mae ein darparwyr iechyd galwedigaethol yn gallu argymell amrywiaeth eang o addasiadau a therapïau i gynorthwyo staff, gan gynnwys darparu sesiynau cwnsela a CBT. Mae yna hefyd linell gymorth 24/7 ar gael i'r holl staff, a chefnogaeth gan gyfoedion drwy ein Cynghreiriaid Iechyd Meddwl.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant ein staff. Mae'r Bwrdd Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod tueddiadau ac ymyriadau, yn ogystal â sesiynau treiddio'n dwfn i faterion a gaiff eu hamlygu, er enghraifft y broses ar gyfer rheoli absenoldeb iechyd meddwl a'r ymyriadau amrywiol sydd ar gael.

Trosiant Staff

Cyfrifir y ffigur trosiant fel nifer y rhai sy'n gadael o fewn y cyfnod hwnnw wedi'i rannu â nifer cyfartalog y staff mewn swydd dros y cyfnod ac ar gyfer 2025-26 mae'n 3.04% (2024-25: 5.46%) ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Mae staff yn cael eu cynnwys fel rhai sy'n gadael os ydynt yn gadael Llywodraeth Cymru heb unrhyw fwriad i ddychwelyd e.e. ymddeoliad, terfynu cynnar. Nid yw staff ar secondiadau neu fenthyciadau y tu allan i Lywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn nifer cyfartalog y staff yn eu swyddi am yr amser y maent ar fenthyg neu secondiad.

Crynodeb o'r Alldro Adnoddau

CWMPAS	Cyllideb 2025-26 Gwariant net £m	Alldro 2025-26 Gwariant net £m	Alldro o'i gymharu â'r Gyllideb Amrywiant £m
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	13,892	13,640	252
Tai a Llywodraeth Leol	6,793	6,742	51
Addysg	6,522	6,061	461
Trafnidiaeth	1,861	1,737	124
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig	958	849	109
Yr Economi, Ynni a Chynllunio	823	741	82
Cyfiawnder Cymdeithasol	166	161	5
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	455	444	11
Y Comisiwn Etholiadol	3	3	0
Cyfanswm y gofynion Adnoddau a Chyfalaf	**31,473**	**30,378**	**1,095**
Incwm	**1,569**	**1,260**	**309**
Gwariant gros	**33,042**	**31,638**	**1,404**

O'r cyfanswm tanwariant adnoddau o £1,095m (3%) ar gyfer 2025-26, mae 82% (£895m) yn ymwneud â thanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol a Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME), a hynny'n bennaf mewn perthynas â phrisiadau asedau ariannol ac atebolrwyddau sy'n gysylltiedig â mynegeion y farchnad megis Cronfa Risg Cymru ac atebolrwyddau eraill o ran darpariaeth y GIG, a'r portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr; ynghyd â dibrisiant y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol a phrisio ychwanegiadau i'r rhwydwaith.

Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau yn nodi alldro Llywodraeth Cymru yn erbyn y cyfansymiau rheoli a gymeradwywyd yng nghynnig yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2025-26 'Crynodeb o Ofynion Adnoddau a Chyfalaf'. Fel y nodir ar dudalen 7, darperir adroddiad blynyddol manylach ar yr alldro terfynol yn erbyn y rheolaethau is sy'n cael eu gweithredu a'u gorfodi gan Drysorlys EF a balans Cronfa Wrth Gefn Cymru gan gynnwys symiau a gariwyd ymlaen o alldro DEL Cymru ar ôl i Weinidogion Cymru gyflwyno Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru i Bwyllgor Cyllid y Senedd a'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru: Cyllid y llywodraeth | Is-bwnc – LLYW.CYMRU.

Cwmpas y Comisiwn Etholiadol: Mae Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn darparu i'r Comisiwn Etholiadol gael ei ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer gweithgareddau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yng Nghymru. Mae adran 129 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi'r gyfraith mewn perthynas â thynnu taliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru. Nid yw is-adran 129(4) yn cynnwys y Comisiwn Etholiadol fel corff taledig. Felly, rhaid i un o'r cyrff a restrir yn is-adran 129(4) fod yn gyfrifol yn weinyddol am dalu'r Comisiwn Etholiadol o'r cronfeydd y maent yn eu cael oddi wrth Gronfa Gyfunol Cymru. Gan i Weinidogion Cymru gytuno y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud hynny, mae'r gyllideb yn cael ei phleidleisio i Weinidogion Cymru ond yn cael ei chlustnodi ar gyfer y Comisiwn Etholiadol.

Esboniad o Amrywiannau

Mae'r esboniadau isod yn canolbwyntio ar feysydd o amrywiant sylweddol, yn hytrach na'r holl amrywiannau a nodwyd; mae trothwy o £5 miliwn wedi'i gymhwyso.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Tanwariant o £252m (1.8%)

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant DEL Refeniw o £67m, tanwariant DEL Cyfalaf o £8m, tanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £5m a thanwariant AME o £172m.

Mae'r tanwariant DEL Refeniw o £67m yn sefyllfa net sy'n cynnwys ystod o danwariannau ar draws sawl maes, wedi'i wrthbwyso gan ddiffygion cyllideb mewn meysydd eraill. Sefyllfa alldro y GIG ar gyfer 2025-26 a gynhwyswyd yn y sefyllfa hon oedd gorwariant refeniw cyfunol o £199m, gyda chwech o'r saith Bwrdd Iechyd mewn diffyg. Yn dilyn ymarfer ailflaenoriaethu'r gyllideb yn ystod y flwyddyn ar draws y MEG a dyrannu cyllid ychwanegol, roedd modd rheoli'r diffygion GIG hynny o fewn sefyllfa gyffredinol y MEG. Roedd yr alldro yn erbyn cyllidebau Cyflawni Gwasanaethau Craidd y GIG yn danwariant o £49m. Roedd hyn yn deillio yn bennaf o gyllid ychwanegol a ddyrannwyd i'r MEG yn yr ail gyllideb atodol, er mwyn cwmpasu lefel uchaf rhagolygon risg sefydliadau'r GIG. Ar ôl iddi ddod yn amlwg na fyddai angen yr holl gyllid hwn, cytunwyd y byddai'r MEG yn dal y cyllid a ddyrannwyd fel cynllun

cyffredinol wrth gefn. Roedd y tanwariant DEL refeniw y tu allan i gyllidebau Cyflawni Gwasanaethau Craidd y GIG yn cynnwys tanwariannau bach amrywiol ar draws ystod o weithgareddau.

Mae'r tanwariant DEL Cyfalaf o £8m yn ymwneud yn bennaf â chynllun digidol na chafodd ei symud ymlaen, a chynlluniau adeiladu a oedd yn gofyn am ofynion adnoddau is nag y cynlluniwyd ar eu cyfer.

Roedd y tanwariant AME o £172m yn cynnwys y tanwariannau canlynol yn bennaf: £136m ar amhariad oherwydd llithriant prosiectau a goramcangyfrif o brisiadau amhariadau diwedd blwyddyn ar gyfer prosiectau sy'n symud o asedau sy'n cael eu hadeiladu i asedau a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn; £22m yn ymwneud â thanwariant ar ddarpariaethau'r GIG, sy'n deillio o drosglwyddo hawliadau yng Nghronfa Risg Cymru yn arafach na'r disgwyl o atebolrwyddau digwyddiadol i ddarpariaethau, a thaliadau darpariaeth AME is na'r rhagolwg ar gyfer darpariaethau eraill y GIG; defnydd uwch na'r disgwyl ar y darpariaethau cyfalaf o £7m; ac ystod o symudiadau bach eraill.

Tai a Llywodraeth Leol – Tanwariant o £51m (0.8%)

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant DEL Refeniw o £7m, tanwariant DEL Cyfalaf o £11m, tanwariant Trafodiadau Ariannol Cyfalaf o £28m, gorwariant o £1m yn erbyn DEL Adnoddau Anghyllidol a thanwariant AME o £6m.

Mae'r tanwariant DEL Refeniw o £7m yn adlewyrchu cyfuniad o danwariant a phwysau ar draws y portffolio. Mae'r prif danwariant yn ymwneud â Rhyddhad Ardrethi Annomestig, sy'n adlewyrchu'r galw is na'r rhagolwg am y Rhyddhad Ardrethi ar gyfer Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch. Gwrthbwyswyd hyn yn rhannol gan bwysau o £5m ar y Gronfa Rhyddhau Tir sy'n deillio o ddarpariaeth gyfrifyddu yn ymwneud â'r portffolio benthyciadau, ochr yn ochr â newidiadau mewn gofynion cyflawni ehangach yn ystod y flwyddyn.

Mae'r tanwariant DEL Cyfalaf o £11m i'w briodoli yn bennaf i danwariant o £27m yn erbyn y Grant Tai Cymdeithasol, sy'n deillio o ad-dalu'r benthyciad Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae llithriant pellach a thanwariant proffil cyflawni diwygiedig yn cynnwys £10m o fewn y gyllideb Iechyd a Thai sy'n ymwneud â'r Gronfa Tai a Gofal, £8m yn erbyn y gyllideb Diogelwch Adeiladau ac ystod o danwariannau bach eraill. Cafodd y tanwariant cyfalaf hwn ei wrthbwyso'n rhannol gan orwariant cynlluniedig o £41m yn erbyn Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol, gan adlewyrchu dyraniadau ychwanegol a wnaed i'r Awdurdodau Lleol i gefnogi pwysau o chwyddiant adeiladu.

Mae'r tanwariant Trafodiadau Ariannol Cyfalaf o £28m yn ymwneud yn bennaf â Chynllun Tai'r Farchnad Agored a Chynlluniau Eraill o £72m sy'n deillio o adbrynu benthyciadau Cymorth i Brynu – Cymru yn gynnar. Mae hyn wedi'i wrthbwyso'n rhannol drwy ailbwrpasu y cytunwyd arno o £11m i'r Cynllun Tir ar gyfer Tai, benthyciadau Datblygu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o £23m, ac estyniad i broffil ad-dalu benthyciadau tai Tirion o £10m.

Mae'r tanwariant AME o £6m yn ymwneud yn bennaf â chynllun Cymorth i Brynu – Cymru. Rhagwelir enillion gwerth teg ar gyfer y portffolio benthyciadau ecwiti ar gyfer y flwyddyn ariannol; er hynny, fe wnaeth amrywiannau yn y rhaniad rhwng enillion wedi'u gwireddu o warediadau (DEL) ac enillion heb eu gwireddu o newidiadau'r farchnad (AME) ar y portffolio hwnnw, pan brisiwyd ef ddiwedd y flwyddyn ariannol, gynhyrchu amrywiannau i'r rhagolwg AME.

Addysg – Tanwariant o £461m (7.1%)

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariannau dibwys yn y DEL Refeniw ac mewn Trafodiadau Ariannol Cyfalaf sy'n dod i gyfanswm o £1m, gorwariant DEL Cyfalaf o £14m, tanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £108m a thanwariant AME o £366m.

Deillodd y gorwariant DEL Cyfalaf o £14m o fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol y cytunwyd arno yn y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Roedd hyn yn galluogi mwy o wariant ar brosiectau blaenoriaeth ar draws yr ystad addysg, gan gefnogi gwelliannau i ysgolion, colegau addysg bellach a seilwaith addysgol cysylltiedig.

Mae'r rhan fwyaf o'r tanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol gwerth £108m yn ymwneud â benthyciadau i fyfyrwyr, y mae eu prisio'n sensitif iawn i newidiadau mewn rhagdybiaethau economaidd. Deilliodd y tanwariant yn bennaf o amcangyfrifon diwedd blwyddyn wedi'u diweddaru a gynhyrchwyd drwy'r Biblinell Modelu Cyllid Myfyrwyr (StEP gynt), a arweiniodd at daliadau stoc a thaliadau Cyfrifyddu a Chyllidebu Adnoddau is na'r disgwyl. O ganlyniad, roedd cost gyffredinol y portffolio benthyciadau i fyfyrwyr yn is nag y rhagwelwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r tanwariant AME o £366m yn cynnwys tanwariant o £121m mewn AME Adnoddau a £245m mewn AME Cyfalaf ac mae'n adlewyrchu'r wybodaeth derfynol ar ddiwedd blwyddyn oddi wrth y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Cafodd y tanwariant ei sbarduno yn bennaf gan gostau benthyciadau i fyfyrwyr is na'r disgwyl, gan gynnwys gostyngiad yn lefel y llog a gronnwyd ar fenthyciadau myfyrwyr o'i gymharu â'r rhagolygon a wnaed yn gynharach yn y flwyddyn. Roedd y symudiadau hyn yn cael eu priodoli i raddau helaeth i newidiadau mewn rhagdybiaethau economaidd a thueddiadau cyfraddau llog ehangach, sy'n cael effaith sylweddol ar brisiad y portffolio benthyciadau i fyfyrwyr.

Trafnidiaeth – Tanwariant o £124m (6.7%)

Mae'r tanwariant yn cynnwys gorwariant Refeniw DEL o £9m, gorwariant DEL Cyfalaf o £2m, tanwariant Trafodiadau Ariannol Cyfalaf o £1m, tanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £1m a thanwariant AME o £135m.

Mae'r gorwariant DEL Refeniw o £9m yn cynnwys gorwariant o £8m mewn taliadau contractiol ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol oherwydd taliadau uwch na'r hyn a gyllidebwyd yn wreiddiol. Yn ogystal, cafwyd gorwariant o £6m mewn Cymorth i Wasanaethau Rheilffyrdd; roedd £2m ohono oherwydd tanberfformiad yn achos refeniw teithwyr a'r gweddill yn amrywiannau mewn costau lesoedd a gofnodwyd rhwng Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru. Cafodd y gorwariant hwn ei wrthbwyso'n rhannol gan danwariant mewn Datblygu Seilwaith Strategol, oherwydd derbyniadau llog annisgwyl o £4m.

Mae'r tanwariant AME o £135m yn ymwneud ag amhariadau yn achos cynlluniau ffyrdd y dechreuwyd eu defnyddio yn y flwyddyn. Mae'r amrywiant yn ymwneud ag anwadalrwydd y tâl amhariad sy'n dibynnu ar ganlyniad y prisiad blynyddol.

Newid Hinsawdd a Materion Gwledig – Tanwariant o £109m (11.4%)

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant DEL Refeniw o £34m, tanwariant DEL Cyfalaf o £43m, gorwariant Trafodiadau Ariannol Cyfalaf o £27m, tanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £54m a thanwariant AME o £5m.

Mae'r tanwariant DEL Refeniw o £34m yn deillio o arbedion yn ystod y flwyddyn oherwydd gweithgareddau a arweinir gan y galw, a bylchau mewn adnoddau ar draws y portffolio. Yr amrywiannau mwyaf arwyddocaol oedd tanwariant o

£15m o fewn Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd, gan adlewyrchu'r galw is am Gynlluniau Buddsoddi Gwledig a rhaglenni amaethyddol cysylltiedig, tanwariant o £11m ar draws rhaglenni Amgylchedd, a thanwariannau pellach ar draws ystod o weithgareddau o dan £5m. Cafodd y rhain eu gwrthbwyso'n rhannol gan bwysau a ddaeth i'r amlwg yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys £9m o iawndal TB a chostau rheoli clefydau anifeiliaid cysylltiedig, a chymorth ychwanegol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Mae'r tanwariant DEL Cyfalaf o £43m yn adlewyrchu'n bennaf: tanwariant arfaethedig o £11m o fewn rhaglenni datgarboneiddio Newid yn yr Hinsawdd, llai o £14m yn y defnydd o Gynlluniau Buddsoddi Gwledig a arweinir gan y galw; tanwariant o £10m o fewn rhaglenni Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol sy'n deillio o lithriant prosiectau, oedi yn achos partneriaid cyflenwi a materion caffael; ac addasiadau proffil o £9m sy'n ymwneud â grantiau Diogelwch Tomenni Glo a ddarperir gan drydydd partïon. Cafodd tanwariant llai ar draws ystod o weithgareddau, pob un yn is na £5m, ei wrthbwyso gan wariant uwch ar grantiau Parciau Cenedlaethol, gweithgareddau amddiffyn rhag llifogydd ac ehangu'r rhaglen Rhwydweithiau Natur. O'r tanwariant o £43m, roedd £27m yn danwariant wedi'i gynllunio y cytunwyd arno fel rhan o drefniadau rheoli cyllideb gyfalaf trafodiadau ariannol Llywodraeth Cymru i hwyluso'r gorwariant cyfalaf trafodiadau ariannol a adroddir isod.

Mae'r gorwariant o £27m mewn Trafodiadau Ariannol Cyfalaf i'w briodoli'n bennaf i gymeradwyo benthyciadau datgarboneiddio ychwanegol drwy Digarbon, a ariennir gan danwariant Cyfalaf Cyffredinol cyfatebol o fewn y MEG.

Mae'r tanwariant o £54m ar DEL Adnoddau Anghyllidol yn dangos tanddefnydd o gyllid ychwanegol a ddarparwyd i'r MEG i ariannu amhariad ar ased.

Yr Economi, Ynni a Chynllunio – Tanwariant o £82m (10%)

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant DEL Refeniw o £47m, tanwariant DEL Cyfalaf o £14m, gorwariant Trafodiadau Ariannol Cyfalaf o £18m a thanwariant AME o £39m.

Roedd y tanwariant DEL Refeniw o £47m yn ymwneud yn bennaf â thanwariant o £33m ym Manc Datblygu Cymru, a oedd yn deillio o dderbyniadau a gynhyrchwyd. Adroddwyd am danwariant pellach o £14m o fewn y rhaglenni Cyflogadwyedd a'r Warant i Bobl Ifanc, gan adlewyrchu galw is, llithriant rhaglenni a rhyddhau darpariaeth ar draws nifer o gynlluniau, gan gynnwys Twf Swyddi Cymru+, Trailblazers a'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg. Roedd ystod o symudiadau bach eraill hefyd. Cafodd y tanwariant hwn ei wrthbwyso yn rhannol gan bwysau o £8m o fewn rhaglen Agregu Band Eang y Sector Cyhoeddus, wedi'i sbarduno gan gynnydd mewn costau seilwaith rhwydwaith, gwydnwch a lled band.

Roedd y tanwariant DEL Cyfalaf o £14m yn ymwneud yn bennaf â thanwariant o £5m mewn Seilwaith Eiddo, gan adlewyrchu elfen gyfalaf derbyniad eiddo eithriantol a gwariant is na'r disgwyl ar brosiect Seilwaith Sain Tathan; £7m mewn Arloesedd Busnes oherwydd llithriant prosiectau piblinell i 2026-27; £6m yn y cynllun Cymoedd Technoleg sy'n adlewyrchu oedi yn achos prosiectau a llithriant ar nifer o raglenni; ac ystod o symudiadau bach eraill. Cafodd y tanwariant hwn ei wrthbwyso'n rhannol gan bwysau gorwariant cyfalaf o £10m ym Manc Datblygu Cymru, a oedd yn deillio o amrywiannau mewn gweithgarwch buddsoddi net gwirioneddol.

Roedd y gorwariant Trafodiadau Ariannol Cyfalaf o £18m yn ymwneud yn bennaf â gorwariant o £15m i Fanc Datblygu Cymru.

Roedd y tanwariant AME o £39m yn adlewyrchu yn bennaf ddyraniad ychwanegol a ddarparwyd i Weithrediadau TGCh o £10m ar gyfer taliadau amhariadau

disgwyliedig na ddaethant i fod wedyn, ynghyd ag amhariadau eiddo is na'r disgwyl o £15m. Cododd tanwariant pellach o gredyd prisio pensiwn net o fewn Gyrfa Cymru, gan arwain at danwariant o £20m. Mae Gyrfa Cymru yn cymryd rhan mewn wyth cynllun pensiwn llywodraeth leol ar wahân yng Nghymru, gan adlewyrchu ei gwreiddiau yn yr Awdurdodau Lleol, ac felly gall symudiadau prisio fod yn arbennig o anwadal o flwyddyn i flwyddyn. Adroddwyd am danwariant ychwanegol o £11m gan Fanc Datblygu Cymru o ganlyniad i enillion prisio ar asedau ariannol, ochr yn ochr â £5m yn ymwneud â pheidio â defnyddio darpariaethau dyledion drwg ar draws y portffolio. Cafodd y tanwariant hwn ei wrthbwyso'n rhannol gan orwariant o £22m yn ymwneud â Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, yn dilyn amhariad i £dim o fuddsoddiad ecwiti Llywodraeth Cymru ym Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig, a ddelir drwy WGC Holdco Limited, a £7m pellach yn deillio o ailbrisiadau a darpariaethau buddsoddiadau eraill.

Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu – Tanwariant o £11m (2.4%)

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant DEL Refeniw o £1m, tanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £3m, tanwariant DEL Cyfalaf o £2m a thanwariant AME o £5m.

Mae'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn y MEG yn cynnwys newidiadau prisio mewn atebolrwyddau pensiwn gan eu bod yn destun prisiad actiwaraidd cymhleth bob blwyddyn sy'n gallu bod yn anwadal. Mae'r tanwariant AME o £5m yn deillio o wahaniaethau rhwng prisiadau'r cynllun pensiwn actiwaraidd a ragwelir a'r rhai manwl a ddarperir ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol i lywio'r cyfrifon statudol a'r alldro terfynol.

Incwm – £309m yn llai na'r gyllideb

Mae tanwariant incwm y cwmpas yn ymwneud yn bennaf â benthyciadau i fyfyrwyr. Mae ffactorau economaidd yn effeithio'n sylweddol ar brisiad y portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr. Adroddir am amrywiant o £216m yn erbyn Llog Effeithiol Benthyciadau i Fyfyrwyr yn 2025-26. Y gyfradd llog a godir fel arfer yw'r Mynegai Prisiau Manwerthu a hyd at 3%, yn dibynnu ar amgylchiadau ac incwm myfyriwr. Er hynny, yn ystod rhai cyfnodau cymhwysir cap ar log i sicrhau na chodir tâl uwch ar fyfyrwyr na'r cyfartaledd a geir yn y farchnad fasnachol. Mae'r amrywiant yn codi gan fod angen amcangyfrif effaith newidiadau yn yr RPI yn ystod y flwyddyn ariannol ar gyfer cyllidebu a rhagfynegi. Er hynny, roedd swm y llog a oedd yn cael ei ychwanegu at fenthyciadau i fyfyrwyr ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn is na'r disgwyl pan bennwyd cyllidebau a rhagolygon yn gynharach yn y flwyddyn.

Adroddodd y MEG Trafnidiaeth danwariant o £53m yn erbyn incwm. Mae'r tanwariant yn adlewyrchu yn bennaf ailbroffilio ad-daliad benthyciad disgwyliedig i ganiatáu digon o amser i'r goblygiadau cyfrifyddu, cyllidebu a fforddiadwyedd cysylltiedig gael eu hystyried yn llawn cyn i ad-daliadau ddechrau. Cafodd hyn ei wrthbwyso yn rhannol gan arian benthyciadau ychwanegol ac incwm llog.

Adroddwyd £24m pellach gan MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio yn ymwneud â derbyniadau incwm eiddo a oedd yn is na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.

Mae'r amrywiannau cwmpasoedd incwm sy'n weddill yn ymwneud yn bennaf ag amrywiannau dibwys ar ad-daliadau benthyciadau ac incwm llog.

Rhestr o eirfa'r gyllideb

Terfyn Gwariant Adrannol (DEL): Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennir gan Drysorlys Ei Mawrhydi mewn Adolygiadau o Wariant. Mae'r DEL wedi'i rannu'n ddosbarthiadau gan gynnwys y rhai isod.

DEL Adnoddau Cyllidol (Refeniw): Mae'r gyllideb DEL Adnoddau Cyllidol yn sgorio'r rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran ac mae'n cynnwys costau staff, grantiau a threuliau eraill.

DEL Adnoddau Anghyllidol: Mae'r gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol yn sgorio gwariant cyfredol Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag amhariadau a dibrisiant penodol. Mae'r cyllidebau hyn wedi'u clustnodi ac ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant DEL Adnoddau Cyllidol.

DEL Cyfalaf: Mae cyllidebau cyfalaf yn cwmpasu gwariant sydd, yn bennaf, yn arwain at ased ffisegol naill ai ar fantolen Llywodraeth Cymru neu ar fantolen trydydd parti.

DEL Trafodiadau Ariannol Cyfalaf: Diffinnir Trafodiadau Ariannol mewn cyfrifon cenedlaethol fel trafodiadau mewn asedau ariannol ac atebolrwyddau ariannol, megis benthyca neu drafodiadau ecwiti. O ganlyniad, mae trafodiadau ariannol gyda chyrff y tu allan i ffin gyllidebu Llywodraeth Cymru yn sgorio i'r gyllideb Cyfalaf DEL i adlewyrchu'r effaith hon ar ddyled net y sector cyhoeddus. Mae ad-daliadau trafodiadau ariannol yn gyffredinol yn arwain at ad-daliad dilynol yn y dyfodol i Drysorlys EF.

Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME): Mae'r cyllidebau hyn yn ymdrin â gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlflwyddyn yn yr un ffordd â DEL. Maent felly'n cael eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys Ei Mawrhydi. Mae AME fel rheol yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn wamal a/neu'n ymateb i'r galw.

Nodiadau

Cyllid a dynnwyd o Gronfa Gyfunol Cymru	Alldro 2025-26 £m	Alldro 2024-25 £m
Awdurdodwyd i'w dalu o Gronfa Gyfunol Cymru	27,153	25,297
Cyllid a dynnwyd i lawr	26,460	24,500
Cyllid heb ei dynnu i lawr	**693**	**797**

Mae'r nodyn hwn yn dangos 'yr arian a dynnwyd i lawr' sef y swm a dynnwyd mewn arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru yn y flwyddyn, ac unrhyw symiau a gariwyd ymlaen a dynnwyd o Gronfa Gyfunol Cymru ac sydd heb eu defnyddio o'r flwyddyn flaenorol 'y bernir eu bod wedi'u tynnu', yn erbyn y cyfanswm rheoli y pleidleisiwyd arno yn y gyllideb ar gyfer symiau a awdurdodwyd i'w talu i Lywodraeth Cymru o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Cysoni'r Alldro a CSoCNE	Alldro 2025-26 £m	Alldro 2024-25 £m
Alldro Adnoddau Net	**30,378**	**26,614**
Llai: Addasiadau i gyfalaf a benthyciadau	(2,461)	(2,877)
Addasiad incwm ychwanegol nad yw'n arian parod	-	-
Addasiadau eraill	34	39
Gwariant yn ôl y CSoCNE	**27,951**	**23,776**

Mae'r cysoniad hwn yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng yr alldro cyllidebol yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau a Datganiad Cyfunol o Wariant Net Cynhwysfawr (CSoCNE) y datganiadau ariannol, sy'n cysylltu'r Alldro Adnoddau â'r datganiadau ariannol.

Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau yn cael ei lunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu – sy'n debyg, ond yn wahanol, i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'i cymhwysir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) Trysorlys EF sy'n nodi sut y mae'n rhaid paratoi'r CSoCNE.

Mae'r addasiadau 'Cyfalaf a Benthyciadau' yn dileu o'r Alldro Adnoddau cyfalaf sy'n ymwneud â thrafodiadau adnoddau cyfalaf a adroddwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol nad ydynt yn pasio drwy'r CSoCNE.

Mae addasiadau eraill yn ymwneud yn bennaf â thrafodiadau sy'n cael eu trin yn wahanol rhwng y fframwaith cyllidebu a'r cyfrifon.

Cysoni adnoddau i ofynion arian parod	Cyllideb 2025-26 £m	Alldro 2025-26 £m	Alldro o'i gymharu â'r Gyllideb £m	Alldro 2024-25 £m
Alldro Adnoddau Net	**31,473**	**30,378**	**1,095**	**26,614**
Llai: Cyrff a ddynodwyd o dan a126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru – Trafodiadau adnoddau yn unig	-	(416)	416	(742)
Llai: Trafodiadau nad ydynt yn arian parod				
Dibrisiant	(805)	(220)	(585)	(346)
Amhariadau ac addasiadau gwerth teg	(3,780)	(2,583)	(1,197)	(62)
Symudiadau heb fod yn arian parod mewn darpariaethau	(267)	(207)	(60)	(81)
Llai: Symudiadau mewn balansau gweithio	-	(33)	33	(219)
Llai: Addasiad incwm ychwanegol nad yw'n arian parod	-	-	-	-
Arall	531	(492)	1,023	(745)
Gofyniad arian parod net	**27,152**	**26,427**	**725**	**24,419**

Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau yn cael ei lunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu ar sail gwariant adnoddau, yn hytrach nag ar sail arian parod. Mae'r cysoniad hwn yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng yr Alldro Adnoddau a'r gofyniad net am arian parod. Y gofyniad net am arian parod yw'r swm a dynnir fel cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru yn y flwyddyn (a ddangosir yn y nodyn Cyllid a dynnwyd o Gronfa Gyfunol Cymru), llai unrhyw symiau a dynnwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol sydd heb eu defnyddio.

Mae'r addasiad ar gyfer 'Cyrff a ddynodwyd o dan a126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru – trafodiadau adnoddau yn unig' yn dileu o'r Alldro Adnoddau y gwahaniaeth rhwng yr alldro adnoddau ar gyfer cyrff grŵp dynodedig Llywodraeth Cymru, a'r cyllid a ddarperir iddynt o Gronfa Gyfunol Cymru drwy Lywodraeth Cymru.

Mae'r addasiadau i symiau 'heb fod yn arian parod' a 'Symudiadau mewn balansau gweithio' yn ymwneud â'r addasiadau yn Natganiad Llywodraeth Cymru am Lif Arian Parod lle y codir trafodiadau ar adnoddau ond nad eir iddynt mewn arian parod.

Mae'r addasiadau 'Arall' ar gyfer 2025-26 yn ymwneud yn bennaf â'r gwahaniaeth rhwng trafodiadau cyfalaf Llywodraeth Cymru yn yr Alldro Adnoddau, a'r llifoedd arian parod sy'n gysylltiedig â hwy.

Dr Andrew Goodall CBE
Ysgrifennydd Parhaol
a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
26 Tachwedd 2026

Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Barn amodol ar y datganiadau ariannol

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Llywodraeth Cymru a'r Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r rhain yn cynnwys y Crynodeb o'r Alldro Adnoddau; ar gyfer Llywodraeth Cymru ac ar gyfer y Grŵp: y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lif Arian, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol, ac fe fabwysiadodd y DU safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac a addaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys Ei Fawrhydi.

Yn fy marn i, ac eithrio effeithiau posibl y mater a ddatgelwyd ym mharagraff Sail barn amodol, ym mhob ffordd berthnasol, y mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa materion Llywodraeth Cymru a materion y Grŵp ar 31 Mawrth 2026 ac o'u hanghenion net o ran arian parod, eu alldro adnoddau net a'u costau gweithredu net, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys Ei Fawrhydi; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Fawrhydi a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Sail barn amodol

Y llynedd rhoddais farn amodol ar yr ased benthyciad myfyrwyr, gwerth teg amcangyfrifedig o £8.9 biliwn, yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2025 oherwydd ansicrwydd sylweddol ynghylch rhesymoldeb yr amcangyfrif gwerth teg a'r enillion neu'r golled gysylltiedig ar werth teg a gydnabuwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn 2024-25.

Er fy mod wedi gallu cael digon o dystiolaeth archwilio briodol i gefnogi amcangyfrif gwerth teg cau eleni, mae'r ansicrwydd ynghylch y balans agoriadol yn parhau. O ganlyniad mae'n dilyn bod ansicrwydd sylweddol ynghylch rhesymoldeb y golled gysylltiedig ar werth teg yn 2025-26 a gydnabyddir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Nid wyf wedi gallu penderfynu a oedd angen gwneud unrhyw addasiadau i'r symiau hyn.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyr perthnasol:

- mae'r Crynodeb o'r Alldro Adnoddau yn cyflwyno'r alldro yn erbyn y symiau a awdurdodwyd gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 yn briodol ac yn dangos nad aethpwyd dros y cyfansymiau hynny; ac
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran o'm tystysgrif sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, godi amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu am gyfnod o leiaf ddeuddeg mis o'r adeg y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Caiff y sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r Grŵp ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle disgwylir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru heblaw'r datganiadau ariannol, yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff, a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau y nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt. Fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn sylweddol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os wyf yn nodi anghysondebau perthnasol neu gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, ar sail y gwaith a wnaeth, rwy'n dod i'r casgliad bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Fawrhydi a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Fawrhydi a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad Perfformiad a'r adroddiad Atebolrwydd.

Mewn perthynas â'r cyfyngiadau yn unig wrth dderbyn tystiolaeth briodol ddigonol fel y disgrifir yn yr adran Sail barn amodol uchod:

- Nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os ydynt, yn fy marn i, yn berthnasol:

- nid yw'r rhiant wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol neu nid yw ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau na ymwelwyd â nhw gan fy staff;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan archwiliedig o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol yn gyson â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni;
- nid yw gwybodaeth a nodir gan Drysorlys Ei Fawrhydi ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi cael ei datgelu;
- nid yw datgeliadau penodol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys Ei Fawrhydi wedi cael eu gwneud, neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi.

Rwy'n adrodd, drwy eithriad, nad oedd un uwch swyddog wedi rhoi cydsyniad ynghylch datgelu gwybodaeth a nodir gan Drysorlys Ei Fawrhydi ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill. Derbyniodd Llywodraeth Cymru geisiadau'r uwch swyddog ac o ganlyniad nid yw'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn cynnwys yr wybodaeth hon.

Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am:

- cynnal cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2025-26 yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod wedi'i argyhoeddi eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau bod Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2025-26 yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;

- rheolaethau mewnol, fel y mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi'r datganiadau ariannol i fod yn rhydd rhag camddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall;
- asesu gallu Llywodraeth Cymru a'r Grŵp i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Prif Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a'r Grŵp yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol, eu hardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Fy amcanion yw sicrhau sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn faterol os, yn unigol neu ar y cyfan, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o fethu â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Llywodraeth Cymru a Grwpiau sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll apha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuedig neu honedig; ac
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y risg o dwyll mewn perthynas â rheolwyr yn diystyru rheolaethau, a ystyrir yn risg sylweddol ym mhob corff archwiliedig.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Llywodraeth Cymru a'r Grŵp yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Llywodraeth Cymru a'r Grŵp yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Llywodraeth Cymru a'r Grŵp.
- Cael dealltwriaeth o berthnasoedd â phartïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiad ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol er mwyn asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi rheolwyr, y Prif Swyddog Cyfrifyddu (fel y rhai sy'n gyfrifol am Lywodraethu) am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau perthnasol eraill; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n dangos rhagfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg fusnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes.

Hefyd, cyfleuais deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i bob aelod o'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid wrth ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Llywodraeth Cymru a'r Grŵp, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol i'w gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad fy archwilydd.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol imi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y Crynodeb o Alldro Adnoddau yn cyflwyno'r canlyniad yn briodol yn erbyn y symiau a awdurdodwyd gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 ac yn dangos nad aethpwyd dros y cyfansymiau hynny.

Mae'n ofynnol imi hefyd gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith pethau eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwiliad sylweddol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Gweler fy adroddiad ar dudalennau 171 i 172.

Catherine Mealing-Jones
Archwilydd Cyffredinol Cymru
27 Tachwedd 2026

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Llywodraeth Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Phrif Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chyfanrwydd gwefan Llywodraeth Cymru; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd

Cyflwyniad

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd ar ddatganiadau ariannol Llywodraeth Cymru a'r Grŵp.

Yn yr adroddiad hwn ar ddatganiadau ariannol 2025-26 Llywodraeth Cymru a'r Grŵp, nodais y rhesymau a'r cyd-destun dros fy marn wir a theg amodol o ran yr ased benthyciadau y fyfyrwyr.

Fy marn wir a theg amodol ar ased benthyciadau i fyfyrwyr

Mae'r ased benthyciadau i fyfyrwyr yn amcangyfrif o werth benthyciadau myfyrwyr y disgwylir iddynt gael eu had-dalu ac fe'i cyfrifir gan ddefnyddio proses fodelu gymhleth. Hyd at ac yn cynnwys 2024-25, addasodd Llywodraeth Cymru ffeiliau modelu a ddarparwyd rai blynyddoedd ynghynt gan Adran Addysg Lloegr (DfE) i lunio ei hamcangyfrif, tra bod DfE, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi symud at dechneg modelu ystadegol newydd gan ddefnyddio data mwy cyfredol. Roeddwn eisoes wedi adrodd fy mhryderon ynghylch parhau i ddefnyddio model a oedd yn heneiddio i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru yn fy Adroddiadau Archwilio Cyfrifon 2022-23 a 2023-24.

Yn 2024-25, rhoddais farn amodol ar amcangyfrif o £8.9 biliwn o werth teg yr ased benthyciadau myfyrwyr yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2025, oherwydd ansicrwydd sylweddol ynghylch rhesymoldeb yr amcangyfrif o werth teg a'r enillion neu golled gysylltiedig ar werth teg a gydnabuddwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn 2024-25.

Er fy mod wedi gallu cael digon o dystiolaeth archwilio briodol i ategu amcangyfrif gwerth teg cau eleni, mae'r ansicrwydd ynghylch y balans agoriadol yn parhau. O ganlyniad, mae ansicrwydd sylweddol ynghylch rhesymoldeb y golled gwerth teg gysylltiedig a gydnabyddir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer 2025-26.

Nid wyf wedi gallu penderfynu a oedd angen unrhyw addasiadau i'r symiau hyn ac, o ganlyniad rwyf wedi rhoi barn amodol ar fy marn wir a theg ar y golled a godwyd ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn.

Ystyriaethau ehangach

Fodd bynnag, mae'n galonogol bod Llywodraeth Cymru bellach wedi mabwysiadu'r model newydd. Gwnaed hyn cyn gynted ag y daeth model cadarn a phrofedig ar gael i Gymru yn 2025-26, ac rwy'n nodi'r ymdrech sylweddol a roddwyd i gyflwyno'r model cymhleth hwn gyda chyfyngiadau o adnoddau. Mae amcangyfrif cadarn yn hanfodol nid yn unig at ddibenion adrodd ariannol, ond hefyd wrth ystyried gwerth am arian a materion polisi.

Nodais yn fy adroddiad y llynedd y byddai'n debygol y byddai'r model newydd yn arwain at ostyngiad sylweddol yng ngwerth yr ased benthyciadau i fyfyrwyr. Dyna sydd wedi digwydd, gyda'r gwerth cau rhyw £1.8 biliwn yn is na'r gwerth agoriadol.

Gallai hyn gael goblygiadau i bolisi cyllid myfyrwyr yn y dyfodol. Mae Trysorlys Ei Fawrhydi wedi ariannu'r cynlluniau benthyciadau myfyrwyr yn llawn ar y sail bod y costau yn gymharol debyg ar draws y pedair gwlad.

Catherine Mealing-Jones
Archwilydd Cyffredinol Cymru
27 Tachwedd 2026

Datganiadau Ariannol

Datganiad Cyfunol o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

	Nodyn	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025	
		Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m
Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau	2	(67)	(379)	(71)	(389)
Incwm gweithredol arall	2	(328)	(762)	(214)	(619)
Cyfanswm incwm gweithredu		**(395)**	**(1,141)**	**(285)**	**(1,008)**
Costau staff	3	453	7,684	418	7,175
Gwariant	3	27,800	20,882	23,555	17,312
Cost darpariaeth	3	444	526	278	297
Cyfanswm gwariant gweithredu		**28,697**	**29,092**	**24,251**	**24,784**
Gwariant net am y flwyddyn		**28,302**	**27,951**	**23,966**	**23,776**
Gwariant net cynhwysfawr arall: Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i gostau gweithredu net:					
(Elw)/colled net ar ailbrisio eiddo, offer, cyfarpar a buddsoddiadau		(561)	(1,159)	884	892
(Elw)/colled actiwaraidd ar atebolrwyddau cynlluniau pensiwn a symudiadau eraill yn achos cronfeydd wrth gefn		(8)	(9)	(2)	(31)
Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn		**27,733**	**26,783**	**24,848**	**24,637**

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 180 i 226 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad Cyfunol o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2026

	Nodyn	Ar 31 Mawrth 2026		Ar 31 Mawrth 2025	
		Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m
Asedau anghyfredol:					
Eiddo, offer a chyfarpar	4	22,522	31,755	22,155	30,381
Asedau anniriaethol	5	54	141	50	131
Asedau ariannol	6	9,851	8,173	11,470	9,875
Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill	8	10	259	11	278
Asedau hawl-i-ddefnyddio	15	36	745	39	745
Cyfanswm yr asedau anghyfredol		**32,473**	**41,073**	**33,725**	**41,410**
Asedau cyfredol:					
Asedau sydd wedi'u dosbarthu fel rhai a ddelir i'w gwerthu		-	1	-	2
Asedau ariannol	6	386	386	393	393
Stocrestri	7	243	379	247	379
Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill	8	358	828	382	810
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	9	52	1,537	111	1,444
Cyfanswm yr asedau cyfredol		**1,039**	**3,131**	**1,133**	**3,028**
Cyfanswm yr asedau		**33,512**	**44,204**	**34,858**	**44,438**
Atebolrwyddau cyfredol:					
Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill	10	(1,851)	(3,331)	(1,898)	(3,285)
Darpariaethau	11	(453)	(531)	(380)	(450)

Datganiad Cyfunol o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2026 (parhad)

	Nodyn	Ar 31 Mawrth 2026		Ar 31 Mawrth 2025	
		Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m
Atebolrwyddau eraill	13	-	-	-	-
Cyfanswm yr atebolrwyddau cyfredol		**(2,304)**	**(3,862)**	**(2,278)**	**(3,735)**
Cyfanswm yr asedau, llai yr atebolrwyddau cyfredol		**31,208**	**40,342**	**32,580**	**40,703**
Atebolrwyddau anghyfredol:					
Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill	10	(623)	(1,486)	(628)	(1,402)
Darpariaethau	11	(1,617)	(1,666)	(1,483)	(1,539)
Atebolrwyddau eraill	13	(14)	(14)	(27)	(26)
Cyfanswm yr atebolrwyddau anghyfredol		**(2,254)**	**(3,166)**	**(2,138)**	**(2,967)**
Cyfanswm yr asedau, llai cyfanswm yr atebolrwyddau		**28,954**	**37,176**	**30,442**	**37,736**
Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill					
Cronfa gyffredinol		14,878	20,352	17,219	22,274
Cronfa ailbrisio wrth gefn		14,076	16,824	13,223	15,462
Cyfanswm ecwiti		**28,954**	**37,176**	**30,442**	**37,736**

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 180 i 226 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Dr Andrew Goodall CBE
Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu
26 Tachwedd 2026

Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

	Nodyn	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025	
		Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m
Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu:					
Gwariant gweithredu net		(28,302)	(27,951)	(23,966)	(23,776)
Darpariaethau a ddefnyddiwyd	11	(237)	(322)	(197)	(203)
Addasiadau ar gyfer trafodiadau nad ydynt yn arian parod		3,187	3,772	712	1,366
Symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian parod	14	33	86	219	173
Arall		-	-	3	16
(All-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu		**(25,319)**	**(24,415)**	**(23,229)**	**(22,424)**
Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi:					
Prynu eiddo, offer a chyfarpar		(245)	(1,054)	(335)	(1,099)
Prynu eiddo, offer a chyfarpar – addasiadau ar gyfer ychwanegiadau nad ydynt yn arian parod mewn perthynas â PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill		14	133	93	167
Prynu asedau anniriaethol		(19)	(42)	(28)	(51)
Enillion yn sgil gwaredu eiddo, offer a chyfarpar		1	4	3	5
Enillion yn sgil gwaredu asedau datblygu		115	115	6	6
Prynu asedau datblygu		(25)	(25)	(32)	(32)
Rhoi benthyciadau a buddsoddiadau		(1,216)	(1,187)	(1,229)	(1,206)
Ad-dalu benthyciadau		346	391	337	341
(All-lif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi		**(1,029)**	**(1,665)**	**(1,185)**	**(1,869)**

Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 (parhad)

	Nodyn	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025	
		Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m
Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido:					
O Gronfa Gyfunol Cymru – wedi'i dynnu yn y flwyddyn		26,460	26,460	24,500	24,500
Cronfa Gyfunol Cymru – blwyddyn flaenorol wedi'i had-dalu		(81)	(81)	(150)	(150)
Elfen gyfalaf taliadau mewn perthynas â lesoedd a PFI ar y fantolen, a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill		(17)	(133)	(16)	(122)
Cyllido net		**26,362**	**26,246**	**24,334**	**24,228**
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod cyn addasiadau ar gyfer derbyniadau a thaliadau i Gronfa Gyfunol Cymru		**14**	**166**	**(80)**	**(65)**
Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru		(73)	(73)	(53)	(53)
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod ar ôl addasiadau ar gyfer derbyniadau a thaliadau i Gronfa Gyfunol Cymru	**9**	**(59)**	**93**	**(133)**	**(118)**
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn	**9**	**111**	**1,444**	**244**	**1,562**
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	**9**	**52**	**1,537**	**111**	**1,444**

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 180 i 226 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar 31 Mawrth 2026

Grŵp Llywodraeth Cymru	Cronfa Gyffredinol £m	Cronfa Ailbrisio wrth Gefn £m	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn £m
Balans ar 31 Mawrth 2024	**21,612**	**16,484**	**38,096**
Pontio i IFRS 16	-	-	-
Cronfa Gyfunol Cymru – arian a dynnwyd	24,500	–	24,500
Cronfa Gyfunol Cymru – arian y bernir ei fod wedi'i dynnu	-	-	-
Addasiad (taladwy)/derbyniadwy Cronfa Gyfunol Cymru[a]	(81)	-	(81)
Gwariant net am y flwyddyn	(23,776)	-	(23,776)
Enillion a cholledion ailbrisio	-	(892)	(892)
Trosglwyddiadau rhwng Cronfeydd wrth Gefn	129	(129)	-
Addasiadau eraill	(110)	(1)	(111)
Balans ar 31 Mawrth 2025	**22,274**	**15,462**	**37,736**
Cronfa Gyfunol Cymru – arian a dynnwyd	26,460	-	26,460
Cronfa Gyfunol Cymru – arian y bernir ei fod wedi'i dynnu	-	-	-
Addasiad (taladwy)/derbyniadwy Cronfa Gyfunol Cymru[a]	(33)	-	(33)
Gwariant net am y flwyddyn	(27,951)	-	(27,951)
Enillion a cholledion ailbrisio	-	1,159	1,159
Trosglwyddiadau rhwng Cronfeydd wrth Gefn	(200)	200	-
Addasiadau eraill[b]	(198)	3	(195)
Balans ar 31 Mawrth 2026	**20,352**	**16,824**	**37,176**

a Mae addasiad (taladwy)/derbyniadwy Cronfa Gyfunol Cymru yn cynnwys cyllid a dynnwyd na chafodd ei wario yn 2025-26 o £33m (2024-25: £81m).

b Mae addasiadau eraill yn adlewyrchu'n bennaf enillion pensiwn craidd Llywodraeth Cymru ac addasiad gwerth £32m i wrthdroi newid amherthnasol rhwng cyfrifon drafft a chyfrifon terfynol 2024-25 ar gyfer endid cyfunol, yn bennaf oherwydd gwrthdroi enillion actiwaraidd ar atebolrwyddau cynlluniau pensiwn.

Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar 31 Mawrth 2026 (parhad)

Craidd Llywodraeth Cymru	Cronfa Gyffredinol £m	Cronfa Ailbrisio wrth Gefn £m	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn £m
Balans ar 31 Mawrth 2024	**16,873**	**14,156**	**31,029**
Cronfa Gyfunol Cymru – arian a dynnwyd	24,500	-	24,500
Cronfa Gyfunol Cymru – arian y bernir ei fod wedi'i dynnu	-	-	-
Addasiad (taladwy)/derbyniadwy Cronfa Gyfunol Cymru[a]	(81)	-	(81)
Gwariant net am y flwyddyn	(23,966)	-	(23,966)
Enillion a cholledion ailbrisio	-	(884)	(884)
Trosglwyddiadau rhwng Cronfeydd wrth Gefn	49	(49)	-
Addasiadau eraill	(156)	-	(156)
Balans ar 31 Mawrth 2025	**17,219**	**13,223**	**30,442**
Cronfa Gyfunol Cymru – arian a dynnwyd	26,460	-	26,460
Cronfa Gyfunol Cymru – arian y bernir ei fod wedi'i dynnu	-	-	-
Addasiad (taladwy)/derbyniadwy Cronfa Gyfunol Cymru[a]	(33)	-	(33)
Gwariant net am y flwyddyn	(28,302)	-	(28,302)
Enillion a cholledion ailbrisio	-	561	561
Trosglwyddiadau rhwng Cronfeydd wrth Gefn	(292)	292	-
Addasiadau eraill[b]	(174)	-	(174)
Balans ar 31 Mawrth 2026	**14,878**	**14,076**	**28,954**

a Mae addasiad (taladwy)/derbyniadwy Cronfa Gyfunol Cymru yn cynnwys cyllid a dynnwyd na chafodd ei wario yn 2025-26 o £33m (2024-25: £81m).

b Mae addasiadau eraill yn cynnwys asedau a drosglwyddwyd oddi ar y fantolen o £120m, Derbyniadau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol o £65m ac enillion actiwaraidd ar atebolrwyddau cynlluniau pensiwn o £8m.

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 180 i 226 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Nodiadau i'r Cyfrifon

1. Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM).
Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fo FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Llywodraeth Cymru at ddibenion rhoi golwg gywir a theg.

Disgrifir y polisïau penodol sydd wedi cael eu mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru (ar gyfer y gweithgarwch adroddadwy) yn Atodiad A neu fel troednodiadau i'r nodyn perthnasol. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau y bernir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratoir o dan IFRS, mae FReM hefyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru baratoi prif ddatganiadau ychwanegol. Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau sy'n dangos alldro gwirioneddol yn erbyn y gyllideb a nodiadau ategol sy'n cysoni alldro â gwariant gweithredol net, ac adnoddau â gofyniad arian parod wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

1.1 Confensiwn Cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi ar sail croniadau o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi'u haddasu i gyfrif am ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, asedau datblygu ac asedau ac atebolrwyddau ariannol penodol.

1.2 Dyfarniadau Cyfrifyddu Beirniadol a Ffynonellau Amcangyfrif Allweddol

Mae paratoi'r datganiadau ariannol hyn yn gofyn i reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar gymhwyso polisïau a symiau adroddedig o asedau ac atebolrwyddau, incwm a gwariant. Mae'r dyfarniadau a wneir a'r ffynonellau amcangyfrif yn cael eu datgelu ym mhob polisi cyfrifyddu perthnasol yn Atodiad A. Mae'r asesiadau hyn yn seiliedig ar ffactorau hanesyddol a ffactorau eraill y credir eu bod yn rhesymol, y mae eu canlyniadau yn sail i wneud penderfyniadau. Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sylfaenol yn cael eu hadolygu yn barhaus. Mae'r meysydd perthnasol o farn ac amcangyfrif yn cynnwys:

- **Incwm Gweithredu** – gweler Nodyn 2 a pholisi cyfrifyddu A.1.
- **Gwariant, gan gynnwys Gwariant Grantiau** – gweler Nodyn 3 a pholisi cyfrifyddu A.2.
- **Asedau'r Rhwydwaith Ffyrdd a Rheilffyrdd** – gweler Nodyn 4.1 a pholisïau cyfrifyddu A.4 ac A.5.
- **Asedau Ariannol, gan gynnwys Benthyciadau i Fyfyrwyr a Cymorth i Brynu Cymru** – gweler Nodyn 6 a pholisi cyfrifyddu A.6.
- **Darpariaethau, gan gynnwys Cronfa Risg Cymru –** gweler Nodyn 11 a pholisi cyfrifyddu A.12.

1.3 Sail Cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu'r asedau a'r atebolrwyddau cyfunol a chanlyniadau endidau o fewn ffin gyfrifyddu gyfuno Llywodraeth Cymru. Mae'r ffin gyfrifyddu ar gyfer cyfuno yn cynnwys is-ymgymeriadau fel sy'n ofynnol o dan FReM, lle y'u dynodir i'w cyfuno drwy offeryn statudol a lle y maent yn uwch na throthwy de minimis ar gyfer perthnasedd.

Bydd yr holl endidau o fewn is-grŵp yn cael eu cyfuno:

- Os yw rhiant-endid yr is-grŵp yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi sy'n gymwys ar gyfer y flwyddyn ariannol; ac
- Os yw'r is-grŵp cyfan yn uwch na'r trothwy de minimis cyfuno ar gyfer perthnasedd.

Mae'r ffin gyfrifyddu gyfuno hefyd yn cynnwys is-ymgymeriadau uwch na throthwy de minimis a oedd wedi cael eu cyfuno ar sail Safonau Cyfrifyddu Grŵp IFRS cyn i Orchmynion Dynodi gael eu cyflwyno yng Nghymru (yn effeithiol o 2017-18), ac nad yw'r broses ddynodi wedi dod i ben eto ar eu cyfer. Diben hyn yw sicrhau cysondeb yn null cyflwyno cyfunol y Grŵp wrth i brosiect alinio Llywodraeth Cymru barhau.

Ers i Orchmynion Dynodi gael eu cyflwyno, ychwanegir endidau at y ffin gyfrifyddu gyfuno dim ond os ydynt wedi'u dynodi ac yn berthnasol.

Mae is-gwmnïau yn cael eu cyfuno o ddatganiadau ariannol drafft os nad oes datganiadau terfynol ar gael. Mae trafodiadau rhwng endidau a gynhwysir yn y cyfuno'n cael eu dileu.

Darperir gwybodaeth bellach am yr endidau o fewn y ffin gyfuno yn yr Adroddiad Perfformiad sy'n cyd-fynd â'r Datganiadau Ariannol hyn, gweler tudalennau 53 i 56.

2. Incwm Gweithredu

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025	
	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m
Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau:				
Incwm o eiddo a buddsoddiadau	56	61	60	68
Incwm Trafnidiaeth Cymru	-	264	-	271
Arall	11	54	11	50
	67	**379**	**71**	**389**
Incwm gweithredol arall:				
Incwm iechyd[a]	191	607	169	556
Arall[b]	137	155	45	63
	328	**762**	**214**	**619**
Cyfanswm	**395**	**1,141**	**285**	**1,008**

a Cynhwysir o fewn incwm gweithredu Craidd Arall 'incwm iechyd' £17.6m (2024-25: £12.3m) o wariant mewn perthynas â defnyddio nwyddau traul COVID-19 gan gynnwys brechlynnau, pecynnau profion llif unffordd a meddyginiaethau a drosglwyddwyd i Lywodraeth Cymru o Adrannau eraill o Lywodraeth y DU, heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt, fel rhan o'r ymateb ehangach i'r pandemig COVID-19 a dosbarthu rhai cyflenwadau penodol a gaffaelwyd gan Lywodraeth y DU.

b Incwm gweithredu arall wedi'i ailgyflwyno i symleiddio'r cyflwyno drwy gyfuno incwm gweithredu Arall nad yw'n incwm yr UE ac incwm gweithredu Arall yr UE i incwm gweithredu Arall.

3. Gwariant

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025	
	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m
Gwariant				
Grantiau[a]	24,579	11,422	22,698	10,338
Nwyddau a gwasanaethau[b]	407	6,137	384	5,856
Costau staff	453	7,684	418	7,175
(Enillion)/colledion gwerth teg net ar asedau ariannol yn ôl gwerth teg drwy SOCNE[c]	2,447	2,458	9	37
Dileadau'r polisi benthyciadau i fyfyrwyr	42	42	38	38
PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill	55	64	29	40
Dibrisiant asedau sefydlog	205	688	331	782
Amorteiddio	15	34	15	34
(Elw)/Colled ar werthiadau	(88)	(102)	(2)	(12)
Amhariadau	136	135	53	194
Eitemau eraill nad ydynt yn arian parod	2	4	-	5
	28,253	**28,566**	**23,973**	**24,487**
Darpariaethau				
Cynnydd mewn darpariaethau	444	526	278	297
Cyfanswm	**28,697**	**29,092**	**24,251**	**24,784**

a Mae gwariant grantiau yn cynnwys grantiau heb eu neilltuo a grantiau wedi'u neilltuo, a gwahanol fathau o gynlluniau grant. Mae rhagor o wybodaeth am wariant grantiau a'r mathau o grantiau a weinyddir gan Lywodraeth Cymru ar gael ar dudalennau 22 i 26 o'r Adroddiad Perfformiad.

b Cynhwysir o fewn Nwyddau a Gwasanaethau Craidd £17.6m (2024-25: £12.3m) o wariant mewn perthynas â defnyddio nwyddau traul COVID-19 gan gynnwys brechlynnau, pecynnau profion llif unffordd a meddyginiaethau a drosglwyddwyd i Lywodraeth Cymru o Adrannau eraill o Lywodraeth y DU, heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt, fel rhan o'r ymateb ehangach i'r pandemig COVID-19 a dosbarthu rhai cyflenwadau penodol a gaffaelwyd gan Lywodraeth y DU.

c Mae benthyciadau myfyrwyr ac asedau ariannol Cymorth i Brynu yn cael eu mesur fel gwerth teg drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r golled gwerth teg net o £2,447m yn cynnwys colled gwerth teg o £2,470m ar fenthyciadau myfyrwyr ac elw gwerth teg o £23m ar asedau ariannol eraill. Mae rhagor o fanylion i'w cael yn Nodyn 6.

Costau Staff

Mae dadansoddiad llawn o gostau staff, gan gynnwys niferoedd staff a gwybodaeth gysylltiedig, wedi'i ddarparu yn Adroddiad Atebolrwydd y ddogfen hon ar dudalennau 149 i 156.

Ffioedd Archwilio

Y swm sy'n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru am roi barn ar ddatganiadau ariannol cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 yw £519,833 (2024-25: £492,733)[a] ac mae wedi'i gynnwys yn y Nwyddau a'r Gwasanaethau a ddatgelir uchod.

Cynhwysir uchod hefyd ffioedd a godir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â chyfrifon eraill a baratoir gan Weinidogion Cymru fel a ganlyn:

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 £	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025[a] £ (Ailddatgan)
Cyfrif Cryno'r GIG[a]	31,682	34,885
Cyfrif Ardrethi Annomestig Cenedlaethol[a]	9,902	9,385
Cyfrif y Llywodraeth Gyfan[b]	-	-
Cronfa Gyfunol Cymru	22,360	21,195

Datgelir ffioedd archwilio cyrff cyfunol o fewn eu cyfrifon unigol.

a Ailddatganwyd o'r flwyddyn flaenorol i adlewyrchu'r costau gwirioneddol yr aethpwyd iddynt yn hytrach nag amcangyfrifon ffioedd.

b Mae Trysorlys EF wedi cadarnhau nad oes gofyniad am archwiliad o Gyfrifon y Llywodraeth Gyfan ar gyfer 2025-26. Yn unol â hynny, nid oes unrhyw ffi archwilio wedi'i chodi mewn perthynas â gwasanaethau archwilio Llywodraeth Cymru.

4. Eiddo, Offer a Chyfarpar

	Seilwaith Asedau[a] £m	Tir £m	Adeiladau gan gynnwys Anheddau £m	Offer a Chyfarpar[b] £m	Taliadau ar gyfrif ac Asedau sy'n cael eu Hadeiladu £m	Cyfanswm £m
Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025						
Ar 1 Ebrill 2024	**27,812**	**385**	**3,767**	**1,585**	**2,767**	**36,316**
Ychwanegiadau	142	-	21	142	794	1,099
Gwarediadau	(141)	(2)	(7)	(132)	-	(282)
Trosglwyddiadau	(115)	-	2	-	(1)	(114)
Amhariadau	-	(2)	(164)	(11)	(9)	(186)
Ailbrisiadau	(1,132)	11	97	-	-	(1,024)
Ailddosbarthiadau (wedi'u hailgyflwyno)[c]	748	(2)	343	77	(1,181)	(15)
Ar 31 Mawrth 2025	**27,314**	**390**	**4,059**	**1,661**	**2,370**	**35,794**
Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025						
Ar 1 Ebrill 2024	**3,897**	**-**	**287**	**999**	**-**	**5,183**
Codwyd tâl yn y flwyddyn	377	-	144	162	-	683
Gwarediadau	(141)	-	(5)	(132)	-	(278)
Trosglwyddiadau	(19)	-	-	-	-	(19)
Amhariadau	-	-	(25)	-	-	(25)
Ailbrisiadau	(110)	-	(10)	-	-	(120)
Ailddosbarthiadau (wedi'u hailgyflwyno)[c]	3	-	(5)	(9)	-	(11)
Ar 31 Mawrth 2025	**4,007**	**-**	**386**	**1,020**	**-**	**5,413**
Swm cario ar 31 Mawrth 2025	**23,307**	**390**	**3,673**	**641**	**2,370**	**30,381**
Swm cario ar 31 Mawrth 2024	23,915	385	3,480	586	2,767	31,133
Cyllido asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025						
O dan berchnogaeth	22,583	387	3,576	641	1,723	28,910
PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill	724	3	97	-	647	1,471
Ar 31 Mawrth 2025	**23,307**	**390**	**3,673**	**641**	**2,370**	**30,381**

4. Eiddo, Offer a Chyfarpar (parhad)

	Seilwaith Asedau[a] £m	Tir £m	Adeiladau gan gynnwys Anheddau £m	Offer a Chyfarpar[b] £m	Taliadau ar gyfrif ac Asedau sy'n cael eu Hadeiladu £m	Cyfanswm £m
Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026						
Ar 1 Ebrill 2025	**27,314**	**390**	**4,059**	**1,661**	**2,370**	**35,794**
Ychwanegiadau	177	2	33	183	659	1,054
Gwarediadau	(187)	-	(2)	(136)	-	(325)
Trosglwyddiadau	(136)	-	-	-	-	(136)
Amhariadau	(69)	3	(9)	(22)	(10)	(107)
Ailbrisiadau	924	9	287	-	-	1,220
Ailddosbarthiadau	940	(1)	152	44	(1,152)	(17)
Ar 31 Mawrth 2026	**28,963**	**403**	**4,520**	**1,730**	**1,867**	**37,483**
Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026						
Ar 1 Ebrill 2025	**4,007**	**-**	**386**	**1,020**	**-**	**5,413**
Codwyd tâl yn y flwyddyn	262	-	162	163	-	587
Gwarediadau	(182)	-	(1)	(108)	-	(291)
Trosglwyddiadau	(8)	-	-	-	-	(8)
Amhariadau	7	-	(29)	-	-	(22)
Ailbrisiadau	37	-	24	-	-	61
Ailddosbarthiadau	-	-	-	(12)	-	(12)
Ar 31 Mawrth 2026	**4,123**	**-**	**542**	**1,063**	**-**	**5,728**
Swm cario ar 31 Mawrth 2026	**24,840**	**403**	**3,978**	**667**	**1,867**	**31,755**
Cyllido asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026						
O dan berchnogaeth	24,535	402	3,943	667	1,013	30,560
PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill	305	1	35	-	854	1,195
Ar 31 Mawrth 2026	**24,840**	**403**	**3,978**	**667**	**1,867**	**31,755**
Adran graidd ar 31 Mawrth 2026	**21,430**	**36**	**172**	**33**	**851**	**22,522**
Cyrff Iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2026	**3,410**	**367**	**3,806**	**634**	**1,016**	**9,233**
Adran graidd ar 31 Mawrth 2025	20,582	37	179	32	1,325	22,155
Cyrff Iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2025	2,725	353	3,494	609	1,045	8,226

a Mae asedau seilwaith yn cynnwys Asedau Rhwydwaith fel y nodir yn Nodyn 4.1 ar gyfer Rhwydweithiau Ffyrdd a Rheilffyrdd, ac asedau seilwaith eraill fel yr ased Fibrespeed.

b Mae Offer a Chyfarpar yn cynnwys Technoleg Gwybodaeth, Gosodiadau a Ffitiadau, Offer a Pheiriannau a Chyfarpar Trafnidiaeth.

c Mae ailddosbarthiadau wedi'u hailgyflwyno i gynnwys asedau wedi'u hailddosbarthu i'w dal i'w gwerthu ac asedau wedi'u hailddosbarthu i Hawl-i-ddefnyddio i symleiddio cyflwyno symiau dibwys.

Tir ac Adeiladau, gan gynnwys Anheddau

Mae tir ac adeiladau, gan gynnwys Anheddau a thir ac adeiladau Rhydd-ddaliadol, yn cael eu dal adeg y prisiad gan gael eu hasesu yn ôl gwerth teg/gwerth y farchnad ar gyfer eu defnydd presennol. O fewn y categori hwnnw, drwy eithriad, penderfynir mai'r mesur mwyaf priodol o werth cyfredol mewn defnydd presennol yw cost amnewid ddibrisiedig ar gyfer rhai asedau. Gwerth y farchnad sydd i asedau a ddelir i'w gwerthu.

Cynhelir prisiadau proffesiynol allanol bob pum mlynedd ar gyfer y rhan fwyaf o ystad Llywodraeth Cymru, ac yn flynyddol ar gyfer asedau penodol (sef, fel arfer, asedau yn y portffolio safleoedd strategol). Yn y blynyddoedd ariannol rhwng y prisiadau pum mlynedd ffurfiol, mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol yn cael eu haddasu gan ddefnyddio'r mynegeion diweddaraf sydd ar gael ym mis Mawrth bob blwyddyn ariannol i ddarparu amcangyfrif rhesymol o werth. Er hynny, pan fydd asedau'n cael eu caffael neu'n cael eu newid yn sylweddol, mae'n arferol bod prisiad cyfredol yn cael ei gomisiynu.

Cafodd y rhan fwyaf o dir ac adeiladau rhydd-ddaliadol Craidd Llywodraeth Cymru asesiad prisio pum mlynedd ar 31 Mawrth 2025, gan Syrfewyr Siartredig Avison Young. Cafodd y prisiadau a oedd yn destun adolygiad blynyddol eu paratoi'n bennaf ar 28 Chwefror 2026 gan Alder King. Caiff yr holl asedau eu prisio yn unol â safonau RICS ar gyfer adrodd ariannol fel y'u cyhoeddwyd yn eu hatodiad ar gyfer y DU o'r safonau byd-eang (y Llyfr Coch).

Mae ffigurau Grŵp Llywodraeth Cymru yn cynnwys Tir ac Adeiladau'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG a gafodd eu hailbrisio gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio gyda dyddiad dod i rym o 1 Ebrill 2022. Mae'r prisiad wedi'i baratoi yn unol â thelerau Safonau Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, 6ed argraffiad. Mae Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cymhwyso'r model ailbrisio a nodir yn IAS 16 fel y mae wedi'i addasu gan FReM. Mae tir ac adeiladau yn cael eu cadw ar werth marchnadol ar gyfer defnydd presennol, ac eithrio rhai asedau y penderfynir mai'r mesur mwyaf priodol o werth cyfredol mewn defnydd presennol ar eu cyfer yw cost amnewid ddibrisiedig. Cymhwysir mynegeio yn y blynyddoedd rhwng prisiadau pum mlynedd.

4.1 Asedau'r Rhwydwaith – Eiddo, Offer a Chyfarpar

	Y Rhwydwaith Ffyrdd £m	Asedau'r Rhwydwaith – Rheilffyrdd £m	Cyfanswm £m
Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026			
Ar 1 Ebrill 2025	24,552	2,724	27,276
Ychwanegiadau	177	-	177
Gwarediadau	(187)	-	(187)
Trosglwyddiadau	(135)	-	(135)
Amhariadau	(69)	-	(69)
Ailbrisiadau	671	253	924
Ailddosbarthiadau	508	432	940
Ar 31 Mawrth 2026	**25,517**	**3,409**	**28,926**
Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026			
Ar 1 Ebrill 2025	3,980	1	3,981
Codwyd tâl yn y flwyddyn	187	72	259
Gwarediadau	(182)	-	(182)
Trosglwyddiadau	(8)	-	(8)
Amhariadau	7	-	7
Ailbrisiadau	109	(72)	37
Ailddosbarthiadau	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2026	**4,093**	**1**	**4,094**
Swm cario ar 31 Mawrth 2026	**21,424**	**3,408**	**24,832**
Swm cario ar 31 Mawrth 2025	**20,572**	**2,723**	**23,295**
Adran graidd ar 31 Mawrth 2026	21,424	-	21,424
Cyrff Iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2026	-	3,408	3,408

Y Rhwydwaith Ffyrdd

Mae rhwydwaith ffyrdd Llywodraeth Cymru yn cynnwys ffyrdd A mawr a elwir yn gefnffyrdd, a thraffyrdd. Mae'n cael ei drin fel un ased seilwaith a chaiff ei brisio ar Gost Amnewid Ddibrisiedig gan ddefnyddio model y System Prisio Asedau Awdurdodau Ffyrdd (RAAVS). Cynhaliwyd y prisiad llawn diwethaf o'r rhwydwaith yn 2024-25 ac fe'i cynhelir bob pum mlynedd. Mae prisiadau interim yn defnyddio cyfres o gostau safonol i brisio cydrannau unigol y rhwydwaith ffyrdd, a mynegeion i ailbrisio'r rhain yn flynyddol.

Mae Mynegai Baxter a ddefnyddir ym mhrisiad y model RAAVS yn sensitif i ansicrwydd macroeconomaidd. Gallai amrywiadau yn y mynegai hwnnw yn y dyfodol effeithio ar brisiad yr asedau hyn mewn cyfnodau adrodd dilynol. Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd isod yn adlewyrchu'r effaith ar y prisiad Cost Amnewid Ddibrisiedig yn sgil newid pwynt canran yn y mynegai.

	Cost Amnewid Ddibrisiedig (-) £m	Cost Amnewid Ddibrisiedig (+) £m
Mynegai Baxter -1% / +1%	(202)	202

Mae mynegai Baxter yn cael ei gymhwyso i brisio arwyneb strwythurau a chyfathrebiadau'r rhwydwaith, i adlewyrchu symudiadau chwyddiant mewn costau adeiladu. Gweinyddir mynegai Baxter gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Costau Adeiladu (BCIS). Mae BCIS yn defnyddio Mynegeion Prisiau Cynhyrchwyr (PPI) a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) i gymhwyso mynegeio i werth y Rhwydwaith Ffyrdd. Yn unol â'r blynyddoedd blaenorol, mae mynegeion cyfartalog Baxter Ch2 2025-26 wedi'u cymhwyso yn y prisiad. Ym mis Mawrth 2025, gohiriodd SYG gyhoeddi PPI am y tro i adolygu problem gyda'r fethodoleg cysylltu cyfnodau sy'n effeithio ar ddata hanesyddol o 2008 ymlaen. Ym mis Hydref 2025, ailddechreuodd SYG gyhoeddi PPI, gan gynnwys cyfresi hanesyddol diwygiedig[63].

Er hynny, nid oes unrhyw ddiwygiadau hanesyddol wedi'u cyhoeddi i fynegai Baxter ers i SYG gyhoeddi cyfresi hanesyddol diwygiedig ym mis Hydref 2025 ac ni ddisgwylir unrhyw ddiwygiadau o'r fath. O gofio nad oes unrhyw newidiadau hanesyddol wedi bod i fynegai Baxter, mae'r prisiad ffyrdd ar 31 Mawrth 2026 yn adlewyrchu amcangyfrif rheoli rhesymol yn seiliedig ar yr amodau hysbys a'r data sydd ar gael ar y dyddiad adrodd.

Y Rhwydwaith Rheilffyrdd

Trafnidiaeth Cymru (TrC) sy'n rheoli'r ased rhwydwaith rheilffyrdd a elwir yn Llinellau Craidd y Cymoedd, sy'n cynnwys llinellau Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert. Mae'n cael ei drin fel un ased seilwaith ac yn cael ei brisio ar Gost Amnewid Ddibrisiedig gan ddefnyddio model prisio a gafodd ei greu gan TrC gyda chymorth AtkinsRéalis UK Limited (priswyr proffesiynol) gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan TrC. Cynhaliwyd y prisiad llawn diwethaf o'r rhwydwaith ar 31 Mawrth 2022 a chaiff ei gynnal o leiaf bob pum mlynedd. Cymhwysir mynegeion mewnbwn i restr brisiau safonol o gydrannau'r rhwydwaith mewn cyfnodau interim.

Er mwyn cynhyrchu'r prisiad hwn mae angen defnyddio rhagdybiaethau, amcangyfrifon a barn broffesiynol. Ystyrir mai'r rhagdybiaethau allweddol yn y prisiad yw: bywyd asedau a gweddill bywydau asedau cydrannau'r rhwydwaith, addasiad iawndal tir a ffactor risg. Ceir manylion llawn y rhagdybiaethau a'r ansicrwydd amcangyfrif yng nghyfrifon TrC: Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol | Trafnidiaeth Cymru.

63 Cynllun datblygu prisiau cynhyrchwyr – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd canlynol yn adlewyrchu'r ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif yn y prisiad, gan ddangos effaith newidiadau mewn rhagdybiaethau ynghylch gwerth cyffredinol ased Llinellau Craidd y Cymoedd.

- Mae **Senario 1** yn dangos effaith cynnydd neu leihad o 10% yng ngweddill bywydau asedau cydrannau'r rhwydwaith rheilffyrdd cyfatebol modern
- Mae **Senario 2** yn dangos yr effaith pe bai'r addasiad iawndal tir (45% fel arfer) yn cynyddu neu'n lleihau 10%; h.y. addasiad iawndal o 35% neu 55% yn y drefn honno.
- Mae **Senario 3** yn dangos effaith addasiad i'r ffactor risg a gymhwysir i'r prisiadau DRC cyffredinol, sef 42.6% ar hyn o bryd, yn ôl cynnydd neu leihad o 10%, gan ddangos ffactorau risg o 52.6% a 32.6% i bob pwrpas.

Math	Cost Amnewid Ddibrisiedig (-) £m	Cost Amnewid Ddibrisiedig (+) £m
Senario 1	(276)	216
Senario 2	(44)	44
Senario 3	(194)	194

Mae'r model yn cymhwyso mynegeio i gyfraddau uned mewn blynyddoedd rhwng ailasesiadau llawn o gyfraddau uned. Y mynegai a ddefnyddir yw CPI-H ar gyfer tir a CPI ar gyfer pob categori arall o asedau.

Ceir rhagor o wybodaeth am brisio a dibrisiant Asedau'r Rhwydwaith yn Atodiad A – Polisïau Cyfrifyddu A.4 ac A.5.

4.2 Asedau Treftadaeth Anweithredol

Mae Llywodraeth Cymru yn dal asedau treftadaeth anweithredol lle mae'r gwerth diwylliannol, addysgol a hanesyddol yn annhebygol o gael ei adlewyrchu'n llawn mewn gwerth ariannol sy'n deillio o fecanwaith neu bris y farchnad. Mae'r asedau hyn yn arbenigol eu natur a naill ai ni ellir sicrhau prisiadau dibynadwy, neu ni ellid eu sicrhau ond am bris gormodol. Nid yw Llywodraeth Cymru felly'n cyfalafu'r asedau hyn yn y cyfrifon.

Mae asedau treftadaeth anweithredol Llywodraeth Cymru yng ngofal Cadw yn cynnwys:

- Cestyll a thai canoloesol.
- Safleoedd crefyddol, safleoedd Rhufeinig.
- Safleoedd ôl-ganoloesol a diwydiannol.
- Safleoedd cynhanesyddol.
- Copïau digidol neu recordiadau o luniau, arolygon.
- Casgliadau o eitemau hynafol.

Ceir rhagor o wybodaeth yn Adroddiad Blynyddol Cadw: Beth a wnawn ni – Cadw.

5. Asedau Anniriaethol

	Technoleg Gwybodaeth			
	Ar 31 Mawrth 2026		Ar 31 Mawrth 2025	
	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m
Cost neu brisiad				
Ar 1 Ebrill	**136**	**325**	**113**	**292**
Ychwanegiadau	19	42	28	51
Gwarediadau	-	(19)	(5)	(15)
Ailddosbarthiadau	-	-	-	(3)
Ar 31 Mawrth	**155**	**348**	**136**	**325**
Amorteiddio				
Ar 1 Ebrill	**86**	**194**	**77**	**177**
Codwyd tâl yn y flwyddyn	15	34	14	34
Gwarediadau	-	(21)	(5)	(14)
Ailddosbarthiadau	-	-	-	(3)
Ar 31 Mawrth	**101**	**207**	**86**	**194**
Swm cario ar 31 Mawrth	**54**	**141**	**50**	**131**
Swm cario ar 1 Ebrill	**50**	**131**	**36**	**115**

6. Asedau Ariannol – Buddsoddiadau a Benthyciadau

	Benthyciadau i Fyfyrwyr £m	Cyfalaf Difidend Cyhoeddus Ymddiriedolaethau'r GIG £m	Asedau Ariannol Eraill £m	Cyfanswm £m
Balans ar 31 Mawrth 2024	**8,178**	**-**	**1,287**	**9,465**
Ychwanegiadau	963	-	259	1,222
Gwarediadau/dileadau	-	-	-	-
Ad-daliadau benthyciadau	(220)	-	(121)	(341)
Amhariadau	-		(1)	(1)
Addasiad gwerth teg		-	-	-
(Enillion)/colledion gwerth teg net ar asedau ariannol yn ôl gwerth teg drwy SOCNE (gweler nodyn 3 Gwariant)[b]	(34)	-	(3)	(37)
Dileadau polisi	(38)			(38)
Ailddosbarthu	-	-	-	-
Addasiadau	-	-	(2)	(2)
Balans ar 31 Mawrth 2025[a]	**8,849**	**-**	**1,419**	**10,268**
Ychwanegiadau	998	-	204	1,202
Gwarediadau/dileadau	-	-	-	-
Ad-daliadau benthyciadau	(251)	-	(140)	(391)
Amhariadau	-	-	(33)	(33)
Addasiad gwerth teg	-	-	-	-
(Enillion)/colledion gwerth teg net ar asedau ariannol yn ôl gwerth teg drwy SOCNE (gweler nodyn 3 Gwariant)[b]	(2,470)	-	13	(2,457)
Dileadau polisi	(42)	-	-	(42)
Ailddosbarthu	-	-	-	-
Addasiadau	-	-	12	12
Balans ar 31 Mawrth 2026[a]	**7,084**	**-**	**1,475**	**8,559**
Craidd Llywodraeth Cymru yn unig				
Ar 31 Mawrth 2026	**7,084**	**276**	**2,877**	**10,237**
Ar 31 Mawrth 2025	**8,849**	**265**	**2,749**	**11,863**

a Cynhwysir yn y balans a gariwyd ymlaen £386m (2024-25: £393m) sy'n ddyledus o fewn blwyddyn.

b Mae benthyciadau i fyfyrwyr yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r golled gwerth teg o £2,470m ar fenthyciadau myfyrwyr yn 2025-26 (2024-25: £34m) i'w phriodoli i'r trosglwyddiad i'r model benthyciadau myfyrwyr newydd a ddatblygwyd fel rhan o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Adran Addysg. Mae'r effaith hon yn cael ei sbarduno yn bennaf gan enillion a ragwelir is ac, o ganlyniad, llai o ad-daliadau disgwyliedig o dan y fethodoleg wedi'i diweddaru. Nodir manylion pellach mesuriad gwerth teg benthyciadau i fyfyrwyr a'r amlygiad i risgiau isod. Mae asedau ariannol Cymorth i Brynu – Cymru yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae rhagor o wybodaeth am falans agor a chau ased ariannol Cymorth i Brynu – Cymru a'r lefel hierarchaeth ar gyfer mesur gwerth teg i'w gweld yng nghyfrifon Banc Datblygu Cymru PLC.

Gwerth Enwol

Mae'r tabl isod yn rhoi cysoniad rhwng gwerth cario a gwerth enwol benthyciadau i fyfyrwyr a roddwyd.

	Benthyciadau i Fyfyrwyr £m
Balans ar 31 Mawrth 2024	**9,344**
Ychwanegiadau	963
Ad-daliadau	(220)
Llog	666
Dileadau polisi	(37)
Balans ar 31 Mawrth 2025	**10,716**
Ychwanegiadau	998
Ad-daliadau	(251)
Llog	458
Dileadau polisi	(42)
Balans ar 31 Mawrth 2026	**11,879**
Addasiadau/amhariadau cau ar gyfer gwerth teg:	
Ar 31 Mawrth 2026	**(4,795)**
Ar 31 Mawrth 2025	(1,867)
Gwerth cario:	
Ar 31 Mawrth 2026	**7,084**
Ar 31 Mawrth 2025	8,849

Cynhwysir yn y balans ar 31 Mawrth 2026 ordaliadau benthyciadau a wnaed i fyfyrwyr gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr o £37.4m (2024-25: £29.4m). Mae'r rhain yn daliadau sydd wedi'u gwneud i fyfyrwyr ond sydd wedi'u dosbarthu fel gordaliadau ar ôl ailasesu cymhwystra. Mae'r benthyciadau yn ad-daladwy gan y myfyriwr trwy'r system Ad-dalu sy'n Ddibynnol ar Incwm (ICR) unwaith y byddant yn mynd i statws ad-dalu.

Trafodir amlygiad y Grŵp i risgiau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r offerynnau ariannol yn y polisïau cyfrifyddu yn A.7.

Yr amlygiad mwyaf i risg credyd ar ddiwedd y cyfnod adrodd yw swm cario pob dosbarth o ased ariannol a grybwyllir uchod.

Mae'r dileadau polisi yn cynnwys symiau a ddilewyd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr mewn perthynas â chanslo'n rhannol, oedran, marwolaeth, methdaliad a methu â gweithio.

6.1 Benthyciadau i Fyfyrwyr

Mae benthyciadau i fyfyrwyr mewn addysg uwch ac addysg bellach yn tarddu o Lywodraeth Cymru ac yn cael eu cydnabod ganddi.

Benthyciadau i Fyfyrwyr

O dan IFRS 9, mae benthyciadau i fyfyrwyr yn cael eu cydnabod yn ôl gwerth teg drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Wrth bennu gwerth teg, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio model llif arian parod wedi'i ddisgowntio (gweler isod) sy'n cynnwys yr holl lifoedd arian parod disgwyliedig yn y dyfodol, gan gynnwys y llog y disgwylir iddo ddod i law. O ganlyniad, cydnabyddir symudiadau mewn prisio fel un addasiad gwerth teg o fewn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Wrth ystyried dibynadwyedd y mewnbynnau a ddefnyddir wrth benderfynu ar werth teg, mae Benthyciadau i Fyfyrwyr wedi'u categoreiddio fel mewnbynnau lefel 3 o dan y safonau cyfrifyddu, a ddiffinnir fel hyn: *If one or more of the significant inputs is not based on observable market data, the instrument is included as level 3*. Mae gwerth teg benthyciadau i fyfyrwyr yn cael ei gyfrifo, felly, gan ddefnyddio amcangyfrifon seiliedig ar y Model Benthyciadau Myfyrwyr pedair elfen a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â'r Adran Addysg, sy'n cynnwys cydrannau ymgeiswyr, gwariant, enillion ac ad-daliadau.

Mae gwerth teg benthyciadau newydd a gyhoeddir hefyd yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r fframwaith modelu hwn, sy'n tynnu ar ddata gweinyddol sy'n ymwneud â nodweddion benthycwyr a pharamedrau polisi i efelychu llifoedd arian parod disgwyliedig gydol oes. Mae'r model wedi'i addasu ar gyfer benthycwyr israddedig sy'n cymryd cynlluniau benthyciadau gwahanol. Mae benthyciadau meistr ôl-raddedig yn dal i gael eu modelu gan ddefnyddio'r model StEP.

Mae'r dull modelu yn dibynnu ar set gymhleth o ragdybiaethau, yn enwedig yn ymwneud ag enillion benthycwyr, amodau macroeconomaidd ac ymddygiad ad-dalu. Mae'r amcanestyniadau yn hirdymor eu natur ond maent yn ymgorffori'r rhagolygon diweddaraf sydd ar gael gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ar gyfer newidynnau allweddol megis twf enillion, chwyddiant a chyfraddau llog yn y tymor byr, ochr yn ochr â rhagdybiaethau economaidd tymor hwy. Yn ôl eu natur, mae prisiad y llyfr benthyciadau myfyrwyr yn ansicr, gan ei fod yn sensitif iawn i amodau macroeconomaidd ac enillion graddedigion dros oes y benthyciadau, a allai ymestyn dros gyfnodau o hyd at 30 mlynedd neu fwy.

Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y model yn cael eu hadolygu'n ffurfiol yn flynyddol ac yn adlewyrchu'r amcangyfrifon gorau fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2026.

Cynhelir dadansoddiad sensitifrwydd i asesu effaith newidiadau mewn rhagdybiaethau economaidd allweddol. Mae siociau i newidynnau allweddol (megis twf enillion, chwyddiant, cyfraddau disgownt a chyfraddau llog) yn cael eu cymhwyso dros y tymor byr (hyd at 2030-31), gan ddychwelyd i ragdybiaethau llinell sylfaen wedi hynny. Bwriad y dull hwn yw adlewyrchu amrywiad economaidd credadwy yn y tymor byr yn hytrach na newidiadau strwythurol parhaus, ac i ddarparu asesiad cyson a chymharol o effaith symudiadau yn ysgogwyr allweddol y prisiad.

Pontio rhwng Modelau

Ym mis Chwefror 2024, ymunodd Llywodraeth Cymru â Chytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Adran Addysg i ddatblygu a chynnal Model Benthyciadau Myfyrwyr Cymru, ochr yn ochr â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill. Fel rhan o'r trawsnewidiad hwn, mae'r model Llwybr Enillion Stochastig blaenorol (StEP)

wedi'i ddisodli gan Biblinell Modelu Cyllid Myfyrwyr a ddatblygwyd gan yr Adran Addysg, sy'n ymgorffori gwelliannau methodolegol.

Yn ystod 2024-25, digwyddodd y trosglwyddo i'r model newydd yn raddol, gyda dull 'hybrid' yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prisio. Roedd hyn yn cyfuno'r cydrannau newydd-ddyfodiaid a gwariant gyda'r model enillion ac ad-daliadau etifeddol. O dan y Cytundeb Lefel Gwasanaeth, darparodd yr Adran Addysg y modelau wedi'u haddasu i'w defnyddio yng Nghymru, gan gynnwys diweddariadau i ddata a phenderfynyddion, gyda Llywodraeth Cymru yn darparu sicrwydd ar allbynnau a derbyn perchnogaeth asedau'r model terfynol.

O 2025-26, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r Biblinell Modelu Cyllid Myfyrwyr a gynhyrchwyd gan yr Adran Addysg yn llawn. Mae pob un o bedair elfen y model newydd – ymgeiswyr, gwariant, enillion ac ad-daliadau – bellach ar waith yn llawn ac yn cael eu defnyddio at ddibenion prisio. Mae hyn yn nodi cwblhau'r trawsnewidiad i ffwrdd o'r dull hybrid ac yn sefydlu fframwaith modelu cyson ar draws pob gweinyddiaeth ddatganoledig. Mae benthyciadau meistr ôl-raddedig yn dal i gael eu modelu gan ddefnyddio'r model StEP.

Nod y model newydd yw cysoni methodolegau rhwng y pedair gweinyddiaeth i wella cymaroldeb ac effeithlonrwydd, tra'n gwella cywirdeb rhagolygon drwy dechnegau mwy modern a data wedi'i ddiweddaru am enillion.

Fel yn achos y model StEP blaenorol, mae'r model newydd yn cynnwys pedwar is-fodel – model newydd-ddyfodiaid, model gwario, model enillion a model ad-daliadau – sydd gyda'i gilydd yn rhag-weld canlyniadau ar gyfer myfyrwyr sy'n benthyca:

- Model ymunwyr: Yn defnyddio data ymgeiswyr o Gymru gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ochr yn ochr ag amcanestyniadau poblogaeth SYG i rag-weld newidiadau yn nifer y myfyrwyr yn y dyfodol.
- Model gwario: Yn rhag-weld gwariant benthyciadau ffioedd a benthyciadau cynnal a chadw ar gyfer benthycwyr sy'n hanu o Gymru gan ddefnyddio data SLC hanesyddol a pharamedrau polisi cyllid myfyrwyr Cymru.
- Model enillion: Yn amcangyfrif "llwybrau" enillion ôl-raddio ar gyfer benthycwyr unigol, gan ymgorffori ffactorau megis lefel cwrs, cartref a'r pwnc a astudiwyd.
- Model ad-daliadau: Yn defnyddio rhagdybiaethau macroeconomaidd — gan gynnwys chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI), cyfraddau disgownt Trysorlys EF, a thwf enillion — i ragweld ad-daliadau benthyciadau yn y dyfodol yn unol â llwybrau enillion wedi'u hefelychu.

Dangosodd profion a dilysu a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod pontio fod y fethodoleg enillion ac ad-daliadau newydd yn perfformio'n well na'r dull StEP etifeddol, gyda gwell cywirdeb a llai o duedd.

Mae rhagolygon yn dangos aliniad agosach ag enillion yr arsylwyd arnynt ar draws nodweddion allweddol megis maes pwnc, rhywedd a lefel cwrs, ochr yn ochr â gostyngiadau mewn cyfeiliornad absoliwt canolrifol.

Mae'r symudiad i'r model sydd wedi'i weithredu'n llawn yn 2025-26 wedi arwain at effaith sylweddol ar brisiad y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr gyda cholled gwerth teg o £2,470m. Mae'r effaith hon yn cael ei sbarduno yn bennaf gan enillion a ragwelir is ac, o ganlyniad, llai o ad-daliadau disgwyliedig o dan y fethodoleg wedi'i diweddaru.

Newidynnau Allweddol

Disgrifir isod y **newidynnau** allweddol a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y model. Yn ogystal, meintiolir sensitifrwydd llyfrwerth net Benthyciadau i Fyfyrwyr, ar 31 Mawrth 2026, i bob newidyn.

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd ar gyfer 2025-26 wedi'i gynnal gan ddefnyddio ystod o senarios economaidd a pholisi wedi'u halinio â'r rhai a gyhoeddwyd gan Adran Addysg Lloegr. Mae hyn yn cynnwys amrywiadau i ragdybiaethau macroeconomaidd allweddol megis cyfradd ddisgownt Trysorlys EF, twf enillion a chwyddiant. Yn benodol, mae sensitifrwydd wedi'i fodelu gyda newidiadau o ±0.2 pwynt canran i'r gyfradd ddisgownt ynghyd â newidiadau ±1 pwynt canran mewn twf enillion cyfartalog yn cael eu cymhwyso bob blwyddyn hyd at 2030, gan ddychwelyd i'r rhagdybiaethau

llinell sylfaen wedi hynny. Yn ogystal, cynhyrchwyd sensitifrwyddau annibynnol ar gyfer chwyddiant Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) o ±1 a ±2 pwynt canran bob blwyddyn, ac ar gyfer twf enillion cyfartalog o ±1 pwynt canran bob blwyddyn hyd at 2030. Mae hyn yn welliant bach i'r dull a ddefnyddiwyd yn 2024-25, lle cafodd sensitifrwydd i'r gyfradd ddisgownt a thwf enillion eu cymhwyso ar wahân ac ar draws y gorwel amser llawn, yn hytrach na chanolbwyntio ar wyriadau tymor byrrach sy'n dychwelyd i ragdybiaethau llinell sylfaen. Mae cymhwyso siociau tymor byr — wedi'i ddilyn gan ddychweliad i ragdybiaethau sylfaenol — wedi'i fabwysiadu i adlewyrchu amrywiad economaidd dros dro yn well yn hytrach na newid strwythurol parhaus mewn amodau economaidd. Mae'r gwelliant hwn wedi bod yn bosibl oherwydd mabwysiadu'r Biblinell Modelu Cyllid Myfyrwyr. Diben y dadansoddiad sensitifrwydd yw asesu effaith rhagdybiaethau a allai amrywio'n rhesymol yn y tymor byr.

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddatgelir isod yn adlewyrchu'r effeithiau ar fenthyciadau Israddedig amser llawn yn unig. Mae graddau Meistr Ôl-raddedig wedi'u heithrio o'r dadansoddiad sensitifrwydd gan fod y benthyciadau hyn wedi'u modelu gan ddefnyddio canrannau dileu dim ar gyfer RAB yn y cyfrifiadau gwerth teg. Byddai'r effaith ar brisiad y benthyciadau ôl-raddedig yn ddibwys yn seiliedig ar y newidiadau mewn rhagdybiaethau sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad sensitifrwydd ar gyfer benthyciadau israddedig. Mae data hanesyddol dros y deng mlynedd diwethaf yn darparu cyd-destun ar gyfer sut y mae rhagdybiaethau economaidd cyfredol yn cymharu â rhagolygon diweddar a rhagolygon tymor hir a gymhwysir o fewn y model.

Cyfradd ddisgownt: Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr egwyddorion o dan IFRS 9 ac wedi defnyddio'r gyfradd uchaf sy'n perthyn i'r benthyciad myfyriwr neu'r gyfradd fel y'i nodir yn y papur System Gwariant Cyhoeddus (PES) diweddaraf, sef RPI 0.55% (2024-25: 0.85%).

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r gyfradd ddisgownt wedi newid o 3.7% yn 2015, i 0.7% i'w defnyddio o 31 Mawrth 2021 ymlaen. I'w defnyddio o 31 Mawrth 2022 ymlaen, cyhoeddwyd y gyfradd ddisgownt am y tro cyntaf mewn dwy ran. Mae'r cyfraddau disgownt ers hynny wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

Dyddiad dod i rym	Cyfradd Disgownt (hyd at 2030)	Cyfradd Disgownt (o 2030 ymlaen)
31 Mawrth 2022	-1.10%	-0.20%
31 Mawrth 2023	-1.30%	-0.20%
31 Mawrth 2024	-1.05%	-0.05%
31 Mawrth 2025	-0.85%	0.05%
31 Mawrth 2026	-0.55%	0.35%

Mae dadansoddiad sensitifrwydd wedi'i gynnal gydag amrywiadau wedi'u cymhwyso i'r gyfradd ddisgownt mewn cyfuniad â thwf enillion dros y tymor byr (hyd at 2030), cyn dychwelyd i ragdybiaethau llinell sylfaen wedi hynny. Mae cynnydd pwynt canran o 0.2 yn y gyfradd ddisgownt (ynghyd â thwf enillion uwch) yn arwain at gynnydd o £423.4m yn llyfrwerth net amcangyfrifedig y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr, tra bo cynnydd o 0.2 pwynt canran (ynghyd â thwf enillion is) yn arwain at ostyngiad yn y llyfrwerth net amcangyfrifedig o £527.9m. Mae gostyngiad pwynt canran o 0.2 yn y gyfradd ddisgownt (ynghyd â thwf enillion is) yn arwain at ostyngiad o £444.4m yn llyfrwerth net amcangyfrifedig y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr, tra bo gostyngiad o 0.2 pwynt canran (ynghyd â thwf enillion uwch) yn arwain at gynnydd yn y llyfrwerth net amcangyfrifedig o £523.5m.

Chwyddiant RPI: Mae'r model yn ymgorffori rhagdybiaethau RPI gan ddefnyddio'r data alldro diweddaraf a gyhoeddwyd gan SYG ar gyfer y flwyddyn gyfredol, a ddilynir gan gyfraddau rhagamcanedig OBR Mawrth 2026 ar gyfer y tymor byr, a gymhwysir yn flynyddol hyd at 2030-31. O 2031-32 ymlaen, cymhwysir penderfynyddion economaidd tymor hir, gydag RPI yn sefydlogi yn rhyw 2.4% yn y tymor hir. Dros y deng mlynedd diwethaf mae RPI wedi amrywio rhwng 1.5% a 13.5%.

Pan fo chwyddiant RPI yn uchel, gellir cymhwyso darpariaethau deddfwriaethol i gapio cyfraddau llog ar gynlluniau benthyciadau penodol (e.e. Cynllun 2 a Chynllun 3), sy'n gallu lliniaru effaith chwyddiant uwch ar falansau benthycwyr.

Mae dadansoddiad sensitifrwydd wedi'i gynnal yn unol â'r fethodoleg ddiwygiedig, gyda siociau RPI o ±1 a ±2 pwynt canran yn cael eu cymhwyso bob blwyddyn i 2030-31, cyn dychwelyd i ragdybiaethau llinell sylfaen yn y tymor hir. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r farn bod siociau chwyddiant yn fwy tebygol o fod yn rhai dros dro eu natur yn hytrach nag yn arwydd o newid strwythurol parhaus mewn amodau economaidd.

Mae cynnydd o 1 pwynt canran yn yr RPI (a gymhwysir i 2030-31) yn arwain at ostyngiad o £1,128.3m yn y llyfrwerth net, tra bo gostyngiad o 1 pwynt canran yn arwain at gynnydd o £1,140.9m. Yn yr un modd, mae cynnydd o 2 bwynt canran yn yr RPI yn arwain at ostyngiad o £2,128.1m yn y llyfrwerth net, tra bo gostyngiad o 2 bwynt canran yn arwain at gynnydd o £2,228.9m.

Enillion graddedigion: Mae'r model yn ymgorffori rhagdybiaethau twf enillion graddedigion gan ddefnyddio'r data alldro diweddaraf sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn gyfredol, wedi'i ddilyn gan gyfraddau rhagamcanedig OBR Mawrth 2026 ar gyfer y tymor byr, a gymhwysir yn flynyddol hyd at 2030-31. O 2031-32 ymlaen, cymhwysir penderfynyddion economaidd tymor hir, gyda thwf enillion yn y tymor hir o ryw 3.83% o 2036-37 ymlaen.

Y rhagdybiaeth hirdymor ar gyfer twf enillion cyfartalog yw 3.83%. Dros y degawd diwethaf, mae twf enillion wedi bod yn amrywiol, gyda'r blynyddoedd diwethaf yn dangos twf cymharol uchel (e.e. 5.39% yn 2024-25 a 6.83% yn 2023-24). Adeg y modelu, roedd y twf enillion cyfartalog a ragwelwyd ar gyfer 2025-26 yn 4.40%, yn uwch na'r rhagdybiaeth hirdymor. Rhagwelir y bydd twf enillion yn arafu yn y tymor canolig cyn cynyddu'n raddol a chydgyfeirio at y gyfradd hirdymor o 2036-37 ymlaen. Mae'r llwybr hwn yn adlewyrchu trawsnewidiad o gyfraddau twf uchel diweddar yn ôl i duedd hirdymor sefydlog. Dros y deng mlynedd diwethaf mae twf enillion cyfartalog wedi amrywio rhwng 2.3% a 6.83%.

Mae dadansoddiad sensitifrwydd wedi'i gynnal gyda siociau i dwf enillion cyfartalog o ±1 pwynt canran yn cael eu cymhwyso'n flynyddol hyd at 2030-31, cyn dychwelyd i ragdybiaethau llinell sylfaen yn y tymor hir. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r farn bod gwyriadau mewn twf enillion yn fwy tebygol o fod yn amrywiadau economaidd tymor byr yn hytrach na newidiadau strwythurol parhaus.

Mae cynnydd mewn enillion graddedigion yn arwain at gynnydd yn llyfrwerth net y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr, tra bo gostyngiad mewn enillion yn arwain at ostyngiad yn y llyfrwerth net. Yn benodol, mae cynnydd o 1 pwynt canran mewn twf enillion (a gymhwysir i 2030-31) yn arwain at gynnydd o £457.7m yn y llyfrwerth net, tra bo gostyngiad o 1 pwynt canran yn arwain at ostyngiad o £471.1m.

Trothwy enillion graddedigion: Y trothwy ad-dalu ar gyfer benthyciadau myfyrwyr Cynllun 2 oedd £27,295 y flwyddyn yn 2024-25, gan gynyddu i £28,470 y flwyddyn yn 2025-26. Mae trothwyon ad-dalu blaenorol ar gyfer benthyciadau Cynllun 2 yn cael eu cyhoeddi ar wefan llywodraeth y DU.[64]

Yn hanesyddol, cafodd trothwyon ad-dalu Cynllun 2 eu huwchraddio bob blwyddyn yn unol ag enillion cyfartalog. Er hynny, fel penderfyniad polisi, cafodd y trothwy ei rewi rhwng 2022-23 a 2024-25 yn £27,295, cyn ailddechrau'r uwchraddio o 2025-26. O 2025-26 ymlaen, mae trothwyon Cynllun 2 yn cael eu huwchraddio yn unol â chwyddiant RPI, yn hytrach na thwf enillion, sy'n dynodi newid yn y dull polisi.

Ar gyfer benthyciadau myfyrwyr Cynllun 1, y trothwy ad-dalu oedd £24,990 y flwyddyn yn 2024-25, gan gynyddu i £26,065 y flwyddyn yn 2025-26. Fel penderfyniad polisi, nid yw trothwyon ad-dalu wedi bod yn destun dadansoddiad sensitifrwydd.

64 www.gov.uk/guidance/previous-annual-repayment-thresholds

Dosbarthiad Incwm Graddedigion: Mae'r model yn amcangyfrif dosbarthiadau incwm graddedigion gan ddefnyddio cyfuniad o ddata gweinyddol ac allbynnau enillion wedi'u modelu, yn hytrach na dibynnu yn unig ar ffynonellau arolwg hanesyddol fel y'u defnyddiwyd mewn cyfrifon blaenorol. Yn benodol, mae dosbarthiad enillion graddedigion yn deillio o'r model enillion, sy'n efelychu llwybrau enillion unigol yn seiliedig ar nodweddion benthyciwr megis cwrs, pwnc a demograffeg, gan ddefnyddio data gweinyddol y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a setiau data cysylltiedig eraill.

Mae hyn yn newid ers dulliau cynharach a oedd yn dibynnu'n fwy ar ddata arolygon hanesyddol (e.e. yr Arolwg o'r Llafurlu ac Arolwg Panel Cartrefi Prydain), gyda'r fethodoleg wedi'i diweddaru yn rhoi mwy o bwyslais ar ddata gweinyddol ac efelychu yn seiliedig ar fodelau o ddosbarthiadau enillion oes.

Felly, mae'r dosbarthiadau incwm sy'n deillio o hynny yn cael eu sbarduno gan strwythur y model enillion a'i ragdybiaethau sylfaenol, yn hytrach na chael eu gorfodi'n uniongyrchol o ddosbarthiadau hanesyddol. O'r herwydd, nid yw'r gydran hon yn destun dadansoddiad sensitifrwydd annibynnol, gydag ansicrwydd yn hytrach wedi'i nodi drwy sensitifrwyddau a gymhwysir i ysgogwyr economaidd allweddol megis twf enillion.

Dileu'n rhannol: Mae dileu'n rhannol yn bolisi gan Lywodraeth Cymru sy'n gymwys i fenthyciadau cynnal a chadw, lle y gellir cymhwyso dilead o hyd at £1,500 wrth gael yr ad-daliad cyntaf yn erbyn y benthyciad os nad oes gan y myfyriwr unrhyw daliadau, costau, treuliau neu gosbau heb eu talu mewn perthynas â'r benthyciad neu os ydynt yn torri cytundeb y benthyciad. Fel penderfyniad polisi, ni fu hyn yn destun dadansoddiad sensitifrwydd.

Cyfraddau sylfaenol: Mae'r model yn ymgorffori rhagdybiaethau cyfradd sylfaenol Banc Lloegr gan ddefnyddio rhagolygon OBR Mawrth 2026 ar gyfer y tymor byr, wedi'u cymhwyso ar sail chwarterol hyd at 2030-31, ac wedyn penderfynyddion economaidd tymor hir wedi hynny. Mae amcanestyniadau tymor byr yn dangos y bydd cyfraddau sylfaenol yn gostwng o'r lefelau diweddar i ryw 3.3%-3.5% erbyn 2026-27, cyn codi'n raddol i ryw 4.0% erbyn 2030-31. Yn y tymor hir, mae cyfraddau sylfaenol yn sefydlogi yn rhyw 4.1%.

Y rhagdybiaeth hirdymor ar gyfer cyfraddau sylfaenol Banc Lloegr yw rhyw 4.1%. Dros y degawd diwethaf, mae cyfraddau llog wedi trosglwyddo o lefelau hanesyddol isel i gyfraddau sylweddol uwch yn y blynyddoedd diwethaf. Mae alldro chwarterol ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn dangos cyfraddau uwch na 5% mewn rhai cyfnodau. Adeg modelu, roedd rhagolygon chwarterol ar gyfer 2025-26 yn amrywio rhwng 3.81% a 4.35%. Rhagwelir wedyn y bydd cyfraddau yn cynyddu'n raddol tuag at y rhagdybiaeth hirdymor. Dros y deng mlynedd diwethaf mae'r gyfradd sylfaenol wedi amrywio rhwng 0.1% a 5.25%.

Cymhwysir cap cyfradd sylfaenol i gyfraddau llog Cynllun 1, lle mae llog yn cael ei bennu ar yr isaf o gyfradd sylfaenol Banc Lloegr ynghyd ag 1 pwynt canran neu'r RPI. Mewn cyfnodau lle mae'r gyfradd sylfaenol yn gymharol isel o'i chymharu â RPI, mae'r cap hwn yn dod yn rhwymol ac felly gall newidiadau mewn rhagdybiaethau cyfradd sylfaenol effeithio ar brisiad y llyfr benthyciadau.

Mae dadansoddiad sensitifrwydd wedi'i gynnal yn unol â'r fethodoleg ddiwygiedig, gyda siociau ±1 pwynt canran wedi'u cymhwyso i'r gyfradd sylfaenol hyd at 2030-31, cyn dychwelyd i'r rhagdybiaethau sylfaenol yn y tymor hir. Nid yw newid yn y rhagdybiaeth cyfradd sylfaenol yn arwain at unrhyw newid yn y llyfrwerth net ar gyfer benthyciadau Cynllun 1 neu Gynllun 2.

Yn gyffredinol, er bod rhagolygon tymor byr yn adlewyrchu amodau economaidd cyfredol ac anwadalrwydd diweddar, mae rhagdybiaethau tymor hir yn dynodi dychweliad i berthnasoedd economaidd sefydlog sy'n gyson â chyfartaleddau hanesyddol.

Mae nifer o ragdybiaethau ychwanegol yn y model; er hynny, mae dadansoddiad

sensitifrwydd wedi canolbwyntio ar yr ysgogwyr economaidd allweddol — megis twf enillion, chwyddiant, cyfraddau disgownt a chyfraddau llog — y disgwylir iddynt gael yr effaith fwyaf sylweddol ar brisiad y llyfr benthyciadau. Mae rhagdybiaethau eraill, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â nodweddion benthycwyr a ffactorau ymddygiadol, yn cael eu cadw'n gyson o fewn y fframwaith modelu ac nid ydynt yn destun dadansoddiad sensitifrwydd ffurfiol. Er y gallai newidiadau i'r rhagdybiaethau hyn effeithio ar allbynnau model, bernir bod eu heffaith yn llai perthnasol o'i gymharu â'r rhagdybiaethau economaidd allweddol a brofwyd. Mae llawer o'r rhagdybiaethau hyn yn rhyng-gysylltiedig a gallent newid ar yr un pryd mewn ymateb i amodau economaidd ehangach; er hynny, mae profion senarios wedi'u cynllunio i nodi'r ansicrwydd hwn drwy siociau cyfunol i brif ysgogwyr canlyniadau model.

Gellir dod o hyd i ddata ar y newidynnau allweddol uchod, gan gynnwys hanesyddol, ar gwefannau y Swyddfa Ystadegau Gwladol (www.cy.ons.gov.uk/); Swyddfa Cyfrifoldeb y Gyllideb (www.obr.uk); a Banc Lloegr (www.bankofengland.co.uk). Mae gwybodaeth ystadegol am fenthyciadau i fyfyrwyr ar gael ar wefan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (y datganiad ystadegol diweddaraf: Benthyciadau i Fyfyrwyr yng Nghymru: Benthyciadau i fyfyrwyr ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach – GOV.UK (www.gov.uk)).

6.2 Cyfalaf Difidend Cyhoeddus Ymddiriedolaethau'r GIG

Cynrychiolir buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Ymddiriedolaethau'r GIG gan Gyfalaf Difidend Cyhoeddus (PDC). Delir PDC yn unol â dehongliad FReM o IFRS 9 ar gost hanesyddol, llai amhariadau, yn gyson â blynyddoedd blaenorol. Adeg cyfuno Ymddiriedolaethau'r GIG caiff y buddsoddiad PDC ei ddileu.

6.3 Asedau Ariannol Eraill

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi offerynnau ariannol, yn enwedig benthyciadau, i gyrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru a chyllid a benthyciadau i fusnesau i gefnogi datblygu economaidd. Mae'r benthyg hwn yn digwydd fel rhan o'i gweithgareddau arferol ac nid yw Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch masnachu yn yr offerynnau ariannol hyn. Fel offerynnau dyled syml delir y mwyafrif o Asedau ariannol craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer casglu llif arian parod contractiol, ac felly maent yn cael eu dal yn ôl Cost wedi'i Hamorteiddio o dan IFRS 9. Mae asedau ariannol Cymorth i Brynu – Cymru yn cael eu dal yn ôl Gwerth Teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, ac maent yn cael eu dileu o'r cyfrif Craidd wrth i Fanc Datblygu Cymru gael ei gyfuno. Ni ddelir unrhyw Asedau ariannol perthnasol yn ôl gwerth teg trwy Wariant Net Cynhwysfawr Cyfunol Arall yn y Cyfrif Craidd.

Mae Gwerth Teg llyfr benthyciadau rhannu ecwiti Cymorth i Brynu - Cymru o £348m (31 Mawrth 2025: £363m) yn cael ei gyfrifo drwy nodi llifoedd arian a ragwelir yn y dyfodol a disgowntio'r rhain ar gyfradd briodol. Mae'r cyfrifiad hwn yn defnyddio nifer o ragdybiaethau, yn enwedig rhagolwg ar gyfer y Mynegai Prisiau Tai (HPI) yn y dyfodol, cyfradd ddisgownt yn seiliedig ar ystod o fondiau tai tebyg â phroffiliau risg tebyg i'r portffolio Cymorth i Brynu a phroffil adbryniadau benthyciadau. Mae'r model yn defnyddio data trafodiadau arsylwadwy a data rhagolwg HPI, a ddarperir drwy ddadansoddiad annibynnol o'r farchnad, i ragweld y gyfradd HPI hirdymor yng Nghymru. Ceir rhagor o fanylion am fodel gwerth teg Cymorth i Brynu yng nghyfrifon Banc Datblygu Cymru.

O fewn 'Asedau Ariannol Eraill' ar 31 Mawrth 2026 cynhwyswyd £40.9m (31 Mawrth 2025: £36.6m) o fuddsoddiad ecwiti yn y Canolfan Ragoriaeth Fyd-Eang ar gyfer Rheilffyrdd (GCRE), is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr i Lywodraeth Cymru. Mae'r balans ar 31 Mawrth 2026 yn adlewyrchu effaith buddsoddiad ychwanegol o £8.4m yn ystod y flwyddyn ar gyfer ariannu gweithrediadau GCRE ac amhariad cydnabyddedig o £4.1m o ganlyniad i adolygiad o amhariadau blynyddol. Mae'r sefyllfa diwedd blwyddyn yn adlewyrchu gwerth yr asedau net a adroddwyd yng nghyfrifon blynyddol GCRE.

Mae gweithgareddau GCRE yn fwy na'r lefel berthnasedd ar gyfer cyfuno, ond nid ydynt yn berthnasol i Grŵp Llywodraeth Cymru yn ei gyfanrwydd. Er ei fod wedi'i ddynodi ar gyfer ei gyfuno a'i ddosbarthu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel endid y Llywodraeth Ganolog ym mis Medi 2024, nid yw GCRE wedi'i gyfuno yng Ngrŵp Llywodraeth Cymru gan fod rhagor o wybodaeth am ei gynlluniau buddsoddi hirdymor yn ddisgwyliedig, a disgwylir i hynny effeithio ar ddosbarthiad yn y dyfodol.

Cynhwysir yn 'Asedau Ariannol Eraill' ar 31 Mawrth 2026 benthyciad o £39m oddi wrth Lywodraeth Cymru i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig ('CIAL') gan gynnwys llog o £11.8m sydd wedi'i gyfalafu ar y benthyciad, nad yw'n ddyledus i Lywodraeth Cymru eto (31 Mawrth 2025: benthyciad o £36m a llog o £8.8m). Mae'r balans hwn yn adlewyrchu symiau'r benthyciad i'r maes awyr yn net o ddileadau ac amhariadau o ganlyniad i effaith pandemig COVID-19 ar y diwydiant hedfan yn 2020-21.

Ar 31 Mawrth 2025, cydnabuwyd buddsoddiad ecwiti o £21.9m yn CIAL drwy WGC Holdco Limited. Yn dilyn canlyniad adolygiad o amhariadau, mae'r buddsoddiad ecwiti hwnnw wedi'i amharu'n llawn i £dim ar 31 Mawrth 2026.

Mae'r tâl amhariad yn cael ei lywio gan wybodaeth reoli wedi'i diweddaru a rhagolygon prisio ecwiti hirdymor, nad oeddent wedi bod ar gael o'r blaen ers y dirywiad mewn gweithgarwch o ganlyniad i'r pandemig.

Yn dilyn datganiad ysgrifenedig ar 22 Gorffennaf 2024 yn amlinellu strategaeth hirdymor Gweinidogion Cymru ar gyfer Maes Awyr Caerdydd, cafodd y pecyn buddsoddi arfaethedig ei atgyfeirio at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar 15 Awst 2024. Cyhoeddodd y CMA ei adroddiad ar y pecyn buddsoddi arfaethedig ar 2 Hydref 2024. Ar ôl ystyried yr adborth gan y CMA a'r holl bartïon a chanddynt fuddiant, lanlwythwyd manylion pecyn cymorthdaliadau a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru ar gyfer Maes Awyr Caerdydd, o hyd at £205.2m dros 10 mlynedd, i gronfa ddata tryloywder cymorthdaliadau'r DU ym mis Ebrill 2025. Gwnaeth Llywodraeth Cymru y taliad cyntaf o £20m ym mis Ebrill 2025. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y datganiad ysgrifenedig canlynol gan Weinidogion Cymru: Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar Becyn Buddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer Maes Awyr Caerdydd (9 Gorffennaf 2025) – LLYW.CYMRU.

Ar 25 Mehefin 2025, cafodd Llywodraeth Cymru wybod bod Maes Awyr Bryste yn herio penderfyniad Gweinidogion Cymru i wneud y buddsoddiad cymhorthdal hwn drwy apelio i'r Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth (CAT). Amddiffynnodd Llywodraeth Cymru yr her gyfreithiol hon mewn gwrandawiad ar 9-10 Chwefror 2026. Ar 7 Ebrill 2026, cyhoeddodd y Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth ddyfarniad o blaid Gweinidogion Cymru, gan ddod i'r casgliad bod y cymhorthdal yn gyfreithlon. Ar 28 Ebrill 2026, gwnaeth Maes Awyr Bryste gais am ganiatâd i apelio yn erbyn dyfarniad y Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth, a gwrthodwyd hyn gan y Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth ar 28 Mai 2026[65]. Ar 11 Mehefin 2026, cyflwynodd Maes Awyr Bryste gais i'r Llys Apêl am ganiatâd i apelio yn erbyn dyfarniad y Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth.

Mae asedau ariannol eraill y grŵp yn cynnwys: Buddiannau ariannol Llywodraeth Cymru mewn cyd-fentrau, benthyciadau a buddsoddiadau eraill, benthyciadau Buddsoddi i Arbed gydag Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill £1,066m (2024-25: £978m); ac asedau a ddelir gan Fanc Datblygu Cymru PLC £405m (2024-25: £414m) ac asedau ariannol grŵp eraill £4m (2024-25: £6m).

65 1740/12/13/25 Maes Awyr Bryste v Gweinidogion Cymru | Y Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth

7. Stocrestri

	Ar 31 Mawrth 2026		Ar 31 Mawrth 2025	
	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m
Asedau datblygu	221	221	222	222
Cyffuriau	19	58	22	62
Defnyddiau traul eraill	3	100	3	95
Cyfanswm	**243**	**379**	**247**	**379**

8. Symiau Derbyniadwy drwy Fasnach a Symiau Derbyniadwy Eraill

	Ar 31 Mawrth 2026		Ar 31 Mawrth 2025	
	Craidd LlC £m	Grŵp LlC[a] £m	Craidd LlC £m	Grŵp LlC[a] £m
Symiau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn:				
Symiau derbyniadwy drwy fasnach	165	485	202	504
Treth arall	16	16	14	14
Rhagdaliadau ac incwm cronnus	177	327	166	292
	358	**828**	**382**	**810**
Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:				
Symiau derbyniadwy drwy fasnach	3	223	2	212
Rhagdaliadau	-	4	-	5
Symiau derbyniadwy eraill	7	32	9	61
	10	**259**	**11**	**278**
Cyfanswm	**368**	**1,087**	**393**	**1,088**

a Cynhwysir yn y cyfanswm derbyniadau Grŵp drwy fasnach £327m (2024-25: £317m) o fenthyciadau a ddelir ar gost wedi'i hamorteiddio gan Fanc Datblygu Cymru PLC. Mae cynnwys ffigurau mewn symiau derbyniadwy drwy fasnach yn adlewyrchu'r ffordd y cânt eu trin yn y cyfrifon archwiliedig sylfaenol gan fod trafodiadau benthyciadau ar gyfer Banc Datblygu Cymru yn rhan o'u busnes craidd.

9. Arian Parod a'r Hyn sy'n Cyfateb i Arian Parod

	Ar 31 Mawrth 2026		Ar 31 Mawrth 2025	
	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m
Balans ar 1 Ebrill	**111**	**1,444**	**244**	**1,562**
Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	(59)	93	(133)	(118)
Balans ar 31 Mawrth	**52**	**1,537**	**111**	**1,444**
Roedd y balansau canlynol yn cael eu dal yn:				
Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth	49	175	111	202
Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw	3	1,362	-	1,242
Cyfanswm	**52**	**1,537**	**111**	**1,444**

10. Symiau Taladwy drwy Fasnach a Symiau Taladwy Eraill

	Ar 31 Mawrth 2026		Ar 31 Mawrth 2025	
	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m
Symiau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn:				
Trethi a nawdd cymdeithasol	12	138	11	118
Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill	1,430	2,521	1,367	2,434
Croniadau eraill ac incwm gohiriedig	349	519	401	515
Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru	44	44	103	103
Rhwymedigaethau o dan PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill	11	22	11	20
Rhwymedigaethau o dan lesoedd	5	87	5	95
	1,851	**3,331**	**1,898**	**3,285**
Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:				
Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill	-	-	4	4
Croniadau eraill ac incwm gohiriedig	-	1	-	18
Rhwymedigaethau o dan PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill	582	851	578	741
Rhwymedigaethau o dan lesoedd	41	634	46	639
	623	**1,486**	**628**	**1,402**
Cyfanswm	**2,474**	**4,817**	**2,526**	**4,687**

11. Darpariaethau ar gyfer Atebolrwyddau a Thaliadau

	Ar 31 Mawrth 2026		Ar 31 Mawrth 2025	
	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m
Balans ar 1 Ebrill	**1,863**	**1,989**	**1,784**	**1,887**
Darparwyd yn y flwyddyn	604	708	451	490
Darpariaethau nad oes mo'u hangen ac a adferwyd	(161)	(180)	(173)	(184)
Trosglwyddo	1	2	(2)	(1)
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn	(237)	(322)	(197)	(203)
Balans ar 31 Mawrth	**2,070**	**2,197**	**1,863**	**1,989**
Dadansoddi amseriad disgwyliedig llifoedd wedi'u disgowntio:				
Dim hwyrach nag un flwyddyn	453	531	380	450
Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	689	713	611	642
Hwyrach na phum mlynedd	928	953	872	897
Balans ar 31 Mawrth	**2,070**	**2,197**	**1,863**	**1,989**

Grŵp Llywodraeth Cymru yn unig

	Arall £m	Cronfa Risg Cymru[a] £m	Cyfanswm £m
Dadansoddi amseriad disgwyliedig llifoedd wedi'u disgowntio:			
Dim hwyrach nag un flwyddyn	99	432	531
Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	47	666	713
Hwyrach na phum mlynedd	88	865	953
Cyfanswm	**234**	**1,963**	**2,197**

a Cynhelir Cronfa Risg Cymru fel rhan o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, y mae ei chyfrifon i'w gweld yn www.felindre.gig.cymru/amdanom-ni/cyhoeddiadau/

11.1 Darpariaethau Craidd Llywodraeth Cymru

Mae Darpariaethau Craidd Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

Darpariaethau Iechyd

Mae gan Lywodraeth Cymru ddarpariaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd, ar gyfer Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) ac ad-daliadau Cronfa Risg Cymru a ddisgwylir yn y dyfodol.

Mae WIBSS yn darparu un cynllun symlach o daliadau cymorth ex gratia i unigolion a'u teuluoedd y mae hepatitis C a HIV wedi effeithio arnynt wedi iddynt gael eu trin â gwaed halogedig yng Nghymru. Ar 25 Mawrth 2021 cyhoeddwyd trefniadau cymorth ariannol ychwanegol wedi'u hôl-ddyddio hyd at fis Ebrill 2019 (i sicrhau cydraddoldeb ar draws pedwar cynllun y DU) ar gyfer buddiolwyr presennol. Y balans ar ddarpariaeth WIBSS, ar 31 Mawrth 2026, yw £85m (2024-25: £129.2m).

Mae darpariaethau WIBSS yn seiliedig ar y cyfraddau taliadau cydradd newydd gyda chodiad chwyddiant CPI yn cael ei gymhwyso i lifoedd arian parod yn y dyfodol. Mae'r rhain wedyn yn cael eu disgowntio yn ôl y cyfraddau a gyhoeddir bob blwyddyn ym mhapur PES Trysorlys EF. Ers 2021-22, mae taliadau blynyddol yn cael eu chwyddo gan y cyfraddau chwyddiant CPI a gynhwysir yn y papur PES a gyhoeddir bob mis Rhagfyr. Mae'r newid o'r mynegeion CPIH i CPI yn cyd-fynd â gwledydd eraill y DU ers cyflwyno'r taliadau cydradd. Cafodd y taliadau eu codi i'r cyfraddau newydd am y tro cyntaf yn 2021-22 (gan gynnwys elfennau wedi'u hôl-ddyddio o 2018-19 ymlaen).

Ar 21 Mai 2024, cyhoeddodd Llywodraeth y DU sefydlu Awdurdod Iawndal Gwaed Heintiedig (IBCA), yn ychwanegol at y cynllun WIBSS sefydledig, ac fe gyhoeddodd fanylion cynllun iawndal amlinellol. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU hefyd y byddai iawndal interim pellach o £210,000 yn cael ei wneud i'r bobl heintiedig fyw hynny a oedd wedi'u cofrestru ag un o'r pedwar Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig yn y DU.

Ar 24 Hydref 2024, lansiodd IBCA y Taliadau Ystadau Interim Gwaed Heintiedig (IBIEP). Roedd hyn ar gyfer ystadau pobl a fu farw pan oeddent wedi'u cofrestru gyda'r Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig cyfredol (IBSS) neu Gynllun Tŷ Cynghrair ar 17 Ebrill 2024 neu cyn hynny; nid oedd y person a fu farw, eu partner sydd wedi cael profedigaeth neu eu hystad eisoes wedi cael taliad iawndal interim o £100,000. Ar 21 Gorffennaf 2025, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bydd taliad iawndal interim pellach o £210,000 yn cael ei wneud i gynrychiolwyr ystad person heintiedig a fu farw o ganlyniad i gael gwaed neu gynhyrchion gwaed halogedig gan y GIG.

Gofynnwyd i WIBSS weinyddu'r taliadau hyn ar ran Llywodraeth y DU ar gyfer hawlwyr cymwys yng Nghymru. Yr elfen o gyfanswm darpariaeth WIBSS sy'n ymwneud â chynllun iawndal interim IBCA ar 31 Mawrth 2026 yw £8.1m (2024-25: £14.3m).

Rhagwelir y caiff cyfanswm atebolrwyddau WIBSS eu trosglwyddo i IBCA ar ddyddiad trosglwyddo Ionawr 2027, pan fydd IBCA yn cyflwyno'r Cynllun Iawndal Gwaed Heintiedig, a fydd yn rhoi iawndal ariannol i ddioddefwyr gwaed heintiedig ledled y DU.

Mae Cronfa Risg Cymru yn helpu cyrff GIG Cymru gyda rheoli risg a setlo hawliadau y mae anghydfod yn eu cylch ar gyfer honiadau o esgeuluster meddygol neu esgeuluster fel cyflogwr. Balans Cronfa Risg Cymru ar 31 Mawrth 2026 yw £1,963m (2024-25: £1,712m).

Mae cyrff GIG Cymru yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu ddeongliadol ar gyfer esgeuluster clinigol, anafiadau personol a chostau amddiffyn y mae eu hamseru neu eu swm yn ansicr ar ddyddiad y fantolen ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth. Ariennir hawliadau drwy Wasanaethau Cronfa Risg Cymru (WRPS) sy'n derbyn dyraniad brigdor blynyddol gan Lywodraeth Cymru i dalu am gost ceisiadau am ad-daliad a gyflwynir i'r Pwyllgor WRPS bob deufis. Mae unrhyw ddiffyg yn cael ei fodloni'n uniongyrchol gan aelodau ar sail rhannu risg y cytunwyd arni.

Gwneir amcangyfrifon sylweddol mewn perthynas â hawliadau sydd ar y gweill am esgeuluster clinigol ac anafiadau personol. Darperir rhagdybiaethau o ran y canlyniad tebygol, yr atebolrwyddau posibl ac amseriad yr hawliadau ymgyfreitha hyn gan gynghorwyr cyfreithiol annibynnol.

Gwneir darpariaeth ar gyfer achosion tebygol ac achosion sicr yn unol ag IAS 37. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer achosion tebygol ac achosion sicr yn seiliedig ar amcangyfrifon achos o hawliadau unigol a dderbyniwyd gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'r cyfreithwyr yn amcangyfrif gwerth yr achos gan gynnwys ffioedd amddiffyn, gan ddefnyddio barn broffesiynol a thrwy gael cyngor gan gwnsler. Yna caiff prisiadau eu disgowntio ar gyfer yr elfennau colli yn y dyfodol gan ddefnyddio disgwyliad oes unigol a thablau actiwaraidd Adran Actiwari'r Llywodraeth (tablau Ogden) a Chyfradd Ddisgownt Anafiadau Personol o minws 0.25%.

Mae atebolrwyddau'r dyfodol ar gyfer achosion penodol a thebygol sydd â thebygolrwydd o 95%-100% a 50%-94% yn y drefn honno yn cael eu dal fel darpariaeth ar y fantolen. Fel arfer, mae achosion yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w setlo, yn enwedig ar gyfer achosion gwerth uchel lle mae angen cyfnod datblygu i sefydlu hyd a lled yr anaf a achoswyd.

Mae'r mwyafrif o hawliadau gwerth uchel (>£1m) yn cael eu setlo gyda Gorchymyn Talu Cyfnodol (PPO) lle telir rhan neu'r cyfan o werth terfynol y setliad dros oes yr hawliwr. Pan fydd achosion yn cael eu setlo gyda threfniant PPO, crëir darpariaeth unigol drwy luosi gwerth talu blynyddol cysylltiedig mynegai'r hawlwyr â nifer y blynyddoedd o ddisgwyliad oes. Mae nifer y blynyddoedd o ddisgwyliad oes yn cael ei ddisgowntio yn ôl lluosyddion tabl Ogden gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt enwol Trysorlys EF ar gyfer darpariaethau cyffredinol a gyhoeddir yn flynyddol ym mhapur PES, ynghyd â ffactor chwyddiant. Mae Cronfa Risg Cymru yn rhan o Gydwasanaethau GIG Cymru, a gynhelir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac mae rhagor o fanylion am gyfrifo darpariaethau a'r gorchmynion talu cyfnodol wedi'u cynnwys yng nghyfrifon Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Yn unol â Chyfarwyddyd Gweinidogol a ddyroddwyd ar 18 Rhagfyr 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gefnogi amgylchiadau lle'r oedd rheolau treth pensiynau wedi effeithio ar staff clinigol a oedd eisiau gweithio oriau ychwanegol, ac mae wedi penderfynu bod staff clinigol sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG ac sydd, o ganlyniad i waith a wnaed ym mlwyddyn dreth 2019-20, yn wynebu talu treth ar dwf eu budd-daliadau pensiwn GIG, yn cael dewis bod Cynllun Pensiwn y GIG yn talu'r tâl hwn a bod eu pensiwn yn cael ei leihau pan fyddant yn ymddeol. Bydd swm cyfatebol yn cael ei dalu pan fyddant yn ymddeol gan sicrhau eu bod yn cael iawndal llawn am effaith y didyniad. Bydd y cynllun hwn yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru heb unrhyw gost net i Gyflogwyr y GIG. Roedd gan staff clinigol tan 31 Mawrth 2022 i ddewis y cynllun hwn a gallent wneud newidiadau hyd at 31 Gorffennaf 2026. Ar 31 Mawrth 2026, y balans ar y ddarpariaeth yw £12.1m (2024-25: £12.6m).

11.2 Darpariaethau Grŵp Llywodraeth Cymru

Mae Darpariaethau Grŵp Llywodraeth Cymru yn cynnwys y darpariaethau Craidd a nodir uchod, a darpariaethau a ddelir gan endidau cyfunol.

Darpariaethau eraill y GIG yw'r rhain yn bennaf, gan gynnwys pensiynau a darpariaethau ar gyfer y £25,000 cyntaf o hawliadau esgeuluster clinigol nad yw'n cael ei ad-dalu gan Gronfa Risg Cymru.

12. Atebolrwyddau Dibynnol

	Ar 31 Mawrth 2026		Ar 31 Mawrth 2025	
	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m	Craidd LlC £m (Wedi'i ailgyflwyno)	Grŵp LlC £m (Wedi'i ailgyflwyno)
Hawliadau Cyfreithiol – honiadau o esgeuluster meddygol/esgeuluster cyflogwr	1,206	1,244	1,099	1,144
Rhwymedigaethau contractiol posibl o dan Ddeddf WDA 1975	10	10	10	10
Hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill	1,369	1,369	1,553	1,553
Cyfanswm	**2,585**	**2,623**	**2,662**	**2,707**

(i) Hawliadau Cyfreithiol – honiadau o esgeuluster meddygol/ esgeuluster cyflogwr

Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhaid i Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 dalu atebolrwyddau Cronfa Risg Cymru os bydd cyrff y GIG yn peidio â bodoli. Cynhwysir hefyd atebolrwyddau dibynnol sy'n ymwneud â hawliadau cyfreithiol o dan Gynllun Atebolrwyddau Presennol y Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol.

(ii) Hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill

Mae hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill yn cynnwys hawliadau cyfreithiol a chontractiol sydd ar y gweill ac atebolrwyddau dibynnol sy'n gysylltiedig ag indemniadau a gwarantau contractiol.

Ar 31 Mawrth 2026, roedd atebolrwydd dibynnol o £901m (2024-25: £901m) yn parhau mewn cysylltiad â chynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol Canolfan Ganser newydd Felindre. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyroddi nodyn addewidiol i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ynghylch y bwriad i ddyroddi Llythyrau Cymeradwyo Cyllid ar gyfer Taliadau Gwasanaeth Blynyddol dros gyfnod o 25 mlynedd. Disgwylir i hyn ddechrau yn 2026-27.

Ar 31 Mawrth 2026, cynhwysir atebolrwydd dibynnol o £369m (2024-25: £540m) mewn perthynas â'r cynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol Addysg gyda Choleg Caerdydd a'r Fro (CAVC). Dyroddodd Llywodraeth Cymru nodyn addewidiol i'r sefydliad hwn ynghylch y bwriad i ddyroddi Llythyrau Cymeradwyo Cyllid ar gyfer cyfraniadau i Daliadau Gwasanaeth Blynyddol dros gyfnod o 25 mlynedd. Disgwylir i hyn ddechrau yn 2027-28. Ar 31 Mawrth 2025, roedd £171m o'r atebolrwydd dibynnol yn ymwneud â chynllun gyda Chyngor Sir y Fflint; nid yw hynny'n cael ei ddatgelu mwyach gan fod Llythyrau Cymeradwyo Cyllid wedi'u dyroddi yn ystod 2025-26.

Gostyngodd gwerth atebolrwyddau dibynnol ar gyfer indemniadau cytundebol masnachol neu warantau £13m. Ni chyhoeddwyd unrhyw warantau masnachol newydd.

12.1 Atebolrwyddau Dibynnol Heb eu Meintioli

Atebolrwyddau Dibynnol Cyfrinachol na ellir eu Meintioli

Mae gan Lywodraeth Cymru atebolrwyddau dibynnol na ellir eu meintioli, nad oes modd eu datgelu oherwydd cyfrinachedd a braint

gyfreithiol. Ar hyn o bryd nid oes sicrwydd ynghylch yr amseriad na'r all-lif ariannol, os oes rhai o gwbl, ac o'r herwydd ni ellir meintioli'r effaith ariannol.

12.2 Atebolrwyddau Dibynnol Annhebygol

Cyflwynir atebolrwyddau dibynnol yma lle bernir bod y tebygolrwydd o drosglwyddo budd economaidd mewn setliad yn annhebygol. Oherwydd hyn, nid ydynt yn bodloni meini prawf IAS 37 i'w datgelu yn y datganiadau ariannol, ond fe'u cyflwynir yma at ddibenion tryloywder. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â sefyllfaoedd lle mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i warantau neu indemniadau, ond lle nad oes arwyddion ar hyn o bryd y bydd y rhain yn cael eu defnyddio. Er bod yr holl gamau lliniaru wedi'u cymryd ac y byddant yn cael eu cymryd i leihau'r risg a'r cysylltiad â'r risg, ni ellir dileu'r risg yn llwyr. Os ystyrir bod hynny'n briodol, mae atebolrwyddau dibynnol yr ystyrir bod y tebygolrwydd y byddant yn digwydd yn fwy nag annhebygol yn cael eu datgelu yn Nodyn 12 uchod.

Yn 2019, cytunodd Llywodraeth Cymru i sicrwyddau, gwarantau, indemniadau a cholledion posibl y gellir eu meintioli (a ddatgelir) ac na ellir eu meintioli o dan y Cytundeb Grant gyda'i darparwr gwasanaeth rheilffyrdd (Transport for Wales Rail Services Ltd ar y pryd, bellach Transport for Wales Rail Ltd) a chytundebau cysylltiedig, gan gynnwys Cytundeb Asiantaeth Rhif 3 rhwng Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, y Cytundeb Cyllido ac Allbynnau a'r Cytundeb Cydweithio a Chydweithredu. Mae'r trefniadau hyn yn parhau i fod yn berthnasol drwy fframwaith cytundebol presennol Cymru a'r Gororau, gan gynnwys Cytundeb Gwasanaethu Rheilffyrdd 2026 a chytundebau cysylltiedig.

Atebolrwyddau Dibynnol Annhebygol y gellir eu Meintioli

Dim.

Atebolrwyddau Dibynnol Annhebygol na ellir eu Meintioli

Dim.

Atebolrwyddau Dibynnol Cyfrinachol na ellir eu Meintioli

Mae gan Lywodraeth Cymru atebolrwyddau dibynnol annhebygol na ellir eu meintioli, nad oes modd eu datgelu oherwydd cyfrinachedd a braint gyfreithiol. Ar hyn o bryd nid oes sicrwydd ynghylch yr amseriad na'r all-lif ariannol, os oes rhai o gwbl, ac o'r herwydd ni ellir meintioli'r effaith ariannol.

Gwasanaethau Rheilffyrdd

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu indemniad i'r darparwr gwasanaethau rheilffyrdd yn erbyn newidiadau gan yr Adran Drafnidiaeth i daliadau cynlluniedig ar gyfer mynediad i draciau. Yn yr un modd mae Llywodraeth Cymru wedi'i hindemnio gan yr Adran Drafnidiaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwarant mewn perthynas â chyflogeion Network Rail sy'n ymuno â TrC ac sy'n aros yn y Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd os bydd unrhyw ddiffygion yn cael eu creu ar gyfer adran newydd y cynllun.

Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465

Ar 28 Hydref 2020, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gontract â Cymoedd y Dyfodol (Future Valleys Project Co Limited) i ddylunio, adeiladu, ariannu a gweithredu cynllun i ddeuoli'r A465 rhwng Dowlais a Hirwaun (Rhannau 5 a 6). Er bod risgiau sylweddol wedi'u trosglwyddo i Cymoedd y Dyfodol, fel rhan o'r contract, mae rhai ohonynt yn dal i fod yn nwylo Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys costau ychwanegol cyfyngedig sy'n gysylltiedig â phandemig, hawliau ategol a diffygion cudd posibl sy'n ymwneud â strwythurau penodol sy'n bodoli eisoes pe bai unrhyw rai'n cael eu darganfod.

Cytunodd Llywodraeth Cymru i sicrwydd, indemniadau a cholledion posibl na ellir eu meintioli mewn perthynas â'r ddau bwynt canlynol. Ar ddiwedd y contract, mae Llywodraeth Cymru wedi indemnio Cymoedd y Dyfodol yn erbyn:

- Tâl diswyddo os nad yw rheoliadau TUPE yn gymwys ac os nad yw cynigion cyflogaeth yn cael eu gwneud i Staff Cyd-ddarparwyr Prosiect/Darparwyr Gwasanaethau; a

- Newidiadau perthnasol yn y gyfraith; ar achosion o newidiadau diffiniedig penodol yn y gyfraith, mae'r partïon yn cytuno i addasu'r Tâl Gwasanaeth Blynyddol yn unol â hynny.

Model Buddsoddi Cydfuddiannol Addysg – CAVC – Gweithred Ddibyniaeth

Ar 26 Mawrth 2025, seliodd Llywodraeth Cymru Weithred Ddibyniaeth i ddarparu sicrwydd i fenthycwyr sy'n buddsoddi yng nghynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol CAVC. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn llofnodwr uniongyrchol i Gytundeb y Prosiect, mae'r Weithred Ddibyniaeth yn gosod rhwymedigaethau cyfochrog penodol ar Lywodraeth Cymru, mewn amgylchiadau lle mae diffygdaliad gan Sefydliad Addysg Bellach yn cael ei sbarduno o dan Gytundeb y Prosiect. O ganlyniad, mae nifer bach o risgiau yn parhau gyda Llywodraeth Cymru.

Cytunodd Llywodraeth Cymru i sicrwydd, indemniadau a cholledion posibl na ellir eu meintioli mewn perthynas â'r chwe phwynt canlynol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi indemnio Cwmni'r Prosiect yn erbyn:

- Tâl diswyddo os nad yw rheoliadau TUPE yn gymwys ac nad yw cynigion cyflogaeth yn cael eu gwneud i Staff Darparwyr Prosiect y Cwmni/Gwasanaethau;
- Cyfyngiadau i'r safle o dan y trefniadau lesio presennol y tir gyda Chyngor Bro Morgannwg;
- Costau oherwydd atal gwaith, o dan gyfraith statudol, mewn perthynas â darganfod ffosilau neu hynafiaethau;
- Newidiadau perthnasol yn y gyfraith; ar achosion o newidiadau diffiniedig penodol yn y gyfraith, mae'r partïon yn cytuno i addasu'r Tâl Gwasanaeth Blynyddol yn unol â hynny;
- Risg na ellir ei hyswirio; os na ellir yswirio rhai risgiau, mae'r partïon yn cyfarfod i adolygu sut y bydd y risg yn cael ei rhannu. Os na cheir cytundeb, gellir terfynu'r cytundeb mewn ffordd sy'n debyg i Force Majeure, neu mae Llywodraeth Cymru yn cymryd risg yswiriant; a
- Chostau eithriadol gweithgareddau sy'n uwch na'r rhagdybiaethau sylfaenol yn achos pandemig.

Gwarantau

O dan amgylchiadau arbennig mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel gwarantwr ar gyfer y cyrff a noddir ganddi neu mewn perthynas â gwaith seilwaith cyhoeddus. Gwerth y gwarantau hyn ar 31 Mawrth 2026 oedd £49m (2024-25: £54m).

Indemniadau

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i indemnio sefydliadau Trosglwyddo Stoc Tai rhag canlyniadau ariannol tynnu'r Cynllun Lliniaru Treth ar Werth yn ôl neu ei ddiwygio yn y dyfodol.

Mae'r atebolrwyddau yn cwmpasu wyth sefydliad am £301m (2024-25: £419m) ac mae cyfnod yr atebolrwydd yn amrywio. Nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch parhad y cynllun, a bernir bod y posibilrwydd y bydd yr atebolrwydd yn aeddfedu yn rhy annhebygol i gael ei gynnwys fel atebolrwydd dibynnol.

Mae Cynllun Indemniad y Llywodraeth yn darparu indemniadau i alluogi Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, a sefydliadau cymwys eraill i gael benthyg gwrthrychau a gweithiau celf. Bernir bod y tebygolrwydd y gweithredir ar y gwarantau hyn yn rhy annhebygol i gael ei gynnwys fel atebolrwydd dibynnol. Gwerth y gwarantau hyn ar 31 Mawrth 2026 oedd £52m (2024-25: £44m).

Llythyrau Cysur

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyroddi llythyr sicrwydd Busnes Gweithredol i Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (RIFW) ar gyfer atebolrwyddau o £2m yn y dyfodol. O gofio lefel sylweddol y cronfeydd wrth gefn yn RIFW, bernir ei bod yn annhebygol y bydd yr atebolrwydd hwn yn codi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyroddi llythyr sicrwydd Busnes Gweithredol i TrC i gwmpasu atebolrwyddau presennol ac yn y dyfodol sy'n codi yn unol â'r Cytundeb Rheoli (rhwng Llywodraeth Cymru a TrC) a'r llythyrau Cylch Gwaith cyfnodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu dyroddi i TrC.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyroddi llythyr sicrwydd Busnes Gweithredol i GCRC i gwmpasu atebolrwyddau presennol ac yn y dyfodol sy'n codi yn unol â'r Cytundeb Rheoli (rhwng Llywodraeth Cymru a GCRE) a'r llythyrau Cylch Gwaith cyfnodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu dyroddi i GCRE.

13. Atebolrwyddau Eraill

	Ar 31 Mawrth 2026		Ar 31 Mawrth 2025	
	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m
Diffygion cronfeydd pensiwn	5	5	16	16
Y Gronfa Benthyciadau Gwladol (yn ddyledus ar ôl pum mlynedd)[a]	9	9	11	10
Arall	-	-	-	-
Cyfanswm	**14**	**14**	**27**	**26**

a Balansau'r Gronfa Benthyciadau Gwladol yw Cronfeydd Benthyciadau Gwladol a gafodd eu benthyg ymlaen gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn wreiddiol i Gorfforaeth Datblygu'r Canolbarth. Cafodd y rhain eu trosglwyddo wedyn i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig (DBRW) yn yr 1980au; ac i Awdurdod Datblygu Cymru pan ddiddymwyd DBRW yn 1998. Ers i Awdurdod Datblygu Cymru gael ei ddiddymu yn 2006, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ad-dalu'r prifswm a llog.

14. Symudiadau mewn Cyfalaf Gweithio heblaw Arian Parod

	Ar 31 Mawrth 2026		Ar 31 Mawrth 2025	
	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m
(Cynnydd)/gostyngiad mewn stocrestri (ac eithrio asedau datblygu)	3	(1)	(3)	(5)
(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau derbyniadwy:				
Cyfredol	24	(18)	8	(18)
Anghyfredol	1	19	3	(60)
(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau taladwy:				
Cyfredol	(46)	46	147	226
Anghyfredol	(5)	84	78	198
Llai symudiadau mewn symiau taladwy mewn perthynas â lesoedd a PFI ar y fantolen a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill	1	(99)	(78)	(233)
Addasiad arall	(1)	(1)	(1)	-
Llai symudiadau yn y cyflenwad Cronfa Gyfunol Cymru sy'n daladwy	48	48	69	69
Llai symudiadau yn yr incwm Cronfa Gyfunol Cymru sy'n daladwy	8	8	(4)	(4)
	33	**86**	**219**	**173**

15. Lesoedd

15.1 Asedau hawl-i-ddefnyddio

	Ar 31 Mawrth 2025		
	Tir ac Adeiladau £m	Arall £m	Cyfanswm £m
Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025			
Ar 1 Ebrill 2024	250	601	851
Ailddosbarthiadau	-	-	-
Ychwanegiadau	48	162	210
Ailbrisiadau	-	-	-
Dadgydnabod	(9)	(9)	(18)
Ailfesur	1	-	1
Ar 31 Mawrth 2025	**290**	**754**	**1,044**
Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025			
Ar 1 Ebrill 2024	55	160	215
Ailddosbarthiadau	(8)	(6)	(14)
Codwyd tâl yn y flwyddyn	26	72	98
Ailbrisiadau	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2025	**73**	**226**	**299**
Swm cario ar 31 Mawrth 2025	**217**	**528**	**745**
Adran graidd ar 31 Mawrth 2025	39	-	39
Cyrff iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2025	178	528	706

15.1 Asedau hawl-i-ddefnyddio (Parhad)

	Ar 31 Mawrth 2026		
	Tir ac Adeiladau £m	Arall £m	Cyfanswm £m
Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026			
Ar 1 Ebrill 2025	290	754	1,044
Ailddosbarthiadau	-	-	-
Ychwanegiadau	14	114	128
Ailbrisiadau	-		-
Dadgydnabod	(7)	(35)	(42)
Ailfesur	1	-	1
Ar 31 Mawrth 2026	**298**	**833**	**1,131**
Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026			
Ar 1 Ebrill 2025	**73**	**226**	**299**
Ailddosbarthiadau	(8)	(7)	(15)
Codwyd tâl yn y flwyddyn	27	75	102
Ailbrisiadau	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2026	**92**	**294**	**386**
Swm cario ar 31 Mawrth 2026	**206**	**539**	**745**
Adran graidd ar 31 Mawrth 2026	36	-	36
Cyrff iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2026	170	539	709

15.2 Atebolrwyddau Lesoedd

Dadansoddiad aeddfedrwydd

	Ar 31 Mawrth 2026		Ar 31 Mawrth 2025	
	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m
Tir ac adeiladau				
Dim hwyrach nag un flwyddyn	6	28	6	27
Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	22	84	22	87
Hwyrach na phum mlynedd	21	80	26	94
	49	**192**	**54**	**208**
Llai'r elfen log	(3)	(18)	(3)	(19)
Gwerth presennol y rhwymedigaethau	**46**	**174**	**51**	**189**
Arall				
Dim hwyrach nag un flwyddyn	-	84	-	87
Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	-	288	-	294
Hwyrach na phum mlynedd	-	373	-	236
	-	**745**	**-**	**617**
Llai'r elfen log	-	(198)	-	(72)
Gwerth presennol y rhwymedigaethau	**-**	**547**	**-**	**545**
Cyfanswm gwerth presennol y rhwymedigaethau	**46**	**721**	**51**	**734**
Cyfredol	5	87	5	95
Anghyfredol	41	634	46	639

15.3 Symiau a gydnabyddir mewn Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

	Ar 31 Mawrth 2026		Ar 31 Mawrth 2025	
	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m
Cost llog	1	20	1	17
Incwm is-lesoedd gan gynnwys enillion ar ddadgydnabod lesoedd	-	(1)	(1)	(1)
Cost ar gyfer lesoedd gwerth isel a thymor byr	1	6	1	6

15.4 Symiau a gydnabyddir mewn Datganiad o Lifoedd Arian Parod

	Ar 31 Mawrth 2026		Ar 31 Mawrth 2025	
	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m
Cyfanswm all-lif arian parod ar gyfer lesoedd	6	117	6	107

16. Ymrwymiadau Cyfalaf ac Ymrwymiadau Eraill

16.1 Ymrwymiadau Cyfalaf

Mae'r nodyn hwn yn datgelu ymrwymiadau cyfalaf o dan 'gontractau annileadwy' nad ydynt wedi'u cynnwys fel arall yn y datganiadau ariannol hyn.

	Ar 31 Mawrth 2026		Ar 31 Mawrth 2025	
	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m
Eiddo, offer a chyfarpar, ac asedau anniriaethol	52	374	18	288
Buddsoddiadau a benthyciadau	-	-	-	-
Cyfanswm	**52**	**374**	**18**	**288**

Er cysondeb, mae Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso'r un diffiniad o 'gontractau annileadwy' i ymrwymiadau cyfalaf yn y datgeliad hwn ag a gymhwysir yn Nodyn 16.3 ar gyfer ymrwymiadau ariannol eraill.

16.2 Ymrwymiadau o dan PFI a Threfniadau Consesiwn Gwasanaeth Eraill

Mae'r Byrddau Iechyd Lleol wedi adrodd chwe chontract PFI o fewn eiddo, offer a chyfarpar, sydd ar y fantolen. Nid oes unrhyw gontractau â chyfanswm ymrwymiad unigol o fwy na £500m. Cynhwysir manylion y cynlluniau unigol yng nghyfrifon statudol y Bwrdd Iechyd Lleol unigol.

Ar 28 Mawrth 2024, ymrwymodd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre i gontract yn ymwneud â Chanolfan Ganser newydd Felindre o dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol ag Acorn Velindre Limited (Project Co) a fydd yn gyfrifol am adeiladu (ac ariannu) yr ysbyty newydd ac yna ei gynnal dros gyfnod consesiwn o 25 mlynedd. Mae'r trefniant contractiol hwn yn bodloni'r diffiniad o drefniant consesiwn gwasanaeth ac mae i'w gyfrif ar y fantolen. Mae rhagor o wybodaeth am y trefniant hwn ar gael yng nghyfrifon Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Datgelir atebolrwydd dibynnol Craidd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r trefniant hwn yn Nodyn 12.

16.2.1 Ddim ar y fantolen

Contract PFI Bute Avenue

Ers 2000 mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i dalu £5.1m bob blwyddyn, yn gysylltiedig â'r mynegai, i'r prif gontractwr sy'n gysylltiedig â phrosiect PFI Bute Avenue, tan fis Tachwedd 2025. Mae'r partner yn y sector preifat yn cynnal rhwydwaith ffyrdd Bute Avenue am 25 o flynyddoedd (o 2000-01). Daeth y prosiect PFI i ben ar 18 Rhagfyr 2025, a throsglwyddwyd y ffordd i Gyngor Sir Caerdydd. Nid yw'r ffordd yn ased i Lywodraeth Cymru. Y cyfanswm a godwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn cysylltiad â thrafodiadau PFI nad ydynt ar y fantolen oedd £9.2m (2024-25: £12.4m). Ar 31 Mawrth 2026, nid yw Llywodraeth Cymru bellach wedi ymrwymo i wneud taliadau yn y dyfodol mewn perthynas â'r cynllun:

	Ar 31 Mawrth 2026 £m	Ar 31 Mawrth 2025 £m
Dim hwyrach nag un flwyddyn	-	13
Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	-	-
Hwyrach na phum mlynedd	-	-
Cyfanswm	**-**	**13**

16.2.2 Ar y fantolen

Contract PFI yr A55

Cynhelir rhwydwaith ffyrdd yr A55 gan gontractwyr am gyfnod o 30 o flynyddoedd (o 1998), ac ar ôl hynny bydd perchnogaeth yr A55 yn mynd yn ôl i Lywodraeth Cymru.

Mae'r ffordd yn cael ei thrin fel un o asedau Llywodraeth Cymru ac mae'r taliadau unedol yn cynnwys dwy elfen – taliadau lesoedd wedi'u priodoli a thaliadau gwasanaeth.

Y cyfanswm a godwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn cysylltiad ag elfen gwasanaeth contract PFI yr A55 oedd £2.5m (2024-25: £11.4m). Nodir cyfanswm y rhwymedigaethau yn y dyfodol o dan gontract PFI yr A55 yn y tabl isod am bob un o'r cyfnodau hyn.

	Ar 31 Mawrth 2026 £m	Ar 31 Mawrth 2025 £m
Isafswm taliadau lesoedd		
Dim hwyrach nag un flwyddyn	12	12
Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	24	36
Hwyrach na phum mlynedd	-	-
	36	**48**
Llai'r elfen log	(2)	(3)
Cyfanswm	**34**	**45**

	Ar 31 Mawrth 2026 £m	Ar 31 Mawrth 2025 £m
Elfennau gwasanaeth sy'n ddyledus yn y dyfodol		
Dim hwyrach nag un flwyddyn	-	-
Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	-	-
Hwyrach na phum mlynedd	-	-
Cyfanswm	**-**	**-**

Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465

Ar 28 Hydref 2020, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gontract â Cymoedd y Dyfodol i ddylunio, adeiladu, ariannu a gweithredu cynllun i ddeuoli'r A465 rhwng Dowlais a Hirwaun (Rhannau 5 a 6). Ymrwymwyd i'r contract o dan Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru.

Mae'r trefniant contractiol hwn yn bodloni'r diffiniad o drefniant consesiwn gwasanaeth ac mae i'w gyfrif ar y fantolen.

Roedd y prosiect yn cynnwys elfen adeiladu (wedi'i rhannu'n bum cam), ac yn y cyfnod hwnnw roedd Cymoedd y Dyfodol (Future Valleys Project Co Limited) yn gyfrifol am droi'r A465 o Ddowlais Top i Hirwaun yn ffordd ddwy lôn ym mhob cyfeiriad. Cwblhawyd y cam adeiladu terfynol ym mis Mai 2025. Daw'r cytundeb i ben 30 mlynedd ar ôl hynny, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bydd Cymoedd y Dyfodol yn gweithredu ac yn cynnal Rhannau 5 a 6 o'r A465.

Mae Taliadau Gwasanaeth Blynyddol wedi bod yn daladwy gan Lywodraeth Cymru i Cymoedd y Dyfodol o ddyddiad cwblhau cam cyntaf yr adeiladu ym mis Ionawr 2025, hyd at ddiwedd y cytundeb.

Y cyfanswm a godwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn cysylltiad â'r Taliadau Gwasanaeth Blynyddol o dan drefniant consesiwn gwasanaeth Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465 oedd £42.2m (2024-25: £3.6m).

Nodir cyfanswm yr ymrwymiadau o dan drefniant consesiwn gwasanaeth Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465 yn y tabl isod:

	Ar 31 Mawrth 2026 £m	Ar 31 Mawrth 2025 £m
Taliadau gwasanaeth blynyddol sy'n ddyledus yn y dyfodol		
Dim hwyrach nag un flwyddyn	47	41
Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	189	188
Hwyrach na phum mlynedd	1,252	1,300
Cyfanswm	**1,488**	**1,529**

Mae ased sy'n cael ei adeiladu o £559m (2024-25: £545m) ac atebolrwydd cysylltiedig o £559m (2024-25: £545m) wedi cael eu cydnabod ar 31 Mawrth 2026 (wedi'u cynnwys yn Nodiadau 4 a 10). Bydd yr ased yn parhau i gael ei ddosbarthu fel ased sy'n cael ei adeiladu hyd nes y bydd y manylion strwythurol wedi'u darparu i'w cynnwys yn y model a ddefnyddir i brisio'r rhwydwaith ffyrdd, sef RAAVS – gweler polisi cyfrifyddu A.4.2.

16.3 Ymrwymiadau Ariannol Eraill

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i 'gontractau annileadwy' (nad ydynt yn lesoedd, yn gontractau PFI nac yn drefniadau consesiwn gwasanaeth eraill) ar gyfer gwasanaethau. Dyma'r taliadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y mae'r ymrwymiad yn dod i ben ynddo:

	Ar 31 Mawrth 2026		Ar 31 Mawrth 2025	
	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m	Craidd LlC £m	Grŵp LlC £m
Dim hwyrach nag un flwyddyn	32	100	28	82
Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	39	339	8	8
Hwyrach na phum mlynedd	-	389	-	-
Cyfanswm	**71**	**828**	**36**	**90**

Cynhwysir o fewn ymrwymiadau ariannol eraill £757m (2024-25: £54m) o ymrwymiadau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru (TfWRL) ar gyfer taliadau trac sefydlog, depo a mynediad i orsafoedd. Mae TfWRL wedi asesu'r taliadau hyn fel rhai nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o les o dan IFRS 16, felly maent wedi'u cynnwys fel ymrwymiadau ariannol eraill.

17. Trafodiadau Partïon Cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru yn cael y rhan fwyaf o'i chyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Awdurdodau Lleol Cymru, Cyrff y GIG yng Nghymru, is-gyrff a Chyrff a Noddir. Ystyrir y cyrff hyn yn partïon cysylltiedig y mae Llywodraeth Cymru wedi cael amryw o drafodiadau perthnasol â hwy yn ystod y cyfnod.

Nid oes unrhyw rai o Weinidogion Cymru, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodiadau partïon cysylltiedig sydd â gwerth sy'n fwy na'r trothwy perthnasedd datgelu partïon cysylltiedig o £5,000, ac eithrio fel y nodir isod:

Mae Jane Hutt (Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip) a Mark Drakeford (Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg) yn aelodau o Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro, a gafodd £107,602 o gyllid grant yn 2025-26.

Mae priod Jane Hutt (Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip) yn Ymddiriedolwr a Chyfarwyddwr Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro, a gafodd £5,080,804 o gyllid grant yn 2025-26. Mae'n ymesgusodi o unrhyw drafodaethau am gyllid Llywodraeth Cymru.

Mae Jayne Bryant (Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai) yn aelod o Fanc Cymunedol Smart Money Cymru, a gafodd £1,356,338 o gyllid grant ac £16,000 ar gyfer gwasanaethau a ddarparwyd yn 2025-26.

Mae Jeremy Miles (Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol) yn aelod o Undeb Credyd Celtic, a gafodd £492,794 o gyllid grant ac a ad-dalodd £16,500 o gyllid benthyciad yn 2025-26.

Mae Sarah Murphy (y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant) yn aelod o Undeb Credyd Lifesavers Pen-y-bont ar Ogwr, a gafodd gyllid grant o £110,698 yn 2025-26.

Huw Irranca-Davies (y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig) yw Is-lywydd Clwb Bechgyn a Merched Nant-y-moel a gafodd £118,784 o gyllid grant yn 2025-26. Mae hefyd yn Is-lywydd Y Bont a gafodd £25,766 o gyllid grant yn 2025-26. Mae aelod agos o'i deulu (fel y'i diffinnir gan IAS 24 Partïon Cysylltiedig) yn Uwch-reolwr Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru a gafodd £59,809 o gyllid grant yn ystod y flwyddyn.

Mae partner Jack Sargeant (y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol) yn Aelod o Fwrdd Cymdeithas Tai Taf Cyf a gafodd £2,581,928 o gyllid grant a £3,877,500 o fuddsoddiad benthyciad yn 2025-26. Cafodd Llywodraeth Cymru £1,000,000 o ad-daliadau benthyciad gan Gymdeithas Tai Taf Cyf yn 2025-26. Mae hi hefyd yn Ymddiriedolwr Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint a gafodd £1,573,203 o gyllid grant yn 2025-26.

Ken Skates (Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth) yw Is-lywydd Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen a gafodd £90,000 o gyllid grant yn 2025-26.

Aled Edwards (Cyfarwyddwr Anweithredol) yw Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a gafodd £6,359,547 o gyllid grant yn 2025-26.

Mae Mutale Merrill (Cyfarwyddwr Anweithredol) yn Aelod o Fwrdd Panel Cynghori Is-Sahara a gafodd £349,000 o gyllid grant yn 2025-26. Mae hefyd yn Aelod o Fwrdd Bawso Ltd a gafodd £1,149,043 o gyllid grant yn 2025-26.

Mae Mike Usher (Cyfarwyddwr Anweithredol) yn Aelod o Fwrdd a Phwyllgor Archwilio Tai Hedyn Ltd (Cartrefi Dinas Casnewydd gynt) a gafodd £39,144,545 o gyllid grant a £5,000,000 o fuddsoddiad benthyciad yn 2025-26. Cafodd Llywodraeth Cymru £3,723,414 o ad-daliadau benthyciad a £438,946 o incwm rhent a thâl gwasanaeth gan Tai Hedyn Ltd yn 2025-26.

Nicola Williams (Cyfarwyddwr) yw Cadeirydd Cyngor ar Bopeth Rhondda Cynon Taf a gafodd £1,611,503 o gyllid grant yn 2025-26.

Tracey Burke (Cyfarwyddwr Cyffredinol) yw Cadeirydd Gofal Canser Tenovus a gafodd £100,427 o gyllid grant yn 2025-26.

Mae partner Tracey Burke yn un o lywodraethwyr Coleg Caerdydd a'r Fro a gafodd £2,690,807 o gyllid grant a £12,075 o wasanaethau a gaffaelwyd yn 2025-26. Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn berchen ar CF10 Retail Ltd a gafodd £5,625 o wasanaethau a gaffaelwyd yn 2025-26, ac Associated Community Training Ltd a gafodd £17,516,508 o wasanaethau a gaffaelwyd yn 2025-26. Mae ei phartner hefyd yn Gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd a gafodd £2,878,122 o gyllid grant a £90,733 o wasanaethau a gaffaelwyd yn 2025-26. Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn berchen ar Cardiff Met Company Ltd a gafodd £5,778,524 o wasanaethau a gaffaelwyd yn 2025-26.

Er bod trafodiadau partïon cysylltiedig wedi'u nodi a'u datgelu uchod ar gyfer Gweinidogion ac Uwch-swyddogion, sef trafodiadau rhwng Llywodraeth Cymru ac endidau y mae gan yr unigolion berthynas parti cysylltiedig â hwy, ni fyddent hwy wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r broses gaffael i ddyfarnu contractau na'r broses o ddyfarnu unrhyw grantiau.

Datgelir trafodiadau partïon cysylltiedig Cyrff y GIG yng Nghymru ac is-gwmnïau eraill yn eu cyfrifon cyhoeddedig eu hunain.

17.1 Canlyniadau Cwmnïau Cyfunol o dan Berchnogaeth Lwyr

	Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026		Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025	
	Elw/(Colled) £m	Cyfalaf Cyfrannau a Chronfeydd Wrth Gefn £m	Elw/(Colled) £m	Cyfalaf Cyfrannau a Chronfeydd Wrth Gefn £m
Grŵp Banc Datblygu Cymru[a]	46	681	19	380
Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP	2	56	5	55
WGC Holdco Limited[b]	-	22	-	22
Dewis Gyrfa Career Choices Cyfyngedig	6	3	3	34
Grŵp Trafnidiaeth Cymru	(17)	1,716	(32)	1,400

a Buddsoddiad o 49,999 o gyfranddaliadau £1 cyffredin, 25c wedi'i ran-dalu.

b Nid yw cyfrifon WGC Holdco Limited yn cynnwys amhariad ar ei fuddsoddiad ym Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig, felly mae'r cyfalaf cyfrannau a'r cronfeydd wrth gefn yn ei gyfrifon sylfaenol yn parhau i fod yn £22m. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod amhariad ar y buddsoddiad ecwiti ym Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig drwy WGC Holdco. Mae gwerth y buddsoddiad ecwiti wedi'i amharu'n llawn i £ddim ar 31 Mawrth 2026. Mae rhagor o fanylion i'w cael yn Nodyn 6.

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u cyfuno gan ddefnyddio ffigurau drafft os nad oes cyfrifon terfynol ar gael, gan nad ydynt yn sylweddol wahanol i'r rhai a ddatgelwyd.

17.2 Mân Is-gwmnïau a Buddiannau Eraill

Cynhwysir y Cyd-fentrau canlynol gan Lywodraeth Cymru yn y cyfrifon cyfunol:

- Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru – Mae Llywodraeth Cymru yn berchen ar 50% o'r cyfalaf cyfrannau a ddyroddwyd ar gyfer Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru, ac mae'r 50% arall yn cael ei ddal gan Westy'r Celtic Manor (The Celtic Manor Resort Limited).
- Airbus Endeavr Wales – cyd-fuddiant mewn cwmni cyfyngedig drwy warant. Delir perchnogaeth ar y cyd gydag Airbus Defence and Space Ltd a Phrifysgol Caerdydd.

Ni chynhwysir y buddiannau canlynol gan Lywodraeth Cymru yn y cyfrifon cyfunol:

Adrannau Anweinidogol Llywodraeth Cymru – yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ond yn amherthnasol at ddibenion cyfuno:

- Awdurdod Cyllid Cymru.

Is-gwmnïau a Chyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru – yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ond yn amherthnasol at ddibenion cyfuno:

- Comisiwn Dylunio Cymru (DCFW Ltd)
- Hybu Cig Cymru Cyf/Meat Promotion Wales Limited
- Diwydiant Cymru (Sector Development Wales Partnership Limited)[66]
- Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (Life Sciences Hub Wales Limited)
- Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (Centre for Digital Public Services Limited)[67]
- Dysgu (Dysgu Proffesiynol ac Addysg Arweinyddiaeth Cymru, a elwid gynt yn Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol)
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cwmni Egino Limited[68]
- GCRE Limited[69]
- Adnodd Cyfyngedig (Cwmni Adnoddau Addysg Dwyieithog)
- Estyn (Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru)
- Cymwysterau Cymru
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Llais (Corff Llais y Dinesydd Cymru).

Is-gwmnïau Llywodraeth Cymru nad ydynt yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ac sy'n amherthnasol at ddibenion cyfuno:

- Welsh Development Management Limited
- Trydan Gwyrdd Cymru Cyf.

Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (Student Loans Company Limited)

Mae Llywodraeth Cymru yn dal un gyfran â gwerth enwol o £1. Delir perchnogaeth ar y cyd ag Adran Addysg Lloegr, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Gogledd Iwerddon. Mae'r gyfran yn rhoi daliad o 5% yn y cwmni i Lywodraeth Cymru.

Elusennau'r GIG

Mae Elusennau'r GIG yng Nghymru yn is-gwmnïau i'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Nid ydynt yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ac maent yn amherthnasol at ddibenion cyfuno.

Gellir dod o hyd i Gyfrifon Statudol endidau a nodir yn 17.1 ac 17.2 ar eu gwefannau eu hunain neu ar wefan Tŷ'r Cwmnïau: www.gov.uk/government/organisations/companies-house.cy.

66 Rhoddodd Diwydiant Cymru y gorau i weithredu ar 31 Mawrth 2026.
67 Ar 1 Ebrill 2026, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i Lywodraeth Cymru.
68 Rhoddodd Cwmni Egino y gorau i weithredu ar 31 Mawrth 2026.
69 Mae gweithgareddau GCRE yn fwy na'r lefel berthnasedd ar gyfer cyfuno, ond nid ydynt yn berthnasol i Grŵp Llywodraeth Cymru yn ei gyfanrwydd. Er ei fod wedi'i ddynodi ar gyfer ei gyfuno a'i ddosbarthu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel endid y Llywodraeth Ganolog ym mis Medi 2024, nid yw GCRE wedi'i gyfuno yng Ngrŵp Llywodraeth Cymru gan fod rhagor o wybodaeth am ei gynlluniau buddsoddi hirdymor yn ddisgwyliedig, a disgwylir i hynny effeithio ar ddosbarthiad yn y dyfodol.

18. Digwyddiadau wedi'r Cyfnod Adrodd

Cyfraddau Cydnabyddiaeth Aelodau Byrddau GIG Cymru

Mae 11 o'r 12 sefydliad GIG Cymru wedi nodi digwyddiad ar ôl y cyfnod adrodd o ganlyniad i adolygiad o'r canllawiau sy'n sail i Gynllun Taliadau Cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru.

Yn ystod mis Ebrill 2026, rhannodd Llywodraeth Cymru ohebiaeth â holl Brif Swyddogion Gweithredol GIG Cymru yn nodi lefel newydd o ffioedd byrddau. Mae'r penderfyniad i gynyddu cyfraddau cydnabyddiaeth yn ymwneud ag adolygiad ehangach o'r canllawiau sy'n sail i'r Cynllun. Cynyddodd cyfraddau dyddiol Cynllun Taliadau Cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o 1 Ionawr 2026 ymlaen, gan arwain at newid yn ystod cylch tâl 2025-26. Mae elfen 2025-26 o'r taliad yn dod i gyfanswm o £26.8m ar draws yr un ar ddeg o sefydliadau GIG Cymru. Nid yw'r swm hwn yn berthnasol, felly ni wnaed unrhyw addasiad.

Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (SLlAC)

Sefydlwyd SLlAC ar 27 Mehefin 2026, ond ni ddisgwylir iddo ddod yn weithredol tan 31 Ionawr 2028. SLlAC sy'n gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru â chyfraith amgylcheddol. Bydd unrhyw newid yn y dyfodol i ffin gyfuno Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r endid newydd hwn yn dibynnu ar ei ddosbarthiad ar gyfer Cyfrifon Gwladol ac unrhyw Orchymyn Dynodi sy'n ofynnol. Disgwylir i drafodiadau SLlAC fod yn is na throthwy perthnasedd Llywodraeth Cymru.

Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf

Trwy orchymyn dyddiedig 14 Hydref 2026, rhoddodd y Llys Apêl ganiatâd i Bristol Airport Limited apelio yn erbyn dyfarniad y Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth dyddiedig 7 Ebrill 2026 yn gwrthod ei her i benderfyniad Gweinidogion Cymru ynghylch cymhorthdal. Nid oedd rhoi caniatâd yn penderfynu ar yr apêl, a fydd yn cael ei glywed gan y Llys Apêl rhwng 23 a 25 Chwefror 2027.

Yn dilyn y cyfnod adrodd, cyflwynodd Llywodraeth Cymru lythyr sicrwydd i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, fel y rhiant-gwmni eithaf, mewn perthynas â risgiau sy'n gysylltiedig â'r achos yn y Llys Apêl. Mae'r llythyr yn cynnig sicrwydd ynghylch cefnogaeth barhaus o fewn cwmpas a thelerau a nodir yn y llythyr hwnnw.

19. Awdurdodwyd i'w Cyhoeddi

Awdurdododd y Prif Swyddog Cyfrifyddu y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 26 Tachwedd 2026.

Atodiad A – Polisïau Cyfrifyddu

A.1 Incwm Gweithredu

Mae incwm gweithredu yn cyfeirio'n uniongyrchol at weithgareddau gweithredu Grŵp Llywodraeth Cymru. Cyfrifwyd am holl refeniw Llywodraeth Cymru sy'n dod o fewn cwmpas IFRS 15 Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid yn unol â'r Safon, fel y mae wedi'i haddasu a'i dehongli gan FReM. Mae refeniw yn cael ei fesur yn ôl gwerth teg y gydnabyddiaeth sy'n dderbyniadwy, ac fe'i cydnabyddir ar yr adeg pan ddarperir nwydd neu wasanaeth, neu dros yr amser hwnnw.

A.1.1 Incwm o Werthu Nwyddau a Gwasanaethau

Mae refeniw teithwyr Trafnidiaeth Cymru (TrC) wedi'i gynnwys o fewn incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau. Refeniw teithwyr yw'r symiau y cytunwyd arnynt fel y'u priodolir i TfWRL gan systemau dyrannu incwm y Rail Settlement Plan Limited, yn bennaf mewn cysylltiad â derbyniadau teithwyr. Mae gwybodaeth bellach am ffynonellau incwm TrC i'w gweld yng nghyfrifon Grŵp TrC.

A.1.2 Incwm Gweithredu Arall

Mae incwm iechyd yn cael ei gynnwys o fewn incwm gweithredu arall. Mae gwybodaeth bellach am ffynonellau o incwm iechyd i'w gweld yng Nghyfrifon Cryno'r GIG.

A.2 Gwariant

A.2.1 Grantiau

Mae grantiau sy'n daladwy, neu a delir, yn cael eu cofnodi fel gwariant yn y cyfnod y mae'r digwyddiad neu'r gweithgarwch sy'n rhoi hawl i'r grant yn digwydd ac maent yn cynnwys amcangyfrifon ar gyfer hawliadau nad ydynt wedi dod i law eto. Pan fydd cyfryngwr yn gweithredu fel asiant wrth ddosbarthu'r grant ar ran Llywodraeth Cymru, cydnabyddir grantiau sy'n daladwy pan fydd gan dderbynnydd y grant hawl i'r grant.

Mae cyllid i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru drwy Gymorth Grant yn cael ei adrodd ar sail arian parod yn y cyfnod y gwneir taliadau. Mae Cyllid Cymorth Grant a ddarperir i endidau cyfunol o fewn Grŵp Llywodraeth Cymru yn cael ei ddileu adeg cyfuno. Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau yn cynnwys canlyniadau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ar sail alldro adnoddau.

A.2.2 Gwariant Gweithredu Arall

Cydnabyddir gwariant gweithredu arall ar gyfer nwyddau neu wasanaethau pan fyddant wedi dod i law, ac i ba raddau. Mae'r gwariant hwn yn cael ei fesur yn ôl gwerth teg y gydnabyddiaeth sy'n daladwy.

A.2.3 Treth ar Werth (TAW)

Mae Llywodraeth Cymru yn adennill rhai elfennau ar TAW ar gyfer gwasanaethau busnes a gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan. Yn achos gwariant arall ar nwyddau a gwasanaethau cofnodir y rhain yn gynhwysol o TAW.

A.3 Buddion i Gyflogeion

A.3.1 Buddion Tymor Byr i Gyflogeion

Cydnabyddir cyflogau a thaliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn y cyfnod pan geir y gwasanaeth oddi wrth gyflogeion.

A.3.2 Pensiynau

Cynhwysir y mwyafrif o gyflogeion presennol a blaenorol Llywodraeth Cymru yn narpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a ddisgrifir yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

Nid yw elfennau buddion diffiniedig y cynllun yn cael eu hariannu. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod y mae'n elwa ar wasanaethau cyflogeion drwy dalu i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) symiau a gyfrifir ar sail gronnus. Mae'r atebolrwydd i dalu buddion yn y dyfodol yn gost i PCSPS. O ran y cynlluniau cyfraniadau diffiniedig, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn. Cydnabyddir yr holl enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau profiadau a newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwaraidd drwy gronfeydd wrth gefn yn y cyfnod y maent yn codi.

Mae rhai o gyn-staff Awdurdod Datblygu Cymru, staff presennol Banc Datblygu Cymru PLC a staff Career Choices Dewis Gyrfa Ltd yn cymryd rhan mewn nifer o Gynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru sy'n gynlluniau a ariennir gan aml-gyflogwr. Mae rhai o staff Llywodraeth Cymru'n cyfrannu at: Gynlluniau'r Adran Iechyd a'r Ymddiriedolaeth Lles Nyrsys.

Mae cyflogeion cyrff iechyd yn cymryd rhan yng nghynllun pensiwn y GIG. Mae gwybodaeth am y cynllun hwn i'w gweld yng Nghyfrifon Cryno'r GIG.

Mae cyflogeion TrC yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y Rheilffyrdd. Mae gwybodaeth am y cynllun hwn i'w gweld yng Nghyfrifon TrC.

Mae'r polisïau cyfrifyddu manwl a'r datgeliadau o atebolrwyddau/asedau pensiwn cyflogwyr sydd wedi'u cynnwys yng Nghyfrif Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer endidau cyfunol i'w gweld yng Nghyfrifon Cryno'r GIG (Cynllun Pensiwn NEST a'r GIG), cyfrifon Grŵp TrC (cyfraniad diffiniedig a'r Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd), cyfrifon Grŵp Banc Datblygu Cymru (cyfraniad diffiniedig a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol) a chyfrifon Dewis Gyrfa Career Choices Cyf (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol).

A.3.3 Costau Ymadael yn Gynnar

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru dalu cost ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion PCSPS arferol mewn perthynas â chyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu yn llawn am y gost hon pan fo'r rhaglen ymddeoliad cynnar wedi'i chyhoeddi ac mae'n rhwymo. Caiff Llywodraeth Cymru, o dan rai amgylchiadau, setlo rhywfaint neu'r cyfan o'i hatebolrwydd ymlaen llaw drwy wneud taliad i Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth ym Manc Lloegr i gredydu'r Bleidlais Blwydd-daliadau Sifil. Mae trefniadau tebyg yn bodoli ar gyfer cyflogeion Cyrff Iechyd sy'n ymddeol yn gynnar.

Ar gyfer cyflogeion cyn uno a chyn-weithwyr yr hen Awdurdod Datblygu Cymru yng Nghynllun Pensiwn Rhondda Cynon Taf, mae Llywodraeth Cymru yn talu cost ychwanegol buddion y cynllun mewn cysylltiad â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar.

A.4 Eiddo, Offer a Chyfarpar

A.4.1 Asedau Rhwydwaith

Mae asedau'r rhwydwaith yn cael eu prisio ar gost amnewid ddibrisiedig (DRC) yn unol â'r canllawiau yn FReM. Er mwyn cynhyrchu'r prisiadau hyn mae angen defnyddio rhagdybiaethau, amcangyfrifon a barn broffesiynol.

Ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd, y model a ddefnyddir i gynhyrchu'r prisiad yw'r RAAVS.

Ar gyfer y rhwydwaith rheilffyrdd, mae'r gwaith ar y model a ddefnyddir i gynhyrchu'r prisiad yn cael ei wneud gan TrC gyda chefnogaeth gan AtkinsRéalis UK Limited (priswyr proffesiynol) gan ddefnyddio data a ddarperir gan TrC.

Cynhelir prisiadau llawn o asedau'r rhwydwaith bob pum mlynedd fan bellaf. Mae prisiadau interim yn defnyddio cyfres o gostau safonol i brisio cydrannau unigol o asedau'r rhwydwaith a mynegeion i ailbrisio'r rhain yn flynyddol. Mae dyddiad y prisiad llawn diwethaf ar gyfer Asedau'r Rhwydwaith wedi'i gynnwys yn Nodyn 4.1.

A.4.2 Y Rhwydwaith Ffyrdd

Cydnabyddir bod y rhwydwaith cefnffyrdd yn ased seilwaith unigol yn unol â'r canllawiau cymwys a amlinellir yn FReM. Er hynny, mae'n cynnwys pedair elfen neilltuol y cyfrifir amdanynt yn wahanol: tir; palmant ffordd; strwythurau (megis pontydd a chwlfertau); a chyfathrebu (megis arwyddion negeseuon newidiol).

Mae'r elfen palmant ffordd yn cael ei phrisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunwyd arnynt i nodi cost adnewyddu gros mathau cymwys o ffyrdd ar sail adeiladu newydd ar safle maes gwyrdd. Caiff y cyfraddau hyn eu hailbrisio'n flynyddol gan ddefnyddio mynegeion i adlewyrchu prisiau cyfredol.

Caiff strwythurau eu prisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunir arnynt i nodi cost amnewid mathau cymwys o strwythur ar safle maes gwyrdd lle mae'r rhain ar gael; ond caiff strwythurau arbennig, sy'n tueddu i fod yn unigryw eu natur, eu prisio gan ddefnyddio costau penodol sy'n cael eu diweddaru i'r prisiau cyfredol.

Caiff cyfathrebu ei brisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunir arnynt i nodi cost amnewid mathau cymwys o gyfathrebu.

Caiff tir ei brisio gan ddefnyddio cyfraddau Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi'u rhannu â gwerthoedd Awdurdod Lleol a gwerthoedd gwledig/trefol. Mae'r prisiad hefyd yn cynnwys asesiad o gostau iawndal prynu tir.

Caiff yr holl waith cynnal a chadw sy'n cynnal potensial gwasanaeth y rhwydwaith ffyrdd ei gyfalafu. Mae gwariant olynol sy'n ychwanegu at wasanaeth neu oes y rhwydwaith ffyrdd yn cael ei gyfalafu.

Mae ffyrdd newydd yn cael eu hailddosbarthu o Asedau sy'n cael eu Hadeiladu pan fydd y manylion strwythurol wedi'u darparu gan yr awdurdod Asiant i'w mewnbynnu i'r model, a allai fod beth amser ar ôl i'r ffordd agor.

Cyfeirir at drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gynnal a chadw darnau o'r ffordd fel rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd i rwydwaith yr Awdurdod Lleol neu oddi wrtho fel 'creu statws cefnffordd' neu 'dynnu statws cefnffordd' yn eu trefn. Mae 'creu statws cefnffordd' neu 'dynnu statws cefnffordd' oddi wrth yr Awdurdodau Lleol neu ei roi iddynt yn cael ei drin fel trosglwyddiad oddi wrth adrannau llywodraeth eraill neu iddynt. Ymdrinnir â ffyrdd a strwythurau y tynnwyd eu statws fel gwarediadau o safbwynt cyfrifyddu heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt.

Mae'r elw neu'r golled gysylltiedig yn cael eu prosesu drwy'r gronfa gyffredinol.

Y ffactorau mynegeio a gymhwysir i'r model yw:

- Palmant Ffordd, Strwythurau a Chyfathrebu – Mynegai Baxter
- Tir – Mynegeion tir a gynhyrchir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio

Cymerir symudiadau ar i fyny o ran gwerth i'r gronfa ailbrisiadau. Mae symudiadau ar i lawr o ran gwerth yn cael eu gosod yn erbyn unrhyw falans credyd a ddelir yn y gronfa ailbrisiadau hyd nes y daw'r credyd i ben a chânt eu gosod fel traul wedyn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

A.4.3 Y Rhwydwaith Rheilffyrdd

Caiff ased rhwydwaith rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) ei gydnabod yn ased seilwaith unigol yn unol â'r canllawiau perthnasol a amlinellir yn FReM. Er hynny, mae'n cynnwys chwe elfen neilltuol y cyfrifir amdanynt yn wahanol: gwrthgloddiau; strwythurau; trydaneiddio, offer a signalau; eiddo gweithredol; traciau; a thelathrebu.

Cyfrifir y gost amnewid ddibrisiedig (DRC) drwy bennu cost amnewid gros ar gyfer rhwydwaith CVL yn gyntaf. Yna caiff y gost amnewid gros ei haddasu (neu ei "dibrisio") i adlewyrchu amcangyfrif gorau'r rheolwyr o gyflwr a chapasiti rhwydwaith CVL; y gost amnewid gros hon wedi'i haddasu yw'r gost amnewid ddibrisiedig.

Pennir y gost amnewid gros yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Mae'r canllawiau'n gofyn am ragdybiaethau penodol gan gynnwys:

- ased cyfatebol modern sy'n cael ei drin fel Rhwydwaith sydd yn union yr un fath o ran swyddogaeth, graddfa a chysylltedd, ond a adeiladwyd gan ddefnyddio manylebau a dulliau modern; ac
- adeiladu ar unwaith ar safle maes gwyrdd.

Er mwyn pennu'r prisiad DRC terfynol, addasir y gwerth amnewid gros i adlewyrchu amcangyfrif gorau'r rheolwyr o fywydau defnyddiol yr asedau sy'n weddill, gan ystyried cyflwr a chapasiti'r Rhwydwaith.

Y ffactorau mynegeio a gymhwysir i'r model yw:

- Tir – y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr (CPIH).
- Adeiladau – y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI).

Caiff yr holl adnewyddiadau sy'n cadw potensial gwasanaeth y rhwydwaith rheilffyrdd eu cyfalafu. Mae gwariant olynol sy'n ychwanegu at wasanaeth neu oes yr ased CVL yn cael ei gyfalafu.

Cynhwysir gwelliannau ac adnewyddiadau i'r ased CVL fel un swm ar gost fel Asedau sy'n cael eu Hadeiladu, hyd nes y cânt eu defnyddio, pryd y caiff yr ased ei drosglwyddo i gategori'r Rhwydwaith Rheilffyrdd a'i brisio yn ôl DRC.

Cymerir symudiadau ar i fyny o ran gwerth i'r gronfa ailbrisiadau. Mae symudiadau ar i lawr o ran gwerth yn cael eu gosod yn erbyn unrhyw gredyd a ddelir yn y gronfa ailbrisiadau hyd nes y daw'r credyd i ben a chânt eu gosod fel traul wedyn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

A.4.4 Tir ac Adeiladau (gan gynnwys Anheddau)

Mae Llywodraeth Cymru a'i chyrff cysylltiedig yn cyfalafu eiddo rhydd-ddaliadol lle mae'n cael ei gadw i'w ddefnyddio gan y corff ei hun. Caiff tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol eu dal ar werth y farchnad agored at ddefnydd presennol. Ar gyfer rhai eiddo, drwy eithriad, penderfynir mai'r mesur mwyaf priodol o werth cyfredol yn y defnydd presennol yw DRC. Mae tir ac adeiladau'n cael eu prisio gan ddefnyddio prisiadau proffesiynol naill ai bob pum mlynedd, neu'n flynyddol, gyda mynegeion priodol yn y blynyddoedd rhwng hynny ar gyfer prisiadau nad ydynt yn flynyddol. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio Mynegai Eiddo Misol MSCI.

A.4.5 Offer a Chyfarpar

Mae offer a chyfarpar (sy'n cynnwys offer a pheiriannau, cyfarpar trafnidiaeth, technoleg gwybodaeth a gosodiadau a ffitiadau) yn cael eu cario ar gost hanesyddol fel procsi ar gyfer gwerth cyfredol. Gan mai oes ddefnyddiol fer sydd i'r dosbarthiadau hyn o asedau, dim ond am bris gormodol y gellid cael ailbrisiadau dibynadwy o'r asedau hyn. Ni ddefnyddir unrhyw amcangyfrif arwyddocaol wrth brisio'r dosbarthiadau hyn o asedau.

Y lefel isaf ar gyfer cyfalafu asedau unigol ac asedau wedi'u grwpio yw £5,000.

A.4.6 Asedau Treftadaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn dal nifer o asedau treftadaeth anweithredol lle mae'r gwerth diwylliannol, addysgol a hanesyddol yn annhebygol o gael ei adlewyrchu'n llawn mewn gwerth ariannol sy'n deillio o fecanwaith neu bris y farchnad. Mae'r asedau hyn yn arbenigol eu natur a naill ai ni ellir sicrhau prisiadau dibynadwy, neu ni ellid eu sicrhau ond am bris gormodol. Nid yw Llywodraeth Cymru felly'n cyfalafu'r asedau hyn yn y cyfrifon.

Mae'r holl asedau treftadaeth gweithredol yn cael eu cyfalafu yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel rhan o Eiddo, Offer a Chyfarpar (gweler Nodyn 4).

A.5 Dibrisiant

A.5.1 Y Rhwydwaith Ffyrdd

Mae'r gost dibrisiant ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd yn cynnwys tair elfen:

i. tâl cynnal a chadw blynyddol;

ii. amcangyfrif o'r dirywiad parhaol yng nghyflwr y rhwydwaith yn y flwyddyn (a gyfrifwyd gan y model cyfrifiadur ar sail y data diweddaraf am gyflwr y rhwydwaith y cyfeirir ato yn y nodyn asedau anghyfredol uchod); a

iii. dibrisiant wedi'i gyfrifo o'r strwythurau a chyfathrebu.

Mae dibrisiant palmentydd ffyrdd yn seiliedig ar asesiad o botensial gwasanaeth, wedi'i lywio gan arolygon cyflwr a gynhelir ar draws y rhwydwaith ffyrdd fel rhan o raglen dreigl. Cynhelir arolygon ar rannau o'r rhwydwaith pan ystyrir ei bod yn briodol cynnal asesiad cyflwr, gan ystyried y math o ddull adeiladu a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ased, a nodweddion yr ased. Defnyddir arolygon defflectograff i asesu cyflwr strwythurol palmentydd hyblyg. Mae maint y gwyriad yn adlewyrchu cryfder haenau'r palmant, ac wrth gyfuno'r canlyniadau â data adeiladu a thraffig, gellir cyfrifo'r oes weddilliol (mewn blynyddoedd). Ni ellir mesur oes weddilliol ar balmentydd concrit, felly defnyddir dull amgen sy'n seiliedig ar oedran. Y gost dibrisiant flynyddol ar gyfer arwynebedd y ffordd yw gwerth y potensial gwasanaeth a ddisodlwyd drwy'r rhaglen cynnal a chadw, plws neu lai unrhyw addasiad sy'n deillio o'r arolwg cyflwr blynyddol. Ystyrir nad yw palmentydd ffyrdd ag oes weddilliol o fwy nag 20 mlynedd wedi dirywio'n strwythurol ac ni chânt eu haddasu ar sail yr arolwg cyflwr blynyddol.

Mae gantrïau, waliau cynnal, rafftiau seilbyst ac elfennau cyfathrebu'n cael eu dibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth sy'n cael ei gymhwyso i'r costau adnewyddu wedi'u hailbrisio, a hefyd yn cael eu harchwilio bob pum mlynedd i nodi unrhyw newidiadau eraill.

Mae pontydd, cwlfertau a thwneli'n cael eu dibrisio ar sail gylchol, gan rannu gwerth y strwythur yn dair elfen:

- Ni chaiff 20% ei ddibrisio.
- Dibrisir 15% yn unol â'r dull llinell syth dros 20 mlynedd, ac yna caiff ei adfer i adlewyrchu gwaith cynnal a chadw cylchol.
- Dibrisir 65% yn unol â'r dull llinell syth dros oes enwol o 120 mlynedd.

Nid yw tir yn cael ei ddibrisio.

Dangosir oes cydrannau ffyrdd yn yr amrediadau canlynol:

Arwynebedd y rhwydwaith	hyd at 20 o flynyddoedd
Strwythurau'r rhwydwaith	20 i 120 o flynyddoedd
Cyfathrebu'r rhwydwaith	2 i 15 o flynyddoedd
Tir	heb ei ddibrisio

A.5.2 Y Rhwydwaith Rheilffyrdd

Mae cydrannau'r rhwydwaith rheilffyrdd yn cael eu dibrisio dros eu bywydau economaidd defnyddiol sy'n weddill; mae'r rhain fel arfer yn gyfartaleddau wedi'u pwysoli ar gyfer ystod o gydrannau, o ystyried cymhlethdod y strwythurau hyn. Crynhoir y cyfartaleddau wedi'u pwysoli isod:

Gwrthgloddiau	91 o flynyddoedd
Strwythurau	27 o flynyddoedd
Signalau	12 o flynyddoedd
Trydaneiddio a pheiriannau	52 o flynyddoedd
Eiddo gweithredol	29 o flynyddoedd
Traciau	16 o flynyddoedd
Telathrebu	19 o flynyddoedd

Mae hon yn farn feirniadol sy'n seiliedig ar y data sydd ar gael. Mae angen barn ofalus mewn rhai achosion, yn enwedig ar gyfer cydrannau nad ydynt yn cael eu hadnewyddu'n aml, megis strwythurau a gwrthgloddiau. Mae rhai cydrannau'n gallu cael oes hir iawn; fodd bynnag, ar gyfer y prisiad hwn, mae'r oes yn cael ei chapio ar 100 mlynedd oherwydd ansicrwydd cynhenid y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw.

Adolygir dulliau dibrisiant, oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol ar ddyddiad pob Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

A.5.3 Asedau Eraill

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifir i ddileu gwerth asedau nad ydynt yn ddiriaethol ac asedau eiddo, offer a chyfarpar eraill drwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol a amcangyfrifir.

Anheddau	Gweddill oes
Adeiladau rhydd-ddaliadol	hyd at 85 o flynyddoedd
Offer, peiriannau a chyfarpar trafnidiaeth	5 i 15 o flynyddoedd
Technoleg gwybodaeth	3 i 10 o flynyddoedd
Asedau meddalwedd anniriaethol	2 i 10 o flynyddoedd
Gosodiadau a ffitiadau	3 i 20 o flynyddoedd

Nid yw tir rhydd-ddaliadol ac asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio. Mae amhariadau asedau sefydlog diriaethol yn cael eu cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn codi.

A.6 Asedau Ariannol

Mae asedau ariannol yn cael eu cydnabod pan fydd Llywodraeth Cymru yn dod yn rhan o gontract yr offeryn ariannol. Mae asedau ariannol yn cael eu datgydnabod pan fydd yr hawliau contractiol wedi dod i ben neu pan fo'r ased wedi'i drosglwyddo.

Cyfrifir am yr holl asedau ariannol yn unol ag IFRS 9 Offerynnau Ariannol, fel y mae wedi'i addasu a'i ddehongli gan FReM. Ar sail cydnabyddiaeth gychwynnol, mae'r holl asedau ariannol yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg.

A.6.1 Mesur Dilynol – Cost wedi'i Hamorteiddio

Asedau Ariannol Eraill

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi benthyciadau a chyllid ad-daladwy i gwmnïau grŵp, gan gynnwys Banc Datblygu Cymru, cyrff eraill y sector cyhoeddus a chwmnïau'r sector preifat at ddibenion datblygu economaidd neu amcanion gweithredu polisi. Delir yr asedau ariannol hyn at ddibenion casglu taliadau contractiol

y prifswm ac unrhyw log sydd i'w godi, ac fe'u delir yn ôl cost wedi'i hamorteiddio yn unol ag IFRS 9. Mae colledion credyd disgwyliedig yn cael eu cydnabod lle maent yn berthnasol.

Cyfrifir am fenthyciadau a wneir gan Fanc Datblygu Cymru yn unol ag IFRS 9 lle mae offerynnau dyled a ddelir i gasglu taliadau contractiol y prifswm a'r llog yn cael eu dal yn ôl cost wedi'i hamorteiddio. Nodir manylion llawn polisïau cyfrifyddu Banc Datblygu Cymru ar gyfer asedau ariannol, gan gynnwys colledion credyd disgwyliedig, yng nghyfrifon Banc Datblygu Cymru.

A.6.2 Mesur Dilynol – Gwerth Teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

Benthyciadau i Fyfyrwyr

Yn unol â'r ffordd y mae FReM yn cymhwyso IFRS 9, mae benthyciadau i fyfyrwyr yn cael eu dosbarthu fel Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy ac yn cael eu cario yn ôl gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Wrth bennu gwerth teg, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio model llif arian parod wedi'i ddisgowntio sy'n cynnwys yr holl lifoedd arian parod disgwyliedig, gan gynnwys y llog y disgwylir iddo ddod i law. Nodir esboniad manwl o'r dull gweithredu ar gyfer prisio yn Nodyn 6.

Polisi cyfrifyddu Llywodraeth Cymru yw cydnabod ychwanegiad at y llyfr benthyciadau myfyrwyr pan fydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) wedi rhoi'r benthyciad i'r myfyriwr.

Cesglir ad-daliadau benthyciadau gan SLC a Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF). Yn achos ad-daliadau a wneir drwy SLC, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y taliad pan fydd SLC wedi cael yr arian parod a diweddaru cofnod y benthyciwr. Yn achos ad-daliadau a gesglir drwy'r system drethi, cydnabyddir hyn pan ddaw'r symiau sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru am y flwyddyn ariannol yn ôl amcangyfrif CThEF i law. Dangosir gwerthoedd benthyciadau i fyfyrwyr yn net o ddiddymiadau a amcangyfrifir yn y dyfodol ac maent yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Mae gan fenthyciadau i fyfyrwyr gap cyfradd llog sy'n gysylltiedig ag RPI neu gyfradd sylfaenol Banc Lloegr plws 1%, yn dibynnu ar y math o gynllun benthyciad. Y gyfradd llog ar fenthyciadau cyn 2012 yw'r isaf o RPI neu gyfradd sylfaenol Banc Lloegr plws 1%. Pennir y gyfradd llog ar fenthyciadau ar ôl 2012 yn unol ag RPI ac mae'n amrywio (rhwng RPI ac RPI+3%), yn dibynnu ar amgylchiadau ac enillion y benthyciwr. Mae faint o log sydd i'w ad-dalu felly'n destun gwamaliadau yn y gyfradd sylfaenol ac RPI.

Mae benthyciadau Cymorth i Brynu – Cymru a reolir gan Fanc Datblygu Cymru yn fenthyciadau rhannu ecwiti ac fe'u delir yn ôl gwerth teg drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Ceir rhagor o fanylion am fodel gwerth teg Cymorth i Brynu – Cymru yn Nodyn 6 a chyfrifon Banc Datblygu Cymru.

A.6.3 Buddsoddiadau Ecwiti

Mae buddsoddiadau mewn is-endidau grŵp yn cael eu cadw ar gost yn unol â Datganiadau Ariannol Unigol IAS 27, fel y'u haddaswyd gan FReM. Delir buddsoddiadau mewn cyd-fentrau ar werth teg.

Mae buddsoddiadau ecwiti Banc Datblygu Cymru yn cael eu dal yn ôl gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

A.6.4 Cyfalaf Difidend Cyhoeddus Ymddiriedolaethau'r GIG

Cynrychiolir buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Ymddiriedolaethau'r GIG gan PDC sy'n cael ei ddal ar gost hanesyddol llai amhariadau, yn unol â dehongliad FReM o IFRS 9. Adeg cyfuno Cyfrifon Cryno Ymddiriedolaethau'r GIG, caiff y buddsoddiad PDC ei ddileu.

A.7 Offerynnau Ariannol

Mae IFRS 7 Offerynnau Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth sy'n caniatáu i'r defnyddiwr werthuso arwyddocâd offerynnau ariannol ar berfformiad ariannol, a natur a graddau ei gysylltiad â risgiau allweddol sy'n deillio o offerynnau ariannol.

Gan fod y mwyafrif o adnoddau Llywodraeth Cymru yn cael eu talu gan Gronfa Gyfunol Cymru, mae i offerynnau ariannol rôl fwy cyfyngedig wrth greu risg nag a fyddai'n gymwys i gorff o faint tebyg nad yw'n gorff sector cyhoeddus.

A.7.1 Risg Credyd

Amcan Llywodraeth Cymru yw adfer dyled yn llawn, ac rydym yn mynd ar drywydd hynny yn weithgar. Y polisi yw defnyddio gweithdrefnau rheoli credyd arferol ar gyfer rheoli'r risg o ddiffygdaliad gan ddyledwyr masnach drwy swyddogaeth Cyfrifon Derbyniadwy. Oherwydd natur a gwerth dyledwyr, bernir mai bach iawn yw'r risg credyd gysylltiedig.

Cyflwynodd IFRS 9 fodel blaengar o'r credyd y disgwylir ei golli, a dull gweithredu tri cham o ran darparu ar gyfer dyledion. Oherwydd y risg credyd isel, mae'r colledion credyd a ddisgwylir o dan gamau 1 a 2 i Lywodraeth Cymru yn amherthnasol. Gwneir darpariaethau cam 3 ar gyfer dyledion amheus pan fydd dyledion dros 6 mis oed.

Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i roi benthyciadau i fyfyrwyr, ac ni chaniateir iddi ddal benthyciadau yn ôl ar sail statws credyd gwael. Mae dod i gysylltiad â'r risg o beidio ag ad-dalu benthyciadau'n cael ei fonitro a chyfrifir am yr effaith yn y prisiad blynyddol.

Mae asedau ariannol eraill, heblaw offerynnau ecwiti a'r rhai a ddelir ar werth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, yn cael eu hasesu ar gyfer amhariad ar bob dyddiad adrodd gan ddefnyddio'r model colled credyd disgwyliedig tri cham. Mae colledion credyd disgwyliedig yn cael eu cydnabod lle maent yn berthnasol. Nodir manylion llawn polisïau cyfrifyddu Banc Datblygu Cymru ar gyfer asedau ariannol, gan gynnwys colledion credyd disgwyliedig, yng nghyfrifon Banc Datblygu Cymru.

Bernir bod benthyciwr neu gwsmer yn diffygdalu pan fo tystiolaeth wrthrychol o amhariad credyd ac mae'n annhebygol y caiff rhwymedigaethau eu had-dalu. Mae'r asesiad o ddiffygdalu yn ymgorffori dyfarniad ansoddol, gan ystyried natur y berthynas (er enghraifft is-gwmni, Corff a Noddir, endid arall o'r Llywodraeth neu'r Sector Cyhoeddus) a'r tebygolrwydd o adferiad.

Gall arwyddion o ddiffygdalu gynnwys:

- Achosion ansolfedd neu ddatod ffurfiol;
- Trallod ariannol sylweddol neu dynnu cyllid trydydd parti yn ôl;
- Torri telerau contractiol neu gyfamodau; a
- Chonsesiynau a roddwyd oherwydd dirywiad credyd.

A.7.2 Risg i'r Farchnad

Y prif risgiau yw i'r portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr yn sgil symudiad ar i lawr yn yr economi a allai arwain at gynnydd yn niweithdra benthycwyr, gan effeithio ar eu gallu i ad-dalu benthyciadau myfyrwyr. Effeithir ar fenthyciadau i fyfyrwyr hefyd oherwydd yr effaith negyddol bosibl wedyn ar dwf enillion graddedigion, sy'n estyn y cyfnod amser cyn i fenthyciadau gael eu had-dalu ac yn estyn y cyfnod ad-dalu. Gallai hyn effeithio ar y gwerth cario yn y cyfrifon.

Gallai arwain hefyd at gynnydd mewn dileadau gan ei fod yn cynyddu'r debygoliaeth na fydd rhai graddedigion o bosibl yn ad-dalu eu benthyciadau'n llawn erbyn diwedd cyfnod y benthyciad.

A.7.3 Risg Arian Cyfred Tramor

Mae Llywodraeth Cymru'n agored i risg arian cyfred bach iawn ar ei thrafodiadau ym maes arian cyfred tramor, ac eithrio cronfeydd a ddaw i law oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Nid yw dewisiadau lliniaru'r sector preifat ar gael. Er hynny, mae cyfanswm y cyllid a ddaw i law oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd yn cael ei reoli er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddyrannu'n hyblyg i brosiectau, fel y gellir bodloni lefelau gwariant wedi'u targedu. Mae hawliadau cyllid oddi wrth y Comisiwn hefyd yn brydlon er mwyn cyfyngu ar oedi rhwng tynnu gwariant a'i ad-dalu.

A.7.4 Risg y Gyfradd Llog

Asedau ariannol cyfradd amrywiadwy Llywodraeth Cymru yn bennaf yw ei benthyciadau i fyfyrwyr sydd â chap cyfradd llog sy'n gysylltiedig ag RPI neu gyfradd sylfaenol Banc Lloegr plws 1%, yn dibynnu ar y math o gynllun benthyciad. Y gyfradd llog ar fenthyciadau cyn 2012 yw'r isaf o RPI neu gyfradd sylfaenol Banc Lloegr plws 1%. Pennir y gyfradd llog ar fenthyciadau ar ôl 2012 yn unol ag RPI ac mae'n amrywio (rhwng RPI ac RPI+3%), yn dibynnu ar amgylchiadau ac enillion y benthyciwr. Mae faint o log sydd i'w ad-dalu felly'n destun gwamaliadau yn y gyfradd sylfaenol ac RPI. Mae'r tebygolrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn adennill gwerth enwol benthyciadau a roddir yn cael ei gynyddu pan fydd cyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn isel a'r gyfradd chwyddiant yn gymharol uchel, am fod y gyfradd sylfaenol yn dod i rym ar gyfer y benthyciadau hyn. Mae effaith risg y gyfradd llog ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr yn cael ei ffactora i mewn i'r gwerth cario gan fod y model ad-dalu benthyciad i fyfyrwyr yn cyfrifo effaith cyfradd llog ar lifoedd arian parod a ddisgwylir.

Mae risg ynghlwm wrth ragamcanu faint o log sy'n daladwy ac, os ceir cyfraddau sylfaenol sy'n is nag RPI, amherir ymhellach ar lifoedd arian parod y dyfodol.

A.7.5 Risg Hylifedd

Nid yw Llywodraeth Cymru yn benthyca ond oddi wrth y Gronfa Benthyciadau Gwladol, ac mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid a ddaw i law oddi wrth Senedd y DU drwy Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer ei gofynion arian parod. Nid oes rheswm dros gredu na fydd cyllid ar gael yn y dyfodol, felly ar y sail hon nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd nid oes ganddi adneuon sylweddol, ac mae'r holl asedau ac atebolrwyddau o bwys wedi'u henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg cyfradd arian cyfred heblaw'r risgiau sy'n deillio o gronfeydd a ddaw i law oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd mewn Ewros.

Lle mae gwerth arian o ran amser yn berthnasol, mae darpariaethau'n cael eu disgowntio i'r gwerth presennol gan ddefnyddio darpariaethau disgownt real Trysorlys EF.

A.8 Stocrestri

Mae asedau datblygu, gan gynnwys tir a ddelir i'w ddatblygu yn y dyfodol ac eiddo adeiledig nad oes mo'u hangen at eu defnydd eu hunain, a ddelir gyda'r bwriad o'u hailwerthu yn y pen draw, yn cael eu dangos ar lefel isaf cost hanesyddol a phrisio asedau proffesiynol, gan ddileu unrhyw amhariad adeg ailbrisio i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Mae gwrthdroi perthnasol yn achos amhariadau blynyddoedd blaenorol yn cael ei ddileu i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr os oes tystiolaeth bresennol o gynnydd mewn gwerth yn deillio o wariant blynyddoedd blaenorol.

Mae stocrestri eraill yn cael eu prisio ar lefel isaf cost amnewid a gwerth gwireddadwy net. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes gwahaniaeth o sylwedd rhwng y gost amnewid a chost hanesyddol stociau. Mae stociau sydd ag oes economaidd ddefnyddiol gyfyngedig yn cael eu dileu ar ddiwedd eu hoes.

A.9 Symiau Derbyniadwy drwy Fasnach a Symiau Derbyniadwy Eraill

Mae symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill yn cael eu cydnabod yn wreiddiol yn ôl gwerth teg, fel rheol pris y trafodiadau. Wedi hynny, lle mae gwerth arian o ran amser yn berthnasol, fe'u delir ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol llai amcangyfrif o amhariad tebygol. Cyfrifir amhariad o symiau derbyniadwy drwy fasnach drwy fodel colli credyd disgwyliedig.

A.10 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae balansau arian parod a balansau sy'n cyfateb i arian parod yn cael eu dadansoddi rhwng y rhai sy'n cael eu dal gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a'r rhai sydd mewn banciau masnachol. Mae swm cario ymlaen y balansau banc yn hafal i'w gwerth teg.

A.11 Symiau Taladwy drwy Fasnach a Symiau Taladwy Eraill

Mae symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill yn cael eu cydnabod yn wreiddiol yn ôl gwerth teg, fel rheol pris y trafodiadau. Wedi hynny, lle mae gwerth arian o ran amser yn berthnasol, fe'u delir ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

A.12 Darpariaethau

Yn unol ag IAS 37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol, gwneir darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau ar ddiwedd y flwyddyn pan fo rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol bresennol yn bodoli (h.y. rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol), pan fo'r all-lif adnoddau y bydd eu hangen i setlo'r rhwymedigaeth yn debygol a phan fo modd gwneud amcangyfrif rhesymol o'r rhwymedigaeth.

Pan fo gwerth arian o ran amser yn berthnasol, mae darpariaethau'n cael eu disgowntio i'r gwerth presennol gan ddefnyddio cyfraddau disgownt Trysorlys EF.

A.13 Atebolrwyddau Dibynnol

Mae atebolrwydd dibynnol yn rhwymedigaeth bosibl sy'n codi o ddigwyddiadau'r gorffennol na fydd ei bodolaeth yn cael ei gadarnhau oni bai y bydd, neu na fydd, un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn digwydd yn y dyfodol nad ydynt o fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru yn llwyr; neu mae'n rhwymedigaeth bresennol nad yw'n cael ei chydnabod oherwydd nad yw hi'n debygol y bydd angen taliad i setlo'r rhwymedigaeth neu oherwydd na ellir mesur swm y rhwymedigaeth mewn modd digon dibynadwy.

Datgelir atebolrwyddau dibynnol yn Nodyn 12, fel sy'n ofynnol gan IAS 37, os bernir bod y tebygolrwydd o drosglwyddo budd economaidd mewn setliad yn fwy nag annhebygol.

Datgelir atebolrwyddau dibynnol annhebygol yn Nodyn 12.2, yn unol â FReM, er mwyn bod yn dryloyw.

Mae atebolrwyddau dibynnol annhebygol yn cynnwys gwarantau, indemniadau a llythyrau cysur.

A.14 Lesoedd

Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrif am lesoedd yn unol ag IFRS 16 Lesoedd, fel y maent wedi'u dehongli a'u haddasu gan FReM.

A.14.1 Fel Lesddeiliad

Pan fydd les yn cael ei nodi, cydnabyddir ased hawl-i-ddefnyddio ac atebolrwydd les cyfatebol ar y dyddiad cychwyn.

Nid yw hyn yn cynnwys lesoedd tymor byr a lesoedd lle mae'r ased sylfaenol o werth isel. Ar gyfer lesoedd o'r fath, mae taliadau'r les yn cael eu cydnabod fel cost ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

Lesoedd tymor byr yw'r rhai sydd â chyfnod o 12 mis neu lai. Mae trothwy o £5,000 wedi'i osod ar gyfer nodi asedau sydd o werth isel.

A.14.2 Mesur Cychwynnol

Cyfrifir atebolrwydd y les yn seiliedig ar werth presennol taliadau les heb eu talu dros gyfnod cymwys y les a bennir yn unol ag IFRS 16 Lesoedd. Caiff atebolrwydd y les ei ddisgowntio gan ddefnyddio cyfraddau Trysorlys EF a gyhoeddir ym mhapurau PES fel cyfradd fenthyca gynyddrannol.

Mae'r ased hawl-i-ddefnyddio yn cael ei fesur yn ôl cost i ddechrau, sy'n cynnwys swm cychwynnol atebolrwydd y les, ynghyd ag unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol yr eir iddynt ac amcangyfrif o'r costau i adfer yr ased sylfaenol, llai unrhyw gymhellion les a ddaeth i law.

A.14.3 Mesur Dilynol

Mae atebolrwydd y les yn cael ei addasu ar gyfer cronni llog, taliadau, ailasesiadau ac addasiadau, er enghraifft mae ailarfarniadau'r asedau hawl-i-ddefnyddio yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth dros dymor cysylltiedig y les. Mae'r ased hawl-i-ddefnyddio yn cael ei leihau'n gyfnodol gan golledion amhariadau, os oes rhai, ac yn cael ei addasu ar gyfer ailfesuriadau penodol o atebolrwydd y les.

Mae asedau hawl-i-ddefnyddio yn cael eu mesur wedyn gan ddefnyddio'r model cost fel procsi ar gyfer gwerth cyfredol yn y defnydd presennol. Defnyddir y model cost fel procsi gan nad oes gwahaniaeth o bwys rhwng y prisiad a gynhyrchir gan y model cost o'i gymharu â'r model ailbrisio.

A.14.4 Fel Lesydd

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel lesydd, penderfynir ar adeg cychwyn pob les ai les gyllid neu les weithredol yw hi. Mae taliadau les a ddaw i law o dan lesoedd gweithredol yn cael eu cydnabod fel incwm ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

A.15 Ymrwymiadau Cyfalaf ac Ymrwymiadau Ariannol Eraill

Mae FReM yn gofyn am ddatgelu ymrwymiadau cyfalaf ac ymrwymiadau ariannol eraill. Mae ymrwymiadau cyfalaf a ddatgelir yn Nodyn 16.1 yn 'gontractau annileadwy' nas cynhwysir fel arall yn y datganiadau ariannol. Mae ymrwymiadau ariannol eraill a ddatgelir yn Nodyn 16.3 yn 'gontractau annileadwy' nad ydynt eisoes yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol nad ydynt yn lesoedd, yn gontractau PFI nac yn drefniadau consesiwn gwasanaeth eraill.

Nid yw ymrwymiadau grant o fewn cwmpas y datgeliadau hyn.

A.16 Y Fenter Cyllid Preifat a Threfniadau Consesiwn Gwasanaeth Eraill

Mae Trysorlys EF wedi pennu y bydd rhaid i gyrff llywodraeth gyfrif am gynlluniau consesiwn gwasanaeth ar gyfer seilwaith pan fo'r corff llywodraeth yn rheoli'r defnydd o'r seilwaith a'r buddiant gweddilliol yn y seilwaith ar ddiwedd y trefniant, yn unol ag egwyddorion gofynion IFRIC 12 Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth.

Mae'r ased consesiwn gwasanaeth yn cael ei gydnabod fel eitem o eiddo, offer a chyfarpar ynghyd ag atebolrwydd i dalu amdano.

Mae'r gwasanaethau a geir o dan y contract yn cael eu cofnodi fel treuliau gweithredu.

Mae'r taliad unedol blynyddol yn cael ei rannu'n gydrannau fel a ganlyn, gan ddefnyddio technegau amcangyfrif priodol lle bo angen:

a) Taliad am werth teg y gwasanaethau a gafwyd;

b) Taliad am yr ased consesiwn gwasanaeth gan gynnwys costau cyllid; a

c) Taliad am ddisodli cydrannau'r ased yn ystod y contract 'amnewid ar ddiwedd cylch oes'.

Cofnodir gwerth teg gwasanaethau a geir yn y flwyddyn o dan y penawdau gwariant perthnasol o fewn costau rhaglenni.

Caiff asedau consesiwn gwasanaeth eu cydnabod fel eiddo, offer a chyfarpar:

a) pan fo'n debygol y bydd manteision economaidd sy'n gysylltiedig â'r ased yn y dyfodol yn llifo i'r sefydliad; a

b) phan ellir mesur cost yr ased yn ddibynadwy.

Mae'r meini prawf uchod i gydnabod asedau, ynghyd â thelerau ac amodau penodol y cytundeb rhwymol, yn cael eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cydnabod yr ased consesiwn gwasanaeth yn ystod y cyfnod y mae'r ased yn cael ei adeiladu neu ei ddatblygu.

Cydnabyddir yr atebolrwydd consesiwn gwasanaeth ar yr un pryd â'r ased consesiwn gwasanaeth. Mae hyn yn cael ei fesur ar yr un swm â gwerth teg yr ased consesiwn gwasanaeth ac yn cael ei fesur o ganlyniad fel les yn unol ag IFRS 16. Cyfrifir cost ariannu flynyddol drwy gymhwyso'r gyfradd llog ymhlyg yn y les i atebolrwydd agoriadol y les am y cyfnod a chaiff ei chodi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r elfen o'r taliad unedol blynyddol sy'n cael ei dyrannu fel rhentiad les yn cael ei chymhwyso i dalu'r gost ariannu flynyddol ac i ad-dalu atebolrwydd y les dros dymor y contract.

A.17 Safonau cyfrifyddu newydd a fabwysiadwyd yn ystod y flwyddyn a newidiadau i FReM

A.17.1 IFRS 17 Contractau Yswiriant – yn cael effaith o 1 Ebrill 2025 ymlaen

Mae IFRS 17 yn disodli IFRS 4, Contractau Yswiriant. Mae'r safon newydd yn gosod disgwyliadau cliriach ar gydnabod, dosbarthu a mesur asedau ac atebolrwyddau mewn perthynas â chontractau yswiriant. O 1 Ebrill 2025 ymlaen, mae Trysorlys EF wedi'i gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraeth ganolog fabwysiadu'r safon hon yn orfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi asesu effaith mabwysiadu IFRS 17 ac wedi dod i'r casgliad nad yw'n cael effaith berthnasol.

A.17.2 Prisiad Asedau nad ydynt yn Fuddsoddiad – yn cael effaith o 1 Ebrill 2025 ymlaen

O 1 Ebrill 2025 ymlaen, mae Trysorlys EF wedi gwneud newidiadau i FReM o ran y dull prisio a gymhwysir ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol. Mae'r newidiadau yn cyflwyno'r cysyniad o asedau a ddelir ar gyfer eu gallu gweithredol, gan ddileu'r rhaniad blaenorol rhwng asedau arbenigol ac asedau nad ydynt yn arbenigol. Mae Llywodraeth Cymru wedi asesu effaith y newidiadau i FReM ar y dull o brisio asedau nad ydynt yn fuddsoddiad ac wedi dod i'r casgliad bod y polisïau cyfrifyddu presennol yn cydymffurfio â'r gofynion diwygiedig. Felly, nid yw'r newidiadau hyn i FReM yn cael effaith berthnasol.

A.18 Safonau cyfrifyddu newydd eu cyhoeddi nad ydynt mewn grym eto

Cyhoeddwyd safonau cyfrifyddu ac esboniadau newydd a diwygiedig, ond gan nad ydynt wedi dod i rym eto, ni chawsant eu mabwysiadu yn y datganiadau ariannol hyn. Mae'r rhain wrthi'n cael eu hystyried gan y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB) i'w cynnwys mewn FReM yn y dyfodol. Gallai'r Safonau canlynol gael effaith ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol pan gânt eu mabwysiadu:

A.18.1 IFRS 18 Cyflwyno a Datgelu mewn Datganiadau Ariannol

Mae'r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) wedi cyhoeddi IFRS 18 sy'n disodli IAS 1 Cyflwyno Datganiadau Ariannol. Bydd y safon hon yn cyflwyno newidiadau yn y ffordd y cyflwynir y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r Datganiad o Lifoedd Arian Parod. Bydd IFRS 18 mewn grym ar gyfer y cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2027 neu wedi hynny yn y sector preifat. Mae effaith IFRS 18 ar y sector cyhoeddus yn dal i gael ei hasesu. Nid yw'r dyddiad gweithredu ar gyfer cyrff y llywodraeth ganolog wedi'i gadarnhau eto.

A.18.2 IFRS 19 Is-gwmnïau heb Atebolrwydd Cyhoeddus: Datgeliadau

Mae'r IASB wedi cyhoeddi IFRS 19. Bydd y safon hon yn caniatáu i is-gwmnïau cymwys gymhwyso Safonau Cyfrifyddu IFRS gyda gofynion datgelu llai, a bydd yn dod i rym yn y sector preifat ar gyfer cyfnodau adrodd blynyddol sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2027 neu wedi hynny. Mae effaith IFRS 19 ar y sector cyhoeddus yn dal i gael ei hasesu, ac nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynghylch dyddiad gweithredu ar gyfer cyrff llywodraeth ganolog.